# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 14 Mawrth 2012
Wednesday, 14 March 2012

**Cynnwys**
**Contents**


3 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
Questions to the Minister for Education and Skills

24 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Questions to the Minister for Local Government and Communities

48 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ardrethi Busnes
Welsh Conservatives Debate: Business Rates

77 Dadl Plaid Cymru: Datganoli
Plaid Cymru Debate: Devolution

103 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Eiddo Gwag
Welsh Liberal Democrats Debate: Empty Properties

132 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

142 Dadl Fer: Sut y Dylid Ariannu Cymru?
Short Debate: How Should Wales be Funded?


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
## Questions to the Minister for Education and Skills

### Prentisiaethau

### Apprenticeships

***1. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd prentisiaethau. OAQ(4)0108(ESK)*

***1. Jocelyn Davies***: *Will the Minister make a statement on the availability of apprenticeships. OAQ(4)0108(ESK)*

***2. Gwyn R. Price:*** *Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch prentisiaethau yng Nghymru. OAQ(4)0108(ESK)*

***2. Gwyn R. Price:*** *What recent discussions has the Minister had regarding apprenticeships in Wales. OAQ(4)0104(ESK)*

***3. Sandy Mewies***: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i gynlluniau prentisiaeth yng Nghymru. OAQ(4)0114(ESK)*

***3. Sandy Mewies:*** *Will the Minister make a statement on Welsh Government support for apprenticeship schemes in Wales. OAQ(4)0114(ESK)*

**The Deputy Minister for Skills (Jeff Cuthbert):** We invest £90 million a year to support Welsh businesses to take on apprentices. Working with sector skills councils we have developed a broad range of apprenticeship frameworks, as part of an all-age programme, to make apprenticeship opportunities available in a range of occupations.

**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau (Jeff Cuthbert):** Rydym yn buddsoddi £90 miliwn y flwyddyn i gynorthwyo busnesau Cymru i dderbyn prentisiaid. Drwy weithio gyda chynghorau sgiliau sector, rydym wedi datblygu ystod eang o fframweithiau prentisiaethau—fel rhan o raglen ar gyfer pob oed—i sicrhau bod cyfleoedd prentisiaeth ar gael mewn amrywiaeth o alwedigaethau.

**Jocelyn Davies:** An alarming number of young people are not in work, have left school and are not in training either. In your own constituency, there is a higher than average percentage of youngers needing opportunities such as apprenticeships. I am sure that you will not hesitate to congratulate Caerphilly County Borough Council on its commitment to create 150 apprenticeship places over the coming years. How do you intend to encourage other local authorities to follow suit?

**Jocelyn Davies:** Mae nifer brawychus o bobl ifanc yn ddi-waith, wedi gadael yr ysgol a ddim yn dilyn hyfforddiant ychwaith. Yn eich etholaeth eich hun, mae canran uwch na'r cyfartaledd o bobl ifanc angen cyfleoedd fel prentisiaethau. Rwyf yn siŵr na fyddwch yn oedi i longyfarch Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar ei ymrwymiad i greu 150 o leoedd prentisiaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf. Sut ydych yn bwriadu annog awdurdodau lleol eraill i wneud yr un peth?

**Jeff Cuthbert:** It is not quite clear to me why you are picking out one local authority from south-east Wales. However, naturally, we applaud any local authority that provides opportunities for young people to train and

**Jeff Cuthbert:** Nid wyf yn hollol siŵr pam eich bod yn tynnu sylw at un awdurdod lleol yn benodol yn y de-ddwyrain. Fodd bynnag, yn naturiol rydym yn canmol unrhyw awdurdod lleol sy'n rhoi cyfleoedd i bobl

perhaps to follow full apprenticeships. I know that my officials have been in touch with 40 senior representatives from local authorities across Wales. If I am invited at some point to visit the scheme in Caerphilly, I will look to visiting it, subject to diary commitments. However, I have not yet had an invitation.

ifanc hyfforddi ac efallai i ddilyn prentisiaethau llawn. Gwn fod fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â 40 o uwch gynrychiolwyr o awdurdodau lleol ledled Cymru. Os caf wahoddiad i ymweld â'r cynllun yng Nghaerffili rywbryd byddaf yn ceisio gwneud hynny, os bydd ymrwymiadau fy nyddiadur yn caniatáu. Fodd bynnag, nid wyf wedi cael gwahoddiad hyd yma.

**Gwyn R. Price:** With youth unemployment rising and with the UK Government failing to deliver a policy response, it is increasingly important that we do all that we can to help young people into meaningful careers. Will you join me in congratulating the Labour group in Caerphilly, which has finally won the battle to get the council to fund 100 new apprenticeships?

**Gwyn R. Price:** Wrth i'r gyfradd diweithdra ymysg pobl ifanc gynyddu ac wrth i Lywodraeth y DU fethu â darparu ymateb polisi, mae'n fwyfwy pwysig ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu pobl ifanc i fynd ati i ddilyn gyrfa ystyrlon. A wnewch ymuno â mi i longyfarch y grŵp Llafur yng Nghaerffili sydd, o’r diwedd, wedi ennill y frwydr i gael y cyngor i ariannu 100 o brentisiaethau newydd?

**Jeff Cuthbert:** I am grateful for that question and, as you say, this is clearly an example of an authority adopting ideas that are put forward by others. I welcome that approach.

**Jeff Cuthbert:** Rwyf yn ddiolchgar am y cwestiwn hwnnw, ac fel y dywedwch, mae hyn yn amlwg yn enghraifft o awdurdod yn mabwysiadu syniadau sy'n cael eu cyflwyno gan bobl eraill. Rwyf yn croesawu’r ymagwedd honno.

**Sandy Mewies:** Airbus in Flintshire is a leader in providing apprenticeships. I was pleased to learn that the company across Europe is committed to ensuring that at least 25% of new recruits in 2012 will be women. What action is this Government taking to encourage more women in Wales to study engineering subjects and to support companies to increase the number of female apprentices?

**Sandy Mewies:** Mae Airbus yn sir y Fflint yn arwain y ffordd o ran darparu prentisiaethau. Roeddwn yn falch o glywed bod y cwmni, ar draws Ewrop, wedi ymrwymo i sicrhau y bydd o leiaf 25 y cant o'i recriwtiaid newydd yn 2012 yn fenywod. Pa gamau y mae'r Llywodraeth hon yn eu cymryd i annog rhagor o fenywod yng Nghymru i astudio pynciau peirianneg, ac i gynorthwyo cwmnïau i gynyddu nifer y prentisiaid sy'n fenywod?

**Jeff Cuthbert:** Thank you for that question. We are keen to break those gender stereotypes. I visited Airbus for its apprenticeship awards event on 1 March. It was a pleasure to see the number of female apprentices receiving engineering apprenticeships, and that is the way that we want to encourage companies to go. We know that sector skills councils such as Semta are developing career investment pathways for women to progress into engineering. That is the sort of approach that we would like to take, along with the promotion of the subjects of science, technology, engineering and mathematics,

**Jeff Cuthbert:** Diolch ichi am y cwestiwn hwnnw. Rydym yn awyddus i ddileu’r stereoteipiau hynny ar sail rhyw. Ar 1 Mawrth, ymwelais ag Airbus ar gyfer ei ddigwyddiad dyfarniadau prentisiaeth. Roedd yn bleser gweld cynifer o brentisiaid a oedd yn fenywod yn cael prentisiaethau peirianneg, a dyna'r llwybr rydym am annog cwmnïau i'w ddilyn. Rydym yn gwybod bod cynghorau sgiliau sector, fel Semta, yn datblygu llwybrau buddsoddi mewn gyrfaoedd er mwyn i fenywod symud ymlaen i’r diwydiant peirianneg. Dyna'r math o ddull y byddem yn dymuno ei ddilyn, ynghyd â hyrwyddo pynciau gwyddoniaeth, technoleg,

particularly aimed at girls.

peirianneg a mathemateg, gan eu hanelu at ferched yn benodol.

**Nick Ramsay:** I wish to focus on construction apprentices. I am sure that you are aware that CITB-ConstructionSkills is the lead provider of construction apprenticeships in Wales. As I am also sure you are aware, demand for construction apprenticeships grew unexpectedly over the year, but there is a cap on the contract of CITB with the Welsh Government, which means that it is now turning down employers wishing to take on apprentices. I am sure that you would want to see demand being met, so could you tell us how you think the post-16 budget could be better utilised to support construction apprenticeships in Wales?

**Nick Ramsay:** Hoffwn ganolbwyntio ar brentisiaethau adeiladu. Rwyf yn siŵr eich bod yn gwybod mai CITB-ConstructionSkills yw'r prif ddarparwr prentisiaethau adeiladu yng Nghymru. Rwyf yn siŵr eich bod hefyd yn gwybod bod y galw am brentisiaethau adeiladu wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn, a hynny'n annisgwyl. Ond, ceir cap ar gontract CITB â Llywodraeth Cymru, sy'n golygu eu bod yn awr yn gwrthod cyflogwyr sy'n dymuno derbyn prentisiaid. Rwyf yn siŵr y byddech yn dymuno gwneud yn siŵr ein bod yn cwrdd â'r galw, felly a allech ddweud wrthym sut rydych yn credu y gallai'r gyllideb ôl-16 gael ei defnyddio'n well i gefnogi prentisiaethau adeiladu yng Nghymru?

**Jeff Cuthbert:** We are aware that ConstructionSkills continues to see recruitment to apprenticeship programmes increasing approximately by around 5% per annum. At the moment, demand exceeds supply. So, we are working with ConstructionSkills. It is also working to take up the slack and has used its own levy income to support those employers. We will certainly keep in close touch with ConstructionSkills to make sure that, wherever possible, we can meet the aspirations of the young people who wish to move into construction.

**Jeff Cuthbert:** Rydym yn ymwybodol bod ConstructionSkills yn dal i weld tua 5 y cant o gynnydd y flwyddyn yn y nifer sy'n cael eu recriwtio i raglenni prentisiaeth. Ar hyn o bryd, mae'r galw yn fwy na'r cyflenwad. Felly, rydym yn gweithio gyda ConstructionSkills. Maent hwythau hefyd yn gweithio i lenwi'r bwlch ehangach, ac maent wedi defnyddio eu hincwm ardoll eu hunain i gynorthwyo'r cyflogwyr hynny. Byddwn yn sicr yn cadw mewn cysylltiad agos â ConstructionSkills i wneud yn siŵr y gallwn, lle bynnag y bo'n bosibl, fodloni dyheadau'r bobl ifanc sy'n dymuno mynd i'r diwydiant adeiladu.

**Simon Thomas:** Deputy Minister, I very much enjoyed my visit to the apprenticeship scheme in Caerphilly, and I am sure that you will, in good time. Turning to your own programmes for apprenticeships and Supporting People, and particularly Jobs Growth Wales, with the disastrous and very sad closure of the Remploy factories, we will have extreme difficulty in Wales in supporting disabled people to take up apprenticeships and train as much as possible. How do you see Jobs Growth Wales helping disabled people? Will you consider a quota within jobs growth for disabled people?

**Simon Thomas:** Ddirprwy Weinidog, mwynheais yn fawr fy ymweliad â'r cynllun prentisiaeth yng Nghaerffili, ac rwyf yn siŵr y gwnewch chithau hefyd, cyn bo hir. Gan droi at eich rhaglenni eich hun ar gyfer prentisiaethau a Chefnogi Pobl—a Twf Swyddi Cymru yn benodol, gyda'r newyddion trychinebus a thrist iawn y bydd ffatrïoedd Remploy yn cau—byddwn yn cael trafferth difrifol cynorthwyo pobl anabl yng Nghymru i ddilyn prentisiaethau a hyfforddiant cymaint â phosibl. Sut ydych yn credu y bydd Twf Swyddi Cymru yn helpu pobl anabl? A wnewch ystyried cyflwyno cwota o fewn twf swyddi ar gyfer pobl anabl?

**Jeff Cuthbert:** We will want to make sure

**Jeff Cuthbert:** Byddwn am sicrhau bod Twf

that Jobs Growth Wales is available to all young people who need to take it up. I accept your point about disabled young people. Certainly, there will be no barrier placed there, and we will do all that we can to encourage the relevant partners and services to ensure that disabled young people can take part in that programme fully and gain the benefit that we want all young people to have.

Swyddi Cymru ar gael i bob person ifanc y mae arnynt ei angen. Rwyf yn derbyn eich pwynt am bobl ifanc anabl. Yn sicr, ni fydd unrhyw rwystr yn hynny o beth, a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i annog y partneriaid a'r gwasanaethau perthnasol i sicrhau y bydd pobl ifanc anabl yn gallu cymryd rhan yn y rhaglen honno yn llawn, ac yn cael y budd y mae arnom eisiau i bob person ifanc ei gael.

**Simon Thomas:** Thank you for that encouraging reply. As you roll out Jobs Growth Wales, will you examine how we can deal with some problems I am hearing about from some employers who want to get involved with apprenticeships, but cannot take on the full burden of apprenticeship themselves. They would consider sharing an apprentice with other small and medium-sized enterprises within their area. Is this something that you are also examining?

**Simon Thomas:** Diolch am yr ateb calonogol hwnnw. Wrth ichi gyflwyno Twf Swyddi Cymru, a wnewch edrych ar sut y gallwn ymdrin â rhai problemau rwyf yn clywed amdanynt gan rai cyflogwyr sy'n dymuno ymwneud â phrentisiaethau ond nad ydynt yn gallu ysgwyddo baich llawn y prentisiaethau eu hunain. Byddent yn ystyried rhannu prentis gyda mentrau bach a chanolig eraill yn eu hardal. A yw hyn yn rhywbeth rydych hefyd yn ei ystyried?

**Jeff Cuthbert:** I am surprised that you are not aware that we have had the shared apprenticeship scheme in place for some time, and that is exactly what it is for—so that small companies can share apprentices between them, with the apprentice gaining the full experience required to meet the apprenticeship framework, but through a number of employers in the same occupational area. If you are aware of employers that are not familiar with that scheme, then write to me and I will make sure that they become aware.

**Jeff Cuthbert:** Rwyf yn synnu nad ydych yn gwybod bod y cynllun rhannu prentisiaeth ar waith gennym ers cryn amser, a dyna yw ei union bwrpas—er mwyn i gwmnïau bach allu rhannu prentisiaid rhyngddynt, gyda'r prentis yn cael y profiad cyflawn y mae ei angen arno er mwyn bodloni'r fframwaith prentisiaeth, ond drwy gyfrwng nifer o gyflogwyr yn yr un maes galwedigaethol. Os ydych yn gwybod am gyflogwyr nad ydynt yn gyfarwydd â'r cynllun hwnnw, yna ysgrifennwch ataf a gwnaf finnau'n siŵr eu bod yn dod i wybod amdano.

**Mohammad Asghar:** A recent report by the British Chamber of Commerce found that cost was one of the barriers to taking on apprentices. Last November, the coalition Government announced a programme to encourage small firms with up to 15 employees to take on young apprentices aged between 16 and 24 by offering, for the first time, an incentive payment up to £1,500. The final part of this payment is made when the apprenticeship has been completed and the apprentice has progressed to sustainable employment. What is the Minister doing in Wales to boost the economy by raising the number and quality of apprenticeships?

**Mohammad Asghar:** Canfu adroddiad diweddar gan Siambr Fasnach Prydain mai costau yw un o'r rhwystrau rhag derbyn prentisiaid. Fis Tachwedd diwethaf, cyhoeddodd y Llywodraeth glymblaid raglen i annog cwmnïau bach â hyd at 15 o gyflogeion i dderbyn prentisiaid ifanc rhwng 16 a 24 oed drwy gynnig, a hynny am y tro cyntaf, cymelldaliad o hyd at £1,500. Telir rhan olaf y taliad hwn pan fydd y brentisiaeth wedi ei chwblhau, a'r prentis wedi symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud yng Nghymru i roi hwb i'r economi drwy gynyddu nifer ac ansawdd y prentisiaethau?

**Jeff Cuthbert:** I am very pleased that the UK Government is copying our young

**Jeff Cuthbert:** Rwyf yn falch iawn bod Llywodraeth y DU yn copïo ein rhaglen

recruits programme, which, for well over a year, has been offering employers £50 per week, which is £2,600 per annum, to take young people on as apprentices. I am glad that it is following our lead, but it is not quite as generous.

recriwtiaid newydd sydd, ers ymhell dros flwyddyn, wedi bod yn cynnig £50 yr wythnos i gyflogwyr, sy'n £2,600 y flwyddyn, i dderbyn pobl ifanc i fod yn brentisiaid. Rwyf yn falch ei bod yn dilyn ein harweiniad, ond nid yw mor hael.

**Mark Isherwood:** A firm of chartered accountants in Llandudno sought to recruit two young apprentice accountants. It involved the local further education college, Careers Wales, and the Welsh Government. The apprenticeship was going to lead to an AAT qualification for chartered accountants. The firm interviewed and identified two recruits to be trained. It offered them the apprenticeship only then to be advised by the Welsh Government that funding would not be available because the courses that they would be attending would not meet Welsh Government guidelines. How do you respond to that?

**Mark Isherwood:** Ceisiodd cwmni o gyfrifwyr siartredig yn Llandudno recriwtio dau gyfrifydd ifanc dan brentisiaeth. Roedd yn cynnwys y coleg addysg bellach lleol, Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru. Roedd y brentisiaeth yn mynd i arwain at gymhwyster AAT i gyfrifwyr siartredig. Ar ôl cynnal cyfweliadau, penderfynodd y cwmni ar ddau recriwt i'w hyfforddi. Cynigiodd y cwmni'r brentisiaeth iddynt, cyn cael gwybod gan Lywodraeth Cymru na fyddai cyllid ar gael gan na fyddai'r cyrsiau y byddent yn eu dilyn yn bodloni canllawiau Llywodraeth Cymru. Sut ydych yn ymateb i hynny?

**Jeff Cuthbert:** Any young person following a foundation apprenticeship must be clear that it leads to an NVQ at level 2 at least, and for a full apprenticeship, an NVQ at level 3. I must assume that the particular scheme on offer did not meet one of those two criteria. However, if you care to write to me I will certainly look into the matter fully.

**Jeff Cuthbert:** Rhaid i unrhyw berson ifanc sy'n dilyn prentisiaeth sylfaenol wybod yn bendant bod y brentisiaeth yn arwain at NVQ lefel 2 o leiaf, a NVQ lefel 3 ar gyfer prentisiaeth lawn. Rhaid imi dybio nad oedd y cynllun penodol a oedd yn cael ei gynnig yn bodloni un o'r ddau faen prawf hynny. Fodd bynnag, pe byddech cystal ag ysgrifennu ataf, byddaf yn sicr yn ymchwilio i'r mater yn llawn.

### Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg

### Science, Technology, Engineering and Mathematics

***4. Julie Morgan:*** *Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud er mwyn sicrhau bod pynciau STEM yn fwy poblogaidd mewn ysgolion. OAQ(4)0106(ESK)*

***4. Julie Morgan:*** *What is the Minister doing to increase the popularity of STEM subjects in schools. OAQ(4)0106(ESK)*

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** Our commitment to increasing young people's engagement with science, technology, engineering and mathematics is underlined in the new strategic agenda document 'Science for Wales'. This builds on the range of activity provided through the National Science Academy to support and promote STEM take-up in Wales.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Mae ein hymrwymiad i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwneud mwy â gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yn cael ei danlinellu yn y ddogfen agenda strategol newydd, 'Gwyddoniaeth i Gymru'. Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar yr ystod o weithgareddau a ddarperir drwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol i gefnogi ac i annog pobl ifanc i ddilyn pynciau STEM yng Nghymru.

**Julie Morgan:** I thank the Minister for that

**Julie Morgan:** Diolch i'r Gweinidog am yr

reply. What can the Welsh Government do to encourage science graduates to go into teaching? Is there any benefit in looking at something similar to the Teach First scheme that took place in England?

ateb hwnnw. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i annog graddedigion gwyddoniaeth i fod yn athrawon? A fyddai'n fuddiol o gwbl ystyried rhywbeth tebyg i'r cynllun Teach First a gynhaliwyd yn Lloegr?

**Leighton Andrews:** We are certainly supporting recruitment to postgraduate initial teacher training courses in priority subjects that include maths, physics, and chemistry, as well as modern foreign languages and Welsh. Incentive grants for this year range from £6,000 to £15,000, depending on degree qualifications. These incentives are in addition to the tuition fee grant that we are introducing this year. We have had discussions with organisations such as Teach First, and we are interested in what they have to offer us. We are looking at ways of developing similar schemes.

**Leighton Andrews:** Rydym yn bendant yn cefnogi recriwtio i gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon i ôl-raddedigion mewn pynciau â blaenoriaeth sy'n cynnwys mathemateg, ffiseg a chemeg, yn ogystal ag ieithoedd tramor modern a'r Gymraeg. Mae’r grantiau cymhelliant ar gyfer eleni yn amrywio o £6,000 i £15,000, yn dibynnu ar gymwysterau gradd. Mae'r cymhellion hyn yn ychwanegol at y grant ffioedd dysgu rydym yn ei gyflwyno eleni. Rydym wedi cael trafodaethau gyda sefydliadau fel Teach First, ac mae gennym ddiddordeb yn yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig inni. Rydym yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu cynlluniau tebyg.

**Antoinette Sandbach:** Will the Minister join me in commending the excellent work of the Formula 1 Bloodhound project run by Engineering Education Scheme Wales? A number of primary and secondary schools in north Wales have taken part with great success, gaining invaluable engineering skills in the process. Given the challenge that Wales faces in improving numeracy and literacy skills, as demonstrated by the latest Programme for International Student Assessment results, can the Minister confirm the steps the Government is taking to ensure that STEM subject areas are given the priority they deserve at primary school level, so that Wales has the best chance of nurturing future engineering talent?

**Antoinette Sandbach:** A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i ganmol gwaith ardderchog y prosiect Formula 1 gan Bloodhound a gynhelir gan Gynllun Addysg Beirianneg Cymru? Mae nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn y gogledd wedi cymryd rhan yn y prosiect hwn ac wedi cael llawer o lwyddiant. Maent hefyd wedi dysgu sgiliau peirianneg amhrisiadwy wrth wneud hynny. O ystyried yr her sy'n wynebu Cymru o ran gwella sgiliau rhifedd a llythrennedd—fel y dangoswyd gan ganlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr ddiweddaraf—a all y Gweinidog gadarnhau'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod pynciau STEM yn cael y flaenoriaeth y maent yn ei haeddu ar lefel ysgolion cynradd, er mwyn i Gymru gael y cyfle gorau i feithrin doniau peirianneg at y dyfodol?

**Leighton Andrews:** I welcome and support that scheme. I have seen similar schemes involving young people across Wales and some have come to the Assembly over the years to show their work. It is important because it attracts and engages young people through practical experience of how engineering skills are relevant. In general terms, through the foundation phase and other initiatives, we are supporting STEM subjects in primary schools. A number of Careers Wales companies, such as the

**Leighton Andrews:** Rwyf yn croesawu'r cynllun hwnnw ac yn ei gefnogi. Rwyf wedi gweld cynlluniau tebyg sy'n cynnwys pobl ifanc ledled Cymru, ac mae rhai wedi dod i'r Cynulliad dros y blynyddoedd i ddangos eu gwaith. Mae'n bwysig gan ei fod yn denu ac yn ymgysylltu â phobl ifanc wrth iddynt gael profiad ymarferol o’r modd y mae sgiliau peirianneg yn berthnasol. Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi pynciau STEM mewn ysgolion cynradd drwy'r cyfnod sylfaen a mentrau eraill. Yn hanesyddol, mae nifer o

education and business partnership in mid Glamorgan, have historically given significant support to science teaching in primary schools, which a number of my colleagues, and colleagues from your own benches, have attended in the past. There is a series of ways in which we are seeking to promote the STEM subjects. My overriding priorities throughout primary schools are literacy and numeracy. Numeracy underpins the teaching of STEM subjects across the piece.

gwmnïau Gyrfa Cymru—megis y bartneriaeth addysg a busnes ym Morgannwg Ganol—wedi rhoi cefnogaeth sylweddol i addysgu gwyddoniaeth mewn ysgolion cynradd, ac mae nifer o'm cyd-Aelodau i, a chyd-Aelodau o'ch meinciau eich hun, wedi rhoi llawer o sylw i hynny yn y gorffennol. Rydym yn ceisio hyrwyddo'r pynciau STEM mewn nifer o ffyrdd. Fy mhrif flaenoriaethau ar draws ysgolion cynradd yw llythrennedd a rhifedd. Mae rhifedd yn sylfaen ar gyfer addysgu pynciau STEM yn gyffredinol.

**David Rees:** Minister, as we saw this week when the First Minister launched the science initiative, the study of science-based subjects is important to the future potential of Wales. However, we must not stop at schools; we must look to more students taking STEM subjects from GCSE to A-levels and on to university and higher education. Has the Welsh Government developed a strategy to encourage more young people to take STEM subjects from GCSE to HE?

**David Rees:** Weinidog, fel y gwelsom yr wythnos hon pan lansiodd y Prif Weinidog y fenter wyddoniaeth, mae astudio pynciau gwyddoniaeth yn bwysig i botensial Cymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gorffen yn yr ysgol; rhaid inni geisio cael rhagor o fyfyrwyr i ddilyn pynciau STEM o lefel TGAU i Safon Uwch, ac ymlaen i brifysgol ac addysg uwch. A yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu strategaeth i annog rhagor o bobl ifanc i ddilyn pynciau STEM o lefel TGAU i Addysg Uwch?

**Leighton Andrews:** We have set out our work through the National Science Academy, some of which is enabling higher education establishments to engage with schools and further education institutions on the approach to encouraging young people to take up those subjects. I am glad that the Member drew attention to the science strategy launched by the Government on Monday; he will have seen the significant investment we are making in the Sêr Cymru scheme to attract leading scientists into higher education in Wales.

**Leighton Andrews:** Rydym wedi amlinellu ein gwaith drwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Mae rhywfaint o'n gwaith yn golygu galluogi sefydliadau addysg uwch i ymgysylltu ag ysgolion a sefydliadau addysg bellach er mwyn annog pobl ifanc i ddilyn y pynciau hynny. Rwyf yn falch bod yr Aelod wedi tynnu sylw at y strategaeth wyddoniaeth a lansiwyd gan y Llywodraeth ddydd Llun; bydd wedi gweld y buddsoddiad sylweddol rydym yn ei wneud yn y cynllun Sêr Cymru i ddenu gwyddonwyr blaenllaw i addysg uwch yng Nghymru.

**Alun Ffred Jones:** Mewn oes wahanol, pan oeddwn i yn yr ysgol, roedd gwaith metal a gwaith coed yn bynciau â statws uchel iddynt yn yr ysgol uwchradd. Pam mae cyn lleied o gyfleoedd mewn ysgolion uwchradd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau peirianneg a chrefft erbyn hyn?

**Alun Ffred Jones:** In a different age, when I was in school, metalwork and woodwork were considered to be high-status subjects in secondary school. Why, therefore, are there now so few opportunities in secondary schools for pupils to develop engineering and craft skills?

**Leighton Andrews:** I am not sure that that is right. We have managed, over the past five years, to double the number of vocational courses that are available to young people from 14 to 19. I am pleased that we have seen—I gave evidence on this recently to an Assembly committee—nearly all secondary

**Leighton Andrews:** Nid wyf yn siŵr a yw hynny'n wir. Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi llwyddo i ddyblu nifer y cyrsiau galwedigaethol sydd ar gael i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed. Rwyf yn falch ein bod wedi gweld bron pob ysgol uwchradd yng Nghymru yn cyflawni eu rhwymedigaethau o

schools in Wales fulfilling their obligations under the Learning and Skills (Wales) Measure 2009. We expect all to do so within the timescale set out in the Measure. We have widened opportunities for young people to study these subjects. In recent years, looking at GCSE and A-level entrants, there has been an increase in the number taking these subjects. A considerable amount of work is going on, but what will underpin that will be a real focus in primary schools on literacy and numeracy, and a focus on the improvement of school attainment, particularly in the area of mathematics.

dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009—rhoddais dystiolaeth ar hyn i un o bwyllgorau'r Cynulliad yn ddiweddar. Rydym yn disgwyl i bob un ohonynt wneud hynny o fewn yr amserlen a nodir yn y Mesur. Rydym wedi ehangu'r cyfleoedd i bobl ifanc astudio'r pynciau hyn. Gan edrych ar fyfyrwyr TGAU a Safon Uwch, bu cynnydd yn y nifer sy'n astudio'r pynciau hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae cryn dipyn o waith yn cael ei wneud, ond yn sail i hynny bydd ffocws go iawn mewn ysgolion cynradd ar lythrennedd a rhifedd a ffocws ar wella cyrhaeddiad ysgolion, yn enwedig ym maes mathemateg.

1.45 p.m.

**Keith Davies:** Weinidog, mae mathemateg, neu mathemateg bellach, wedi'i chydnabod fel pwnc o bwysigrwydd strategol. Mae'n ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio yn y brifysgol, ac fe'i hargymhellwyd gan Grŵp Russell, sy'n cynnwys Prifysgol Caerdydd. Mae sawl cwrs prifysgol mewn peirianneg yn ei nodi fel cwrs safon uwch defnyddiol, ond mae anghysondeb yn y ddarpariaeth. Croesawaf y cynllun peilot a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gymorth mathemateg pellach, a'r ffaith bod cydgysylltydd ardal yn gweithio yn y gorllewin, a all drefnu astudio mathemateg pellach lle nad yw ar gael. Pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau ei fod yn cael ei gynnig i fwy o fyfyrwyr ledled Cymru?

**Keith Davies:** Minister, mathematics, or further mathematics, has been recognised as a subject of strategic importance. It is a good way of preparing for studying at university level, and has been recommended by the Russell Group, which includes Cardiff University. Many university engineering courses list it as a useful A-level, but there is inconsistency in its provision. I welcome the pilot scheme funded by the Welsh Government on further mathematics support and the fact that there is an area co-ordinator working in west Wales who can organise the studying of further mathematics where it is not currently available. What steps is the Government taking to ensure that it is provided to more students right across Wales?

**Leighton Andrews:** The further mathematics project in south-west Wales, to which you refer, has £440,000 of Welsh Government money invested in it from 2010 to 2013, and it is a very important way of encouraging young people to look at further mathematics. We have prioritised that as a pilot programme and we will look at the outcomes to see whether they can be replicated elsewhere. I am encouraged by some of the collaborative work that is going on in mathematics in general around Wales. Conwy, in particular, has made great efforts recently to improve results in mathematics. That, alongside the further mathematics programme in south-west Wales, gives us good pointers for the future.

**Leighton Andrews:** Rhwng 2010 a 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £440,000 o'i harian yn y prosiect mathemateg bellach yn y de-orllewin, sef y prosiect rydych yn cyfeirio ato. Mae'n ffordd bwysig iawn o annog pobl ifanc i edrych ar fathemateg bellach. Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i hynny fel rhaglen beilot, a byddwn yn edrych ar y canlyniadau i weld a ellir eu hailadrodd mewn mannau eraill. Mae'r cydweithio ym maes mathemateg ledled Cymru yn gyffredinol yn galonogol. Mae Conwy, yn arbennig, wedi gwneud ymdrech fawr yn ddiweddar i wella'r canlyniadau mathemateg. Mae hynny, ochr yn ochr â'r rhaglen mathemateg bellach yn y de-orllewin, yn arwyddion da ar gyfer y dyfodol.

**Eluned Parrott:** Minister, having worked at Techniquest and alongside a number of third sector organisations that work to give young people a positive experience of learning about science, I very much recognise the value of inspirational schemes to encourage young people to take their science further. In what ways are you able to support the third sector in delivering those projects in schools?

**Eluned Parrott:** Weinidog, a minnau'n arfer gweithio yn Techniquest ochr yn ochr â nifer o fudiadau'r trydydd sector sy'n gweithio i roi profiad cadarnhaol o ddysgu am wyddoniaeth i bobl ifanc, rwyf wir yn cydnabod gwerth cynlluniau ysbrydoledig i annog pobl ifanc i barhau â'u hastudiaethau gwyddoniaeth ar lefel uwch. Sut y gallwch gynorthwyo'r trydydd sector i ddarparu rhai o'r prosiectau hynny mewn ysgolion?

**Leighton Andrews:** The Welsh Government gives considerable support to Techniquest, in both south and north Wales. We are very much behind those activities to promote the teaching of science. There are a number of initiatives, to which I have already referred, working with Careers Wales, in which those subjects are being supported in schools, at primary and secondary level.

**Leighton Andrews:** Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth sylweddol i Techniquest, yn y de ac yn y gogledd fel ei gilydd. Rydym yn gefnogol iawn o'r gweithgareddau hynny i hyrwyddo addysgu gwyddoniaeth. Mae nifer o fentrau—rwyf eisoes wedi cyfeirio atynt—yn gweithio gyda Gyrfa Cymru er mwyn hyrwyddo'r pynciau hynny mewn ysgolion, ar lefel cynradd ac uwchradd.

**Kenneth Skates:** STEM subjects are crucially important, but pupils need to be present in order to benefit from them. Last year, Wrexham county borough had the highest rate in Wales of fixed-terms exclusions—five days or less—with 147.7 days per 1,000 pupils. While decisions regarding the exclusion of pupils are, quite rightly, the responsibility of schools, what help and support is on offer to local authorities to assist them in keeping the number of exclusions to a minimum?

**Kenneth Skates:** Mae pynciau STEM yn hollbwysig, ond mae angen i ddisgyblion fod yn bresennol er mwyn cael budd ohonynt. Y llynedd, bwrdeistref sirol Wrecsam oedd â'r gyfradd uchaf yng Nghymru o waharddiadau cyfnod penodol—pum niwrnod neu lai—gyda 147.7 diwrnod am bob 1,000 o ddisgyblion. Er mai cyfrifoldebau ysgolion—a hynny'n briodol—yw penderfyniadau ynglŷn â gwahardd disgyblion, pa help a chefnogaeth sydd ar gael i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gadw nifer y gwaharddiadau mor isel â phosibl?

**Leighton Andrews:** The banding system that we have introduced for secondary schools has ensured that local authorities are now taking very seriously the issues of attendance and behaviour overall. We have seen that in the last week, with proposals published by Rhondda Cynon Taf County Borough Council and Cardiff Council in respect of addressing issues of attendance and behaviour. We have published the attendance and behaviour action plan and we have given additional support on how schools should address these issues. We have also given good evidence in case studies of best practice in this area.

**Leighton Andrews:** Mae'r system fandio rydym wedi'i chyflwyno ar gyfer ysgolion uwchradd wedi sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi sylw o ddifrif erbyn hyn i faterion presenoldeb ac ymddygiad yn gyffredinol. Rydym wedi gweld hynny yn ystod yr wythnos diwethaf, gyda chynigion a gyhoeddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Caerdydd ynghylch mynd i'r afael â materion presenoldeb ac ymddygiad. Rydym wedi cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar gyfer ymddygiad a phresenoldeb, ac rydym wedi rhoi cymorth ychwanegol ynghylch sut y dylai ysgolion fynd i'r afael â'r materion hyn. Rydym hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth dda mewn astudiaethau achos o arferion gorau yn y maes hwn.

**The Presiding Officer:** I remind Members to keep their questions short.

**Y Llywydd:** Hoffwn atgoffa'r Aelodau i gadw eu cwestiynau yn fyr.

## Addysg i Oedolion

## Adult Education

***5. Paul Davies:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi addysg i oedolion yng Nghymru. OAQ(4)0110(ESK)*

***5. Paul Davies:*** *What is the Welsh Government doing to support adult education in Wales. OAQ(4)0110(ESK)*

**Jeff Cuthbert:** As I have stated previously, my priorities for education, and this includes adult learning, are outlined in the programme for government and will help everyone reach their potential, reduce inequality and improve economic and social wellbeing.

**Jeff Cuthbert:** Fel rwyf wedi dweud o'r blaen, mae fy mlaenoriaethau ar gyfer addysg—ac mae hyn yn cynnwys addysg i oedolion—wedi'u hamlinellu yn y rhaglen lywodraethu. Bydd hyn yn helpu pawb i gyflawni eu potensial, yn lleihau anghydraddoldeb ac yn gwella lles economaidd a chymdeithasol.

**Paul Davies:** I am grateful for that answer. I am sure that the Deputy Minister will be aware that 2012 is the EU year of active ageing. An Estyn report has suggested that agencies need to work together to increase opportunities for older people to learn in their communities. Will he tell us what the Welsh Government is doing to improve adult learning opportunities for the over-55s, particularly in rural areas like the constituency that I represent, where travelling is a particular challenge?

**Paul Davies:** Rwyf yn ddiolchgar am yr ateb hwnnw. Rwyf yn siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol mai 2012 yw blwyddyn heneiddio'n egnïol yr UE. Mae adroddiad gan Estyn wedi awgrymu bod angen i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i gynyddu'r cyfleoedd i bobl hŷn ddysgu yn eu cymunedau. A wnaiff ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cyfleoedd dysgu i oedolion ar gyfer pobl dros 55 oed, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel yr etholaeth yr wyf fi yn ei chynrychioli, lle mae teithio yn dipyn o her?

**Jeff Cuthbert:** This matter has been discussed with relevant agencies and we are certainly working with partners, including the National Institute of Adult Continuing Education, to ensure that adult learning is available to all age groups, which certainly includes the older age group.

**Jeff Cuthbert:** Mae'r mater hwn wedi cael ei drafod gydag asiantaethau perthnasol ac rydym yn sicr yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion, i sicrhau bod dysgu oedolion ar gael i bob grŵp oedran, sy'n sicr yn cynnwys y grŵp oedran hŷn.

**Christine Chapman:** Welsh Government data suggest that, in 2009-10, 62% of adult learners were women, and just 38% were men. I know that NIACE has suggested that there are clear gender divisions between what encourages men and women back into adult learning, with work-related reasons being more common for men and personal development for women. While we must encourage more adults back into education, what can we do to challenge the gender divide and encourage more men in particular back into learning environments?

**Christine Chapman:** Mae data gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu mai menywod oedd 62 y cant o'r dysgwyr a oedd yn oedolion 2009-10, a dim ond 38 y cant oedd yn ddynion. Gwn fod NIACE wedi awgrymu y ceir rhaniadau amlwg rhwng y rhywiau o ran yr hyn sy'n annog dynion a menywod i fynd yn ôl i faes dysgu oedolion, gyda rhesymau'n gysylltiedig â gwaith yn rhesymau mwy cyffredin ymysg ddynion, a datblygiad personol ymysg menywod. Er ei bod yn rhaid inni annog rhagor o oedolion i fynd yn ôl i addysg, beth y gallwn ei wneud i herio'r rhaniad rhwng y rhywiau ac annog rhagor o ddynion yn benodol i fynd yn ôl i

sefyllfaoedd dysgu?

**Jeff Cuthbert:** Thank you for that question. It is a pressing issue. I know from my experience, many years ago, as a part-time principal of a part-time adult education centre that getting men engaged in a number of the activities was not easy. We have to do more and we must do it better. Our policy statement on delivering community learning for Wales recognised the importance of re-engaging men and women in learning. We support a number of key projects, such as the Rhyl Strikers in north Wales, which has been particularly successful in engaging young men. We also look to NIACE and events like Adult Learners' Week to promote the importance of adult learning and to draw in more men to the facilities available.

**Jeff Cuthbert:** Diolch am y cwestiwn hwnnw. Mae'n broblem ddybryd. Gwn o fy mhrofiad i, flynyddoedd lawer yn ôl o fod yn bennaeth rhan-amser ar ganolfan addysg i oedolion, nad oedd yn hawdd cael dynion i gymryd rhan mewn nifer o'r gweithgareddau. Rhaid inni wneud mwy, a rhaid inni wneud hynny'n well. Roedd ein datganiad polisi ar gyflenwi dysgu cymunedol i Gymru yn cydnabod pwysigrwydd cael dynion a menywod i ailafael mewn dysgu. Rydym yn cefnogi nifer o brosiectau allweddol, megis Rhyl Strikers yn y gogledd, sydd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran ymgysylltu â dynion ifanc. Rydym hefyd yn troi at NIACE a digwyddiadau fel Wythnos Addysg Oedolion i hyrwyddo pwysigrwydd dysgu oedolion ac i ddenu rhagor o ddynion i fanteisio ar y cyfleusterau sydd ar gael.

**Rhodri Glyn Thomas:** Ddirprwy Weinidog, pa astudiaeth sydd wedi'i gwneud i'r angen am sicrhau bod digon o gyfleoedd i oedolion ddysgu'r Gymraeg? Ar sail unrhyw astudiaeth o'r fath, beth ydych yn ei wneud i sicrhau bod digon o gyllid ar gael i drefnu bod y cyfleoedd hynny ar gael i bawb yng Nghymru?

**Rhodri Glyn Thomas:** Deputy Minister, what study has been undertaken into the need to ensure that sufficient opportunities are provided for adults to learn Welsh? On the basis of any such study, what are you doing to ensure that sufficient funding is available so that those opportunities are available to all in Wales?

**Jeff Cuthbert:** Adult Learners' Week, for example, is promoting the opportunities to learn Welsh. I am doing a course on Monday evenings in Caerphilly. We will certainly want to prioritise the opportunities for learning Welsh, and discussions on this issue will continue. As I said, Adult Learners' Week will feature the opportunities for learning the language.

**Jeff Cuthbert:** Mae Wythnos Addysg Oedolion, er enghraifft, yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Rwyf fi'n mynychu cwrs ar nos Lun yng Nghaerffili. Byddwn yn sicr am flaenoriaethu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, a bydd trafodaethau ar y mater hwn yn parhau. Fel y dywedais, bydd Wythnos Addysg Oedolion yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu'r iaith.

**Cyllid Addysg Uwch**

**Higher Education Funding**

***6. Simon Thomas:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid addysg uwch. OAQ(4)0116(ESK)*

***6. Simon Thomas:*** *Will the Minister make a statement regarding higher education funding. OAQ(4)0116(ESK)*

**Leighton Andrews:** Mae cefnogi addysg uwch yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac, yn 2012-13, bydd swm o £370 miliwn ar gael i brifysgolion Cymru drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

**Leighton Andrews:** Supporting higher education in Wales continues to be a priority for the Welsh Government, and, in 2012-13, over £370 million will be made available to Welsh universities via the Higher Education Funding Council for Wales.

**Simon Thomas:** Diolch, Weinidog, am y

**Simon Thomas:** Thank you for that

datganiad hwnnw. Fel rydych yn gwybod, mae'r datganiad diweddaraf gan CCAUC ar y mater hwn wedi cynnig sut y gall ffioedd yng Nghymru gael eu gostwng mewn nifer o sefydliadau ac ar gyfer nifer o gyrsiau, i £7,500 y flwyddyn a llai. Mae'n siŵr bod hynny i'w groesawu gan y Llywodraeth o safbwynt arbed arian, ond a wnewch esbonio beth fyddai'n digwydd pe bai myfyriwr yn dewis gwneud cwrs tebyg mewn sefydliad y tu allan i Gymru, a hwnnw'n sefydliad sy'n codi mwy na £7,500 y flwyddyn? A fydd y ffioedd yn parhau i gael eu talu o dan gynlluniau newydd CCAUC?

statement, Minister. As you know, the most recent statement by HEFCW on this issue has made proposals on how fees in Wales can be reduced in many institutions and on many courses, to £7,500 per annum and less. While that is to be welcomed by the Government, I am sure, in terms of making savings, will you explain what will happen if a student chooses to study a similar course in an institution outwith Wales that charges more than £7,500 per annum? Will the full fee still be paid under the new HEFCW plans?

**Leighton Andrews:** Our policy is clear: young people in Wales will not have to pay the higher fees, whether they study in Wales, England, Scotland or Northern Ireland. I hope that the Member continues to support that policy.

**Leighton Andrews:** Mae ein polisi yn glir: ni fydd pobl ifanc yng Nghymru yn gorfod talu'r ffioedd uwch, p'un ai a fyddant yn astudio yng Nghymru, yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon. Gobeithio bod yr Aelod yn parhau i gefnogi'r polisi hwnnw.

**David Rees:** Minister, part-time study opens up many opportunities to gain higher qualifications, develop skills and improve one's employability. What progress is being made in introducing funding support for part-time students in higher education?

**David Rees:** Weinidog, mae astudio rhan-amser yn arwain at lawer o gyfleoedd i ennill cymwysterau uwch, i ddatblygu sgiliau ac i wella cyflogadwyedd. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflwyno cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser mewn addysg uwch?

**Leighton Andrews:** We have consulted widely on the issue of support for part-time students. You will recall that I made a statement on our plans in the Chamber last year. We had a number of subsequent representations confirming the support for what we were doing on the broad policy, but asking us to defer the policy for a year, because there was a feeling that the Student Loans Company in particular needed time to bed down its systems with the introduction of the new fee regime. We have listened to what has been said by people in the profession and we are implementing that policy. However, we want to see an expansion in part-time education and we will work with institutions in Wales to achieve that. It is worth saying that the Open University in particular has been highly successful in Wales, as in other parts of the UK, in expanding its reach.

**Leighton Andrews:** Rydym wedi ymgynghori'n eang ynghylch rhoi cymorth i fyfyrwyr rhan-amser. Byddwch yn cofio imi wneud datganiad am ein cynlluniau yn y Siambr y llynedd. Cawsom nifer o sylwadau dilynol yn cadarnhau'r gefnogaeth i'r hyn roeddem yn ei wneud ar y polisi cyffredinol, ond yn gofyn inni ohirio'r polisi am flwyddyn, oherwydd bod teimlad bod angen amser ar y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn enwedig i wreiddio ei systemau yn sgîl cyflwyno'r system ffioedd newydd. Rydym wedi gwrando ar yr hyn a ddywedwyd gan bobl yn y proffesiwn, ac rydym yn gweithredu'r polisi hwnnw. Fodd bynnag, rydym am weld addysg ran-amser yn cael ei hehangu, a byddwn yn gweithio gyda sefydliadau yng Nghymru i gyflawni hynny. Mae'n werth dweud bod y Brifysgol Agored yn benodol wedi bod yn llwyddiannus iawn yng Nghymru, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU, o ran cyrraedd rhagor o bobl.

**Mohammad Asghar:** Minister, as you

**Mohammad Asghar:** Weinidog, gan eich

appear to be wedded to your funding concept, my concern is that people who choose to read courses with higher costs are not going to have the support that they need if they come from disadvantaged or underprivileged families. In his annual report, which was discussed in the Chamber yesterday, the Children's Commissioner for Wales highlighted access to university for those young people who do not have a fixed address. We should be supporting every student to pursue whatever course they choose, whatever their background. How is Welsh Government higher education funding being directed to ensure equality of access to courses for every student in Wales?

bod yn ymddangos yn benderfynol o gadw at eich cysyniad cyllido, fy mhryder i yw nad yw pobl sy'n dewis astudio cyrsiau ac iddynt gostau uwch yn mynd i gael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt os ydynt yn dod o deuluoedd difreintiedig neu deuluoedd o dan anfantais. Yn ei adroddiad blynyddol, a drafodwyd yn y Siambr ddoe, soniodd Comisiynydd Plant Cymru am fynediad i brifysgol ar gyfer y bobl ifanc hynny nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog. Dylem fod yn cynorthwyo pob myfyriwr i ddilyn pa gwrs bynnag y mae'n ei ddewis, beth bynnag fo'i gefndir. Sut mae cyllid addysg uwch Llywodraeth Cymru yn cael ei gyfeirio i sicrhau bod pob myfyriwr yng Nghymru yn cael mynediad cyfartal at gyrsiau?

**Leighton Andrews:** I have to point out to the Chamber that, if we followed the policy of the Member's party, all young people in Wales would be forced to pay higher fees. I am not sure what that would do for access.

**Leighton Andrews:** Rhaid imi ddweud wrth y Siambr, pe baem yn dilyn polisi plaid yr Aelod, byddai'r holl bobl ifanc yng Nghymru yn cael eu gorfodi i dalu ffioedd uwch. Nid wyf yn siŵr pa les fyddai hynny'n ei wneud o ran mynediad.

**Aled Roberts:** Weinidog, yng nghyfarfod y grŵp trawsbleidiol ar wyddoniaeth yr wythnos diwethaf, clywodd y grŵp mai un cwrs yn unig yng Nghymru sy'n cael cefnogaeth gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol, allan o gyllideb o tua £700 miliwn. Beth ydych yn ei wneud i wella'r sefyllfa o ran y gefnogaeth a roddir i ymchwil yng Nghymru?

**Aled Roberts:** Minister, last week, at a meeting of the cross-party group on science, we heard that the Engineering and Physical Sciences Research Council only supports one course in Wales, out of a budget of £700 million. What are you doing to improve the situation as regards the support given to research in Wales?

**Leighton Andrews:** There is a real challenge for higher education institutions in Wales to win more research council funding. This issue was addressed in the science strategy that was published earlier this week. One of the objectives of the attempt to attract more star scientists to Wales will be to build a stronger research base around those individuals. It is an important element of that strategy, and the work that the chief scientific adviser has done has to be commended by everybody in the Chamber. One reason why we want universities in Wales to collaborate better together is in order to promote stronger bids. I am continually told by research councils that many of the bids that come from Wales are weak and do not involve sufficient collaboration between institutions. The research councils, when I have met them, have been wholly supportive of our

**Leighton Andrews:** Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn wynebu her wirioneddol i sicrhau rhagor o gyllid gan y cyngor ymchwil. Rhoddwyd sylw i'r mater hwn yn y strategaeth wyddoniaeth a gyhoeddwyd yn gynharach yr wythnos hon. Un o amcanion yr ymdrech i ddenu rhagor o wyddonwyr disglair i Gymru fydd creu sylfaen ymchwil gryfach o amgylch yr unigolion hynny. Mae'n elfen bwysig o'r strategaeth honno, a dylai pawb yn y Siambr ganmol gwaith y prif gynghorydd gwyddonol. Un rheswm pam y mae arnom eisiau i brifysgolion yng Nghymru gydweithio gyda'i gilydd yn well yw er mwyn hybu ceisiadau cryfach. Mae cynghorau ymchwil yn dweud wrthyf dro ar ôl tro fod llawer o'r ceisiadau a ddaw o Gymru yn wan, ac nad ydynt yn cynnwys digon o gydweithio rhwng sefydliadau. Mae'r

collaboration and reconfiguration agenda.

cynghorau ymchwil, pan rwyf wedi cael cyfarfodydd â hwy, wedi bod yn gwbl gefnogol o'n hagenda ad-drefnu a chydweithio.

**Aled Roberts:** Minister, following the Eurostat data published yesterday on the effect of convergence funding and that other countries make much greater use of convergence funding in joint working between universities and Government and the private sector, is there any scope for us to look at changing the attitude in Wales to these arrangements, given the likelihood of us achieving a further round of convergence funding for west Wales and the Valleys in the future?

**Aled Roberts:** Weinidog, yn dilyn y data Eurostat a gyhoeddwyd ddoe ynghylch effaith cyllid cydgyfeirio a bod gwledydd eraill yn defnyddio cyllid cydgyfeirio fwy o lawer wrth i brifysgolion, y Llywodraeth a'r sector preifat gydweithio, a oes unrhyw gwmpas inni ystyried newid yr agwedd yng Nghymru at y trefniadau hyn, o ystyried y tebygolrwydd y byddwn yn cyrraedd cylch arall o gyllid cydgyfeirio ar gyfer y gorllewin a'r Cymoedd yn y dyfodol?

**Leighton Andrews:** I do not know whether we need to change attitudes on this, because it is something that we have been discussing for some time with our higher education institutions. It is a question of how they progress using convergence funding, linking that to future bids for framework funding and so on. All these discussions have been actively held between my department and higher education institutions over recent years.

**Leighton Andrews:** Nid wyf yn siŵr a oes angen inni newid agweddau at hyn, gan ei fod yn rhywbeth rydym wedi bod yn ei drafod ers cryn amser gyda'n sefydliadau addysg uwch. Mae'n dibynnu sut y maent yn defnyddio'r cyllid cydgyfeirio wrth symud ymlaen, gan gysylltu hynny â cheisiadau am arian fframwaith yn y dyfodol ac ati. Mae fy adran i wedi bod yn mynd ati i gynnal pob un o'r trafodaethau hyn gyda sefydliadau addysg uwch dros y blynyddoedd diwethaf.

**The Presiding Officer:** Question 7, OAQ(4)0105(ESK), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Mae Cwestiwn 7, OAQ(4)0105(ESK), wedi cael ei dynnu'n ôl.
.

### Strategaeth y Gymraeg

### Welsh Language Strategy

***8. Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth y Gymraeg. OAQ(4)0103(ESK)*

***8. Alun Ffred Jones:** Will the Minister provide an update on the Welsh Language Strategy. OAQ(4)0103(ESK)*

**Leighton Andrews:** Lansiwyd strategaeth pum mlynedd newydd ar gyfer y Gymraeg, 'Iaith fyw: iaith byw' ar 1 Mawrth a daw i rym ar 1 Ebrill 2012. Bydd y strategaeth yn parhau mewn grym hyd 31 Mawrth 2017.

**Leighton Andrews:** The new five-year Welsh language strategy, 'A living language: a language for living', was launched on 1 March and will come into effect on 1 April 2012. The strategy will run until 31 March 2017.

**Alun Ffred Jones:** Un ffigur y cyfeirioch ato ddoe yn eich cyflwyniad ar y strategaeth oedd bod 2,000 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn cael eu colli bob blwyddyn. Mae angen gwrthdroi'r duedd honno os yw'r strategaeth i'w gwireddu. A fyddwch yn cyhoeddi rhaglen waith a gosod blaenoriaethau ac amserlen ar gyfer gwireddu'r strategaeth iaith er mwyn cyrraedd y nod?

**Alun Ffred Jones:** One figure that you referred to yesterday in your presentation on the strategy is the loss of 2,000 fluent Welsh speakers every year. That trend needs to be reversed if the strategy is to be realised. Will you be publishing a work programme and setting priorities and a timetable for realising the language strategy in order to reach those goals?

**Leighton Andrews:** Rwy’n disgwyl cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth cyn y Pasg.

**Leighton Andrews:** I expect to publish an action plan for the strategy before Easter.

**Suzy Davies:** Weinidog, roeddech yn dweud ddoe eich bod yn ymrwymo i ddatblygu fframwaith gwerthuso—nid wyf yn siŵr a oeddech yn sôn am yr un peth yn eich ateb i Alun Ffred—ond pryd allwn ni ddisgwyl hynny? Rydych wedi dweud y gallwn ei ddisgwyl cyn y Pasg. Sut ydych yn bwriadu cynnwys profiad a sgiliau’r sector preifat a’r trydydd sector wrth ddylunio’r fframwaith hwnnw?

**Suzy Davies:** Minister, you said yesterday that you were committed to developing an evaluation framework—I do not know whether you were talking about the same thing in your answer to Alun Ffred—but when can we expect that? You said that we can expect it before Easter. How do you intend to include the experience and skills of the private and third sectors when designing that framework?

**Leighton Andrews:** Yr hyn a ddywedais oedd fy mod yn cyhoeddi cynllun gweithredu cyn y Pasg. Mae’n bwysig ein bod yn edrych ar y cyfleoedd i gyhoeddi’r fframwaith gwerthuso ar ôl hynny. Mae’n amlwg bod rhaid inni gysylltu â llawer o sefydliadau yng Nghymru i wneud hynny.

**Leighton Andrews:** What I said was that I will be publishing an action plan before Easter. It is important for us to look at the opportunities to publish the evaluation framework following that. Evidently, we will have to engage with many institutions in Wales in order to do that.

**Darpariaeth Meithrinfa**

**Nursery Provision**

***9. Jenny Rathbone:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod digon o ddarpariaeth meithrinfa ar gyfer plant 3 a 4 oed yng Nghymru. OAQ(4)0102(ESK)*

***9. Jenny Rathbone:*** *What action is the Welsh Government taking to ensure that there is sufficient nursery provision for 3 and 4 year olds in Wales. OAQ(4)0102(ESK)*

2.00 p.m.

**Leighton Andrews:** Local authorities have a statutory duty to ensure that all three and four-year-olds have access to a free foundation phase place. We know that around 95% are accessing their free place in maintained schools. That figure is further boosted when those children receiving an education in funded non-maintained settings are included.

**Leighton Andrews:** Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i sicrhau bod pob plentyn tair a phedair mlwydd oed yn gallu cael lle am ddim yn y cyfnod sylfaen. Gwyddom fod tua 95 y cant yn cael lle am ddim mewn ysgolion a gynhelir. Mae'r ffigur hwnnw'n uwch byth pan fydd y plant hynny sy'n derbyn addysg mewn lleoliadau a ariennir nas cynhelir yn cael eu cynnwys.

**Jenny Rathbone:** That is excellent information. You will be aware that as well as the two and a half hours of educationally important nursery entitlement, wraparound care is essential for working parents. Alarmingly, a recent survey by the National Day Nurseries Association shows a significant increase in the number of families who are not using wraparound care. That is probably indicative of the increased cost and the drop-off in the child tax credits from the

**Jenny Rathbone:** Dyna wybodaeth ragorol. Byddwch yn ymwybodol bod yr hawl i gael dwy awr a hanner mewn meithrinfa, sy'n bwysig o safbwynt addysgol, yn ogystal â gofal cofleidiol yn hanfodol ar gyfer rhieni sy'n gweithio. Mae arolwg diweddar gan y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y teuluoedd nad ydynt yn defnyddio gofal cofleidiol, ac mae hynny'n peri gofid. Mae'n debyg bod hynny'n arwydd o'r costau

UK Government. How can the Welsh Government support working parents of nursery-age children despite these cuts, given the evidence that children in households where no-one is working do significantly worse than those in households where there is at least one parent working?

cynyddol a'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi lleihau credydau treth plant. Sut y gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo rhieni sy'n gweithio a chanddynt blant oed meithrin er gwaethaf y toriadau hyn, o ystyried y dystiolaeth bod plant mewn cartrefi lle nad oes neb yn gweithio yn gwneud tipyn yn waeth na'r rheini mewn cartrefi lle mae o leiaf un rhiant yn gweithio?

**Leighton Andrews:** My colleague, the member for Cardiff Central, is right to draw attention to the impact of the UK Government's tax credit plans on many families throughout Wales. Clearly, local authorities, in the first instance, have a duty to provide sufficient quality, accessible and affordable childcare. That includes the wraparound childcare that she mentioned. We, as a Government, have supported wraparound childcare, among other options, through our out-of-school grant, by means of which we invest £2.3 million a year to support local authorities in that regard.

**Leighton Andrews:** Mae fy nghyd-Aelod, yr aelod dros Ganol Caerdydd, yn iawn i dynnu sylw at effaith cynlluniau credydau treth Llywodraeth y DU ar lawer o deuluoedd ledled Cymru. Yn amlwg, mae gan awdurdodau lleol, yn y lle cyntaf, ddyletswydd i ddarparu gofal plant o safon sy'n hwylus ac yn fforddiadwy. Mae hynny'n cynnwys y gofal plant cofleidiol y soniodd amdano. Rydym ni, fel Llywodraeth, wedi cefnogi gofal plant cofleidiol, ymhlith opsiynau eraill, drwy ein grant y tu allan i'r ysgol. Drwy'r grant hwnnw, rydym yn buddsoddi £2.3 miliwn y flwyddyn i gynorthwyo awdurdodau lleol yn hyn o beth.

**Suzy Davies:** Will your Government be offering direct financial support for new Welsh-language nurseries, and can you give one example of how you can encourage non-Welsh-speaking parents to send their children to them?

**Suzy Davies:** A fydd eich Llywodraeth yn cynnig cymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer meithrinfeydd Cymraeg newydd, ac a allwch roi un enghraifft o'r modd y gallwch annog rhieni di-Gymraeg i anfon eu plant i'r meithrinfeydd hynny?

**Leighton Andrews:** We have given considerable support through the Welsh Language Board in the past to Mudiad Meithrin, and we will continue to provide that kind of support. Clearly, initiatives that have been developed, such as Hwb, continue to receive support from the Government, and will do so in the future.

**Leighton Andrews:** Rydym wedi rhoi cefnogaeth sylweddol i Mudiad Meithrin yn y gorffennol drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a byddwn yn parhau i ddarparu'r math hwnnw o gefnogaeth. Yn amlwg, mae mentrau sydd wedi cael eu datblygu, fel Hwb, yn dal i gael cefnogaeth gan y Llywodraeth, a bydd yn dal i gael cefnogaeth yn y dyfodol.

**Suzy Davies:** Thank you for that answer. Twf exists to encourage parents to raise children bilingually, with an emphasis on Welsh-medium childcare. Should its services be more closely integrated with Flying Start programmes to increase the chances of children in deprived areas acquiring a skill that can only be to their economic advantage?

**Suzy Davies:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Mae Twf yn bodoli er mwyn annog rhieni i fagu plant yn ddwyieithog, gyda phwyslais ar ofal plant cyfrwng Cymraeg. A ddylai ei wasanaethau gael eu hintegreiddio'n agosach â rhaglenni Dechrau'n Deg er mwyn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd plant mewn ardaloedd difreintiedig yn dysgu sgil sydd o fudd economaidd iddynt?

**Leighton Andrews:** I should correct myself; I think that I said Hwb, when I meant Twf, in my previous response.

**Leighton Andrews:** Dylwn gywiro fy hun; rwyf yn meddwl imi ddweud Hwb pan oeddwn yn golygu Twf, yn fy ymateb

blaenorol.

You are quite right: we need to look at the opportunities to integrate these services across the piece, and that is one of the initiatives that we have been discussing in Government. As we roll out the expansion of Flying Start there will be schemes across the whole of Wales, and it will be important for us to look into opportunities to share services with Welsh-medium settings. I will certainly take that back and discuss it with the Deputy Minister for Children and Social Services.

Rydych yn llygad eich lle: mae angen inni edrych ar y cyfleoedd i integreiddio'r gwasanaethau hyn yn gyffredinol, a dyna un o'r mentrau rydym wedi bod yn eu trafod yn y Llywodraeth. Wrth inni fynd ati i ehangu Dechrau'n Deg, bydd cynlluniau ar gael ar draws Cymru gyfan, a bydd yn bwysig inni ystyried cyfleoedd i rannu gwasanaethau gyda lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Byddaf yn sicr yn codi hynny ac yn ei drafod gyda'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Lindsay Whittle:** Has the Government made any assessment of how feasible it would be to place a duty on public-sector employers and large private employers to provide childcare services, be they crèches or childcare subsidies?

**Lindsay Whittle:** A yw'r Llywodraeth wedi gwneud unrhyw asesiad o ba mor ymarferol fyddai rhoi dyletswydd ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus a chyflogwyr preifat mawr i ddarparu gwasanaethau gofal plant, boed yn feithrinfeydd neu'n gymorthdaliadau gofal plant?

**Leighton Andrews:** As a Government, we have carried out a childcare audit. These responsibilities lie in the portfolio of my colleague, the Deputy Minister for Children and Social Services. However, we have carried out an audit of local-authority childcare and other childcare options, and our policy statement for childcare, 'Nurturing Children, Supporting Families' demonstrates our commitment.

**Leighton Andrews:** Fel Llywodraeth, rydym wedi cynnal archwiliad o ofal plant. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn rhan o bortffolio fy nghyd-Weinidog, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, rydym wedi cynnal archwiliad o ofal plant gan awdurdodau lleol ac opsiynau gofal plant eraill, ac mae ein datganiad polisi ar gyfer gofal plant, 'Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd' yn dangos ein hymrwymiad.

### Cwricwlwm Ysgol

### School Curriculum

***10. Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cwricwlwm ysgol. OAQ(4)0111(ESK)*

***10. Darren Millar:*** *Will the Minister make a statement on the school curriculum. OAQ(4)0111(ESK)*

**Leighton Andrews:** A skills-based school curriculum for Wales was introduced in 2008. Alongside this, we are developing a statutory national literacy and numeracy framework to ensure that all teachers understand their role in developing literacy and numeracy. The qualifications review currently under way also clearly has curriculum implications.

**Leighton Andrews:** Cafodd cwricwlwm ysgol yn seiliedig ar sgiliau ei gyflwyno ar gyfer Cymru yn 2008. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn datblygu fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol statudol i sicrhau bod yr holl athrawon yn deall eu rôl yng nghyswllt datblygu llythrennedd a rhifedd. Mae gan yr adolygiad cymwysterau sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd oblygiadau i'r cwricwlwm hefyd yn amlwg.

**Darren Millar:** Thank you for that answer, Minister. History is an important part of the national curriculum, as I am sure that you will agree, and I think that it is very sad,

**Darren Millar:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae hanes yn rhan bwysig o'r cwricwlwm cenedlaethol, fel rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno, ac rwyf yn credu ei bod

although inevitable, that, in 2012, we no longer have any living British veterans of the first world war. 2014 is the hundredth anniversary of the start of the first world war, and we are now entering an era in which we cannot rely on living memory to recognise and honour the sacrifices made by many to protect our country. What are you doing to ensure that the hundredth anniversary is recognised in Welsh schools, and what are you doing to ensure that the first world war is adequately covered in the national school curriculum in the long term?

yn drist iawn—er yn anochel—nad oes gennym, yn 2012, unrhyw gyn-filwyr Prydeinig o'r rhyfel byd cyntaf sy'n dal yn fyw. Yn 2014, bydd yn ganmlwyddiant ers cychwyn y rhyfel byd cyntaf, ac rydym yn awr yn dechrau ar gyfnod lle na allwn ddibynnu ar atgofion byw i gydnabod ac i anrhydeddu'r aberth a wnaed gan nifer o bobl i ddiogelu ein gwlad. Beth ydych yn ei wneud i sicrhau bod ysgolion Cymru yn cydnabod y canmlwyddiant, a beth ydych yn ei wneud i sicrhau bod y rhyfel byd cyntaf yn cael sylw digonol yn y cwricwlwm ysgol cenedlaethol yn y tymor hir?

**Leighton Andrews:** I think that you will find that the subject is adequately covered in the curriculum. As someone who studied history to postgraduate level, I have a considerable interest in these matters. If the Member wants to bring forward any specific ideas with regard to marking the centenary in 2014, I will be pleased to hear from him. We are also marking other centenaries, such as the centenary of the birth of Dylan Thomas, which I think that will be of particular concern to people in Wales.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn meddwl y byddwch yn canfod bod y pwnc yn cael sylw digonol yn y cwricwlwm. Fel rhywun a fu'n astudio hanes ar lefel ôl-radd, mae gennyf gryn ddiddordeb yn y materion hyn. Os yw'r Aelod yn dymuno cyflwyno unrhyw syniadau penodol i ddathlu'r canmlwyddiant yn 2014, byddaf yn falch o glywed ganddo. Rydym hefyd yn nodi canmlwyddiannau eraill, fel canmlwyddiant ers geni Dylan Thomas, ac rwyf yn siŵr y bydd hynny o ddiddordeb mawr i bobl yng Nghymru.

**David Rees:** Minister, information communications technology is considered to be a field in which everyone should have some understanding. It plays a major part in our lives—you only have to look at our desks to see that. However, computing is not considered to be a STEM subject. Will you look at the designation of STEM subjects to ensure that the study of computing, particularly programming, is included in STEM subjects, as it is critical for our future?

**David Rees:** Weinidog, mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cael ei ystyried yn faes y dylai fod gan bawb rywfaint o ddealltwriaeth ohono. Mae'n rhan enfawr o'n bywydau—nid oes ond angen ichi edrych ar ein desgiau i weld hynny. Fodd bynnag, nid yw cyfrifiadura yn cael ei ystyried yn bwnc STEM. A wnewch edrych ar y modd y dynodir pynciau STEM i sicrhau bod astudio cyfrifiadura, yn enwedig rhaglennu, yn cael ei gynnwys yn y pynciau STEM, gan ei fod yn hanfodol ar gyfer ein dyfodol?

**Leighton Andrews:** I am glad that my colleague, the Member for Aberavon, has raised this issue. We look forward to publishing the digital classroom teaching task and finish group report on 29 March. That in itself does not engage with the curriculum, but it looks at the delivery of education through ICT. I am interested in a number of the suggestions made in the computing sector in recent months about the way in which the subject is taught in the curriculum. It is a subject that I want to look at in more detail once we have published the report of the digital classroom teaching task and finish

**Leighton Andrews:** Rwyf yn falch bod fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Aberafan, wedi codi'r mater hwn. Rydym yn edrych ymlaen at gyhoeddi adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar ddulliau addysgu digidol yn yr ystafell ddosbarth ar 29 Mawrth. Nid yw'r adroddiad hwnnw ynddo'i hun yn ymwneud â'r cwricwlwm, ond mae'n edrych ar gyflwyno addysg drwy gyfrwng TGCh. Mae gennyf ddiddordeb mewn nifer o'r awgrymiadau a wnaed yn y sector cyfrifiadurol yn ystod y misoedd diwethaf am y ffordd y mae'r pwnc yn cael ei addysgu yn y cwricwlwm. Mae'n bwnc rwyf am edrych

group.

yn fanylach arno ar ôl inni gyhoeddi adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar ddulliau addysgu digidol yn yr ystafell ddosbarth.

**Addysg Uwch**

**Higher Education**

***11. Leanne Wood:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg uwch yng Nghanol De Cymru. OAQ(4)0109(ESK)*

***11. Leanne Wood:*** *Will the Minister make a statement on higher education in South Wales Central. OAQ(4)0109(ESK)*

**Leighton Andrews:** I have announced that I am minded to accept the case for a merger between the University of Glamorgan, the University of Wales, Newport and Cardiff Metropolitan University, as recommended by the Higher Education Funding Council for Wales. I am now discussing the options for creating a single strong university from these institutions.

**Leighton Andrews:** Rwyf wedi cyhoeddi fy mod yn bwriadu derbyn yr achos o blaid uno Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, fel yr argymhellwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Rwyf yn awr yn trafod yr opsiynau ar gyfer creu un brifysgol gref o'r sefydliadau hyn.

**Leanne Wood:** As you may be aware, I have recently raised concerns about Cardiff University’s remuneration of senior staff, including the vice-chancellor. Only a few weeks ago, Cardiff University was proposing to spend £675,000 on a new house for the vice-chancellor. That followed information received under the Freedom of Information Act 2000 that showed that over 237 members of staff at Cardiff University now earn more than £100,000, which is up 14 from the previous year. Minister, when lecturers are facing real-terms pay cuts and the ongoing threat of redundancies, what is your Government planning to do to restrict big pay increases for those working at the top of our universities?

**Leanne Wood:** Fel y gwyddoch mae'n siŵr, rwyf wedi mynegi pryderon yn ddiweddar am dâl Prifysgol Caerdydd i uwch aelodau o’r staff, gan gynnwys yr is-ganghellor. Dim ond ychydig wythnosau yn ôl, roedd Prifysgol Caerdydd yn bwriadu gwario £675,000 ar dŷ newydd ar gyfer yr is-ganghellor. Roedd hynny'n dilyn gwybodaeth a gafwyd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a oedd yn dangos bod dros 237 aelod o staff ym Mhrifysgol Caerdydd bellach yn ennill mwy na £100,000, sydd 14 yn fwy na’r flwyddyn flaenorol. Weinidog, wrth i ddarlithwyr wynebu toriadau cyflog mewn termau real a'r bygythiad parhaus o ddileu swyddi, beth mae eich Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i gyfyngu ar godiadau cyflog mawr i'r rheini sy'n gweithio ar lefel uchaf ein prifysgolion?

**Leighton Andrews:** Universities are autonomous institutions, and are able to set their own terms and conditions for their staff. However, we published a report on the cost of administering the education system, which was carried out for us by PricewaterhouseCoopers in 2010. It demonstrated that, in the current higher education institutions in Wales, 52% of the spend appeared to be on backroom support and management support, and only 48% on teaching, research and knowledge transfer. It is important that higher education institutions in Wales look at the balance of their spend.

**Leighton Andrews:** Mae prifysgolion yn sefydliadau annibynnol, ac maent yn gallu gosod eu telerau ac amodau eu hunain ar gyfer eu staff. Fodd bynnag, rydym wedi cyhoeddi adroddiad am gost gweinyddu'r system addysg, a gynhaliwyd ar ein rhan gan PricewaterhouseCoopers yn 2010. Roedd yn dangos, yn sefydliadau addysg uwch Cymru ar hyn o bryd, bod 52 y cant o'r gwariant i'w weld yn mynd ar gefnogaeth ystafell gefn a chefnogaeth reoli, a dim ond 48 y cant ar addysgu, ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth. Mae'n bwysig bod sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn edrych ar gydbwysedd eu gwariant.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, you touched on the HEFCW report, on which you have based your working assumptions for the merger of the three universities. There has been considerable press speculation about this from many quarters, and I have had representations on it from many students and interested parties. Are you in a position to update the Assembly as to how you see the ongoing discussions between the institutions and how that merger is progressing?

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog, sonioch yn fras am adroddiad CCAUC, sef yr hyn rydych wedi seilio eich tybiaethau sylfaenol arno ar gyfer uno'r tair prifysgol. Bu cryn ddyfalu yn y wasg am hyn o sawl cyfeiriad, ac rwyf wedi cael sylwadau am y mater gan lawer o fyfyrwyr a phartïon â diddordeb. A ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ynghylch eich barn am y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt rhwng y sefydliadau, a sut y mae'r broses uno honno yn datblygu?

**Leighton Andrews:** I met the chair and vice-chancellor of the University of Wales, Newport last week. I met trade unions representing staff in each of the three institutions on Monday of this week, and I expect to meet the chair and vice-chancellor of Cardiff Metropolitan University and of the University of Glamorgan separately next week.

**Leighton Andrews:** Cefais gyfarfod â chadeirydd ac is-ganghellor Prifysgol Cymru, Casnewydd yr wythnos diwethaf. Cefais gyfarfod ag undebau llafur sy'n cynrychioli staff ym mhob un o'r tri sefydliad ddydd Llun yr wythnos hon, ac rwyf yn disgwyl cael cyfarfod â chadeirydd ac is-ganghellor Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol Morgannwg ar wahân yr wythnos nesaf.

**Cynlluniau Ffioedd Prifysgolion**

**University Fee Schemes**

***12. Aled Roberts:*** *A yw'r Gweinidog yn monitro'r ffordd y mae prifysgolion yn gweithredu eu cynlluniau ffioedd. OAQ(4)0115(ESK)*

***12. Aled Roberts:*** *Does the Minister monitor the way in which universities operate their fee schemes. OAQ(4)0115(ESK)*

**Leighton Andrews:** Os yw prifysgolion yng Nghymru am godi ffioedd dysgu uwch, rhaid bod ganddynt gynlluniau ffioedd sydd wedi'u cymeradwyo gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac sy'n amlinellu'r cynlluniau sydd ganddynt i hyrwyddo addysgu uwch ac i ehangu mynediad. Rwyf wedi gofyn i CCAUC gyflwyno adroddiad i mi yn flynyddol ar sut mae prifysgolion yn cyflawni hyn.

**Leighton Andrews:** Welsh universities wanting to charge higher tuition fees must have fee plans approved by the Higher Education Funding Council for Wales, which set out their plans to promote higher education and widen access. I have asked HEFCW to report to me annually on how universities are delivering this.

**Aled Roberts:** Diolch am yr ateb hwnnw.

**Aled Roberts:** Diolch ichi am yr ateb.

**Aled Roberts:** Referring to Simon Thomas's earlier question regarding the introduction of core and margin fee arrangements in Wales, what explanation did HEFCW give for the change in its policy at relatively short notice?

**Aled Roberts:** Gan gyfeirio at gwestiwn Simon Thomas yn gynharach ynghylch cyflwyno trefniadau ffioedd craidd ac ymylol yng Nghymru, pa esboniad roddodd CCAUC am newid ei bolisi yn gymharol fyr rybudd?

**Leighton Andrews:** I do not think that it was particularly short notice, and it published extensive guidance, which you can read on its website.

**Leighton Andrews:** Nid wyf yn credu iddo wneud hynny'n fyr rybudd iawn, ac mae wedi cyhoeddi canllawiau helaeth sydd ar gael i'w darllen ar ei wefan.

**Sgiliau Twf Cymru**

**Skills Growth Wales**

***13. Ann Jones:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod Sgiliau Twf Cymru yn cael cymaint o effaith â phosibl yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0113(ESK)*

***13. Ann Jones:** What action is the Welsh Government taking to maximise the impact of Skills Growth Wales in the Vale of Clwyd. OAQ(4)0113(ESK)*

**Jeff Cuthbert:** I thank the Member for her question. A Government-wide approach is under way to identify businesses with credible growth plans that would benefit from support under the Skills Growth Wales programme. We are keen that all regions of Wales should benefit from the Skills Growth Wales programme and will actively seek out those businesses that meet the eligibility criteria.

**Jeff Cuthbert:** Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Mae dull Llywodraeth-gyfan yn mynd rhagddo i ganfod busnesau sydd â chynlluniau twf credadwy a fyddai'n elwa o gael cymorth o dan raglen Sgiliau Twf Cymru. Rydym yn awyddus i bob rhanbarth yng Nghymru elwa ar raglen Sgiliau Twf Cymru, a byddwn yn mynd ati i chwilio am y busnesau hynny sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

**Ann Jones:** Through ConstructionSkills Wales, £4 million has been invested in apprenticeship training, with grants being paid directly to employers this year across Wales, ensuring that young people have the best possible chance to develop their skills. I was pleased to see that Estyn rated these placements highly in its assessment of work-based learning providers in Wales. As demand currently exceeds supply, what action is the Welsh Government taking to ensure opportunities for as many applicants as possible as it seeks to provide chances to the same people whom the Tory-led Government in Westminster is content to abandon?

**Ann Jones:** Drwy Sgiliau Adeiladu Cymru, mae £4 miliwn wedi cael ei fuddsoddi mewn hyfforddiant prentisiaeth. Bydd grantiau yn cael eu talu'n uniongyrchol i gyflogwyr ledled Cymru eleni, gan sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cyfle gorau posibl i ddatblygu eu sgiliau. Roeddwn yn falch o weld bod Estyn wedi rhoi canmoliaeth fawr i'r lleoliadau hyn yn ei asesiad o ddarparwyr dysgu yn seiliedig ar waith yng Nghymru. Gan fod y galw yn fwy na'r cyflenwad ar hyn o bryd, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau cyfleoedd ar gyfer cynifer o ymgeiswyr â phosibl, wrth iddi geisio rhoi cyfleoedd i'r un bobl ag y mae'r Llywodraeth Dorïaidd yn San Steffan yn fodlon troi cefn arnynt?

**Jeff Cuthbert:** I think that I probably answered the issue relating to Construction Skills Wales when I responded to the Member from Monmouth earlier. However, I wish to say more generally that reducing the number of young people who are not in education, employment or training remains a key priority for the Welsh Government. We will do our utmost to avoid abandoning young people in the way that the UK Government is set to do. That is why we have identified in our programme for government new employment programmes, such as Jobs Growth Wales, which will be launched next month and which will create 4,000 jobs a year for young people aged 16 to 24. Also, in August last year, we introduced two new employability programmes: traineeships for 16 to 18-year-olds and Steps to Employment

**Jeff Cuthbert:** Credaf fy mod wedi ateb y mater yn ymwneud â Sgiliau Adeiladu Cymru mae'n siŵr pan roddais ymateb i'r Aelod dros Fynwy yn gynharach. Fodd bynnag, hoffwn ddweud yn fwy cyffredinol bod lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn dal yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i wneud yn siŵr nad yw pobl ifanc yn cael eu hesgeuluso yn y modd y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei wneud. Dyna pam rydym wedi nodi rhaglenni cyflogaeth newydd yn ein rhaglen lywodraethu, megis Twf Swyddi Cymru, a fydd yn cael ei lansio fis nesaf ac a fydd yn creu 4,000 o swyddi y flwyddyn ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. Hefyd, ym mis Awst y llynedd, gwnaethom gyflwyno dwy raglen cyflogadwyedd

for adults aged 18. Apprentices remain our flagship programme, and I am very pleased to say that we are now achieving 80% completion across the board. We are not satisfied with that, and we will be looking to increase it.

newydd: hyfforddeiaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed a'r Camau at Waith ar gyfer oedolion 18 oed. Prentisiaethau yw ein prif raglen o hyd, ac rwyf yn falch iawn o ddweud bod 80 y cant wedi'u cyflawni hyd yma yn gyffredinol. Nid ydym yn fodlon â hynny, a byddwn yn ceisio cynyddu'r ganran honno.

### Lleoedd i Fyfyrwyr ym Mhrifysgolion Cymru

### Student Places at Welsh Universities

***14. Mark Isherwood:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu nifer y lleoedd i fyfyrwyr ym Mhrifysgolion Cymru. OAQ(4)0112(ESK)*

***14. Mark Isherwood:*** *Will the Minister outline the number of student places at Welsh Universities. OAQ(4)0112(ESK)*

**Leighton Andrews:** The total number of enrolments for Welsh universities in the academic year 2010-11 was 131,005.

**Leighton Andrews:** Ym mlwyddyn academaidd 2010-11, roedd cyfanswm o 131,005 wedi cofrestru ym mhrifysgolion Cymru.

**Mark Isherwood:** Concerns were raised as a recent universities' annual open meeting that the student number cap in Wales also applies to students from England, thereby limiting the amount of revenue coming into Wales from that UK nation. Why does that cap apply or is their understanding wrong?

**Mark Isherwood:** Yng nghyfarfod blynyddol agored y prifysgolion yn ddiweddar, mynegwyd pryderon bod y cap ar nifer y myfyrwyr yng Nghymru hefyd yn berthnasol i fyfyrwyr o Loegr, sydd felly'n cyfyngu ar y refeniw a ddaw i Gymru o'r wlad honno yn y DU. Pam mae'r cap hwnnw'n berthnasol, neu a ydynt wedi camddeall?

**Leighton Andrews:** What we want to ensure is that, in the provision of higher education places in Welsh universities, there are opportunities for young people from Wales and from other countries to study. What is being operated by HEFCW is being done in a very balanced way.

**Leighton Andrews:** Yr hyn rydym am ei sicrhau yw bod cyfleoedd i bobl ifanc o Gymru ac o wledydd eraill astudio yn y lleoedd addysg uwch sydd ar gael ym mhrifysgolion Cymru. Mae'r hyn sy'n cael ei weithredu gan CCAUC yn cael ei weithredu mewn ffordd gytbwys dros ben.

**The Presiding Officer:** Question 15, OAQ(4)0107(ESK), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Mae Cwestiwn 15, OAQ(4)0107(ESK), wedi cael ei dynnu'n ôl.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
## Questions to the Minister for Local Government and Communities

### Camddefnyddio Sylweddau

### Substance Misuse

***1. Rebecca Evans:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru. OAQ(4)0111(LGC)*

***1. Rebecca Evans:*** *Will the Minister make a statement on substance misuse in Wales. OAQ(4)0111(LGC)*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** The Welsh Government continues to invest over £50

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi

million to implement the actions in the 10-year substance misuse strategy for Wales 'Working Together to Reduce Harm' and to build upon achievements such as improving the accessibility, availability and quality of children and young people's services for tackling drug and alcohol misuse across Wales.

dros £50 miliwn i weithredu camau'r strategaeth camddefnyddio sylweddau 10 mlynedd ar gyfer Cymru, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', ac i adeiladu ar gyflawniadau fel gwella hygyrchedd, argaeledd a safon gwasanaethau plant a phobl ifanc ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol ledled Cymru.

**Rebecca Evans:** It is sometimes assumed that drug misuse is an urban problem, but the charity Kaleidoscope has warned that drug misuse is increasing in rural areas. How is the Welsh Government helping to tackle drug misuse in rural Wales?

**Rebecca Evans:** Weithiau, tybir mai problem drefol yw camddefnyddio cyffuriau, ond mae'r elusen Kaleidoscope wedi rhybuddio bod camddefnyddio cyffuriau ar gynnydd mewn ardaloedd gwledig. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau yn y Gymru wledig?

**Carl Sargeant:** The Member raises a really important issue. The problem is not isolated to urban settings, but affects all parts of Wales. On that basis, we recognise the difficulty of providing services in rural areas. The Welsh Government has included a sparsity indicator in the substance misuse funding, and the formula reflects this in order to support access to services.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig tu hwnt. Nid problem mewn ardaloedd trefol yn unig yw hon, mae'n effeithio ar bob rhan o Gymru. Ar y sail honno, rydym yn cydnabod pa mor anodd yw darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys dangosydd teneurwydd poblogaeth yn y cyllid ar gyfer camddefnyddio sylweddau, ac mae'r fformiwla yn adlewyrchu hyn er mwyn cefnogi mynediad at wasanaethau.

2.15 p.m.

**Darren Millar:** First, I would like to take the opportunity to thank you for visiting my constituency to hear about the Legacy project and the film produced by people who had experienced substance misuse themselves. You will know that 51% of referrals for substance addiction have been referred previously, indicating that there is a cycle of substance misuse that often repeats itself. One effective way of helping people with a substance misuse problem is through residential abstinence-based rehabilitation. I wonder what work your Government is doing to support residential abstinence-based rehabilitation, such as Touchstones12 in Colwyn Bay in my constituency, and how you are able to expand the provision of that in Wales over the next few years.

**Darren Millar:** Yn gyntaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch ichi am ymweld â'm hetholaeth i glywed am y prosiect Legacy, ac am y ffilm a gynhyrchwyd gan bobl sydd wedi dioddef yn sgîl camddefnyddio sylweddau eu hunain. Byddwch yn gwybod bod 51 y cant o achosion dibyniaeth ar sylweddau sy'n cael eu hatgyfeirio wedi cael eu hatgyfeirio o'r blaen. Mae hynny'n dangos bod camddefnyddio sylweddau'n gylch sy'n aml yn ailadrodd ei hun. Un ffordd effeithiol o helpu pobl â phroblem camddefnyddio sylweddau yw gwasanaethau adsefydlu seiliedig ar ymwrthod preswyl. Tybed pa waith y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i gefnogi gwasanaethau adsefydlu seiliedig ar ymwrthod preswyl, fel Touchstones12 ym Mae Colwyn yn fy etholaeth, a sut y gallwch ymestyn y ddarpariaeth honno yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf.

**Carl Sargeant:** I have met many providers of residential services recently, externally and at the Assembly—most recently with Elin Jones who was representing an organisation in her constituency. I have recently written to all community safety partnerships with regard to the commissioning of services, asking them to consider home-grown residential services before seeking services beyond the Welsh borders, in order to sustain and support local providers.

**Carl Sargeant:** Rwyf wedi cael cyfarfodydd â llawer o ddarparwyr gwasanaethau preswyl yn ddiweddar, yn allanol ac yn y Cynulliad—yn fwyaf diweddar gydag Elin Jones, a oedd yn cynrychioli mudiad yn ei hetholaeth. Yn ddiweddar, rwyf wedi ysgrifennu at bob partneriaeth diogelwch cymunedol ynghylch comisiynu gwasanaethau, gan ofyn iddynt ystyried gwasanaethau preswyl cynhenid cyn mynd i chwilio am wasanaethau dros y ffin, er mwyn cynnal a chefnogi darparwyr lleol.

**David Rees:** Minister, West Glamorgan Council on Alcohol and Drug Abuse—commonly known as WGCADA—provides an excellent service for people suffering from substance misuse in my constituency. Several projects have been funded, but one of the projects has established a social enterprise, known as 12 Café, to provide service users with a safe environment in which they can develop confidence, self-esteem and new skills and gain qualifications in catering and hospitality. Will you visit Port Talbot to see how such an enterprise changes people’s lives?

**David Rees:** Weinidog, mae Cyngor Gorllewin Morgannwg ar Gamddefnyddio Alcohol a Chyffuriau—sy'n fwy adnabyddus fel WGCADA—yn darparu gwasanaeth ardderchog i bobl sy'n dioddef yn sgîl camddefnyddio sylweddau yn fy etholaeth. Mae nifer o brosiectau wedi cael eu hariannu, ond mae un o'r prosiectau wedi sefydlu menter gymdeithasol, sef 12 Café. Mae'r fenter hon yn darparu amgylchedd diogel er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaeth allu magu hyder a hunan-barch, datblygu sgiliau newydd ac ennill cymwysterau ym maes arlwyo a lletygarwch. A wnewch ymweld â Phort Talbot i weld sut mae’r fenter honno yn newid bywydau pobl?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his invitation to visit Port Talbot and the 12 Café project. I will certainly consider his invitation. Subject to diary commitments, I would be happy to visit.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei wahoddiad i ymweld â Phort Talbot a phrosiect 12 Café. Byddaf yn sicr yn ystyried ei wahoddiad. Yn amodol ar yr ymrwymiadau sydd yn fy nyddiadur, byddwn yn hapus i ymweld â'r prosiect.

**Peter Black:** Minister, you will know that there is a substantial heroin problem in Swansea and quite a significant problem with steroid abuse. You will also know that there have been claims that there has been a 40% rise in the number seeking help for heroin abuse in Swansea, which puts huge pressure on the services that are available to help people come off those substances and to kick their addiction. How are you responding to those pressures?

**Peter Black:** Weinidog, byddwch yn gwybod bod heroin yn broblem fawr yn Abertawe, a bod camddefnyddio steroidau yn broblem eithaf sylweddol hefyd. Byddwch hefyd yn gwybod am yr honiadau y bu 40 y cant o gynnydd yn nifer y bobl sy'n ceisio cymorth ar gyfer camddefnyddio heroin yn Abertawe. Mae hynny’n rhoi pwysau aruthrol ar y gwasanaethau sydd ar gael i helpu pobl i ymwrthod â’r sylweddau hynny ac i beidio â bod yn gaeth iddynt rhagor. Sut rydych yn ymateb i'r pwysau hynny?

**Carl Sargeant:** We have to take a holistic view towards substance misuse and the provision of services, preferably to prevent the development of a substance problem. One project that I support is operation Tarian, which you will be aware of; it is an all-Wales

**Carl Sargeant:** Rhaid inni edrych ar gamddefnyddio sylweddau a darparu gwasanaethau mewn ffordd gyfannol os oes modd er mwyn atal y broblem sylweddau rhag datblygu. Un prosiect rwyf yn ei gefnogi yw ymgyrch Tarian, y byddwch yn gwybod

police operation that aims to stop the influx of heroin and other hard substances to cut off the supply to people who end up taking substances and find themselves caught within a system that is difficult to escape from.

amdani; ymgyrch Cymru gyfan gan yr heddlu ydyw, sy'n ceisio atal y llif o achosion heroin a sylweddau caled eraill er mwyn atal y cyflenwad rhag cyrraedd y bobl sy'n cymryd y sylweddau ac sy'n cael eu dal mewn system sy'n anodd dianc ohoni.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. It is very important that we try to cut off the supply of drugs. You will know that even the police in Swansea are working closely with substance misuse agencies to try to help people to kick their addictions because if you cut off the demand, the supply will obviously look after itself. There is a huge pressure on the services that are available. People who are trying to escape their addictions are having to wait extraordinary lengths of time to get treatment. There is clearly a need for more resource to go in. Will you have a look at this particular issue to see whether there is more that you can do to help those agencies?

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae'n bwysig iawn ein bod yn ceisio cael gwared ar y cyflenwad cyffuriau. Byddwch yn gwybod bod hyd yn oed yr heddlu yn Abertawe yn gweithio'n agos gydag asiantaethau camddefnyddio sylweddau i geisio helpu pobl i roi'r gorau i fod yn gaeth oherwydd os byddwch yn dileu'r galw, bydd y cyflenwad yn amlwg yn edrych ar ei ôl ei hun. Mae pwysau aruthrol ar y gwasanaethau sydd ar gael. Mae pobl sy'n ceisio dianc rhag eu dibyniaeth yn gorfod aros yn hir iawn i gael triniaeth. Mae'n amlwg bod angen rhagor o adnoddau. A wnewch edrych ar y mater penodol hwn i weld a oes rhagor y gallwch ei wneud i helpu'r asiantaethau hynny?

**Carl Sargeant:** As the Member will be aware, we are working through the strategy, 'Working Together to Reduce Harm'. It is the Welsh Government's long-term vision of support to tackle substance misuse. The service is very much demand led. I will, of course, consider the issues raised by the Member, but should I decide to increase the funding for substance misuse, that would have a knock-on effect on other areas of my portfolio.

**Carl Sargeant:** Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, rydym yn gweithio drwy'r strategaeth 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', sef gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain gan alw i raddau helaeth. Byddaf, wrth gwrs, yn ystyried y materion a godwyd gan yr Aelod, ond pe bawn yn penderfynu cynyddu'r cyllid ar gyfer camddefnyddio sylweddau, byddai hynny'n effeithio'n uniongyrchol ar feysydd eraill sy'n rhan o'm portffolio.

### Diogelwch ar Ffyrdd

### Road Safety

***2. Keith Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella diogelwch ar ffyrdd ger ysgolion. OAQ(4)0120(LGC)*

***2. Keith Davies:** Will the Minister give an update on the Welsh Government's actions to improve road safety near schools. OAQ(4)0120(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for Llanelli for his question. The Welsh Government works proactively with local authorities through the Safe Routes in Communities initiative and the road safety grant programme to promote and deliver road safety improvements in local areas. This includes improvements to safety outside

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod dros Lanelli am ei gwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n rhagweithiol gydag awdurdodau lleol drwy'r fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a'r rhaglen grant diogelwch ffyrdd i hyrwyddo a chyflawni gwelliannau diogelwch ar y ffyrdd mewn ardaloedd lleol. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i

schools.

ddiogelwch y tu allan i ysgolion.

**Keith Davies:** Diolch am yr ateb, Weinidog. Ffordd allweddol o wella diogelwch yw mannau 20 milltir yr awr. Bydd cyflymder is yn arwain at ddiogelwch gwell a llai o ddamweiniau, gan gynnwys rhai angheuol. Croesawaf gefnogaeth Llywodraeth Cymru a'r 500 o fannau a grëwyd eisoes, a bu sawl un y tu allan i ysgolion. Ym mhentref Tycroes yn fy etholaeth, mae'r broblem yn parhau. Mae'r ysgol gynradd ar briffordd, a byddai'n elwa llawer o derfyn cyflymder. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru i greu mwy o fannau 20 mya, yn enwedig y tu allan i ysgolion megis Ysgol Tycroes, sydd ar briffordd?

**Keith Davies:** Thank you for that answer, Minister. A key method of improving safety is to have 20 mph zones. Lower limits will lead to better safety and fewer accidents, including fatal accidents. I welcome the support of the Welsh Government and the 500 zones already created, many of which are located outside schools. In Tycroes in my constituency, the problem continues. The primary school is on a main road and would benefit greatly from a speed limit. What is the Welsh Government doing to encourage South Wales Trunk Road Agency to create more 20 mph limits, particularly outside schools such as Tycroes School, which is on a main road?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his question and, in particular, for the issue that he has raised about the primary school in Tycroes in the constituency of Llanelli. The Welsh Government recognises that there is more work to be done in terms of looking at the issues that the Member raised specifically around that area, but I am sure that he also celebrates the fact that the Welsh Government has already included 500 safety zones around schools. We will continue to look at the issue that he has raised today with me.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn ac, yn benodol, am y mater a gododd ynghylch yr ysgol gynradd yn Nhycroes yn etholaeth Llanelli. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud o safbwynt edrych ar y materion y mae'r Aelod wedi'u codi'n benodol am yr ardal honno, ond rwyf yn siŵr ei fod yntau hefyd yn dathlu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnwys 500 o barthau diogelwch o amgylch ysgolion. Byddwn yn parhau i edrych ar y mater y mae wedi ei godi â mi heddiw.

**Paul Davies:** I agree with the Member for Llanelli that 20 mph speed limits outside every school are essential to protect children. Does the Minister agree that variable speed limits would also be helpful, so that 20 mph speed limits would be in operation while schools were in session?

**Paul Davies:** Rwyf yn cytuno â'r Aelod dros Lanelli bod terfynau cyflymder 20 mya y tu allan i bob ysgol yn hanfodol er mwyn diogelu plant. A yw'r Gweinidog yn cytuno y byddai terfynau cyflymder amrywiol hefyd yn ddefnyddiol, er mwyn i derfynau cyflymder 20 mya fod yn weithredol yn ystod oriau'r ysgol?

**Carl Sargeant:** Yes.

**Carl Sargeant:** Ydw.

**Simon Thomas:** Rwyf innau hefyd yn cefnogi'r alwad am barthau 20 mya y tu allan i ysgolion. Yn wir, mae'n addewid ym maniffesto Plaid Cymru ar gyfer sir Gâr. Efallai y bydd Keith yn pleidleisio dros Blaid Cymru i gael cynghorwyr a fydd yn mynnu gwneud hynny. Gan roi gwleidyddiaeth o'r neilltu am eiliad, pe bai unrhyw gyngor, beth bynnag oedd ei blaid wleidyddol, yn gofyn am barth 20 mya y tu allan i ysgol, beth bynnag oedd natur y parth neu'r ffordd, a

**Simon Thomas:** I also support the call for 20 mph zones outside schools. Indeed, it is a pledge in Plaid Cymru's manifesto for Carmarthenshire. Perhaps Keith could vote for Plaid Cymru so as to get councillors who will demand that. Putting politics to one side for a second, if any council, whatever its political hue, was to ask for a 20 mph zone outside a school, whatever the nature of that zone or road, would you support that request?

fyddech yn cefnogi'r cais hwnnw?

**Carl Sargeant:** The principle of safe routes to school is determined predominantly by local authorities, working with the school in order to bid for funds for support. Where appropriate, I would be supportive of that principle. Again, I draw the Member's attention to the 500 areas around schools that have already been improved, where 20 mph zones have been implemented, across Wales, which are a cause for celebration that we should all share. Unfortunately, the Plaid Cymru manifesto passed me and many others by.

**Carl Sargeant:** Awdurdodau lleol sy'n penderfynu'n bennaf ar yr egwyddor o lwybrau diogel i'r ysgol, gan weithio gyda'r ysgol er mwyn gwneud cais am arian ar gyfer cymorth. Lle y bo'n briodol, byddwn yn gefnogol o'r egwyddor honno. Unwaith eto, hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at y 500 o fannau o amgylch ysgolion sydd eisoes wedi cael eu gwella, lle mae parthau 20 mya wedi cael eu rhoi ar waith ledled Cymru. Mae hynny'n achos dathlu i bob un ohonom. Yn anffodus, nid oeddwn i na nifer o rai eraill yn ymwybodol o faniffesto Plaid Cymru.

**Joyce Watson:** Minister, I welcome your stated commitment to keeping women and children safe while fleeing from domestic abuse. Can you tell me how you intend to spend—hang on, Presiding Officer, have you called me too early? I am coming in on an intervention.

**Joyce Watson:** Weinidog, rwyf yn croesawu eich ymrwymiad i gadw menywod a phlant yn ddiogel tra maent yn ffoi rhag cam-drin domestig. A allwch ddweud wrthyf sut rydych yn bwriadu gwario—arhoswch funud, Lywydd, a ydych wedi galw arnaf yn rhy gynnar? Rwyf yn dechrau cyfrannu yn ystod ymyriad.

**The Presiding Officer:** Order. Sorry, we will move on to someone else and then I will call you back after the right question.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, symudwn ymlaen at rywun arall ac yna fe'ch galwaf yn ôl ar ôl y cwestiwn priodol.

### Gwasanaethau Trais Domestig a Cham-drin Domestig Annibynnol

### Independent Domestic Abuse and Domestic Violence Services

***3. Mark Isherwood:*** *Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i wasanaethau trais domestig a cham-drin domestig annibynnol. OAQ(4)0118(LGC)*

***3. Mark Isherwood:*** *What support is the Welsh Government providing for independent domestic abuse and domestic violence services. OAQ(4)0118(LGC)*

**Carl Sargeant:** In 2011-12, total funding for vital services, including IDVA services, was £5.2 million. Discussions are ongoing with the Home Office on the continuation of funding for IDVAs and I will be making a decision on the Welsh Government element of funding in the next few weeks.

**Carl Sargeant:** Yn 2011-12, roedd cyfanswm yr arian ar gyfer gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys gwasanaethau cynghorwyr annibynnol ar drais domestig, yn £5.2 miliwn. Mae'r trafodaethau'n parhau gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch parhau i ariannu cynghorwyr annibynnol ar drais domestig, a byddaf yn gwneud penderfyniad ar elfen ariannu Llywodraeth Cymru yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Mark Isherwood:** As you will be aware, independent domestic violence advocates, or IDVA, help to prevent domestic abuse, save lives, support victims through the daunting legal process and also increase the number of convictions. How, therefore, do you respond to the specific concerns raised about the

**Mark Isherwood:** Fel y gwyddoch, mae cynghorwyr annibynnol ar drais domestig yn helpu i atal cam-drin domestig, yn achub bywydau, yn cefnogi dioddefwyr drwy'r broses gyfreithiol frawychus ac yn cynyddu nifer y collfarnau hefyd. Sut, felly, rydych yn ymateb i'r pryderon penodol a godwyd am

Conwy and Denbighshire IDVA, which receives Home Office funding, but, from April, will have to advertise a post that has been cut to 14.8 hours a week, although its role is an essential part of the multi-agency risk assessment conference and contributes to the prosecution of perpetrators of domestic abuse? It tells me that it is still unsure of Welsh Government funding. A similar concern is expressed by the North Wales Rape and Sexual Abuse Support Centre about the independent sexual violence advisers that are in the same situation and which support the sexual abuse referral centre.

gynghorwyr annibynnol ar drais domestig Conwy a sir Ddinbych, sy'n derbyn arian gan y Swyddfa Gartref, ond a fydd, o fis Ebrill ymlaen, yn gorfod hysbysebu swydd sydd wedi ei lleihau i 14.8 awr yr wythnos, er bod ei rôl yn rhan hanfodol o'r gynhadledd asesu risg aml-asiantaeth ac yn cyfrannu at y gwaith o erlyn y rheini sy'n gyfrifol am gyflawni trais domestig? Mae'n dweud wrthyf ei fod yn dal yn ansicr ynghylch arian gan Lywodraeth Cymru. Mae Canolfan Gymorth ym maes Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru wedi mynegi pryder tebyg ynghylch y cynghorwyr trais rhywiol annibynnol sydd yn yr un sefyllfa ac sy'n cefnogi'r ganolfan atgyfeirio cam-drin rhywiol.

**Carl Sargeant:** The Member raised an important issue on the subject of IDVAs, but let me put the facts on the record. The point about the Home Office community safety budgets being under threat is true, and that will have an impact on the services provided. However, it is not possible for the Welsh Government to continue to pick up the shortfall in funding left by the UK Government’s continuing reduction in its community safety budgets. I will give you an example: the community safety fund was reduced by 20% in 2011-12 and there will be further 60% reduction from the original baseline in 2012-13. I am sure that the Member will support me and the Welsh Government for not reducing Welsh Government funding for domestic abuse services during 2011-12.

**Carl Sargeant:** Cododd yr Aelod fater pwysig ynghylch cynghorwyr annibynnol ar drais domestig, ond gadewch imi roi'r ffeithiau'n swyddogol. Mae'n wir dweud bod cyllidebau diogelwch cymunedol y Swyddfa Gartref o dan fygythiad, a bydd hynny'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. Fodd bynnag, nid oes modd i Lywodraeth Cymru barhau i wneud iawn am y prinder arian wrth i Lywodraeth y DU barhau i gwtogi ei chyllidebau diogelwch cymunedol. Rhoddaf enghraifft ichi: cafodd y gronfa diogelwch cymunedol ei chwtogi 20 y cant yn 2011-12 a bydd gostyngiad pellach o 60 y cant o'r llinell sylfaen wreiddiol yn 2012-13. Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod yn fy nghefnogi i a Llywodraeth Cymru am beidio â lleihau arian Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig yn ystod 2011-12.

**Bethan Jenkins:** Last week, I hosted an event by the Royal College of General Practitioners, which emphasised the importance of a multidisciplinary approach to domestic abuse in all its forms. There is a scheme called Identification and Referral to Improve Safety—IRIS, which works to encourage GPs to share information much more readily, but it exists only in England. While I appreciate that this is something for the Minister for Health and Social Services, could you talk to your colleagues in other departments to see how you could ensure that we do not have silo services, especially given the launch in Rhondda Cynon Taf today of a new project that will provide a one-stop shop for people to access?

**Bethan Jenkins:** Yr wythnos diwethaf, bûm yn cymryd rhan mewn digwyddiad a oedd yn cael ei gynnal gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu, a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi sylw i bob math o gam-drin domestig mewn ffordd amlddisgyblaethol. Ceir cynllun o'r enw Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch—IRIS, sy'n gweithio i annog meddygon teulu i fod yn fwy parod o lawer i rannu gwybodaeth. Fodd bynnag, dim ond yn Lloegr y mae'n bodoli. Er fy mod yn sylweddoli mai mater i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw hwn, a allech siarad â'ch cyd-Weinidogion mewn adrannau eraill i weld sut y gallech sicrhau nad oes gennym wasanaethau sydd wedi eu

hynysu, yn enwedig o ystyried bod prosiect newydd a fydd yn cynnig siop un stop i bobl yn cael ei lansio heddiw yn Rhondda Cynon Taf?

**Carl Sargeant:** I can give the Member assurances that I speak to my Cabinet colleagues regularly on this issue. I work closely with the Minister for health in developing services. I met the chief constables of Wales this morning about rolling out a programme that will take a multi-agency, one-stop-shop approach to support. I know that the Member supports this in principle.

**Carl Sargeant:** Gallaf sicrhau'r Aelod fy mod yn siarad â'm cyd-Weinidogion yn y Cabinet yn rheolaidd ar y mater hwn. Rwyf yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Iechyd i ddatblygu gwasanaethau. Cefais gyfarfod â phrif gwnstabliaid Cymru y bore yma ynglŷn â chyflwyno rhaglen a fydd yn defnyddio dull siop un stop amlasiantaethol i gynnig cefnogaeth. Rwyf yn gwybod bod yr Aelod yn cefnogi hyn mewn egwyddor.

**Kirsty Williams:** Minister, victims of domestic abuse sometimes need to leave their home and access refuge accommodation as a matter of urgency, but they do not always have the funds to pay for transport. I recently saw a constituent whose nearest refuge would have been in Shrewsbury, but she had no financial resources to take her and her family there. There is also a family in south Wales that wishes to access a refuge in Powys, but again, has no funds to do so. Could you outline what help you can give to agencies that are assisting women to get to refuge accommodation with the cost of transporting the women and their families?

**Kirsty Williams:** Weinidog, o bryd i'w gilydd bydd angen i'r rheini sy'n dioddef cam-drin domestig adael eu cartrefi a defnyddio llety lloches ar frys. Ond, nid oes ganddynt bob amser yr arian i dalu am drafnidiaeth. Yn ddiweddar, gwelais etholwr lle mai yn Amwythig oedd ei lloches agosaf, ond nid oedd ganddi'r adnoddau ariannol i fynd â'i hun a'i theulu yno. Ceir teulu yn y de hefyd sy'n dymuno mynd i loches ym Mhowys, ond eto, nid oes ganddynt yr arian i wneud hynny. A allech ddweud pa help y gallwch ei roi i asiantaethau sy'n cynorthwyo menywod i gyrraedd llety lloches gyda'r costau sy'n gysylltiedig â chludo'r menywod a'u teuluoedd?

**Carl Sargeant:** This is part of the holistic view of service delivery. I am working with Welsh Women's Aid and other organisations that provide services, particularly around refuge. I recognise the difficulties that people face in having to leave what one would think of as the security of their home to go into the alien space of a safe house or refuge. This is about capacity, and I recognise the difficulty with that, so wherever I can, I seek to find end-year flexibility for capital spend, and these services are areas where I would be positive in my support.

**Carl Sargeant:** Mae hyn yn rhan o'r weledigaeth gyfannol ar gyfer darparu gwasanaethau. Rwyf yn gweithio gyda Cymorth i Ferched Cymru a mudiadau eraill sy'n darparu gwasanaethau, yn enwedig yng nghyswllt lloches. Rwyf yn cydnabod yr anawsterau sy'n wynebu pobl wrth iddynt orfod gadael eu cartrefi, sy'n fannau diogel i fod, a mynd i loches neu dŷ diogel cwbl ddieithr. Mae hyn yn ymwneud â chapasiti, ac rwyf yn cydnabod yr anawsterau sy'n gysylltiedig â hynny. Felly pryd bynnag y gallaf, byddaf yn ceisio dod o hyd i hyblygrwydd diwedd blwyddyn er mwyn cael cyfalaf i'w wario, ac mae'r gwasanaethau hyn yn feysydd y byddwn yn rhoi cefnogaeth gadarn iddynt.

**Joyce Watson:** Minister, I welcome your stated commitment to keeping women and children who are fleeing domestic abuse safe. How do you intend to spend the recently

**Joyce Watson:** Weinidog, rwyf yn croesawu eich ymrwymiad i gadw menywod a phlant sy'n ffoi rhag trais domestig yn ddiogel. Sut rydych yn bwriadu gwario'r £644,000 a

allocated £644,000 from your budget?

ddyrannwyd i'ch cyllideb yn ddiweddar?

**Carl Sargeant:** The Member again raises her support for these issues, and that support is shared by many in the Chamber. I again thank her for her continued commitment in support of this issue. With the end-year flexibility that gives me some capital spend, I will be looking to support Welsh Women's Aid and other organisations to enhance services right across Wales.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod unwaith eto yn mynegi ei chefnogaeth i'r materion hyn, ac mae nifer yn y Siambr yn rhannu'r gefnogaeth honno. Hoffwn ddiolch iddi unwaith eto am ei hymrwymiad parhaus yn cefnogi'r mater hwn. Gyda'r hyblygrwydd diwedd blwyddyn sy'n rhoi rhywfaint o gyfalaf imi ei wario, byddaf yn ceisio cefnogi Cymorth i Fenywod Cymru a mudiadau eraill i hybu gwasanaethau drwy Gymru benbaladr.

**Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol**

**Community Transport Concessionary Fares Initiative**

***4. Rhodri Glyn Thomas:*** *A oes unrhyw asesiad annibynnol wedi cael ei wneud o werth y Fenter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol ers adroddiad Capita Symonds yn 2008. OAQ(4)0113(LGC)*

***4. Rhodri Glyn Thomas:*** *Has any independent assessment been made of the merits of the Community Transport Concessionary Fares Initiative (CTCFI), since the Capita Symonds report of 2008. OAQ(4)0113(LGC)*

**Carl Sargeant:** The Welsh Government recently completed its own evaluation of the costs and usage of the community transport concessionary fares initiative over the six-year pilot phase. This evidenced issues with continuing with the scheme in its current form.

**Carl Sargeant:** Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei gwerthusiad ei hun o lefelau defnyddio a chostau'r fenter tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gymunedol yn ystod y cyfnod peilot chwe mlynedd. Roedd y dystiolaeth yn dangos bod problemau o ran parhau â'r cynllun ar ei ffurf bresennol.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch yn fawr, Weinidog, am yr esboniad hwnnw o'ch penderfyniad i wneud i ffwrdd â'r cynllun hwn ac wedyn ailfeddwl, gan benderfynu parhau ag ef. A oes modd inni weld yr adroddiad hwnnw er mwyn i Aelodau'r Cynulliad allu craffu ar yr adroddiad a'ch penderfyniad chi?

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you, Minister, for that explanation of your decision to abolish this initiative and then reconsider and continue with it. Is it possible for us to have sight of this report so that Assembly Members can scrutinise the report and your decision?

**Carl Sargeant:** I will see what information is available to share with Members. I am in discussions with the 15 pilot schemes, looking at them individually to see how we can sustain projects that are sustainable. The Member will be aware of some of the issues around the scheme, in which the average subsidy per journey shows a big variation across all 15 of the participating schemes, ranging from an average journey cost of £1.43 up to £26.06 per journey. That is not sustainable, and it is something that we have to do and decide on collectively in terms of taking the service forward.

**Carl Sargeant:** Edrychaf i weld pa wybodaeth sydd ar gael i'w rhannu gyda'r Aelodau. Rwyf wrthi'n cael trafodaethau gyda'r 15 cynllun peilot, ac yn edrych arnynt yn unigol i weld sut y gallwn gynnal prosiectau sy'n gynaliadwy. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o rai o'r problemau sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Mae'r cymhorthdal ar gyfartaledd fesul taith yn amrywio'n fawr ar draws pob un o'r 15 cynllun, gyda chost un daith ar gyfartaledd yn amrywio o £1.43 i £26.06. Nid yw hynny'n gynaliadwy, ac mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei wneud gan benderfynu ar y cyd sut y dylid bwrw

ymlaen â'r gwasanaeth.

**Russell George:** Minister, the central theme of the report is that the concessionary fares initiative has been successful. Yes, of course, efficiencies can be made by those delivering the projects through such things as improved vehicle procurement, but the clear benefits of the scheme are there to be seen. Do you agree with me—a simple ‘yes’, such as you gave Paul Davies, would be a nice answer—that instead of cutting back on the scheme, the Welsh Government should be exploring options to extend the scheme to cover local rail services or to provide taxi and community transport tokens on a national basis to improve the transport opportunities for older people who are unable to access bus services.

**Russell George:** Weinidog, thema ganolog yr adroddiad yw bod y fenter tocynnau teithio rhatach wedi bod yn llwyddiannus. Wrth gwrs, gall y rheini sy'n darparu'r prosiectau sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy wella dulliau caffael cerbydau er enghraifft, ond mae manteision pendant y cynllun yn amlwg. A ydych yn cytuno â mi—byddai 'ydw' syml fel yr ateb a gafodd Paul Davies gennych yn braf—y dylai Llywodraeth Cymru, yn hytrach na chrebachu’r cynllun, fod yn ystyried opsiynau i ehangu'r cynllun i gynnwys gwasanaethau rheilffyrdd lleol neu i ddarparu tocynnau tacsis a thrafnidiaeth gymunedol yn genedlaethol er mwyn gwella'r cyfleoedd teithio i bobl hŷn nad ydynt yn gallu defnyddio gwasanaethau bws?

2.30 p.m.

**Carl Sargeant:** Russell ‘shopping list’ George never ceases to amaze me in his contribution every week [*Laughter.*] The fact is that rolling out the scheme across Wales will cost £40 million. I am quite happy, if he wishes, to sacrifice his Newtown bypass scheme for the services that he mentioned, but I am not sure that he would want to do that.

**Carl Sargeant:** Mae Russell ‘rhestr siopa’ George yn dal i fy rhyfeddu yn ei gyfraniad bob wythnos [*Chwerthin.*] Y ffaith amdani yw y bydd cyflwyno'r cynllun ledled Cymru yn costio £40 miliwn. Rwyf yn ddigon bodlon, os yw'n dymuno, aberthu cynllun ffordd osgoi y Drenewydd ar gyfer y gwasanaethau y soniodd amdanynt, ond nid wyf yn siŵr a fyddai am imi wneud hynny.

**The Presiding Officer:** I am sure that that caused great hilarity, but could we keep the questions as short as the answers, please? That might be quite helpful.

**Y Llywydd:** Rwyf yn siŵr bod hynny wedi bod yn destun cryn ddoniolwch, ond a fyddai modd cadw'r cwestiynau mor fyr â'r atebion os gwelwch yn dda? Gallai hynny fod yn bur ddefnyddiol.

**Eluned Parrott:** Returning to the Capita Symonds report, which recommendations from that report have been adopted and on what basis were they selected?

**Eluned Parrott:** Gan ddychwelyd at adroddiad Capita Symonds, pa argymhellion o'r adroddiad hwnnw sydd wedi cael eu mabwysiadu, ac ar ba sail y cawsant eu dewis?

**Carl Sargeant:** You raise an interesting question. I have made an assessment of the report on the basis that the continuation of the scheme is unaffordable in its current format. That is why I have asked to speak with all of the organisations to assess how we can take this forward in the near future.

**Carl Sargeant:** Rydych yn codi cwestiwn diddorol. Rwyf wedi asesu'r adroddiad ar y sail nad yw'n fforddiadwy parhau â'r cynllun ar ei ffurf bresennol. Dyna pam rwyf wedi gofyn am gael siarad â phob un o'r sefydliadau i asesu sut y gallwn fwrw ymlaen â hyn yn y dyfodol agos.

### Blaenoriaethau ar gyfer y Gogledd

### Priorities for North Wales

***5. Kenneth Skates:*** A wnaiff y Gweinidog

***5. Kenneth Skates:*** Will the Minister outline

amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y gogledd dros y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0109(LGC)

his priorities for North Wales in the next twelve months. OAQ(4)0109(LGC)

**Carl Sargeant:** My priorities for the next 12 months for all parts of Wales are to deliver on our programme for government commitments to reduce poverty, to make our communities safer, and to support the delivery of effective and efficient public services that meet the needs of people in Wales.

**Carl Sargeant:** Fy mlaenoriaethau dros y 12 mis nesaf ar gyfer pob rhan o Gymru yw cyflawni'r ymrwymiadau yn ein rhaglen lywodraethu i leihau tlodi, i wneud ein cymunedau'n fwy diogel, ac i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.

**Kenneth Skates:** That is excellent. As you know, millions of pounds are to be spent in my constituency on upgrading roads, particularly those that are classed as B and C roads, which are in need of work. That will please many constituents as it is often a major bugbear of many in Wrexham and Denbighshire, causing them significant time delays and often expense in terms of car repairs. As local authorities look to improve their minor road networks, what support can the Welsh Government offer and what scope is there in terms of supplementing local councils’ prudential or borrowing powers to invest in the local transport infrastructure?

**Kenneth Skates:** Mae hynny’n rhagorol. Fel y gwyddoch, bwriedir gwario miliynau o bunnoedd yn fy etholaeth ar uwchraddio ffyrdd, yn enwedig y rheini sy'n cael eu categoreiddio yn ffyrdd B ac C, y mae angen gwneud gwaith arnynt. Bydd hynny'n plesio nifer o'm hetholwyr gan fod hyn yn aml yn boen i lawer o bobl yn Wrecsam a sir Ddinbych, ac yn golygu cryn dipyn o oedi a chostau trwsio ceir iddynt. Wrth i awdurdodau lleol fynd ati i wella cyflwr eu rhwydweithiau ffyrdd llai, pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig a beth yw'r cwmpas o ran ychwanegu at bwerau benthyca neu faterion ariannol cynghorau lleol i fuddsoddi yn y seilwaith trafnidiaeth lleol?

**Carl Sargeant:** As you will be aware, in Wales, we are investing in our public services and local authorities, as opposed to what is happening in England. The local government borrowing initiative will make available £240 million over the next 22 years to allow local authorities to invest around £170 million over the next three years in road infrastructure and highway improvements. You clearly recognise the infrastructure improvements supported by the Welsh Government. Working in collaboration with local government is the way to move forward to get the best value for money for the people of Wales.

**Carl Sargeant:** Fel y gwyddoch, yng Nghymru, rydym yn buddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus ac yn ein hawdurdodau lleol, yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Bydd y fenter benthyca llywodraeth leol yn darparu £240 miliwn dros y 22 mlynedd nesaf i alluogi awdurdodau lleol i fuddsoddi oddeutu £170 miliwn mewn seilwaith ffyrdd a gwelliannau priffyrdd dros y tair blynedd nesaf. Rydych yn amlwg yn cydnabod y gwelliannau seilwaith a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Gweithio ar y cyd gyda llywodraeth leol yw'r ffordd o symud ymlaen i gael y gwerth gorau am arian i bobl Cymru.

**Janet Finch-Saunders:** What mechanisms are you putting in place to ensure greater transparency and accountability in all areas of local government working?

**Janet Finch-Saunders:** Pa systemau rydych yn eu rhoi ar waith i sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd ym mhob maes gwaith llywodraeth leol?

**Carl Sargeant:** Local authorities are answerable to the electorate and to elected Members. The freedom of information system allows people to access information

**Carl Sargeant:** Mae awdurdodau lleol yn atebol i'r etholwyr ac i Aelodau etholedig. Mae'r system rhyddid gwybodaeth yn caniatáu i bobl gael gafael ar wybodaeth na

that would not normally be publicly available. I am happy that authorities in Wales are complying with the objective of providing transparency for the public across Wales.

fyddai ar gael i'r cyhoedd fel arfer. Rwyf yn fodlon bod awdurdodau Cymru yn cydymffurfio â'r amcan o sicrhau tryloywder i'r cyhoedd ledled Cymru.

**Janet Finch-Saunders:** I will take that answer as a bit of a ‘no’ in response to my direct question. The Localism Act 2011 is a well-known, proven and effective piece of legislation that has been given Royal Assent. It is already working well for residents of the UK by, for example, publishing expenditure over £500 and allowing small companies to bid for work with a value of up to £25,000. It also ensures that local developers apply to and approach local authorities to discuss large planning applications. The recent prayer debacle is another example of how the Act helped to ensure that those kinds of rights, afforded to people to be able to pray before a meeting—

**Janet Finch-Saunders:** Cymeraf yr ateb hwnnw fel 'na' fwy neu lai fel ymateb i'm cwestiwn uniongyrchol. Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn ddarn o ddeddfwriaeth lwyddiannus, effeithiol a chyfarwydd iawn sydd wedi cael Cydsyniad Brenhinol. Mae eisoes yn gweithio'n dda i breswylwyr y DU, er enghraifft o ran cyhoeddi gwariant dros £500 a chaniatáu i gwmnïau bach wneud cais am waith gyda gwerth o hyd at £25,000. Mae hefyd yn sicrhau bod datblygwyr lleol yn cysylltu ag awdurdodau lleol ac yn mynd atynt i drafod ceisiadau cynllunio mawr. Mae'r helynt diweddar ynglŷn â gweddïo yn enghraifft arall o sut mae'r Ddeddf wedi helpu i sicrhau bod y mathau hynny o hawliau, fel yr hawl i allu gweddïo cyn cyfarfod—

**The Presiding Officer:** Order. Are you coming to a question?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych yn agosáu at ofyn cwestiwn?

**Janet Finch-Saunders:** Yes. Those are all good examples of effective and transparent accountability in local government, but the Welsh Government has taken on very few aspects and parts of that Act. Will you review that decision so that the people of Wales have greater transparency and accountability across local government?

**Janet Finch-Saunders:** Ydw. Mae'r rhain i gyd yn enghreifftiau da o atebolrwydd effeithiol a thryloyw mewn llywodraeth leol, ond dim ond ychydig iawn o rannau ac elfennau o'r Ddeddf honno y mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â hwy. A edrychwch ar y penderfyniad hwnnw fel bod gan bobl Cymru fwy o dryloywder ac atebolrwydd ar draws llywodraeth leol?

**Carl Sargeant:** Perhaps the Member should be more interested in the economy and building the economy of Wales as opposed to the issue of praying and publishing details of expenditure over £500 for the public. What this Government is about is improving the economy, making sure that people have jobs and opportunities for the future. The micromanagement of local government is not what I will be doing, and the Member should consider her views on that. Rather than concentrating on what happening in England, she should think about what is happening in Wales.

**Carl Sargeant:** Efallai y dylai'r Aelod ddangos mwy o ddiddordeb yn yr economi ac yn y gwaith o adeiladu economi Cymru yn hytrach nag mewn achosion o weddïo a chyhoeddi manylion gwariant dros £500 ar gyfer y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hon yn anelu at wella'r economi, gan sicrhau bod pobl yn cael swyddi a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Ni fyddaf fi'n microreoli llywodraeth leol, a dylai'r Aelod ystyried ei safbwyntiau ynghylch hynny. Yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, dylai feddwl am yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru.

**Llyr Huws Gruffydd:** Byddwch chi’n ymwybodol, Weinidog, fod nifer o

**Llyr Huws Gruffydd:** You will be aware, Minister, that a number of local councils

gynghorau lleol ar draws y gogledd wedi bod yn ymgynghori'n helaeth dros y blynyddoedd bellach gyda'r cyhoedd a mudiadau amrywiol ynglŷn â chynlluniau datblygu lleol. Yn Wrecsam, Conwy ac yn sir Ddinbych, mae'r arolygydd cynllunio wedi mynnu bod yn rhaid codi mwy o dai na'r hyn y mae'r cynghorau, a'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli, yn ei ddymuno. Onid yw hyn yn tanseilio mandad democrataidd y cynghorau hynny? Beth fyddech chi'n awgrymu y dylai'r cynghorau hynny ei wneud?

across the north have been consulting widely over the years with the public and various organisations about local development plans. In Wrexham, Conwy and Denbighshire, the planning inspector has insisted that more houses must be constructed than the councils, and the communities they represent, actually wish to see built. Does this not undermine the democratic mandate of these councils? What would you suggest that these councils should do?

**Carl Sargeant:** These issues are a matter for the Minister with responsibility for planning and are not in my remit.

**Carl Sargeant:** Materion i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio yw'r rhain ac nid ydynt yn rhan o'm cylch gwaith i.

**Aled Roberts:** Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r bygythiad gan gwmni bysiau Arriva yn y gogledd i gyflwyno bysiau 14 oed o Lundain yn hytrach na bysiau modern. A yw hi'n flaenoriaeth gennych chi yn ystod y flwyddyn nesaf i gyflwyno cynllun ariannu a rheoleiddiol ar gyfer y diwydiant bysus yng Nghymru?

**Aled Roberts:** I am sure that you are aware of the threat by the bus operator Arriva to introduce in north Wales 14-year-old buses from London rather than modern buses. Is it your priority over the next year to introduce a funding and regulation scheme for the bus industry in Wales?

**Carl Sargeant:** I am hoping to develop a new relationship with bus operators in terms of the way in which we fund services for Wales. I also share the Member's disappointment that we are to receive second-hand buses from London; those are certainly not the kind of services I would be seeking to procure.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn gobeithio datblygu perthynas newydd gyda gweithredwyr bysiau o ran sut rydym yn ariannu gwasanaethau ar gyfer Cymru. Rwyf finnau, fel yr aelod, yn siomedig ein bod am dderbyn bysiau ail-law o Lundain; yn bendant nid y mathau hynny o wasanaethau y byddwn am eu caffael.

### Y Lluoedd Arfog

### The Armed Forces

***6. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau a ddarperir i aelodau o'r lluoedd arfog. OAQ(4)0114(LGC)*

***6. Jocelyn Davies:*** *Will the Minister make a statement on the provision of services to members of the armed forces. OAQ(4)0114(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for South Wales East for her question. Our package of support for the armed forces community in Wales reaffirms our continuing commitment to their welfare. We want to ensure that the armed forces community has access to services that meets its specific needs, and that that community is not disadvantaged.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru am ei chwestiwn. Mae ein pecyn cymorth ar gyfer cymuned y lluoedd arfog yng Nghymru yn cadarnhau ein hymrwymiad parhaus i'w lles. Rydym am sicrhau bod cymuned y lluoedd arfog yn cael mynediad at wasanaethau sy'n diwallu ei hanghenion penodol, ac nad yw'r gymuned honno o dan anfantais.

**Jocelyn Davies:** The All-Wales Veterans Health and Wellbeing Service is calling for a national register of charities offering mental

**Jocelyn Davies:** Mae Gwasanaeth Iechyd a Lles Cymru Gyfan ar gyfer Cyn-filwyr yn galw am gofrestr genedlaethol o elusennau

health treatment for former members of the armed forces. This is in an effort to ensure common standards and consistent use of proven treatments. What is your view?

sy'n cynnig triniaeth iechyd meddwl i gyn-aelodau'r lluoedd arfog. Mae hyn yn ymdrech i sicrhau safonau cyffredin ac i wneud yn siŵr bod triniaethau sydd wedi'u profi yn cael eu defnyddio'n gyson. Beth yw eich barn chi?

**Carl Sargeant:** I share the view that we should have a better understanding of the services that the third sector provides. When we are clearer on that, we can consider whether we as a Welsh Government should procure some of our services through these organisations. I would welcome a common understanding of which services are available.

**Carl Sargeant:** Rwyf finnau o'r farn y dylem gael gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau y mae'r trydydd sector yn eu darparu. Pan fyddwn yn gliriach ynghylch hynny, gallwn bwyso a mesur a ddylem ni fel Llywodraeth Cymru gaffael rhai o'n gwasanaethau drwy'r mudiadau hyn. Byddwn yn croesawu dealltwriaeth gyffredin ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael.

**Mohammad Asghar:** The terrible loss of six gallant armed forces personnel in Afghanistan last week reminds us of the enormous debt that we owe to the men and women serving in our armed forces. The Welsh Conservatives believe that we should recognise that debt by providing our war heroes with services such as free bus travel and free entry to swimming pools and Cadw sites, as well as providing priority NHS care for those with service-related conditions. Will the Minister provide us with the details of the Welsh Government expert group and say what progress has been made in delivering such benefits to members of our armed forces in Wales?

**Mohammad Asghar:** Mae'r golled enbyd a gawsom, wrth i chwe aelod dewr o'r lluoedd arfog gael eu lladd yn Affganistan yr wythnos diwethaf, yn ein hatgoffa bod ein dyled yn fawr i'r dynion a'r menywod sy'n gwasanaethu yn ein lluoedd arfog. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig o'r farn y dylem gydnabod y ddyled honno drwy roi i'n harwyr rhyfel wasanaethau fel teithio am ddim ar fysiau a mynediad am ddim i byllau nofio a safleoedd Cadw, yn ogystal â darparu gofal blaenoriaethol gan y GIG i'r rheini â chyflyrau sy'n gysylltiedig â gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. A wnaiff y Gweinidog roi manylion grŵp arbenigol Llywodraeth Cymru inni a dweud pa gynnydd a wnaed o ran darparu buddion o'r fath i aelodau ein lluoedd arfog yng Nghymru?

**Carl Sargeant:** First, I place on record the Welsh Government's great sadness regarding the loss of service personnel in Afghanistan in recent weeks. I refer the Member to the Welsh Government package of support commitments; it is a comprehensive document that will show the Member exactly what services the Welsh Government provides in terms of the Welsh element of packages of support. Again, the minutes of the armed forces ministerial advisory group are available on the website, and I will ensure that the Member has access to them for his information.

**Carl Sargeant:** Yn gyntaf, hoffwn gofnodi tristwch mawr Llywodraeth Cymru ynghylch colli aelodau o'r lluoedd arfog yn Affganistan yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cyfeiriaf yr Aelod at ymrwymiadau pecyn cymorth Llywodraeth Cymru; mae'n ddogfen gynhwysfawr a fydd yn dangos i'r Aelod pa wasanaethau'n union y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu o ran elfen Cymru o'r pecynnau cymorth. Unwaith eto, mae cofnodion grŵp cynghori'r gweinidog ar y lluoedd arfog ar gael ar y wefan, a byddaf yn sicrhau bod yr Aelod yn cael mynediad atynt er gwybodaeth iddo.

### Cyfleusterau Hamdden

### Leisure Facilities

***7. Bethan Jenkins:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu gofynion awdurdodau lleol ar gyfer darparu cyfleusterau hamdden.*

***7. Bethan Jenkins:*** *Will the Minister outline local authority requirements for providing leisure facilities. OAQ(4)0106(LGC)*

*OAQ(4)0106(LGC)*

**Carl Sargeant:** There is no statutory requirement for local authorities to provide leisure facilities. However, they have a social responsibility to promote the health and wellbeing of the residents within their communities.

**Carl Sargeant:** Nid oes unrhyw ofyniad statudol i awdurdodau lleol ddarparu cyfleusterau hamdden. Fodd bynnag, mae ganddynt gyfrifoldeb cymdeithasol i hybu iechyd a lles y trigolion yn eu cymunedau.

**Bethan Jenkins:** Diolch am yr ymateb. Y broblem gyda'r ffaith nad oes gofyniad statudol yw bod pobl yn fy ardal, yn ardal Aberafan, yn poeni'n fawr am y datblygiadau, neu ddiffyg datblygiadau, yn yr ardal a bod lefelau ffitrwydd yn dioddef yn sgîl hynny. A fyddai modd i chi drafod y mater gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn sicrhau, os na fydd canllawiau statudol yn gallu cael eu datblygu, fod mwy o bwysau ar y cyngor lleol i weithredu'n bositif ar y mater?

**Bethan Jenkins:** Thank you for that response. The problem with the fact that there is no statutory requirement is that people in my area, in Aberavon, are deeply concerned about developments, or lack of developments, in the region and that fitness levels are suffering as a result. Could you discuss this issue with the Welsh Local Government Association in order to ensure, if statutory guidance is not to be developed, that more pressure is placed on local councils to take positive action in this area?

**Carl Sargeant:** The Member raises an important point about what is statutory and what is not. The current issue for me is the provision of statutory services requested and required by the Government and how authorities are able to complete that agenda. I will discuss with Cabinet colleagues how to move this forward, but what is important for me is ensuring that local authorities provide the services they are expected to, whether that is on a regional, national or local basis.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig am yr hyn sy'n statudol a'r hyn nad yw'n statudol. Y mater i mi ar hyn o bryd yw darparu'r gwasanaethau statudol sy'n ofynnol yn unol â chais y Llywodraeth, a sut y gall awdurdodau gyflawni'r agenda honno. Byddaf yn trafod gyda chyd-Weinidogion yn y Cabinet sut i symud hyn yn ei flaen, ond yr hyn sy'n bwysig i mi yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu'r gwasanaethau y disgwylir iddynt eu darparu, boed hynny ar sail ranbarthol, genedlaethol neu leol.

**David Rees:** Neath Port Talbot County Borough Council has created a successful not-for-profit organisation to run its leisure services while the estate remains under the ownership of the authority. This includes several premises across the authority, including a fitness centre 50m from the location of the old Afan Lido. The Afan Lido, which was destroyed by fire, is to be replaced with a new pool and sports complex. Do you agree that, when building new leisure facilities, it is important for local authorities to undertake a full consultation process with citizens to ensure that the facilities meet demand and are viable?

**David Rees:** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi creu mudiad di-elw llwyddiannus i redeg ei wasanaethau hamdden tra mae'r ystâd yn aros o dan berchnogaeth yr awdurdod. Mae hyn yn cynnwys nifer o safleoedd ar draws yr awdurdod, gan gynnwys canolfan ffitrwydd 50m o leoliad yr hen Afan Lido. Bydd yr Afan Lido, a ddinistriwyd gan dân, yn cael ei ddisodli gan ddatblygiad chwaraeon a phwll nofio newydd. A ydych yn cytuno, wrth adeiladu cyfleusterau hamdden newydd, ei bod yn bwysig i awdurdodau lleol ymgymryd â phroses ymgynghori lawn â'r dinasyddion er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau'n ateb y galw a'u bod yn ymarferol?

**Carl Sargeant:** That is a matter for the local authority. However, good consultation provides good services. On the planning

**Carl Sargeant:** Mater i'r awdurdod lleol yw hwnnw. Fodd bynnag, mae proses ymgynghori dda yn arwain at ddarparu

policy aspect, consultation should be part of that proposal.

gwasanaethau da. O ran yr elfen polisi cynllunio, dylai proses ymgynghori fod yn rhan o'r cynnig hwnnw.

**Antoinette Sandbach:** Minister, a number of constituents in Beaumaris have contacted me regarding a situation at the town’s leisure centre. The nearby council car park has introduced pay-and-display parking despite the facilities being shared with the local GP surgery. Given that this development has resulted in significant recurring costs for the users of the surgery, can you confirm what guidance you have issued to local authorities about how public parking facilities can be better shared between public and private bodies so that members of the public are not discouraged further from visiting and using town centres and the facilities they provide?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, mae nifer o etholwyr ym Miwmares wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r sefyllfa yng nghanolfan hamdden y dref. Mae maes parcio'r cyngor sydd gerllaw wedi cyflwyno system talu ac arddangos ar gyfer parcio er gwaethaf y ffaith bod y cyfleusterau'n cael eu rhannu gyda’r feddygfa leol. O ystyried bod y datblygiad hwn wedi arwain at gryn dipyn o gostau rheolaidd i'r rheini sy'n mynd i'r feddygfa, a allwch gadarnhau pa ganllawiau rydych wedi'u rhoi i awdurdodau lleol ynghylch sut y gellir mynd ati’n well i rannu cyfleusterau parcio cyhoeddus rhwng cyrff cyhoeddus a phreifat fel nad yw aelodau'r cyhoedd yn digalonni ac yn peidio â defnyddio ac ymweld â chanol trefi a'r cyfleusterau a ddarperir ganddynt?

**Carl Sargeant:** I do not recall issuing any recent guidance on this issue. I will look into the matter and inform the Member, but this is a matter for determination by the local authority and town and community councils.

**Carl Sargeant:** Nid wyf yn cofio cyhoeddi unrhyw ganllawiau diweddar ar y mater hwn. Edrychaf ar y mater a hysbysu'r Aelod, ond mater i’r awdurdod lleol a’r cynghorau tref a chymuned benderfynu arno yw hwn.

### Trafnidiaeth yng Nghwm Cynon

### Transport in Cynon Valley

***8. Christine Chapman:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella trafnidiaeth yng Nghwm Cynon. OAQ(4)0108(LGC)*

***8. Christine Chapman:*** *What is the Welsh Government doing to improve transport in the Cynon Valley. OAQ(4)0108(LGC)*

**Carl Sargeant:** I am committed to improving congestion and safety on the A470 northbound approach to the Abercynon roundabout, which will improve access to the A4059 and wider Cynon Valley. Construction work has started on site and will be completed during 2012.

**Carl Sargeant:** Rwyf wedi ymrwymo i wella tagfeydd a diogelwch wrth nesáu at gylchfan Abercynon i gyfeiriad y gogledd ar yr A470. Bydd hyn yn gwella mynediad at yr A4059 ac at Gwm Cynon yn gyffredinol. Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar y safle, a bydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2012.

**Christine Chapman:** That is welcome, but the ‘Access Denied’ report suggests that 50% to 60% of people in my constituency face transport poverty. Historically, in Cynon Valley, many constituents have faced problems with local transport networks. A project that will go some way to addressing that is the new range rider service that offers a flexible door-to-door dial-a-ride travel scheme for all ages in Cynon Valley and the surrounding areas. The service is run by

**Christine Chapman:** Mae hynny i'w groesawu, ond mae'r adroddiad ‘Access Denied’ yn awgrymu bod 50 y cant i 60 y cant o bobl yn fy etholaeth yn wynebu tlodi trafnidiaeth. Yn hanesyddol, yng Nghwm Cynon, mae llawer o etholwyr wedi wynebu problemau gyda rhwydweithiau trafnidiaeth lleol. Un prosiect a fydd yn gwneud llawer i roi sylw i hynny yw’r gwasanaeth galw’r gyrrwr newydd sy’n cynnig cynllun teithio hyblyg o ddrws i ddrws i bobl o bob oed yng

Accessible Caring Transport and it, like many other groups, is awaiting news on the future of the community transport concessionary fares initiatives. When will you be in a position to provide that news?

Nghwm Cynon a'r dalgylch. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan Accessible Caring Transport ac mae'r grŵp hwnnw, fel sawl un arall, yn aros am newyddion am ddyfodol y fenter tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gymunedol. Pryd y byddwch mewn sefyllfa i ddarparu'r newyddion hynny?

**Carl Sargeant:** As I said in response to an earlier question, I am working with local authorities and concessionary community travel operators. I am aware of the range rider service, which is a very popular service. I do not wish to pre-empt the discussions we are having with organisations, but I am aware of opportunities under section 22 of the Transport Act 1985 that will enable bus operators to receive concessionary fare services. I understand that the range rider service is exploring that opportunity with my officials.

**Carl Sargeant:** Fel y dywedais wrth ymateb i gwestiwn yn gynharach, rwyf yn gweithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr teithiau cymunedol sy'n cynnig gwasanaeth am bris rhatach. Rwyf yn gwybod am y gwasanaeth galw'r gyrrwr, sy'n wasanaeth poblogaidd iawn. Nid wyf yn dymuno achub y blaen ar y trafodaethau rydym yn eu cael gyda sefydliadau, ond gwn am gyfleoedd o dan adran 22 Deddf Trafnidiaeth 1985 a fydd yn galluogi gweithredwyr bysiau i dderbyn gwasanaethau tocynnau rhatach. Rwyf yn deall bod y gwasanaeth yn edrych ar y cyfle hwnnw gyda fy swyddogion.

**Andrew R.T. Davies:** Cynon Valley is a key part of the South Wales Central region. One of the key transport assets in that region is Cardiff Airport. Yesterday, the First Minister said that he would be disinclined to encourage people to come through Cardiff Airport because of its state. Minister, what do you think is wrong with Cardiff Airport that would deter the First Minister of Wales from promoting its use?

**Andrew R.T. Davies:** Mae Cwm Cynon yn rhan allweddol o ranbarth Canol De Cymru. Un o'r prif asedau trafnidiaeth yn y rhanbarth hwnnw yw Maes Awyr Caerdydd. Ddoe, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n amharod i annog pobl i ddod drwy Faes Awyr Caerdydd oherwydd ei gyflwr. Beth yn eich barn chi Weinidog sydd o'i le ar Faes Awyr Caerdydd a fyddai'n atal Prif Weinidog Cymru rhag annog pobl i'w ddefnyddio?

2.45 p.m.

**Carl Sargeant:** I share the views of the First Minister.

**Carl Sargeant:** Rwyf o'r un farn â'r Prif Weinidog.

**Leanne Wood:** Back to transport matters in the Cynon Valley, last year, the reopening of the passenger railway line between Aberdare and Hirwaun was announced in the Welsh Government's 2011-12 capital programme. Since then, we have not heard anything or seen any evidence of work taking place or work about to take place. The people at the top of the Cynon Valley are essentially isolated during out-of-peak hours unless they own a car. Capital projects like this could be brought forward to boost employment and the economy, which we know, from statistics released today and yesterday, is vitally needed. Do you have any plans to resurrect

**Leanne Wood:** Gan fynd yn ôl at faterion trafnidiaeth yng Nghwm Cynon, y llynedd, cyhoeddwyd yn rhaglen gyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-12 y byddai'r rheilffordd i deithwyr rhwng Aberdâr a Hirwaun yn cael ei hailagor. Ers hynny, nid ydym wedi clywed dim byd nac wedi gweld unrhyw dystiolaeth o waith ar y gweill neu ar fin dechrau. Oni bai eu bod yn berchen ar gar, mae'r bobl ym mhen uchaf Cwm Cynon yn cael eu hynysu i bob pwrpas pan nad yw'n oriau brig. Gallai prosiectau cyfalaf fel y rhain gael eu dwyn ymlaen er mwyn hybu cyflogaeth a'r economi. O ystyried yr ystadegau a gyhoeddwyd ddoe a heddiw,

the Hirwaun to Aberdare rail link anytime soon?

gwyddom y ceir angen dirfawr am hynny. A oes gennych unrhyw gynlluniau i atgyfodi'r cyswllt rheilffordd rhwng Hirwaun ac Aberdâr yn y dyfodol agos?

**Carl Sargeant:** I will write to the Members with details.

**Carl Sargeant:** Ysgrifennaf at yr Aelodau gyda'r manylion.

**Tlodi Trafnidiaeth**

**Transport Poverty**

***9. Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dlodi trafnidiaeth. OAQ(4)0116(LGC)*

***9. Darren Millar:*** *Will the Minister make a statement on transport poverty. OAQ(4)0116(LGC)*

**Carl Sargeant:** There is no formal definition of transport poverty as a percentage of someone's income, but it is seems clear that private transport is becoming more unaffordable for those on low incomes.

**Carl Sargeant:** Nid oes diffiniad ffurfiol o dlodi trafnidiaeth fel canran o incwm unigolyn, ond mae'n amlwg i bob golwg bod trafnidiaeth breifat yn dod yn fwyfwy anodd ei fforddio i'r rheini ar incwm isel.

**Darren Millar:** You will be aware that a quarter of households in Wales do not have a car, including two-thirds of single pensioner households. In my constituency of Clwyd West, with its significant rural profile, there is a large community of older people who need public transport to get around. One of the difficulties faced by local authorities, particularly in rural areas, is providing public services across very thinly populated areas. Given those challenges to Welsh local authorities, what support are you giving, within the local government funding formula, to recognise the difficulty of providing services in rural places like Conwy and Denbighshire?

**Darren Millar:** Byddwch yn gwybod nad oes gan chwarter y cartrefi yng Nghymru gar, gan gynnwys dwy ran o dair o gartrefi ag un pensiynwr yn byw ynddynt. Yn fy etholaeth i, Gorllewin Clwyd, sy'n wledig iawn, ceir cymuned fawr o bobl hŷn y mae angen trafnidiaeth gyhoeddus arnynt i fynd o le i le. Un o'r anawsterau a wynebir gan awdurdodau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yw darparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws ardaloedd â phoblogaeth denau iawn. O ystyried y sialensiau hynny i awdurdodau lleol Cymru, pa gymorth rydych yn ei roi, o fewn y fformiwla ariannu llywodraeth leol, i gydnabod pa mor anodd yw darparu gwasanaethau mewn lleoedd gwledig fel Conwy a sir Ddinbych?

**Carl Sargeant:** As the Member is very aware, the formula and determination for by the 22 authorities has a rural sparsity element in it. It is about delivering services appropriately in those areas. Proportionally, more funding is allocated to rural regions as a result of the weighting element. I recognise the issues that the Member raises and our policies around concessionary fares, the Wales transport entitlement card, free rail travel in certain areas, of which the Member will also be aware, which helps in rural areas, particularly on the Heart of Wales line and so on, all have an impact on transport poverty. It is something that I continue to be aware of and will continue to act upon, but the difficulty with my budget has an impact upon

**Carl Sargeant:** Fel y gŵyr yr Aelod yn iawn, mae elfen teneurwydd gwledig yn perthyn i fformiwla a mesur pob un o'r 22 awdurdod. Mae'n ymwneud â darparu gwasanaethau'n briodol yn yr ardaloedd hynny. Ar gyfartaledd, bydd rhagor o arian yn cael ei ddyrannu i ardaloedd gwledig o ganlyniad i'r elfen bwysoli. Rwyf yn cydnabod y materion y mae'r Aelod yn eu codi ac mae ein polisïau sy'n ymwneud â thocynnau teithio rhatach, cerdyn hawliau teithio Cymru, hawl i deithio ar y trên am ddim mewn rhai ardaloedd—y bydd yr Aelod hefyd yn gwybod amdanynt—sy'n helpu mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig ar reilffordd Calon Cymru ac yn y blaen, i gyd yn effeithio ar dlodi trafnidiaeth. Mae'n

my decisions in taking this forward. I thank the Member for raising it with me.

rhywbeth yr wyf yn dal yn ymwybodol ohono ac y byddaf yn parhau i weithredu arno, ond mae'r anhawster gyda fy nghyllideb yn effeithio ar fy mhenderfyniadau wrth fwrw ymlaen â hyn. Diolch i'r Aelod am godi'r mater hwn gyda mi.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, mae elusennau wedi ein rhybuddio y bydd hyd at 1 filiwn o bobl yng Nghymru yn wynebu tlodi ynni oherwydd bod costau'n cynyddu yng nghyd-destun trafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth breifat. Beth ydych yn ei wneud yn wyneb yr her fawr honno?

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, charities have warned us that up to 1 million people in Wales will face fuel poverty because costs are increasing in the context of both public and private transport. What are you doing in the face of this huge challenge?

**Carl Sargeant:** The Member will be aware of many proposals, which include bringing forward the walking and cycling schemes, as well as the new Bill that will give people the opportunity to use alternative methods of travel, sustainable travel centres and personal travel planning programmes. All of these will help in aiding people to combat the difficulty that they face with regard to fuel poverty in Wales and the UK.

**Carl Sargeant:** Bydd yr Aelod yn gwybod am nifer o gynigion, gan gynnwys cyflwyno'r cynlluniau cerdded a beicio, yn ogystal â'r Bil newydd a fydd yn rhoi cyfle i bobl ddefnyddio dulliau eraill o deithio, canolfannau teithio cynaliadwy a rhaglenni cynllunio teithiau personol. Bydd pob un o'r rhain yn helpu i gynorthwyo pobl i fynd i'r afael â'r anawsterau y maent yn eu hwynebu o ran tlodi tanwydd yng Nghymru ac yn y DU.

**Rhodri Glyn Thomas:** A ydych yn dweud, Weinidog, mai eich ateb i'r her fawr hon yw Bil sy'n ymwneud â cherdded a beicio? Nid yw hynny'n addas i bawb—nid wyf yn siŵr a yw'n addas i chi, fel Gweinidog. Onid oes angen inni fuddsoddi'n sylweddol mewn trafnidiaeth gyhoeddus i wynebu'r her hon, ac onid y gwir yw bod eich cyllideb chi dros y blynyddoedd nesaf yn lleihau, ac na fydd modd i chi fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus?

**Rhodri Glyn Thomas:** Are you telling us, Minister, that your response to this challenge is a Bill involving walking and cycling? That is not suitable for all people—I do not know whether it is suitable for you, as a Minister. Is there not a need for significant investment in public transport to address this challenge, and is it not true that your budget for the coming years will be reducing and that it will not be possible for you to invest in public transport?

**Carl Sargeant:** No, I do not believe that. The fact of the matter is that we will need a review of what services we provide for people, whether they are integrated bus services, concessionary fares or community travel. All of these issues have to be brought together in providing a new service. When the Member was a member of the One Wales Government, he would have been aware of my budget conditions and of how this can be taken forward in the future. It is a very challenging time, but I would welcome his support with regard to the transition of services and in making the very difficult decisions that I have to make, but with an eye on making an important improvement to the

**Carl Sargeant:** Na, nid wyf yn credu hynny. Y gwir amdani yw y bydd arnom angen adolygu pa wasanaethau rydym yn eu darparu i bobl, p'un ai a ydynt yn wasanaethau bws integredig, yn docynnau teithio rhatach neu'n deithio cymunedol. Rhaid i'r holl faterion hyn gael eu dwyn ynghyd i ddarparu gwasanaeth newydd. Pan oedd yr Aelod yn aelod o Lywodraeth Cymru'n Un, byddai wedi bod yn ymwybodol o amodau fy nghyllideb ac o'r modd y gellir datblygu hyn yn y dyfodol. Mae'n gyfnod heriol iawn, ond byddwn yn croesawu ei gefnogaeth wrth bontio gwasanaethau ac wrth wneud y penderfyniadau anodd iawn y mae'n rhaid imi eu gwneud, ond gyda golwg ar sicrhau

infrastructure of Wales and to the public services that his and my constituents can and should expect for the future.

gwelliannau pwysig i seilwaith Cymru ac i'r gwasanaethau cyhoeddus y dylai ac y gall ei etholwyr ef a minnau eu disgwyl ar gyfer y dyfodol.

**Blaenoriaethau ar gyfer Canol De Cymru**

**Priorities for South Wales Central**

***10. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau portffolio ar gyfer rhanbarth Canol De Cymru dros y flwyddyn ariannol nesaf. OAQ(4)0107(LGC)*

***10. Andrew R.T. Davies:*** *Will the Minister outline his portfolio priorities for the South Wales Central region for the coming financial year. OAQ(4)0107(LGC)*

**Carl Sargeant:** My priorities for the next 12 months are to deliver on our programme for government commitments to reduce poverty, to make our communities safer, and to support the delivery of effective and efficient public services that meet the needs of the people of Wales.

**Carl Sargeant:** Fy mlaenoriaethau dros y 12 mis nesaf yw cyflawni ymrwymiadau ein rhaglen lywodraethu i leihau tlodi, i wneud ein cymunedau'n fwy diogel, ac i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer, Minister. One thing that greatly enhances people’s prospects is better transport options and better transport facilities. I congratulate the Minister for joining the all-party group in Westminster on Monday to talk with colleagues there about a metro system for south Wales. After that meeting, is the Minister able to inform us of what conclusions he has reached?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Un peth sy'n gwella rhagolygon pobl yn ddirfawr yw gwell opsiynau o ran trafnidiaeth a gwell cyfleusterau trafnidiaeth. Rwyf yn llongyfarch y Gweinidog am ymuno â'r grŵp hollbleidiol yn San Steffan ddydd Llun i siarad gyda’i gyd-Aelodau yn y fan honno am system metro ar gyfer y de. Ar ôl y cyfarfod hwnnw, a all y Gweinidog roi gwybod inni am ei gasgliadau?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his personal support and his party’s support at the meeting of the all-party group on the rail infrastructure of Wales. The Member is right to raise this important issue at this time, as decisions will be made on it by the Secretary of State for Transport in the coming months. Our business cases support the electrification of all of the Valleys lines, including the Vale of Glamorgan, Ebbw Vale and Bridgend links, as well as the full electrification of the line to Swansea. I hope that the Secretary of State for Transport will acknowledge our collective business cases and the support of all parties, and make the right decision for the people of Wales.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gefnogaeth bersonol ac am gefnogaeth ei blaid yng nghyfarfod y grŵp hollbleidiol ar seilwaith rheilffyrdd Cymru. Mae'r Aelod yn llygad ei le i godi'r mater pwysig hwn ar yr adeg hon, gan y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn gwneud penderfyniadau ynghylch y mater yn ystod y misoedd nesaf. Mae ein hachosion busnes yn cefnogi trydaneiddio holl reilffyrdd y Cymoedd, gan gynnwys cysylltiadau Bro Morgannwg, Glyn Ebwy a Phen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â thrydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe yn llawn. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn cydnabod ein cyd-achosion busnes a chefnogaeth yr holl bleidiau, ac yn gwneud y penderfyniad cywir ar gyfer pobl Cymru.

**Vaughan Gething:** At the successful all-party lobby in Parliament on Monday, one of

**Vaughan Gething:** Pan oedd yr holl bleidiau'n lobïo’n llwyddiannus yn Senedd y

the issues raised was the potential for partial electrification on the old Philip Hammond footprint, which excludes those three valleys. This could mean two procurement exercises for diesel and electric trains, with two separate exercises for maintenance and training. If that were the case, it would represent a missed economic opportunity. Can you confirm whether the point on the additional cost of doing this has been made in your discussions with the Department for Transport? Do you agree, Minister, that every politician representing Wales, whether here or in Parliament, should be making the case for full electrification of the whole Valleys network?

DU ddydd Llun, un o'r materion a godwyd oedd y posibilrwydd o drydaneiddio’n rhannol hen lwybr Philip Hammond, ac nid yw hynny'n cynnwys y tri chwm hynny. Gallai hyn olygu dau ymarfer caffael ar gyfer trenau disel a thrydan, gyda dau ymarfer ar wahân ar gyfer cynnal a chadw a hyfforddiant. Pe bai hynny'n digwydd, byddai'n enghraifft o golli cyfle economaidd. A allwch gadarnhau a yw'r pwynt ynghylch y gost ychwanegol o wneud hyn wedi cael ei godi yn eich trafodaethau gyda'r Adran Drafnidiaeth? A ydych yn cytuno, Weinidog, y dylai pob gwleidydd sy'n cynrychioli Cymru, boed hynny yma neu yn Senedd San Steffan, fod yn cefnogi trydaneiddio rhwydwaith y Cymoedd i gyd yn llawn?

**Carl Sargeant:** It is clear that there is some confusion about what Philip Hammond announced regarding the core network. I have been clear, as has our business case, about the economic benefits of having full electrification of the Valleys lines, including Ebbw Vale, the Vale of Glamorgan and Bridgend. It is extremely important that the whole network is electrified. In fact, while anything less may appear to be beneficial, I think that electrifying only part of the network would be a big disadvantage to Wales, for the reasons that the Member articulated today.

**Carl Sargeant:** Mae'n amlwg bod rhywfaint o ddryswch ynghylch yr hyn a gyhoeddodd Philip Hammond am y rhwydwaith craidd. Rwyf wedi datgan yn glir, yn yr un modd â'n hachos busnes, y manteision economaidd a fyddai’n deillio o drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, gan gynnwys Glyn Ebwy, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr yn llawn. Mae’n bwysig tu hwnt bod y rhwydwaith i gyd yn cael ei drydaneiddio. Yn wir, er y gallai unrhyw beth llai na hyn fod yn fuddiol i bob golwg, credaf y byddai trydaneiddio dim ond rhan o'r rhwydwaith yn anfantais fawr i Gymru, am y rhesymau a roddodd yr aelod heddiw.

**Leanne Wood:** Last week, hundreds of disabled workers in Wales were given the devastating news that they are being made redundant and face the strong possibility of being jobless for the rest of their lives. Workers at the Porth Remploy factory understand that one or two contracts with local authorities can significantly boost their turnover. Councils like Wrexham, for example, are in talks with Remploy so that it can supply kitchens for council homes as part of the council’s housing renewal programme. Minister, will you look at developing a strategy whereby Remploy is seen as the first port of call as a way to protect supported employment in Wales? If you are prepared to do that, do you think that such a strategy, or indeed anything else, could throw a lifeline for those threatened Remploy jobs?

**Leanne Wood:** Yr wythnos diwethaf, cafodd cannoedd o weithwyr anabl yng Nghymru y newyddion trychinebus eu bod yn cael eu diswyddo ac yn wynebu'r posibilrwydd cryf o fod yn ddi-waith am weddill eu bywydau. Mae gweithwyr yn y ffatri Remploy ym Mhorth yn deall y gall un neu ddau o gontractau gydag awdurdodau lleol roi hwb sylweddol i'w trosiant. Mae cynghorau fel Wrecsam, er enghraifft, yn trafod gyda Remploy er mwyn iddo allu cyflenwi ceginau ar gyfer tai cyngor fel rhan o raglen adnewyddu tai’r cyngor. Weinidog, a edrychwch ar ddatblygu strategaeth lle mae Remploy yn cael ei weld fel y pwynt cyswllt cyntaf, er mwyn diogelu cyflogaeth dan gymorth yng Nghymru? Os ydych yn barod i wneud hynny, a ydych yn credu y gallai strategaeth o'r fath, neu yn wir unrhyw beth arall, fod yn achubiaeth i'r swyddi hynny sydd o dan fygythiad yn Remploy?

**Carl Sargeant:** The Member raises an important and emotive issue. My colleagues across the Cabinet are looking closely at how we can secure jobs for the workers of Remploy. One of those methods may involve procurement, particularly by local government and the broader public sector. I will be talking to my colleagues about this issue, and if potential support is available, I think that it would be appropriate to pursue it.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig ac emosiynol. Mae fy nghyd-Weinidogion ar draws y Cabinet yn edrych yn fanwl ar sut y gallwn sicrhau swyddi i weithwyr Remploy. Gallai un o'r dulliau hynny gynnwys caffael, yn enwedig gan lywodraeth leol a'r sector cyhoeddus ehangach. Byddaf yn siarad â'm cydweithwyr am y mater hwn, ac os oes cymorth posibl ar gael, credaf y byddai'n briodol mynd ar drywydd hwnnw.

### Fframwaith Gwella Perfformiad Llywodraeth Leol

### Local Government Performance Improvement Framework

***11. Jenny Rathbone:*** *Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r Fframwaith Gwella Perfformiad Llywodraeth Leol a gyflwynwyd fis Ebrill diwethaf. OAQ(4)0105(LGC)*

***11. Jenny Rathbone:*** *How will the Welsh Government evaluate the Local Government Performance Improvement Framework introduced last April. OAQ(4)0105(LGC)*

**Carl Sargeant:** The majority of the performance improvement framework is devolved to local government. The Welsh Local Government Association keeps it under annual review.

**Carl Sargeant:** Mae'r rhan fwyaf o'r fframwaith gwella perfformiad wedi ei ddatganoli i lywodraeth leol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei adolygu'n flynyddol.

**Jenny Rathbone:** I am sure that you will agree that it is important for citizens to know how well their local authority is doing. Transparency is everything, as is clarity in being able to read what is going on. It could be lack of transparency that caused Nick Clegg to praise the service provision at Cardiff Council when he visited Cardiff recently—he was, perhaps, not aware that Cardiff was only adequate in its education provision and deplorable in how it treats looked-after children. How can the Welsh Government ensure that councils are presenting to citizens how well they are doing, so that people can clearly see how their council is doing compared with others?

**Jenny Rathbone:** Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn bwysig bod dinasyddion yn gwybod pa mor dda yw perfformiad eu hawdurdod lleol. Mae tryloywder yn hollbwysig, yn yr un modd ag eglurder i allu gweld beth sy'n digwydd. Efallai mai diffyg tryloywder a achosodd i Nick Clegg ganmol y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Caerdydd pan ymwelodd â'r ddinas yn ddiweddar—efallai nad oedd yn ymwybodol mai dim ond ei ddarpariaeth addysg oedd yn ddigonol, a bod y modd y mae'n trin plant sy'n derbyn gofal yn druenus. Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynghorau yn dangos i ddinasyddion pa mor dda yw eu perfformiad, er mwyn i bobl allu gweld yn glir sut mae eu cyngor yn perfformio o'i gymharu â chynghorau eraill?

**Carl Sargeant:** All local authorities are under a legal requirement to use performance information, including indicators, to benchmark their performance, both against other local authorities and against their own performance in previous years. It is something on which I have had discussions with the Auditor General for Wales, in terms of how this is demonstrated to the public. I

**Carl Sargeant:** Mae'r gyfraith yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad, gan gynnwys dangosyddion, i feincnodi eu perfformiad, yn erbyn awdurdodau lleol eraill ac yn erbyn eu perfformiad eu hunain yn ystod y blynyddoedd a fu. Mae'n rhywbeth rwyf wedi cael trafodaethau yn ei gylch gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru, o ran sut

am aware that Cardiff Council has had some issues and weaknesses around social services; that was publicly reported by the Care and Social Services Inspectorate for Wales. I am sure that the council will seek to rectify those weaknesses quickly. The issue for me is on useful data for the public to make decisions on the effectiveness of public services delivered by a public authority.

mae hyn yn cael ei ddangos i'r cyhoedd. Rwyf yn ymwybodol bod Cyngor Caerdydd wedi wynebu problemau ac wedi dangos gwendidau ym maes gwasanaethau cymdeithasol; nodwyd hynny'n gyhoeddus gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Rwyf yn siŵr y bydd y cyngor yn awyddus i gywiro'r gwendidau hynny'n ddiymdroi. Yr hyn sy'n bwysig i mi yw bod data defnyddiol ar gael i'r cyhoedd allu gwneud penderfyniadau ynghylch pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael ei darparu gan awdurdod cyhoeddus.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, having listened to the Member for Cardiff Central, I wonder whether the local government performance improvement framework is working. It has been described by many as being over-bureaucratic. Many of the indicators used as part of the performance improvement framework and the national strategic indicators are cross-cutting indicators that touch upon areas of policy managed in partnership between local government and public bodies such as CyMAL, the Environment Agency and the police. Minister, will you consider reducing the amount of bureaucratic form-filling and the expensive and time-consuming red tape that is strangling local government? Will you allow council officers to concentrate on improving services in local government, rather than having to keep filling in these numerous forms telling you how they are doing it?

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, ar ôl gwrando ar yr Aelod dros Ganol Caerdydd, tybed a yw'r fframwaith gwella perfformiad llywodraeth leol yn gweithio? Mae sawl un wedi dweud ei fod yn rhy fiwrocrataidd. Mae nifer o'r dangosyddion a ddefnyddir fel rhan o'r fframwaith gwella perfformiad a'r dangosyddion strategol cenedlaethol yn ddangosyddion trawsbynciol sy'n cyffwrdd â meysydd polisi sy'n cael eu rheoli mewn partneriaeth rhwng llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus fel CyMAL, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r heddlu. Weinidog, a wnewch ystyried lleihau'r gwaith llenwi ffurflenni biwrocrataidd a'r fiwrocratiaeth ddrud a hirfaith sy'n tagu llywodraeth leol? A wnewch ganiatáu i swyddogion y cyngor ganolbwyntio ar wella gwasanaethau mewn llywodraeth leol, yn hytrach na gorfod llenwi'r ffurflenni di ben draw hyn o hyd ac o hyd i ddweud wrthych sut maent yn gwneud hynny?

**Carl Sargeant:** Clearly, the Member is mixed up again. Five minutes ago, she was telling me to tell them to publish £500 limits on their spend, and that they must be able to pray before council meetings, and now she is telling me to tell them not to fill in forms regarding expectations around performance indicators. The Member does not know whether she is coming or going. I believe that it is only right that the public should be aware of the performance of local authorities. However, I do not want to be involved in micromanaging local authorities, as the Member suggests that I may want to be in some areas.

**Carl Sargeant:** Yn amlwg, mae'r Aelod wedi drysu eto. Bum munud yn ôl, roedd hi'n dweud wrthyf am ddweud wrthynt am gyhoeddi terfynau £500 ar eu gwariant, a'i bod yn rhaid iddynt gael gweddïo cyn cyfarfodydd y cyngor, ac yn awr mae hi'n dweud wrthyf am ddweud wrthynt am beidio â llenwi ffurflenni ynghylch disgwyliadau'n ymwneud â dangosyddion perfformiad. Nid yw'r Aelod yn gwybod p'un ai mynd ynteu ddod y mae hi. Credaf ei bod yn iawn i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o berfformiad awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid wyf am ficroreoli awdurdodau lleol, fel y mae'r Aelod yn ei awgrymu mewn rhai meysydd.

**Lindsay Whittle:** Minister, what supportive

**Lindsay Whittle:** Weinidog, pa fesurau

measures do you intend to take if certain local authorities fall short of the performance indicators laid down in the performance improvement framework?

cefnogol rydych yn bwriadu eu cymryd os na fydd ambell awdurdod lleol yn bodloni'r dangosyddion perfformiad a nodir yn y fframwaith gwella perfformiad?

**Carl Sargeant:** The Member will be aware of the outcome agreements that I have with local authorities. Indeed, when the Member was a council leader in Caerphilly, he may have signed one of those outcome agreements. I have currently decided on 21 of the outcome agreements of local authorities. Nineteen of those local authorities have received 100% of their outcome agreement grant, and two have received only 75%. Therefore, there is a financial penalty in not performing when a service provision is agreed.

**Carl Sargeant:** Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r cytundebau canlyniadau sydd gennyf gydag awdurdodau lleol. Yn wir, pan oedd yr Aelod yn arweinydd y cyngor yng Nghaerffili, efallai ei fod wedi llofnodi un o'r cytundebau canlyniadau hynny. Yn ddiweddar, rwyf wedi penderfynu ar 21 o gytundebau canlyniadau awdurdodau lleol. Mae pedwar ar bymtheg o'r awdurdodau lleol hynny wedi cael 100 y cant o'u grant cytundeb canlyniadau, a dau wedi derbyn dim ond 75 y cant. Felly, ceir cosb ariannol am beidio â pherfformio ar ôl cytuno ar ddarpariaeth gwasanaeth.

### Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau

### Drug and Alcohol Abuse

***12. William Graham:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau. OAQ(4)0117(LGC)*

***12. William Graham:*** *Will the Minister outline the Welsh Government's policies to tackle drug and alcohol abuse. OAQ(4)0117(LGC)*

**Carl Sargeant:** The Welsh Government continues to invest over £50 million to implement actions within the 10-year substance misuse strategy for Wales, 'Working Together to Reduce Harm'.

**Carl Sargeant:** Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi dros £50 miliwn i weithredu'r camau yn Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', sy'n edrych ar gyfnod o 10 mlynedd.

**William Graham:** Thank you for your answer, Minister. I am sure that you, like me, are shocked at the statistics issued by the Aneurin Bevan Local Health Board, detailing that, in the last two years, 73 youngsters aged between 10 and 16 required hospital treatment due to drinking alcohol or taking drugs, and that mental health admissions concerning drug and drink abuse totalled 163. This is a most disturbing trend. Minister, could you outline what particular policies will address this?

**William Graham:** Diolch am eich ateb, Weinidog. Rwyf yn siŵr eich bod chi, fel minnau, wedi eich syfrdanu gan yr ystadegau a gyhoeddwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan. Yn ôl yr ystadegau, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd 73 o bobl ifanc rhwng 10 ac 16 oed wedi gorfod cael triniaeth yn yr ysbyty o ganlyniad i yfed alcohol neu gymryd cyffuriau, a bu'n rhaid i 163 o bobl fynd i'r ysbyty am resymau iechyd meddwl yn sgîl camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae hon yn duedd sy'n peri pryder. Weinidog, a allech amlinellu pa bolisïau penodol fydd yn rhoi sylw i hyn?

**Carl Sargeant:** As the Member may be aware, I and Ministers before me have asked for alcohol licensing and pricing powers to be devolved from the UK to Wales. As recently as three weeks ago, I wrote to the Home Office Minister and she has, yet again,

**Carl Sargeant:** Fel y gŵyr yr Aelod efallai, rwyf fi a Gweinidogion o'm blaen wedi gofyn i bwerau prisio a thrwyddedu alcohol gael eu datganoli o'r DU i Gymru. Mor ddiweddar â thair wythnos yn ôl, ysgrifennais at Weinidog y Swyddfa Gartref ac mae hithau, unwaith

declined the issue in referring us to strengthening local authorities' support, and she will not release the minimum pricing of alcohol to Wales.

eto, wedi gwrthod y mater gan ein cyfeirio at gryfhau cymorth awdurdodau lleol. Ni fydd yn gadael i Gymru bennu'r isafswm pris ar gyfer alcohol.

3.00 p.m.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Ardrethi Busnes
### Business Rates

**The Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendment 2 in the name of Peter Black and amendment 3 in the name of Jocelyn Davies. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected.

**Y Llywydd:** Rwyf wedi dewis gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliant 2 yn enw Peter Black a gwelliant 3 yn enw Jocelyn Davies, Os cytunir ar welliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol. Os cytunir ar welliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol.

*Cynnig NDM4937 William Graham*

*Motion NDM4937 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn credu mai busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn economi Cymru;*

*1. Believes that SMEs are the lifeblood of the Welsh economy;*

*2. Yn nodi'r rhan effeithiol y gall rhyddhad ardrethi busnes ei chwarae i ysgogi economïau lleol a gwella cyfleoedd cyflogaeth; a*

*2. Notes the role effective business rate relief can play in stimulating local economies and enhancing employment opportunities; and*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiddymu ardrethi busnes i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o dan £12,000 y flwyddyn, a darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol i fusnesau bach sydd â gwerth ardrethol hyd at £15,000, er mwyn hybu creu cyfoeth a hybu cyflogaeth.*

*3. Calls on the Welsh Government to abolish business rates for all businesses with a rateable value of under £12,000 per annum, and provide tapered relief for small businesses with a rateable value up to £15,000, in order to promote wealth creation and boost employment.*

**Janet Finch-Saunders:** I move the motion. I am pleased to move the motion today and to open this debate.

**Janet Finch-Saunders:** Cynigiaf y cynnig. Rwyf yn falch o gynnig y cynnig heddiw ac agor y ddadl hon.

Through many debates in this Chamber it has been acknowledged that small and medium-sized enterprises are the lifeblood of our economy. I know that you do not need me to reiterate that point, but today I am here to, hopefully, persuade you of the merits of points 2 and 3 of the motion. The benefits of improved business rate relief, as proposed in

Drwy nifer o ddadleuon yn y Siambr hon cydnabuwyd mai busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn ein heconomi. Gwn nad oes angen imi ailadrodd y pwynt hwnnw. Ond rwyf yma heddiw i'ch darbwyllo, gobeithio, ynghylch rhinweddau pwyntiau 2 a 3 y cynnig. Byddai nifer o fanteision i economi Cymru yn sgîl rhyddhad ardrethi busnes

point 3, to the Welsh economy would be numerous and have been widely acknowledged. Many were highlighted, as you may recall, by Lord Wigley back in 2007.

gwell, fel y cynigir ym mhwynt 3, ac mae'r manteision hynny wedi cael eu cydnabod yn helaeth. Efallai eich bod yn cofio i'r Arglwydd Wigley dynnu sylw at nifer ohonynt yn ôl yn 2007.

Our policy is a costed policy, and we are confident that, through sales of Welsh Development Agency land, we could cover the estimated £40 million that this would cost. The benefits, however, would be far more valuable. Business rate relief would free-up valuable capital for SMEs, giving them greater opportunities to invest in expansion abroad, staff training and new jobs. In light of figures today showing that average GDP per capita in some parts of Wales is less than that of Slovakia, stimulating the economy is vital.

Mae ein polisi yn bolisi wedi'i gostio, ac rydym yn hyderus y gallem dalu'r amcangyfrif o £40 miliwn y byddai hyn yn ei gostio, drwy werthu tir Awdurdod Datblygu Cymru. Fodd bynnag, byddai'r manteision yn llawer mwy gwerthfawr. Byddai rhyddhad ardrethi busnes yn rhyddhau cyfalaf gwerthfawr i fusnesau bach a chanolig, gan roi mwy o gyfleoedd iddynt fuddsoddi mewn ehangu dramor, mewn hyfforddiant staff ac mewn swyddi newydd. Yng ngoleuni'r ffigurau a gyhoeddwyd heddiw sy'n dangos bod cyfartaledd CMC y pen mewn rhai rhannau o Gymru yn is na Slofacia, mae hybu'r economi'n hanfodol.

Giving evidence on the Welsh economy to the select committee in Parliament, Professor Gripaios said that Wales has been too reliant on assembly-line manufacturing operations and 'remains in the doldrums'. He has also highlighted the importance of reducing reliance solely on the low-grade manufacturing sector. Investment in staff training would tackle that by boosting skills and improving the flexibility of the Welsh labour market, a key tool in safeguarding against future recessions.

Wrth roi tystiolaeth ar economi Cymru i'r pwyllgor dethol yn y Senedd, dywedodd yr Athro Gripaios fod Cymru wedi bod yn rhy ddibynnol ar weithrediadau gweithgynhyrchu llinell gydosod a'i bod 'yn dal yn farwaidd'. Mae hefyd wedi amlygu pwysigrwydd lleihau dibyniaeth lwyr ar y sector gweithgynhyrchu gradd isel. Byddai buddsoddi mewn hyfforddiant staff yn mynd i'r afael â hynny drwy roi hwb i sgiliau a gwella hyblygrwydd y farchnad lafur yng Nghymru, sef arf allweddol i ddiogelu yn erbyn dirwasgiadau yn y dyfodol.

The professor also highlighted that Wales shows up badly in the unemployment rates. There are over 200,000 SMEs and microbusinesses in Wales, and if only two thirds of those could afford to employ just one more person, every single person in Wales who wanted a job—all 134,000 of them—could have a job. Surely, the Welsh Government cannot argue against reducing unemployment. In 2010, Wales had the lowest rate of enterprise birth of any of the UK nations, with a mere 39 per 10,000 of population. In England the figure was 61, which is over 50% more.

Roedd yr athro hefyd wedi amlygu nad yw Cymru'n gwneud yn dda yng nghyswllt cyfraddau diweithdra. Ceir dros 200,000 o fusnesau bach a chanolig a microfusnesau yng Nghymru, a phetai modd i ddim ond dwy ran o dair o'r rheini allu fforddio cyflogi dim ond un unigolyn arall, byddai pob unigolyn yng Nghymru sydd am gael swydd—y 134,000 ohonynt i gyd—yn cael swydd. Siawns na all Llywodraeth Cymru ddadlau yn erbyn lleihau diweithdra. Yn 2010, Cymru oedd â'r gyfradd isaf ar gyfer dechrau busnesau o holl wledydd y DU, gyda dim ond 39 fesul 10,000 o'r boblogaeth. Roedd y ffigur yn 61 yn Lloegr, sydd dros 50 y cant yn fwy.

It is no secret that Welsh high streets are turning into ghost towns. We see it daily in

Nid yw'n gyfrinach bod strydoedd mawr Cymru yn gwagio. Rydym yn ei weld bob

the news and in our constituencies, and now the added pressure of modern out-of-town retail structures, involving supermarkets, multi-national corporations and online shopping, is forcing many businesses to close. Those businesses are often specialist and long-established businesses. In some cases, they have transcended generations, yet some cannot survive 13 years of a Welsh Labour-led Government.

dydd yn y newyddion ac yn ein hetholaethau, a nawr ceir pwysau ychwanegol strwythurau manwerthu modern ar gyrion trefi, gan gynnwys archfarchnadoedd, corfforaethau rhyngwladol a siopa ar-lein, yn gorfodi llawer o fusnesau i gau. Mae'r busnesau hynny'n aml yn fusnesau arbenigol sydd wedi bod ar waith ers tro byd. Mewn rhai achosion, maent wedi para cenedlaethau, er hynny ni all rhai ohonynt oroesi 13 mlynedd o Lywodraeth wedi'i harwain gan Lafur Cymru.

In the first quarter of 2011, the number of companies winding-up in Wales was 100% higher than in the previous year. We also saw a 6% rise in bankruptcy petitions. Across Wales, local authorities budget for a total of around £9 million for losses in the collection of business rates. Does the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science know how many millions of pounds in national non-domestic rates went uncollected in Wales last year? I will tell you: £23.3 million. I call on the Minister to make a statement on the amount of NNDR written off by local authorities in Wales, because I can tell you that we are talking about thousands of pounds. For example, Torfaen council wrote off £700,000 in unpaid NNDR last year alone.

Yn ystod chwarter cyntaf 2011, roedd nifer y cwmnïau a oedd wedi dirwyn i ben yng Nghymru 100 y cant yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Roeddem hefyd wedi gweld cynnydd o chwech y cant mewn deisebau methdaliad. Ledled Cymru, mae awdurdodau lleol yn cyllidebu ar gyfer colli cyfanswm o tua £9 miliwn wrth gasglu ardrethi busnes. A yw'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn gwybod faint o filiynau o bunnoedd mewn ardrethi annomestig cenedlaethol na chawsant eu casglu yng Nghymru'r llynedd? Dywedaf wrthych: £23.3 miliwn. Galwaf ar y Gweinidog i wneud datganiad am y swm o Ardreth Annomestig Genedlaethol a ddilëwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, oherwydd gallaf ddweud wrthych ein bod yn sôn am filoedd o bunnoedd. Er enghraifft, roedd cyngor Tor-faen wedi dileu £700,000 o Ardreth Annomestig Genedlaethol heb ei thalu’r llynedd yn unig.

Minister, this is not just about amounts of uncollected money, but about people who have had to draw down the shutters on their ambitions and livelihoods. They end up trapped in this net of dependency and despondency and as just another one of the statistics so often referred to in this Chamber. Clearly, businesses cannot afford to pay in this way.

Weinidog, mae hyn yn ymwneud â mwy na dim ond symiau o arian heb eu casglu, mae'n ymwneud â phobl y mae'n rhaid iddynt gau'r drws unwaith ac am byth ar eu huchelgeisiau ac ar eu bywoliaeth. Maent yn cael eu dal yn y rhwyd hon o ddibyniaeth ac anobaith ac yn dod yn ddim ond un o'r ystadegau y cyfeirir atynt mor aml yn y Siambr hon. Yn amlwg, ni all busnesau fforddio talu yn y ffordd hon.

Both the First Minister of Wales and the Right Honourable Peter Hain MP have admitted that the private sector in Wales is too small. Now is the chance for the Welsh Government to stop talking and to start acting to do something about it.

Mae Prif Weinidog Cymru a'r Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS wedi cyfaddef bod y sector preifat yng Nghymru’n rhy fach. Dyma'r cyfle i Lywodraeth Cymru roi'r gorau i siarad a dechrau gweithredu i wneud rhywbeth yn ei gylch.

The Federation of Small Businesses has highlighted many times that Labour’s 2011

Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi tynnu sylw droeon at y ffaith bod maniffesto

manifesto largely ignored SMEs. In the programme for government, only four pages out of 56 cover business and enterprise. Listen to the stakeholders: in commenting on the evidence received as part of its inquiry into the regeneration of town centres, the Enterprise and Business Committee stated:

2011 Llafur yn anwybyddu busnesau bach a chanolig i raddau helaeth. Yn y rhaglen lywodraethu, dim ond pedair tudalen o 56 sy'n trafod menter a busnes. Gwrandewch ar y rhanddeiliaid: wrth roi sylwadau ar y dystiolaeth a gafwyd fel rhan o'i ymchwiliad i adfywio canol trefi, dywedodd y Pwyllgor Menter a Busnes:

‘Many people who contributed to this inquiry raised concerns about business rates, and the impact on small businesses in particular.’

‘Mynegodd llawer o bobl a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn bryderon am ardrethi busnes, a'r effaith ar fusnesau bach yn benodol.’

The Vale of Glamorgan Council has said that business rates act as a significant barrier to entrepreneurism. The First Minister said only a year ago:

Dywedodd Cyngor Bro Morgannwg fod ardrethi busnes yn rhwystr sylweddol i entrepreneuriaeth. Dim ond blwyddyn yn ôl, dywedodd y Prif Weinidog:

‘We have to do more to unleash the entrepreneurial spirit that does exist in Wales.’

Rhaid i ni wneud mwy i ryddhau'r ysbryd entrepreneuraidd sy'n bodoli yng Nghymru.

Bridgend County Borough Council, in the First Minister’s constituency, said that business rates are prohibitive to encouraging new start-up retail business, but I suppose that was before the Assembly elections. It is fair to say that there is not much evidence of that happening in the last 12 months. The First Minister also said that

Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn etholaeth y Prif Weinidog, fod ardrethi busnes yn afresymol i annog dechrau busnesau manwerthu newydd, ond rwyf yn tybio bod hynny cyn etholiadau'r Cynulliad. Mae'n deg dweud nad oes llawer o dystiolaeth bod hynny wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd y Prif Weinidog hefyd

‘our problem is…that our private sector is too small.’

ein problem yw...bod ein sector preifat yn rhy fach.

How on earth are you going to address that while imposing disproportionate levels of tax on businesses from the point of start-up? I say bring in business rate relief in Wales to give our new start-ups a kick-start.

Sut ar y ddaear ydych yn mynd i fynd i'r afael â hynny ar yr un pryd â gosod lefelau anghymesur o dreth ar fusnesau o'r foment maent yn dechrau arni? Rwyf yn dweud dewch â rhyddhad ardrethi busnes i Gymru i roi hwb i'n busnesau newydd.

While I agree to some degree with the sentiments expressed in amendment 2, tabled by Peter Black, it does not go far enough to address the issues that our motion addresses. Business rate relief is a simple, straightforward and uncomplicated way of putting money back into businesses, or, I should say, not taking the money out of them in the first place. It is one of the strongest tools at the Welsh Government’s disposal, and I urge the First Minister, the Minister for Business, Enterprise, Technology and

Er fy mod yn cytuno i ryw raddau â'r farn a fynegir yng ngwelliant 2, a gyflwynwyd gan Peter Black, nid yw'n mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â'r materion y mae ein cynnig ni yn mynd i'r afael â nhw. Mae rhyddhad ardrethi busnes yn ffordd syml ac uniongyrchol o roi arian yn ôl i fusnesau, neu, dylwn ddweud, o beidio â chymryd yr arian allan ohonynt yn y lle cyntaf. Mae'n un o'r arfau cryfaf sydd gan Lywodraeth Cymru, ac rwyf yn annog y Prif Weinidog, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a

Science and the Minister for Local Government and Communities—in fact, all the Cabinet, as the leader is supposed to feel strongly about this—to use this. He has certainly had the chance to do so in the past.

Gwyddoniaeth a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau—a dweud y gwir, yr holl Gabinet, oherwydd bod yr arweinydd i fod i deimlo'n gryf am hyn—i ddefnyddio hyn. Mae'n sicr wedi cael y cyfle i wneud hynny yn y gorffennol.

In early 2011, the Welsh Government was given a £10 million Barnett consequential following the UK Government's decision to waive rates for companies in ports. Port businesses in Wales did not see a penny of this consequential, and I remain disappointed, to say the least, that Labour Ministers are happy to deny this to Welsh ports.

Yn gynnar yn 2011, cafodd Llywodraeth Cymru £10 miliwn o arian canlyniadol Barnett ar ôl penderfyniad Llywodraeth y DU i hepgor ardrethi i gwmnïau mewn porthladdoedd. Ni welodd busnesau porthladdoedd Cymru'r un ddimai goch o'r arian canlyniadol hwn, ac rwyf yn dal yn siomedig, a dweud y lleiaf, bod Gweinidogion Llafur yn fodlon gwarafun hyn i borthladdoedd Cymru.

**David Rees:** You raised the issue of waiving relief for companies in ports, but are you not ashamed of your UK Government, when it, in allocating £60 million to ports, did not allocate a penny to a Welsh port?

**David Rees:** Roeddech wedi sôn am hepgor rhyddhad i gwmnïau mewn porthladdoedd, onid oes gennych gywilydd o'ch Llywodraeth yn y DU oherwydd pan ddyrannodd £60 miliwn i borthladdoedd, ni ddyrannodd yr un geiniog i borthladdoedd Cymru?

**Janet Finch-Saunders:** My response to that, with respect, is that I am proud of the UK Government's attempts to put the country back on course. I understand that it was Liam Byrne, a Labour Member of Parliament, who wrote the note saying, 'Sorry, but there's no money left'. However, there was plenty of money in the kitty when Labour went into power. [*Interruption*.]

**Janet Finch-Saunders:** Fy ymateb i hynny, gyda pharch, yw fy mod yn falch o ymdrechion Llywodraeth y DU i roi'r wlad yn ôl ar y trywydd iawn. Caf ar ddeall mai Liam Byrne, Aelod Seneddol Llafur, a ysgrifennodd y nodyn yn dweud, 'Mae'n ddrwg gennym, ond nid oes dim arian ar ôl'. Fodd bynnag, roedd digon o arian ar gael pan ddaeth Llafur i rym. [*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order. Please quieten down so that Janet Finch-Saunders can finish.

**Y Llywydd:** Trefn. Byddwch yn dawel er mwyn i Janet Finch-Saunders gael gorffen.

**Janet Finch-Saunders:** I remain disappointed about the ports, to say the least. Labour Ministers are happy to deny companies in Welsh ports the relief that those in English ports are benefitting from, in the same way that they have denied a council tax freeze to the people of Wales. The Welsh Government talks about inward investment and trade links, but, with our ports at such a clear disadvantage, we can hardly hope to compete. I might add that this is not helped by the very negative comments that we heard yesterday from the First Minister of Wales about Cardiff Airport.

**Janet Finch-Saunders:** Rwyf yn dal yn siomedig am y porthladdoedd, a dweud y lleiaf. Mae Gweinidogion Llafur yn fodlon gwarafun rhoi'r rhyddhad sydd ar gael mewn porthladdoedd yn Lloegr i gwmnïau ym mhorthladdoedd Cymru, yn yr un ffordd ag maent wedi gwarafun rhewi'r dreth gyngor i bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn sôn am fewnfuddsoddi a chysylltiadau masnach, ond, gan fod ein porthladdoedd o dan y fath anfantais glir, prin y gallwn obeithio cystadlu. Gallwn ychwanegu nad yw hyn yn cael ei helpu gan y sylwadau negyddol iawn a glywsom ddoe gan Brif Weinidog Cymru am Faes Awyr Caerdydd.

Business-minded people will tell you that time equals money. However, with regard to amendment 1 tabled by Jane Hutt, we are still awaiting the findings of the business rates review, which the Welsh Government told us would be published last month. Meanwhile, the 14-day timescale for a decision on applications to the Wales economic growth fund has been extended by a further 21 days, meaning that some business will now wait for up to seven weeks for a decision. Can you not see that this is clearly an issue affecting people in Wales today day after day, and that we need to see some action now?

Bydd pobl fusnes yn dweud wrthych fod amser yn golygu arian. Fodd bynnag, o ran gwelliant 1 a gyflwynwyd gan Jane Hutt, rydym yn dal i aros am ganfyddiadau'r adolygiad o ardrethi busnes, y dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym a fyddai'n cael ei gyhoeddi'r mis diwethaf. Yn y cyfamser, mae'r amserlen o 14 diwrnod i gael penderfyniad ar geisiadau i gronfa twf economaidd Cymru wedi cael ei hymestyn 21 diwrnod arall, sy'n golygu y bydd rhai busnesau nawr yn aros am hyd at saith wythnos i gael penderfyniad. Oni allwch weld bod hyn yn amlwg yn fater sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru heddiw ddydd ar ôl dydd, a bod angen i ni weld rhywfaint o weithredu nawr?

I hope to see all parties in this Chamber do the right thing today and help Welsh businesses by supporting our motion. Give the lifeblood of our economy this vital transfusion. Diolch yn fawr iawn.

Gobeithiaf weld pob plaid yn y Siambr hon yn gwneud y peth iawn heddiw ac yn helpu busnesau Cymru drwy gefnogi ein cynnig. Rhowch y cymorth hanfodol hwn i asgwrn cefn ein heconomi. Diolch yn fawr iawn.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Dileu pwynt 3 a rhoi’r canlynol yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*Yn nodi bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygu Ardrethi Busnes yn ystyried materion sy’n ymwneud â pholisi Ardrethi Busnes yng Nghymru. Bydd y Grŵp yn rhoi adroddiad yn fuan.*

*Notes that matters relating to Business Rates policy in Wales are being considered by the Business Rates Review Task and Finish Group, which will be reporting shortly.*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Cynigaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei hadolygiad o ardrethi busnes yn rhoi sylw i:*

*a) y sefyllfa lle mae gwella eiddo sy’n achosi cynnydd mewn gwerth yn arwain at gynnydd yn ardrethi busnes y busnes hwnnw;*

*b) y cynnydd enfawr mewn ardrethi busnes pan fydd gwerthoedd yn cynyddu;*

*c) y swyddogaeth sydd gan awdurdodau lleol o ran casglu a chadw ardrethi busnes;*

*Calls on the Welsh Government to ensure its business rates review addresses:*

*a) the scenario whereby improvement of premises which causes an increase in value results in an increase in their business rate;*

*b) the huge rises in business rates when values increase;*

*c) the role local authorities have in collecting and retaining business rates;*

*d) posibilrwydd ymestyn rhyddhad ardrethi busnes i ragor o gyfleusterau cymunedol; ac*

*d) the possibility of extending business rates relief to more community facilities; and*

*e) a fyddai Cymru yn elwa o fabwysiadu'r un trefniadau cyfrifyddu â'r rheini yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.*

*e) whether Wales would benefit from adopting the same accounting arrangements as Scotland and Northern Ireland.*

**Eluned Parrott:** I move amendment 2 in the name of Peter Black.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliant 2 yn enw Peter Black.

I would like to thank the Welsh Conservatives for bringing forward this debate today. I believe that it was the week before last when you, Darren Millar, criticised me for not supporting a Conservative amendment on business rates because I had not filled in the detail with an amendment of my own. Our researchers were most put out by that. They do detail. So, I have to say that you have asked for it and I am happy to give it to you. [*Laughter*.]

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Credaf mai'r wythnos cyn diwethaf oedd hi pan roeddech chi, Darren Millar, wedi fy meirniadu am beidio â chefnogi gwelliant gan y Ceidwadwyr ar ardrethi busnes oherwydd nad oeddwn wedi llenwi'r manylion gyda fy ngwelliant fy hun. Roedd hynny wedi siomi ein hymchwilwyr yn arw. Maent yn ymwneud â manylion. Felly, rhaid i mi ddweud eich bod wedi gofyn amdani ac rwyf yn fodlon ei rhoi. [*Chwerthin.*]

I completely agree that SMEs are the lifeblood of our economy, and I recognise that, for many of those businesses, rates are one of the biggest expenses they face. You call rate relief a simple mechanism. Perhaps we could also say that it is a simplistic approach to what is a very complex problem. We need to recognise that the impact of rates is very variable, because it is based on property values, and rates hit small retailers particularly hard because their rental values are high in comparison with those of industrial premises of a similar size. I do not believe that we can address the idiosyncratic effects of the rating regime as it is with a mechanism such as the one that you suggest. A highly profitable business in a lower valued premises will get rate relief under your proposal, but a less profitable business in a better premises may not. For the former, there is just no incentive to invest in improving their premises if, when they do so, they will be hit for higher rates. In our amendment 2, we try to address some of the idiosyncrasies that we have identified in our discussions with businesses here in Wales.

Cytunaf yn llwyr mai busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn ein heconomi, ac rwyf yn cydnabod, ar gyfer nifer o'r busnesau hynny, mai ardrethi yw un o'u costau mwyaf. Gallwch ddweud bod rhyddhad ardrethi yn fecanwaith syml. Efallai gallem hefyd ddweud ei fod yn ddull syml i broblem gymhleth iawn. Mae angen i ni gydnabod bod effaith ardrethi'n amrywiol iawn, oherwydd eu bod yn seiliedig ar werthoedd eiddo, ac mae ardrethi'n cael ergyd arbennig o drwm ar fanwerthwyr bach oherwydd bod eu gwerthoedd rhentu yn uchel o'u cymharu â gwerthoedd eiddo diwydiannol o faint tebyg. Nid wyf yn credu bod modd i ni fynd i'r afael ag effeithiau hynod y drefn ardrethu fel y mae gyda mecanwaith fel yr un rydych yn ei awgrymu. Bydd busnes proffidiol iawn mewn eiddo â gwerth is yn cael rhyddhad ardrethi o dan eich cynnig, ond efallai na fydd busnes llai proffidiol mewn eiddo gwell yn cael rhyddhad. Ar gyfer y cyntaf, nid oes dim cymhelliant i fuddsoddi i wella eu heiddo os bydd gwneud hynny'n golygu ardrethi uwch. Yn ein gwelliant 2, rydym yn ceisio mynd i'r afael â rhywfaint o'r hynodrwydd yr ydym wedi'i nodi yn ein trafodaethau gyda busnesau yma yng Nghymru.

We recognise that the Welsh Government is undertaking a review of business rates in

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o ardrethi busnes

Wales.

yng Nghymru.

**Andrew R.T. Davies:** It is all well and good for the research department of the Liberal party here in the Assembly to come up with a fine speech, but do you not recognise that the Federation of Small Businesses and many other business organisations reckon that this would be one of the simplest ways to assist businesses in the severe economic downturn that we have been going through over the past four to five years?

**Andrew R.T. Davies:** Mae'n iawn i adran ymchwil y blaid Ryddfrydol yma yn y Cynulliad lunio araith goeth, ond a ydych yn cydnabod bod y Ffederasiwn Busnesau Bach a nifer o sefydliadau busnes eraill yn credu y byddai hon yn un o'r ffyrdd symlaf o helpu busnesau yn y dirywiad economaidd difrifol yr ydym wedi bod yn mynd drwyddo dros y pedair i bum mlynedd diwethaf?

**Eluned Parrott:** Thank you for raising that. The Federation of Small Businesses was very supportive of the suggestions that I am making here when I hosted a discussion panel at our conference in Cardiff last week. In fact, the Federation of Small Businesses contributed significantly to that debate and has helped us to develop these policies, so thank you for bringing that to our attention.

**Eluned Parrott:** Diolch i chi am godi hynny. Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn gefnogol iawn o'r awgrymiadau rwyf yn eu gwneud yma pan gynhaliais drafodaeth banel yn ein cynhadledd yng Nghaerdydd yr wythnos diwethaf. A dweud y gwir, cyfrannodd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn sylweddol at y ddadl honno ac mae wedi ein helpu i ddatblygu'r polisïau hyn, felly diolch am dynnu ein sylw at hynny.

As I said, I recognise that the Welsh Government is undertaking a review of business rates in Wales, and I welcome that and hope that it has the breadth of remit that will allow it to tackle some of the issues that we will be raising. However, of course, if the Welsh Conservatives had issues to raise, that might have been an opportunity to do so. The issues that I raised with the review are as follows. First, we need to find a way to avoid a situation where, if a business invests in improving its premises, it will be hit by a sudden hike in business rates. Members of the Enterprise and Business Committee visited Narberth recently to learn from its success as a community in developing a very vibrant and successful high street. However, we were ambushed, it has to be said, by aggrieved local traders who had seen rates rise by 200% or more as a direct result of their success. Some had actually subdivided their premises and businesses just to be able to survive. Tripling their business rates is not much of an incentive for them to continue their hard work, and none of the premises that I am referring to would have benefited from the rate relief scheme you outline.

Fel y dywedais, rwyf yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o ardrethi busnes yng Nghymru, ac rwyf yn croesawu hynny ac yn gobeithio y bydd hyd a lled ei gylch gwaith yn ei alluogi i fynd i'r afael â rhai o'r materion y byddwn yn eu codi. Fodd bynnag, wrth gwrs, petai gan y Ceidwadwyr Cymreig faterion i'w codi, byddai hynny efallai wedi bod yn gyfle i wneud hynny. Dyma'r materion a godais gyda'r adolygiad. Yn gyntaf, mae angen i ni ddod o hyd i ffordd o osgoi sefyllfa lle, os bydd busnes yn buddsoddi i wella ei eiddo, bydd yn cael ei daro gan godiad sydyn mewn ardrethi busnes. Roedd aelodau o'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi ymweld ag Arberth yn ddiweddar i ddysgu o'i llwyddiant fel cymuned yn datblygu stryd fawr fywiog a llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, ymosodwyd arnom, mae'n rhaid dweud, gan fasnachwyr lleol blin a oedd wedi gweld eu hardrethi'n codi 200 y cant neu ragor o ganlyniad uniongyrchol i'w llwyddiant. Roedd rhai hyd yn oed wedi rhannu eu heiddo a'u busnesau yn ddarnau llai dim ond er mwyn gallu goroesi. Nid yw treblu eu hardrethi busnes yn llawer o gymhelliant i wneud iddynt ddal ati i weithio'n galed, ac ni fyddai dim un o'r eiddo rwyf yn cyfeirio atynt wedi elwa o'r cynllun rhyddhad ardrethi rydych chi'n ei amlinellu.

Secondly, and this is related, looking for ways to avoid huge single-year rises in rates in future is critical, because businesses just cannot plan for the future and plan to invest and grow if their fixed costs are so volatile. Thirdly, I would like the review to discuss the role of local authorities in collecting business rates, but also what action we can take to encourage councils to drive economic development. Here in Cardiff, we have seen the city absolutely transformed over the past decade, but some local authorities have been much slower to invest in economic development. Allowing them to retain a higher proportion of rates as a reward is a possible mechanism for doing that, and I would like to see that explored. Fourthly, I would like to explore whether we can use rate relief to protect core private services that serve our local communities, such as post offices, chemists, village shops, village pubs and so on to give local communities a sense of cohesion, if you like.

Yn ail, ac mae hyn yn gysylltiedig, mae'n hanfodol chwilio am ffyrdd o osgoi codiadau enfawr mewn ardrethi mewn un flwyddyn yn y dyfodol, oherwydd ni all busnesau gynllunio ar gyfer y dyfodol a chynllunio i fuddsoddi ac i dyfu os yw eu costau sefydlog mor gyfnewidiol. Yn drydydd, hoffwn i'r adolygiad drafod swyddogaeth awdurdodau lleol wrth gasglu ardrethi busnes, ond hefyd pa gamau y gallwn eu cymryd i annog cynghorau i wthio datblygiad economaidd. Yma yng Nghaerdydd, rydym wedi gweld y ddinas yn cael ei gweddnewid yn llwyr dros y degawd diwethaf, ond mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn arafach o lawer i fuddsoddi mewn datblygu economaidd. Mae caniatáu iddynt gadw cyfran uwch o ardrethi fel gwobr yn fecanwaith posibl ar gyfer gwneud hynny, a byddwn yn hoffi gweld hynny'n cael ei bwyso a'i fesur. Yn bedwerydd, hoffwn edrych ar a allwn ddefnyddio rhyddhad ardrethi i ddiogelu gwasanaethau craidd preifat sy'n gwasanaethu ein cymunedau lleol, fel swyddfeydd post, fferyllfeydd, siopau pentref, tafarndai pentref ac yn y blaen i roi ymdeimlad o gydlyniad i gymunedau lleol, fel petai.

Finally, to move to a technical point—as I said, Darren Millar, I am afraid that you asked for it—there is a discrepancy in the way in which rates are accounted for with Westminster in Wales as opposed to in Scotland and Northern Ireland. The Welsh Government’s accounting arrangements are subject to something called departmental expenditure limits. Scotland and Northern Ireland Governments treat it as annually managed expenditure. That may not sound very sexy or exciting, but it does mean that the Welsh block grant has been cut more than it might otherwise have been if the other arrangement had been used, so I hope that that will also be considered. There are many challenges; we all recognise that, and I glad to have the opportunity to discuss those in this debate today. Rates are a part of that puzzle, but we need a more nuanced approach.

Yn olaf, i symud i bwynt technegol—fel y dywedais, Darren Millar, mae arnaf ofn eich bod wedi gofyn amdani—ceir anghysondeb yn y ffordd y cyfrifir am ardrethi â San Steffan yng Nghymru o'i chymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Mae trefniadau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yn amodol ar rywbeth o'r enw terfynau gwariant adrannol. Mae Llywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon yn ei drin fel gwariant a reolir yn flynyddol. Efallai nad yw hynny'n swnio'n rhywiol nac yn gyffrous iawn, ond mae'n golygu bod grant bloc Cymru wedi cael ei dorri'n fwy nag y byddai fel arall petai'r trefniant arall wedi cael ei ddefnyddio, felly gobeithio y bydd hynny'n cael ei ystyried hefyd. Ceir nifer o sialensiau; rydym i gyd yn cydnabod hynny, ac rwyf yn falch o gael y cyfle i drafod y rheini yn y ddadl hon heddiw. Mae ardrethi’n rhan o'r pos, ond mae angen dull mwy cynnil.

3.15 p.m.

*Gwelliant 3 Jocelyn Davies*

*Amendment 3 Jocelyn Davies*

*Ym mhwynt 3, dileu popeth cyn 'er mwyn' a rhoi yn ei le:*

*'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhyddhad ardrethi llawn i bob busnes sydd â gwerth ardrethol hyd at £6,000 y flwyddyn, a darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol i fusnesau bach sydd â gwerth ardrethol hyd at £18.000'.*

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf welliant 3 yn enw Jocelyn Davies.

Rwyf yn falch o gael cymryd rhan yn y drafodaeth hon, sydd o ddiddordeb mawr i fusnesau bach ledled Cymru. Rydym i gyd yn gwybod pa mor bwysig yw busnesau bach a chanolig eu maint i economi Cymru. Rydym i gyd yn gwybod hefyd bod cyfran uchel iawn o'r rhai sydd mewn gwaith yn gweithio i fusnesau bach a chanolig eu maint a bod pwysau arbennig ar y busnesau hyn o bob tŷ yng nghanol y dirwasgiad hwn.

Rwy'n falch heddiw o gael cynnig gwelliant Plaid Cymru sy'n ailddatgan ein polisi i gynnig rhyddhad ardrethi llwyr i bob busnes â gwerth ardrethol o dan £6,000 tra'n cynnig rhyddhad rhannol i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o hyd at £18,000. Byddai hyn yn golygu rhoi cymorth i 8,000 yn rhagor o gwmnïau ar hyd a lled Cymru, a byddai hynny'n gysur ac yn gymorth iddynt yn yr hinsawdd sydd ohoni.

Ein hachos ni yw y byddai hyn yn gam ymarferol i warchod swyddi degau o filoedd o bobl yn wyneb y dirwasgiad presennol. Mae'r ffigurau diweithdra diweddaraf yn siomedig iawn ac yn dangos y nifer uchaf o bobl ddi-waith yng Nghymru ers degawd. Mae'r ffigur yn uwch hyd yn oed na phan roedd y dirwasgiad ar ei waethaf yn 2010. Mae'n werth nodi nad yw'r canran yn uwch na'r cyfnod hwnnw ond mae'r ffigur absoliwt yn uwch, ac mae hynny'n achos pryder mawr i ni. Mae angen inni droi pob carreg i geisio hyrwyddo a rhoi cymorth i fusnesau o bob maint yng Nghymru yn y sefyllfa hon.

Mae cynnig y Torïaid yn eithafol o naïf wrth sôn mor gyffredinol am wneud i ffwrdd â threthi annomestig. Mae'n werth cofio bod y dreth hon yn casglu bron i £950 miliwn i Gymru, a hynny'n cael ei wario ar

*In point 3 delete all before 'in order to' and replace with:*

*'Calls on the Welsh Government to provide full rate relief for all businesses with a rateable value of up to £6,000 per annum, and provide tapered relief for small businesses with a rateable value of up to £18,000'.*

**Alun Ffred Jones:** I move amendment 3 in the name of Jocelyn Davies.

I am grateful for the opportunity to take part in this debate, which is of great interest to small businesses the length and breadth of Wales. We all know how important small and medium-sized enterprises are to the Welsh economy. We also all know that a very high proportion of those in work are employed by small and medium-sized enterprises and that there are great pressures on these businesses from all directions during this recession.

I am pleased today to move the Plaid Cymru amendment that restates our policy to provide business rate relief to all businesses with a rateable value of up to £6,000 while offering tapered relief to all businesses with a rateable value of up to £18,000. This would mean assisting 8,000 further businesses the length and breadth of Wales, and that would be a comfort to them and provide assistance in the current climate.

Our case is that this would be a practical step to safeguard the jobs of tens of thousands of people in light of the current recession. The latest unemployment figures are very disappointing and reveal the highest level of unemployment in Wales for a decade. The figure is even higher than it was when the recession was at its worst in 2010. It is worth noting that the percentage is not higher than it was at that time, but the absolute figure is higher, and that is a cause of great concern to us. We need to leave no stone unturned in trying to promote and assist businesses of all sizes in Wales given this situation.

The Tory motion is exceptionally naive in making such general statements about the abolition of non-domestic rates. It is worth remembering that this rate brings in almost £950 million to Wales, and that is spent on

wasanaethau cyhoeddus. Felly, os byddwch yn dileu rhan o'r dreth honno neu'r *take* hwnnw, yn amlwg, mae angen i chi wneud yn iawn am hynny, naill ai drwy roi mwy o gymorth i lywodraeth leol neu, yn y pen draw, godi'r trethi mewn dull gwahanol.

public services. Therefore, if you abolish part of that tax or that take, obviously, you will need to make up for that, either by providing more support to local government or by, eventually, raising taxes in a different way.

Mae gwelliant Plaid Cymru yn cyfeirio at gynllun rhyddhad ardrethi yn hytrach na'u dileu am ein bod yn credu bod y baich ar fusnesau bach yn annheg. Rydym yn rhannu'r pryder hwnnw gyda'r Torïaid ac eraill, ond mae cynllun y Blaid yn well gwerth am arian ac yn uchafu nifer y cwmnïau a all fanteisio arno.

The Plaid Cymru amendment refers to a business rate scheme rather than the abolition of business rates because we believe that the burden on small businesses is unfair. We share that concern with the Tories and others, but the Plaid scheme provides better value for money and maximises the number of companies that can benefit.

We know that the Tories recently cited Greece as an example of the economic success of austerity measures, and it seems that their policy on rate relief is equally misguided. Business rates are not the only threat to small and medium-sized businesses in our town centres. We need to see a more balanced playing field when it comes to our town centres and the businesses' ability to compete successfully for the available trade. Therefore, business rates are an essential tool in helping small and medium-sized businesses, but it not the only one.

Rydym yn gwybod i'r Torïaid gyfeirio at Wlad Groeg yn ddiweddar fel enghraifft o lwyddiant economaidd camau cynilo, ac mae'n ymddangos bod eu polisi ar ryddhad ardrethi'r un mor gyfeiliornus. Nid ardrethi busnes yw'r unig fygythiad i fusnesau bach a chanolig yng nghanol ein trefi. Mae arnom angen gweld mwy o degwch wrth ystyried canol ein trefi a gallu'r busnesau i gystadlu'n llwyddiannus am y fasnach sydd ar gael. Felly, mae ardrethi busnes yn un arf hanfodol i helpu busnesau bach a chanolig, ond nid yr unig un.

On a wider context, we eagerly await the publication of Professor Brian Morgan's review for the Government on businesses rates. I heard him speak last Friday, and I was glad to hear his support for the devolution of the rates system to Wales so that we could innovate and alter the system to suit Welsh needs. There may be interesting suggestions coming out of Professor Morgan's work, and I eagerly await his recommendations and suggestions and the Government's response. We should undoubtedly have a debate on that report when it is made public.

Wrth edrych ar y cyd-destun ehangach, rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at gyhoeddi adolygiad yr Athro Brian Morgan i'r Llywodraeth ar ardrethi busnes. Clywais ef yn siarad ddydd Gwener diwethaf, ac roeddwn yn falch o glywed ei fod yn cefnogi datganoli'r system ardrethi i Gymru er mwyn i ni allu arloesi a newid y system yn ôl anghenion Cymru. Efallai y daw awgrymiadau diddorol o waith yr Athro Morgan, ac rwyf yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld ei argymhellion a'i awgrymiadau ac ymateb y Llywodraeth. Yn ddiau dylem gael dadl ar yr adroddiad hwnnw pan gaiff ei wneud yn gyhoeddus.

As I said, the total take from business rates in Wales is almost £1 billion, so it is an essential part of the make-up of local government's spend. If we are to delete the ability to raise some of that money, obviously, we would have to replace it. The Plaid Cymru scheme is costed, and we believe that it is money well-spent in the present circumstances but, obviously, not for

Fel y dywedais, mae'r cyfanswm a ddaw o ardrethi busnes yng Nghymru bron yn £1 biliwn, felly mae'n gyfraniad hanfodol at wariant llywodraeth leol. Os byddwn yn dileu'r gallu i godi rhywfaint o'r arian hwnnw, yn amlwg, byddai'n rhaid i ni gael rhywbeth yn ei le. Mae cynllun Plaid Cymru wedi cael ei gostio, ac rydym yn credu ei fod yn arian sy'n cael ei wario'n ddoeth yn yr

ever. With those remarks, I conclude and hope that you will be able to support our amendment 3.

amgylchiadau presennol, ond, yn amlwg, nid am byth. Rwyf yn cloi gyda'r sylwadau hynny a gobeithio y byddwch yn gallu cefnogi ein gwelliant 3.

**William Graham:** Undoubtedly, the private sector in Wales is too small, as the First Minister and Peter Hain have readily confessed. Offering comprehensive small business rate relief is an ideal way to stimulate enterprise births, rejuvenate local economies and give existing small businesses an opportunity to grow and prosper. The last revaluation of business rates in Wales was in 2010, and, on its website, the Welsh Government has highlighted how this process 'does not raise extra revenue'. The Welsh Conservatives have highlighted how a number of businesses up and down the country have suffered as a direct consequence of that revaluation, particularly rural businesses and tourist-related businesses. Given that a number of firms in Wales have already suffered due to a costly revaluation, it further shows the need for effective business rate relief. Indeed, in Torfaen, the council has written off more than £700,000 in uncollected business rates and, during the last three financial years, 250 businesses in that constituency have had their debts written off by the council. Effective business rate relief provision must, therefore, be a major way forward.

**William Graham:** Heb os, mae'r sector preifat yng Nghymru'n rhy fach, fel y cyfaddefodd y Prif Weinidog a Peter Hain yn barod. Mae cynnig rhyddhad ardrethi busnes bach cynhwysfawr yn ffordd ddelfrydol o ysgogi dechrau busnesau, adfywio economïau lleol a rhoi cyfle i fusnesau bach sydd eisoes ar waith dyfu a ffynnu. Cafodd ardrethi busnes eu hailbrisio ddiwethaf yng Nghymru yn 2010, ac, ar ei gwefan, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad yw'r broses hon yn codi refeniw ychwanegol. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi tynnu sylw at sut y mae nifer o fusnesau ar hyd a lled y wlad wedi dioddef o ganlyniad uniongyrchol i'r ailbrisio hwnnw, yn enwedig busnesau gwledig a busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. O ystyried bod nifer o gwmnïau yng Nghymru eisoes wedi dioddef o ganlyniad i ailbrisio costus, mae'n dangos drachefn yr angen am ryddhad ardrethi busnes effeithiol. A dweud y gwir, yn Nhor-faen, mae'r cyngor wedi dileu dros £700,000 mewn ardrethi busnes heb eu casglu ac, yn ystod y tair blynedd ariannol diwethaf, mae'r cyngor wedi dileu dyledion 250 o fusnesau yn yr etholaeth honno. Felly, rhaid i ddarpariaeth rhyddhad ardrethi busnes effeithiol fod yn ffordd fawr ymlaen.

The United Kingdom Government decided to waive business rates for companies in ports in England, backdated to 2005. As a result, the Welsh Government received a £10 million consequential, but refused to use this money to alleviate the problems of affected businesses in Welsh ports. Moreover, port businesses in England and Wales were hit by backdated tax bills in 2008, when it was determined that the businesses themselves were liable and not the ports. It is extremely worrying that the Welsh Government's decision will place Welsh port-based businesses at a clear disadvantage in comparison with their English counterparts, although I acknowledge that some flexible payment schemes have been agreed.

Penderfynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig hepgor ardrethi busnes ar gyfer cwmnïau mewn porthladdoedd yn Lloegr, wedi'i ôl-ddyddio i 2005. O ganlyniad, derbyniodd Llywodraeth Cymru £10 miliwn o arian canlyniadol, ond gwrthododd ddefnyddio'r arian hwn i liniaru problemau'r busnesau yr effeithiwyd arnynt ym mhorthladdoedd Cymru. Ar ben hynny, cafodd busnesau porthladdoedd yng Nghymru a Lloegr eu taro gan filiau treth wedi'u hôl-ddyddio yn 2008, pan benderfynwyd bod y busnesau eu hunain yn atebol ac nid y porthladdoedd. Mae'n peri cryn bryder y bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru yn rhoi busnesau ym mhorthladdoedd Cymru o dan anfantais glir o'u cymharu â'r busnesau cyfatebol yn Lloegr, er fy mod yn cydnabod y cytunwyd ar rai cynlluniau talu hyblyg.

We need to remember the importance of SMEs to the Welsh economy. Let us not forget that small and medium-sized enterprises account for 99% of the Welsh business stock. They provide employment for well over half the private sector workforce. They are the lifeblood of the Welsh economy and require adequate support from the Welsh Government.

Mae arnom angen cofio pa mor bwysig yw busnesau bach a chanolig i economi Cymru. Gadewch inni beidio ag anghofio bod busnesau bach a chanolig yn cynrychioli 99 y cant o stoc busnes Cymru. Maent yn darparu cyflogaeth i dros hanner gweithlu'r sector preifat. Dyma asgwrn cefn economi Cymru ac mae angen cefnogaeth ddigonol arnynt gan Lywodraeth Cymru.

Given that there is a desperate need in Wales to grow the private sector, the Welsh Conservatives believe that the current levels of business rate relief available are not adequate. Business rate relief is one of the strongest tools at the Welsh Labour Government's disposal to get the economy in Wales moving and, with Wales's over-reliance on the public sector, Labour Ministers should be doing more to utilise that tool to encourage wealth creation and reduce unemployment.

O gofio bod taer angen tyfu'r sector preifat yng Nghymru, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu nad yw lefelau presennol y rhyddhad ardrethi busnes sydd ar gael yn ddigonol. Rhyddhad ardrethi busnes yw un o'r arfau cryfaf sydd gan Lywodraeth Lafur Cymru i symud economi Cymru ymlaen ac, oherwydd bod Cymru'n dibynnu gormod ar y sector cyhoeddus, dylai Gweinidogion Llafur fod yn gwneud mwy i ddefnyddio'r arf hwnnw i hybu creu cyfoeth a lleihau diweithdra.

Welsh Conservatives have pledged to abolish business rates for all businesses with a rateable value of under £12,000 per annum, and provide tapered relief for small businesses with a rateable value up to £15,000, in order to promote wealth creation and boost employment. This policy would facilitate much-needed capital for small businesses to hire new staff or explore new markets. We estimate that our policy would result in a reduction in the amount of business rates billed in a financial year in the region of £50 million. It is important to remember that the benefits will outweigh the costs, particularly when one considers the reduction in unemployment. If the Welsh Government listened to our proposals, the private sector could grow, unemployment could be reduced and Wales could become more prosperous.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi addo dileu ardrethi busnes i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o dan £12,000 y flwyddyn, a darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol i fusnesau bach sydd â gwerth ardrethol hyd at £15,000, er mwyn hybu creu cyfoeth a hybu cyflogaeth. Byddai'r polisi hwn yn hwyluso cyfalaf mawr ei angen ar gyfer busnesau bach i gyflogi staff newydd neu archwilio marchnadoedd newydd. Rydym yn amcangyfrif y byddai ein polisi'n arwain at leihau tua £50 miliwn yn swm yr ardrethi busnes sy'n cael eu bilio mewn blwyddyn ariannol. Mae'n bwysig cofio y bydd y manteision yn fwy na'r costau, yn enwedig o ystyried y gostyngiad mewn diweithdra. Petai Llywodraeth Cymru yn gwrando ar ein cynigion, gallai'r sector preifat dyfu, gallai diweithdra ddisgyn a gallai Cymru fod yn fwy llewyrchus.

Despite billions being spent on economic development in Wales, and the nation having received two rounds of European funding, the private sector in Wales is still far too small. In 2010, there were 39 enterprise or business births in Wales for every 10,000 of the population. That is the lowest figure of any United Kingdom nation, with a figure as high as 61 in England. Small business owners in Wales face increasing overheads, heating and

Er gwaethaf gwario biliynau ar ddatblygu economaidd yng Nghymru, a bod y wlad wedi derbyn dau gylch o arian Ewropeaidd, mae'r sector preifat yng Nghymru yn dal yn rhy fach o lawer. Yn 2010, roedd 39 o fentrau neu fusnesau newydd wedi cael eu creu yng Nghymru am bob 10,000 o'r boblogaeth. Dyna'r ffigur isaf o unrhyw wlad yn y Deyrnas Unedig, gyda'r ffigur mor uchel â 61 yn Lloegr. Mae perchnogion busnesau bach

lighting costs and the threat of personal prosecution if they fail to pay their business rates. That is hardly an incentive for anyone to start up a business. Clearly, in Wales, we are still waiting for the findings of the business rates review. The Welsh Government said that this would be published by the end of February, and we are grateful for the Minister's clarification on that today.

yng Nghymru'n wynebu gorbenion, costau gwresogi a goleuo uwch a'r bygythiad o gael eu herlyn yn bersonol os ydynt yn methu â thalu eu hardrethi busnes. Prin ellir dweud bod hyn yn gymhelliant i unrhyw un ddechrau busnes. Yn amlwg, yng Nghymru, rydym yn dal i aros am ganfyddiadau'r adolygiad o ardrethi busnes. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Chwefror, ac rydym yn ddiolchgar am eglurhad y Gweinidog ar hynny heddiw.

Figures published by Eurostat yesterday showed that Wales has the lowest gross domestic product of all UK nations and regions, at just 82% of the average of the 27 EU countries. After a decade of Labour Governments in the Assembly, Wales remains the poorest part of the United Kingdom and Welsh GDP is consistently below the European average. Helping small businesses to survive and expand and making the option to become an entrepreneur a more realistic and achievable goal for people are critical to Wales's economic revival.

Dengys ffigurau a gyhoeddwyd gan Eurostat ddoe mai Cymru sydd â'r cynnyrch mewnwladol crynswth isaf o holl wledydd a rhanbarthau'r DU, sef dim ond 82 y cant o gyfartaledd 27 gwlad yr UE. Ar ôl degawd o Lywodraethau Llafur yn y Cynulliad, mae Cymru yn dal yn rhan dlotaf y Deyrnas Unedig ac mae CMC Cymru yn gyson is na'r cyfartaledd Ewropeaidd. Mae helpu busnesau bach i oroesi ac i ehangu a gwneud y dewis i fod yn entrepreneur yn nod mwy realistig a chyraeddadwy ar gyfer pobl yn hanfodol i adfywiad economaidd Cymru.

**David Rees:** Thank you for allowing me to speak in this debate, Llywydd. In Wales, as in the rest of the world, small and medium-sized enterprises are recognised as the most responsive engine of economic growth. In the globalised economy that exists today, with its large, faceless corporations, SMEs serve as the lifeblood of our communities—I do not think that we dispute that. I am sure that there are some here who will have started their own small businesses. I can remember the challenge that I felt and the uniquely rewarding experience that it was when my wife set up a small business several years ago. These SMEs are the heart of their communities and they should be the drivers of our economic recovery, innovation and growth, and today's debate represents an opportunity to highlight their contribution to the Welsh economy.

**David Rees:** Diolch i chi am ganiatáu i mi siarad yn y ddadl hon, Lywydd. Yng Nghymru, yn yr un modd â gweddill y byd, cydnabyddir mai busnesau bach a chanolig yw'r peiriant mwyaf ymatebol ar gyfer twf economaidd. Yn yr economi fyd-eang sy'n bodoli heddiw, gyda'i chorfforaethau mawr a di-wyneb, busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn ein cymunedau—nid wyf yn meddwl ein bod yn anghytuno â hynny. Rwyf yn siŵr bod rhai yma a fydd wedi dechrau eu busnesau bach eu hunain. Gallaf gofio'r sialens a deimlais a'r profiad gwerth chweil unigryw pan sefydlodd fy ngwraig fusnes bach flynyddoedd yn ôl. Mae'r busnesau bach a chanolig hyn yn galon i'w cymunedau a dylent fod yn sbarduno ein hadferiad economaidd, arloesedd a thwf, ac mae dadl heddiw'n gyfle i dynnu sylw at eu cyfraniad at economi Cymru.

It is acknowledged that SMEs play a vital role, providing jobs and services throughout the UK and beyond. The figures have already been quoted and I can just use the same figures and that is all. There are 191,800 enterprises, providing around 730,000 jobs—those are the latest available data. However,

Cydnabyddir bod busnesau bach a chanolig yn chwarae rhan hanfodol, gan ddarparu swyddi a gwasanaethau ledled y DU a thu hwnt. Mae'r ffigurau eisoes wedi cael eu crybwyll a gallaf ddefnyddio'r un ffigurau a dyna'r oll. Ceir 191,800 o fusnesau, yn darparu tua 730,000 o swyddi—dyna'r data

those data also show that 94.1% of new businesses are a success in their first year, but, after four years, the figure drops to just 47.4%. In fact, the Member for Aberconwy, in her opening speech, talked about the first quarter of 2011 being the worst quarter for failures, but she did not mention the fact that the austerity measures introduced by her Government in Westminster were kicking in at that time.

diweddaraf sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r data hefyd yn dangos bod 94.1 y cant o fusnesau newydd yn llwyddo yn eu blwyddyn gyntaf, ond, ar ôl pedair blynedd, mae'r ffigur yn disgyn i ddim ond 47.4 y cant. A dweud y gwir, yn ei haraith agoriadol dywedodd Aelod Aberconwy mai chwarter cyntaf 2011 oedd y chwarter gwaethaf am fethiannau, ond ni soniodd am y ffaith bod y camau cynilo a gyflwynwyd gan ei Llywodraeth yn San Steffan yn dechrau cael effaith ar y pryd.

As a Government, Labour in Wales is committed to supporting SMEs throughout their lifespan and has launched a range of initiatives, including the funding of new enterprise zones; the Welsh Government start-up service, which has created 2,622 enterprises; the announcement of a £6 million loan fund to support the growth of microbusinesses; allowing businesses to top up their workforces' skills, as was mentioned earlier; and the investment of £1.3 billion in capital funding to improve Wales's infrastructure. Also, let us not forget that, recently, £30 million has doubled our economic growth fund, targeted at supporting SMEs.

Fel Llywodraeth, mae Llafur yng Nghymru wedi ymrwymo i gefnogi busnesau bach a chanolig drwy gydol eu hoes ac wedi lansio nifer o fentrau, gan gynnwys ariannu ardaloedd menter newydd; gwasanaeth dechrau busnes Llywodraeth Cymru, sydd wedi creu 2,622 o fusnesau; cyhoeddi cronfa benthyciadau gwerth £6 miliwn i gefnogi twf microfusnesau; caniatáu i fusnesau ychwanegu at sgiliau eu gweithluoedd, fel y soniwyd yn gynharach; a'r buddsoddiad gwerth £1.3 biliwn mewn arian cyfalaf i wella seilwaith Cymru. Hefyd, gadewch inni beidio ag anghofio bod £30 miliwn wedi dyblu ein cronfa twf economaidd yn ddiweddar, sydd wedi'i thargedu at gefnogi busnesau bach a chanolig.

We need to be able to look at how we encourage the environment to grow and develop the economy. We also need to look to the future, to realise future potential. Just last week, the Minister for business joined Google UK's managing director to launch the Getting Welsh Businesses Online campaign to help Welsh SMEs develop websites and reach new markets throughout the UK and beyond. This week, the First Minister announced a £50 million package to bring star science professors to work and create networks of researchers in Wales as the centre piece of a drive to use science to boost the Welsh economy. Alongside this, a £100 million Welsh life sciences fund has been announced to develop businesses in a new direction here in Wales.

Mae angen i ni allu edrych ar sut yr ydym yn hybu'r amgylchedd i dyfu ac i ddatblygu'r economi. Mae arnom hefyd angen edrych i'r dyfodol, i wireddu potensial yn y dyfodol. Yr wythnos diwethaf, ymunodd y Gweinidog busnes â rheolwr gyfarwyddwr Google UK i lansio'r ymgyrch Cael Busnesau Cymru Ar-lein i helpu busnesau bach a chanolig Cymru i ddatblygu gwefannau a chyrraedd marchnadoedd newydd ledled y DU a thu hwnt. Yr wythnos yma, cyhoeddodd y Prif Weinidog becyn gwerth £50 miliwn i ddod ag athrawon gwyddoniaeth enwog i weithio a chreu rhwydweithiau o ymchwilwyr yng Nghymru fel canolbwynt ymgyrch i ddefnyddio gwyddoniaeth i roi hwb i economi Cymru. Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddwyd cronfa gwyddorau bywyd Cymru gwerth £100 miliwn i ddatblygu busnesau mewn cyfeiriad newydd yma yng Nghymru.

Today, I attended the launch of 'Energy Wales: A Low Carbon Transition', where the

Heddiw, roeddwn yn bresennol yn lansiad 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel', lle soniodd

chief executive of the Sustainable Product Engineering Centre for Innovative Functional Industrial Coatings mentioned that he was targeting 5,000 to 10,000 jobs as a result of building businesses here in Wales. [*Interruption.*] Did you want to interrupt?

prif weithredwr y Ganolfan Peirianneg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Arloesol Swyddogaethol ei fod yn targedu 5,000 i 10,000 o swyddi o ganlyniad i fusnesau adeiladu yma yng Nghymru. [*Torri ar draws.*] A oedd arnoch eisiau torri ar draws?

**The Presiding Officer:** Order. Would you just carry on, please?

**Y Llywydd:** Trefn. A fyddech yn bwrw ymlaen, os gwelwch yn dda?

**David Rees:** Sorry.

**David Rees:** Mae'n ddrwg gennyf.

The investment reflects the Government’s determination to push ahead immediately with getting investors in to capture the commercial—

Mae'r buddsoddiad yn adlewyrchu penderfyniad y Llywodraeth i fwrw ymlaen ar unwaith i gael buddsoddwyr i fanteisio ar y—

**Andrew R.T. Davies** *rose—*

**Andrew R.T. Davies** *a gododd—*

**The Presiding Officer:** You are a hostage to fortune, you see.

**Y Llywydd:** Rydych yn wystl ffawd.

**David Rees:** True.

**David Rees:** Mae hynny'n wir.

**Andrew R.T. Davies:** I thank the Member for giving way. He has given us a whole list of initiatives, and while no-one would dispute them, one need only look at the Welsh Government’s past form. Take the technium project for example: it took £100 million-worth of Welsh Government money, supposedly to kindle small businesses and get them going, but it was a complete failure. Eventually, it was shut down. So, it is about the experience that businesses are getting here and now.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch i’r Aelod am ildio. Rydym wedi cael rhestr gyfan o fentrau, ac er na fyddai neb yn anghytuno â nhw, y cyfan y mae angen i chi ei wneud yw edrych ar waith Llywodraeth Cymru yn y gorffennol. Ystyriwch y prosiect technium er enghraifft: cymerodd gwerth £100 miliwn o arian Llywodraeth Cymru, yn ôl pob sôn, i ddechrau busnesau bach a'u rhoi ar waith, ond roedd yn fethiant llwyr. Cafodd ei gau i lawr yn y pen draw. Felly, mae a wnelo â'r profiad a gaiff busnesau yma a nawr.

**David Rees:** You clearly were not at the Baglan technium this morning. It is chock-a-block; people cannot get in there. SPECIFIC was one of the companies driving that.

**David Rees:** Mae'n amlwg nad oeddech yn technium Baglan y bore yma. Mae'n llawn dop; ni all pobl gael mewn. SPECIFIC oedd un o'r cwmnïau a oedd yn mynd â hynny rhagddo.

On business rates, the Government has already taken decisive action. Business rate relief measures have meant that around half the small businesses in Wales have not paid any business rates since 1 October 2010, and roughly 20% have seen their business rates significantly reduced, saving £7,355 on average. These are all packages to encourage economic growth within which SMEs can prosper. The same cannot be said of the UK Government, which is putting measures in

O ran ardrethi busnes, mae'r Llywodraeth eisoes wedi cymryd camau pendant. Mae mesurau rhyddhad ardrethi busnes wedi golygu nad yw tua hanner y busnesau bach yng Nghymru wedi talu unrhyw ardrethi busnes er 1 Hydref 2010, ac mae oddeutu 20 y cant wedi gweld eu hardrethi busnes yn disgyn yn sylweddol, gan arbed £7,355 ar gyfartaledd. Mae'r rhain i gyd becynnau i hybu twf economaidd a fydd yn galluogi busnesau bach a chanolig i ffynnu. Ni ellir

that are knocking growth—we are seeing the damage that is being done as a consequence of that. On top of this process, we have to support and acknowledge the efforts being made by the Welsh Government to look at SMEs and develop them, and build upon the work that has already gone ahead.

dweud yr un peth am Lywodraeth y DU sy'n rhoi mesurau ar waith sy'n llesteirio twf—rydym yn gweld y difrod sy'n cael ei wneud o ganlyniad i hynny. Ar ben y broses hon, rhaid i ni gefnogi a chydnabod yr ymdrechion a wneir gan Lywodraeth Cymru i edrych ar fusnesau bach a chanolig a'u datblygu, ac adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi mynd rhagddo.

Before I conclude, I want to make a couple of points to remind us of a few of things. We often talk about SMEs and, from some of the conversations that I have heard, I get the feeling that the perception is that it is about shops in town centres, but it is about far more than that. SMEs provide a new, innovative service or product. They provide an individual service to the public not offered elsewhere, and they serve larger organisations in supply chains. Those supply chains are now being decimated by the decisions taken by the UK Government that mean that larger companies are suffering as a consequence. The economic environment in which SMEs operate is crucial.

Cyn i mi gloi, rwyf am wneud ychydig o bwyntiau i'n hatgoffa o ychydig o bethau. Rydym yn aml yn siarad am fusnesau bach a chanolig ac, o rai o'r sgyrsiau rwyf wedi eu clywed, rwyf yn cael y teimlad mai'r canfyddiad yw bod hyn yn ymwneud â siopau yng nghanol trefi, ond mae'n ymwneud â llawer mwy na hynny. Mae busnesau bach a chanolig yn darparu gwasanaeth neu gynnyrch arloesol, newydd. Maent yn darparu gwasanaeth unigol i'r cyhoedd na chaiff ei gynnig mewn mannau eraill, ac maent yn gwasanaethu sefydliadau mwy mewn cadwyni cyflenwi. Mae'r cadwyni cyflenwi hynny nawr yn cael eu dinistrio gan y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU sy'n golygu bod cwmnïau mwy yn dioddef o ganlyniad. Mae'r amgylchedd economaidd y mae busnesau bach a chanolig yn gweithredu ynddo'n hanfodol.

**The Presiding Officer:** Order. Can you start to wind up, please?

**Y Llywydd:** Trefn. A allwch ddechrau dirwyn i ben nawr, os gwelwch yn dda?

**David Rees:** It is imperative that we listen to the voice of SMEs and ensure that we are putting in place the right frameworks and structures.

**David Rees:** Mae'n hanfodol ein bod yn gwrando ar lais busnesau bach a chanolig a sicrhau ein bod yn rhoi'r fframweithiau a'r strwythurau cywir ar waith.

3.30 p.m.

**Antoinette Sandbach:** The Welsh private sector is simply too small. This point has been acknowledged by the First Minister and by Peter Hain. This is despite billions of pounds being spent in two rounds of European funding. I listened with interest to David Rees's list of initiatives taken by the Welsh Government, which, no doubt, is a list of initiatives taken by the Welsh Government over the past 10 years. This week, the Eurostat figures showed that, in Conwy and Denbighshire, gross domestic product has plummeted from 76% of the European

**Antoinette Sandbach:** Yn syml, mae'r sector preifat yng Nghymru'n rhy fach. Mae'r Prif Weinidog a Peter Hain wedi cydnabod y pwynt hwn. Mae hyn er gwaethaf gwario biliynau o bunnoedd mewn dau gylch o arian Ewropeaidd. Gwrandewais yn astud ar restr David Rees o'r mentrau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, sydd, yn ddiau, yn rhestr o fentrau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf. Yr wythnos yma, dangosodd y ffigurau Eurostat fod cynnyrch mewnwladol crynswth yng Nghonwy a Sir Ddinbych wedi disgyn yn

average to 66% in 2009.

As the First Minister acknowledged, what we need is not initiatives, but delivery. We can deliver through Welsh small and medium-sized enterprises. I welcome the Minister's microbusiness strategy, which will help to reverse in Wales what has been the smallest number of enterprise births, as compared with all other parts of the UK. That figure has been falling every year since 2004. However, enterprise births are being eclipsed by enterprise deaths, as it were, with more than 3,000 additional businesses going out of business than the number being set up, according to the figures. It is clear that Welsh SMEs need support. They have huge potential to deliver jobs and to boost the economy. The Welsh Government has one of the best tools at its disposal to help them, through business rates.

I have heard with interest over the last few months many questions and debates brought forward by Plaid Cymru, which has eventually decided to support the Welsh Conservatives' policy on business rates, which has been our policy for many years. Even Dafydd Wigley has said that people may well ask how on earth we can pay for business rates cuts—it certainly can be afforded within the Welsh Government's budget and it would be better for that money to be recirculated within the business sector, enabling it to take on more people, to set up new projects and to have a new confidence and incentive for it to work, rather than being gobbled up in the bottomless pit of bureaucracy where so much of it ends up at present. That is the experience of SMEs in Wales—a bottomless pit of bureaucracy.

Business rates are the third highest expense for small businesses, and although Eluned Parrott is right to say that it is complicated, the Welsh Conservatives' scheme is simple to understand. It may be oversimplistic, but it is easy to understand and to apply and has been developed over many years through talking with the Federation of Small Businesses as well as with other business organisations. I am delighted that you are now taking the

sylweddol o 76 y cant o'r cyfartaledd Ewropeaidd i 66 y cant yn 2009.

Fel roedd y Prif Weinidog yn ei gydnabod, nid mentrau sydd eu hangen arnom, ond cyflawni. Gallwn gyflawni drwy fusnesau bach a chanolig Cymru. Rwyf yn croesawu strategaeth microfusnesau'r Gweinidog. Bydd y strategaeth hon yn helpu i weddnewid y sefyllfa yng Nghymru lle gwelwyd y nifer isaf o fusnesau'n cael eu dechrau, o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Mae'r ffigur hwnnw wedi bod yn disgyn bob blwyddyn er 2004. Fodd bynnag, mae cau busnesau'n dechrau goddiweddyd dechrau busnesau, gyda mwy na 3,000 o fusnesau ychwanegol yn mynd allan o fusnes na'r nifer sy'n cael eu sefydlu, yn ôl y ffigurau. Mae'n amlwg bod angen cymorth ar fusnesau bach a chanolig Cymru. Mae ganddynt botensial enfawr i ddarparu swyddi a rhoi hwb i'r economi. Mae gan Lywodraeth Cymru un o'r arfau gorau sydd ar gael i'w helpu, drwy ardrethi busnes.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf rwyf wedi clywed â chryn ddiddordeb nifer o gwestiynau a dadleuon yn cael eu cyflwyno gan Blaid Cymru, sydd, yn y pen draw, wedi penderfynu cefnogi polisi'r Ceidwadwyr Cymreig ar ardrethi busnes, a fu'n bolisi i ni ers nifer o flynyddoedd. Mae hyd yn oed Dafydd Wigley wedi dweud y gallai pobl holi sut yn y byd y gallwn dalu am doriadau mewn ardrethi busnes—yn sicr mae modd ei fforddio yng nghyllideb Llywodraeth Cymru a byddai'n well ailddosbarthu'r arian hwnnw yn y sector busnes, gan ei alluogi i gyflogi rhagor o bobl, sefydlu prosiectau newydd a chael hyder newydd ac anogaeth er mwyn iddo weithio, yn hytrach na chael ei lyncu yn y pwll diwaelod o fiwrocratiaeth lle mae cymaint ohono'n cyrraedd ar hyn o bryd. Dyna brofiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru—pwll diwaelod o fiwrocratiaeth.

Ardrethi busnes yw'r drydedd gost uchaf ar gyfer busnesau bach, ac er bod Eluned Parrott yn llygad ei lle wrth ddweud ei fod yn gymhleth, mae'n syml deall cynllun y Ceidwadwyr Cymreig. Efallai ei fod yn rhy syml, ond mae'n hawdd ei ddeall a gwneud cais amdano ac mae wedi cael ei ddatblygu dros nifer o flynyddoedd drwy siarad â Ffederasiwn y Busnesau Bach yn ogystal â chyda sefydliadau busnes eraill. Rwyf wrth

opportunity to speak to the FSB.

fy modd eich bod yn awr yn manteisio ar y cyfle i siarad â'r Ffederasiwn Busnesau Bach.

Business rates are often the most complicated tax to calculate, and many small businesses simply do not know what they are paying for. There is often a huge disconnect between what they pay and what they get in return for business rates. The Welsh Conservatives would abolish all business rates for businesses with a rateable value of under £12,000 and provide tapered relief for those with values of up to £15,000. Businesses would then have more money available to grow and to hire new staff. That would apply across the board so that they do not have to access a different scheme—that money would be in their pockets so that they could have the freedom of choice in terms of how they would like the business to grow and where they could best target the money. This policy is affordable and would reap dividends in terms of jobs growth.

Yn aml, ardrethi busnes yw'r dreth fwyaf cymhleth i'w chyfrifo, a fydd nifer o fusnesau bach ddim yn gwybod beth maent yn talu amdano. Yn aml nid oes cysylltiad rhwng yr hyn maent yn ei dalu a'r hyn maent yn ei gael yn ôl am ardrethi busnes. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn diddymu pob ardreth busnes ar gyfer busnesau sydd â gwerth ardrethol o dan £12,000 ac yn darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol i'r rheini sydd â gwerthoedd hyd at £15,000. Byddai gan fusnesau wedyn ragor o arian ar gael i dyfu ac i gyflogi staff newydd. Byddai hynny'n berthnasol yn gyffredinol er mwyn iddynt beidio â gorfod defnyddio cynllun arall—byddai'r arian hwnnw'n eu pocedi er mwyn iddynt gael y rhyddid i ddewis sut yr hoffent i'r busnes dyfu a lle'r gorau iddynt dargedu'r arian. Mae'r polisi hwn yn fforddiadwy ac yn talu ar ei ganfed o ran twf swyddi.

Former Labour Governments have had many stated ambitions in the past, but when it has come to growth, they have dragged their heels. Rural rate relief has been abolished and I well remember the consequences and the howls of outrage when businesses realised the expense they would face with their business rates following the abolition of that scheme. This is why the current limited scheme from the Welsh Government, which was due to expire, was brought into play.

Mae Llywodraethau Llafur blaenorol wedi datgan nifer o uchelgeisiau yn y gorffennol, ond wrth edrych ar dwf, maent wedi llusgo eu sodlau. Diddymwyd rhyddhad ardrethi gwledig a chofiaf y canlyniadau a'r bonllefau o ddicter yn iawn pan sylweddolodd busnesau'r gost y byddent yn ei hwynebu gyda'u hardrethi busnes ar ôl diddymu'r cynllun hwnnw. Dyma pam cyflwynwyd y cynllun cyfredol cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru, a oedd i fod i ddod i ben.

The last Minister for economic development, supported by Labour colleagues, argued against the high levels of business rate relief that Scottish businesses enjoy as it would have taken a £40 million chunk out of his department's £240 million budget. Given the recent announcement to give £50 million to the university sector—

Roedd y Gweinidog diwethaf dros ddatblygu economaidd, gyda chefnogaeth cyd-Aelodau Llafur, yn dadlau yn erbyn y lefelau uchel o ryddhad ardrethi busnes mae busnesau'r Alban yn eu mwynhau oherwydd y byddai wedi golygu cymryd £40 miliwn allan o gyllideb ei adran a oedd yn £240 miliwn. O ystyried y cyhoeddiad diweddar i roi £50 miliwn i'r sector prifysgolion—

**The Presiding Officer:** Order. Could you wind up please?

**Y Llywydd:** Trefn. A allech ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

**Antoinette Sandbach:**—and £100 million to support a number of biotechnology companies, surely it is time to consider making £40 million available for additional rate relief for the smallest businesses.

**Antoinette Sandbach:**—a £100 miliwn i gefnogi nifer o gwmnïau biotechnoleg, siawns ei bod yn hen bryd ystyried darparu £40 miliwn ar gyfer rhyddhad ardrethi ychwanegol i'r busnesau lleiaf.

**Mohammad Asghar:** Wales is officially the poorest nation of the United Kingdom, as many of my colleagues have already mentioned. The wealth gap between Wales and the rest of the UK has widened, and the unemployment rate now stands at 9%. My own region of South Wales East has been particularly badly hit, with the five worst areas in Wales for claiming jobseeker's allowance being Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil, Newport, Caerphilly and Torfaen. The recent announcement of the loss of 164 jobs at Panasonic in Newport, blamed on the severe economic environment, demonstrates the need for urgent action to be taken.

**Mohammad Asghar:** Yn swyddogol Cymru yw gwlad dlotaf y Deyrnas Unedig, fel y mae nifer o'm cyd-Aelodau eisoes wedi sôn. Mae'r bwlch rhwng cyfoeth Cymru a gweddill y DU wedi tyfu, ac mae'r gyfradd ddiweithdra erbyn hyn yn naw y cant. Mae fy rhanbarth fy hun sef Dwyrain De Cymru wedi cael ergyd arbennig o drom, gan mai'r pum ardal waethaf yng Nghymru ar gyfer hawlio lwfans ceisio gwaith yw Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Casnewydd, Caerffili a Thor-faen. Mae'r cyhoeddiad diweddar ynghylch colli 164 o swyddi yn Panasonic yng Nghasnewydd, a'r amgylchedd economaidd difrifol sy'n cael y bai am hynny, yn dangos bod angen cymryd camau ar frys.

I realise that Wales is a small nation and that we are not immune from the effects of the economic problems that face the rest of the world. However, there are measures we can take here in Wales to boost the economy and to create jobs. We need to create the conditions that will give our small and medium-sized businesses the opportunity to grow and to thrive. The Welsh Government needs to revive the private sector in Wales through a clear and coherent strategy that encourages more business start-ups. I do not often agree with Peter Hain and the First Minister, but they have both said that the private sector in Wales is too small. We have to change this, Minister. This is in spite of billions of pounds being spent on economic development, including funding from European programmes.

Rwyf yn sylweddoli bod Cymru yn wlad fach ac nad ydym wedi ein hynysu oddi wrth effeithiau'r problemau economaidd sy'n wynebu gweddill y byd. Fodd bynnag, mae mesurau y gallwn eu cymryd yma yng Nghymru i roi hwb i'r economi ac i greu swyddi. Mae arnom angen creu'r amodau a fydd yn rhoi'r cyfle i'n busnesau bach a chanolig dyfu a ffynnu. Mae angen i Lywodraeth Cymru adfywio'r sector preifat yng Nghymru drwy strategaeth glir a chydlynol sy'n annog mwy o bobl i ddechrau busnes. Nid wyf yn aml yn cytuno â Peter Hain a'r Prif Weinidog, ond maent ill dau wedi dweud bod y sector preifat yng Nghymru'n rhy fach. Rhaid i ni newid hyn, Weinidog. Mae hyn er gwaethaf gwario biliynau o bunnoedd ar ddatblygu economaidd, gan gynnwys arian o raglenni Ewropeaidd.

Many businesses in Wales are at present suffering from tight cash flows, and this is a time when Government must take steps to deal with the banks operating in Wales so that we can make sure that their big profits—and just a few years ago, they were making great losses, but they have turned it around—should be subject to a ceiling, with half of their profits being used in local regions to boost the local economy and small businesses. This is an idea only, but it could revive the whole nation very quickly, and only Conservatives can deliver this.

Ar hyn o bryd mae nifer o fusnesau yng Nghymru'n dioddef o lifoedd arian tynn, ac mae hwn yn gyfnod pan mae'n rhaid i'r Llywodraeth gymryd camau i ddelio â'r banciau sy'n gweithredu yng Nghymru er mwyn i ni allu sicrhau bod eu helw mawr—a dim ond ychydig flynyddoedd yn ôl, roeddent yn gwneud colledion mawr, ond mae pethau wedi newid—yn amodol ar nenfwd, gyda hanner eu helw'n cael ei ddefnyddio mewn rhanbarthau lleol i roi hwb i'r economi leol a busnesau bach. Dim ond syniad yw hwn, ond gallai adfywio'r genedl gyfan yn gyflym iawn, a dim ond y Ceidwadwyr all gyflawni hyn.

**The Presiding Officer:** Order. Will you take

**Y Llywydd:** Trefn. A wnewch dderbyn

an intervention?

ymyriad?

**David Rees:** You say that the Welsh Government should talk to the banks; do you also agree that the Conservative-led Government in London should be talking to the banks and doing more than it is doing?

**David Rees:** Rydych yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru siarad â'r banciau; a ydych hefyd yn cytuno y dylai'r Llywodraeth yn Llundain sy'n cael ei harwain gan y Ceidwadwyr siarad â'r banciau a gwneud mwy nag y mae'n ei wneud?

**Mohammad Asghar:** The Westminster Government is already doing that. The mess that you created—it has just cleared it, to make sure that we still have a AAA credit rating. Do not forget, we are still pretty good economically. We have done the best, and you have done the worst.

**Mohammad Asghar:** Mae Llywodraeth San Steffan eisoes yn gwneud hynny. Y llanastr roeddech chi wedi'i greu—mae newydd roi trefn arno, i wneud yn siŵr ein bod yn dal i gael statws credyd AAA. Peidiwch ag anghofio, rydym yn dal yn eithaf da yn economaidd. Rydym ni wedi gwneud y gorau, ac rydych chi wedi gwneud y gwaethaf.

Business rates, rents and wages are the three largest outgoings for small businesses. Abolishing rates for businesses with a rateable value below £12,000, and providing tapered relief for those up to £15,000, would provide timely help to allow companies to focus on expanding their business and to take on new staff.

Ardrethi busnes, rhenti a chyflogau yw tri gwariant mwyaf busnesau bach. Byddai dileu ardrethi i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o dan £12,000, a darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol i'r rheini hyd at £15,000, yn rhoi cymorth amserol i ganiatáu i gwmnïau ganolbwyntio ar ehangu eu busnes a chyflogi staff newydd.

Under our proposals, 73 per cent of business premises in Wales would be taken out of rates altogether. This would provide a much needed boost to our retail sector. Empty shops blight our towns and cities. Newport has the highest vacancy rate of empty shops in Wales, currently standing at nearly 28 per cent. By abolishing business rates for small companies, we can revive our towns and cities. Small and medium-sized businesses are the lifeblood of the Welsh economy, providing jobs and driving growth.

O dan ein cynigion, byddai 73 y cant o eiddo busnes yng Nghymru yn cael eu codi o ardrethi'n gyfan gwbl. Byddai hyn yn rhoi hwb mawr ei angen i'n sector manwerthu. Mae siopau gwag yn difetha ein trefi a'n dinasoedd. Casnewydd sydd â'r gyfradd uchaf o siopau gwag yng Nghymru, ar hyn o bryd mae'n bron i 28 y cant. Drwy ddileu ardrethi busnes i gwmnïau bach, gallwn adfywio ein trefi a'n dinasoedd. Busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn economi Cymru, gan ddarparu swyddi a hybu twf.

The Welsh Government is not against giving businesses tax breaks in principle. I welcome the Welsh Government's commitment to provide an enterprise zone for Ebbw Vale. Enterprise zones are designed to boost a local economy by providing firms with incentives to invest, such as tax breaks. If the Welsh Government can provide tax incentives to local economies through enterprise zones, why can it not do so for the whole Welsh economy? Welsh businessmen and women know best how to run their companies. They are looking to the Welsh Government to provide the support they need to promote

Nid yw Llywodraeth Cymru yn erbyn rhoi manteision treth i fusnesau mewn egwyddor. Rwyf yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu ardal fenter ar gyfer Glynebwy. Mae ardaloedd menter yn cael eu cynllunio i roi hwb i economi leol drwy ddarparu cymhellion i gwmnïau fuddsoddi, fel seibiannau treth. Os gall Llywodraeth Cymru ddarparu cymhellion treth i economïau lleol drwy ardaloedd menter, pam na all wneud hynny ar gyfer economi Cymru gyfan? Pobl fusnes Cymru sy'n gwybod orau sut y mae rhedeg eu cwmnïau. Maent yn edrych ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r

wealth creation and employment. I call on the Minister to give the whole Welsh economy a boost by supporting our motion today.

gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i hybu creu cyfoeth a chyflogaeth. Galwaf ar y Gweinidog i roi hwb i economi Cymru gyfan drwy gefnogi ein cynnig heddiw.

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I call on the UK Government, in its budget, to look at a national insurance holiday for SMEs, and at what more it could do to encourage people into employment that way. That is the call that I hear from across the piece to the Government. I was at a business breakfast the other morning where businesspeople were talking about issues other than support; they were not being gloomy about the economy, but talking up what Welsh industry and business is doing and being positive about the work going on in Wales. That is the message business wants; it does not want doom and gloom. If you carry on talking doom and gloom, we will sink to the bottom, but if you start to talk things up, we will go straight back up to the top. [*Interruption*.]

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Yn ei chyllideb, rwyf yn galw ar Lywodraeth y DU i edrych ar wyliau yswiriant gwladol i fusnesau bach a chanolig, ac ar beth arall gallai ei wneud i annog pobl i mewn i gyflogaeth yn y ffordd honno. Dyna'r alwad i'r Llywodraeth a glywaf yn gyffredinol. Roeddwn mewn brecwast busnes y bore o'r blaen lle'r oedd pobl fusnes yn sôn am faterion ar wahân i gymorth; nid oeddent yn ddigalon am yr economi, ond roeddent yn canmol yr hyn y mae diwydiannau a busnesau Cymru’n ei wneud ac roeddent yn gadarnhaol am y gwaith sy'n digwydd yng Nghymru. Dyna'r neges mae busnesau am ei chael; nid oes eisiau digalondid arnynt. Os byddwch yn dal ati i fod yn ddigalon, byddwn yn suddo i'r gwaelod, ond os dechreuwch ganmol pethau, byddwn yn mynd yn ôl i'r brig ar ein hunion. [*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order. Will you take an intervention?

**Y Llywydd:** Trefn. A wnewch dderbyn ymyriad?

**Edwina Hart:** No, I will not take an intervention at this stage.

**Edwina Hart:** Na, nid wyf am dderbyn ymyriad ar hyn o bryd.

Let us move on to the issue where we have consensus in the Chamber. I agree with everybody here, and I have said publicly, that the private sector is too small in Wales and we need to have a better balance in the economy. We need a better balance for the economy in terms of large companies, manufacturing, indigenous companies, microbusinesses and SMEs. We need to get the balance right. I also agree—Mohammad Asghar was quite right—about the banks. We need to look at issues surrounding their lending policies and how they are adversely affecting business. However, that is a challenge for the UK as a whole. I am aware that the UK Government raises those matters with the banks on a regular basis. I, when I have the opportunity, will recognise that. However, it is clear that what the banks say publicly is not what happens in reality in the case of small businesses when they go to see

Gadewch i ni symud ymlaen at y mater lle mae gennym gonsensws yn y Siambr. Rwyf yn cytuno â phawb yma, ac rwyf wedi dweud yn gyhoeddus, bod y sector preifat yn rhy fach yng Nghymru ac mae arnom angen cael gwell cydbwysedd yn yr economi. Mae arnom angen cydbwysedd gwell ar gyfer yr economi o ran cwmnïau mawr, cwmnïau gweithgynhyrchu, cwmnïau cynhenid, microfusnesau a busnesau bach a chanolig. Mae arnom angen cael y cydbwysedd cywir. Cytunaf hefyd—roedd Mohammad Asghar yn llygad ei le—am y banciau. Mae arnom angen edrych ar faterion sy'n ymwneud â'u polisïau rhoi benthyg a sut y maent yn cael effaith andwyol ar fusnesau. Fodd bynnag, mae honno'n sialens i'r DU i gyd. Rwyf yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU yn codi'r materion hynny â'r banciau'n rheolaidd. Pan fyddaf yn cael y cyfle, byddaf yn cydnabod hynny. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr

individuals. They cannot get their overdrafts extended and they are having their overdraft arrangements changed, which means they are not able to tender for new contracts. That is a very important area.

hyn y mae banciau'n ei ddweud yn gyhoeddus yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn achos busnesau bach pan fyddant yn mynd i weld unigolion. Nid oes modd iddynt gael estyniad i'w gorddrafftiau ac mae'n rhaid iddynt newid eu trefniadau gorddrafft, sy'n golygu nad ydynt yn gallu tendro am gontractau newydd. Mae hwnnw'n faes pwysig iawn.

Our starting point in this debate is the recognition that SMEs are the lifeblood of the Welsh economy—some 99% of active enterprises in Wales—and there is no disagreement on that. I am committed to increasing the number of small firms being created and helping to build more enterprise in the private sector. I launched the Wales SME investment fund and the Wales economic growth fund as a direct response to the difficulties faced by Welsh companies. The £70 million stimulus provided by those two funding packages will help businesses of all sizes in all sectors across Wales. We received nearly 500 applications for the Wales economic growth fund, demonstrating that there are hundreds of businesses out there that need to grow and create jobs. As a consequence of that volume, I doubled the amount in the fund to £30 million so that we can support more companies. Yesterday, I launched the life science fund, worth up to £0.5 million. I trust that Antoinette Sandbach's contribution was not a criticism of the investment in life sciences. We, like the UK Government, see the potential for new jobs and investment in this field in Wales. On Janet Finch-Saunders' comments on the economic growth fund, we have had no complaints about the way in which matters have been dealt with. Many applications came in on the last day, and these have been dealt with and letters will be going out.

Ein man cychwyn yn y ddadl hon yw cydnabod mai busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn economi Cymru—oddeutu 99 y cant o fusnesau gweithredol Cymru—ac nid oes unrhyw anghytundeb ynghylch hynny. Rwyf wedi ymrwymo i gynyddu nifer y cwmnïau bach sy'n cael eu creu a helpu i adeiladu mwy o fusnesau yn y sector preifat. Lansiais gronfa fuddsoddi busnesau bach a chanolig Cymru a chronfa twf economaidd Cymru fel ymateb uniongyrchol i'r anawsterau a wynebir gan gwmnïau Cymru. Bydd yr ysgogiad gwerth £70 miliwn a ddarperir gan y ddau becyn cyllido hynny'n helpu busnesau o bob maint ym mhob sector ledled Cymru. Cawsom bron i 500 o geisiadau ar gyfer cronfa twf economaidd Cymru, sy'n dangos bod cannoedd o fusnesau yn bodoli y mae angen iddynt dyfu a chreu swyddi. O ganlyniad i'r nifer uchel honno, dyblais y swm yn y gronfa i £30 miliwn er mwyn i ni allu cefnogi rhagor o gwmnïau. Ddoe, lansiais y gronfa gwyddorau bywyd, gwerth hyd at £0.5 miliwn. Hyderaf nad oedd cyfraniad Antoinette Sandbach yn feirniadaeth o'r buddsoddiad mewn gwyddorau bywyd. Rydym ni, yn yr un modd â Llywodraeth y DU, yn gweld y potensial ar gyfer swyddi newydd a buddsoddiad yn y maes hwn yng Nghymru. Gyda golwg ar sylwadau Janet Finch-Saunders ar y gronfa twf economaidd, nid ydym wedi cael unrhyw gwynion am y ffordd y mae materion wedi cael eu trin. Daeth nifer o geisiadau i law ar y diwrnod olaf, ac mae'r rhain wedi cael eu trin a bydd llythyrau'n cael eu hanfon.

I want to see results quickly. I want funds to invest this year, particularly the life science fund. Some £25 million was put upfront yesterday to be used for growth. Last month, the microbusiness loan fund was created—and I thank Antoinette Sandbach for her comments on this—to support microbusinesses in particular. It was clear

Mae arnaf eisiau gweld canlyniadau'n gyflym. Mae arnaf eisiau i gronfeydd fuddsoddi eleni, yn enwedig y gronfa gwyddorau bywyd. Cafodd oddeutu £25 miliwn ei roi ymlaen llaw ddoe i'w ddefnyddio ar gyfer twf. Y mis diwethaf, cafodd y gronfa benthyciadau microfusnesau ei chreu—ac rwyf yn diolch i Antoinette

from the excellent report that microbusinesses did not know where to go for money. They have first-class ideas and need speedily determined finance. Therefore, I am pleased that that fund is there, which I hope will support at least 300 businesses. That would be a good figure as the fund develops in the financial year of 2013.

Sandbach am ei sylwadau ar hyn—i gefnogi microfusnesau'n benodol. Roedd yn amlwg o'r adroddiad ardderchog nad oedd microfusnesau'n gwybod ble i droi am arian. Mae ganddynt syniadau o'r radd flaenaf ac mae angen penderfynu ar gyllid yn gyflym. Felly, rwyf yn falch bod y gronfa honno yno, a gobeithiaf y bydd yn cefnogi o leiaf 300 o fusnesau. Byddai hwnnw'n ffigur da wrth i'r gronfa ddatblygu yn y flwyddyn ariannol 2013.

The important thing is to encourage and support companies. We need to work with the sector teams and provide bespoke support to companies in Wales, not run-of-the-mill support. If we know what sector they are in and what they require, we will know how to help them deliver their international trade and enter new markets. We need to be much more innovative in that. We covered some of those issues in committee this morning—I am looking at the committee Chair. I will continue to ensure that we provide small businesses with the support they want. We all have a duty, across the piece, to recognise that small businesses create excellent employment opportunities across Wales, be they in large urban environments or rural environments, and therefore they need to be encouraged.

Y peth pwysig yw annog a chefnogi cwmnïau. Mae arnom angen gweithio gyda'r timau sector a darparu cymorth pwrpasol i gwmnïau yng Nghymru, nid cymorth cyffredin. Os ydym yn gwybod i ba sector maent yn perthyn a beth sydd ei eisiau arnynt, byddwn yn gwybod sut y mae eu helpu i gyflenwi eu masnach ryngwladol ac ymuno â marchnadoedd newydd. Mae arnom angen bod yn llawer mwy arloesol gyda hynny. Roeddem wedi ymdrin â rhai o'r materion hynny yn y pwyllgor y bore yma—rwyf yn edrych ar Gadeirydd y pwyllgor. Byddaf yn parhau i sicrhau ein bod yn rhoi'r cymorth sydd ei eisiau ar fusnesau bach iddynt. Mae gennym oll ddyletswydd, yn gyffredinol, i gydnabod bod busnesau bach yn creu cyfleoedd gwaith rhagorol ledled Cymru, boed mewn amgylcheddau trefol mawr neu amgylcheddau gwledig, ac felly mae angen iddynt gael eu hybu.

A lot of the discussion has focused on business rates. I agree that business rates are a big issue for business. I have no doubt about that, because that is what I hear myself. That is why we have extended the enhancement to rate relief for small businesses so that around half of small businesses in Wales will pay no business rates until April 2013, and around 20% will receive rates discounts during that period. I have reflected the concerns of businesses by setting up an independent task and finish group, chaired by Professor Morgan. I hope that his report will be completed for publication by the end of March.

Mae llawer o'r drafodaeth wedi canolbwyntio ar ardrethi busnes. Rwyf yn cytuno bod ardrethi busnes yn fater pwysig i fusnesau. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth am hynny, oherwydd dyna'r hyn rwyf yn ei glywed fy hun. Dyna pam rydym wedi ymestyn yr ychwanegiad i ryddhad ardrethi i fusnesau bach er mwyn i oddeutu hanner y busnesau bach yng Nghymru beidio â gorfod talu dim ardrethi busnes tan fis Ebrill 2013, a bydd tua 20 y cant yn derbyn gostyngiadau ardrethi yn ystod y cyfnod hwnnw. Rwyf wedi myfyrio ynghylch pryderon busnesau drwy sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Morgan. Rwyf yn gobeithio y bydd ei adroddiad yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth.

3.45 p.m.

He put out a call for evidence, on which he received a lot of interest. However, the issues that emerged are now being compiled, including on empty property rates, small business rate revaluation, comparisons and comments from other nations—which was a point made by Eluned Parrott—charity shops and social enterprises. There is a whole range of topics to be collated, and I am sure that it will be an excellent report. Alun Ffred Jones's comment is perhaps something that we could debate in the Chamber when the report is available. When I have the report, I will certainly consider whether to allocate Government time for a debate.

Galwodd am dystiolaeth, a chafodd lawer o ddiddordeb yn hynny. Fodd bynnag, mae'r materion a ddaeth i'r amlwg bellach wedi cael eu hel at ei gilydd, gan gynnwys ardrethi eiddo gwag, ailbrisio ardrethi busnesau bach, cymariaethau a sylwadau gan wledydd eraill—a oedd yn bwynt a wnaed gan Eluned Parrott—siopau elusen a mentrau cymdeithasol. Ceir ystod eang o bynciau i'w casglu a'u trefnu, ac rwyf yn siŵr y bydd yn adroddiad ardderchog. Efallai fod sylw Alun Ffred Jones yn rhywbeth y gallem ei drafod yn y Siambr pan fydd yr adroddiad ar gael. Pan fydd yr adroddiad gennyf, byddaf yn sicr yn ystyried a ddylid dyrannu amser y Llywodraeth ar gyfer dadl.

It is a comprehensive review; he is looking at the non-domestic business rate regime and specific policies in relation to rate relief. That is the only reason why I am opposing your amendments today; I want Professor Morgan's report to be out in the public domain for us to look at these issues, and I do not want to pre-empt his report. It will, perhaps, put a few radical kites in the air, but that is what he has been put there for. I can only ask everyone to be patient and wait for his report. When we have had other debates in the Chamber, particularly when the Welsh Affairs Committee was mentioned, Brian Morgan's evidence was prayed in aid. If he is good enough to be prayed in aid in discussions, I am sure that you will good enough to wait for his report for us to have a discussion on business rates. Therefore, the rationale for opposing the amendments is simply that, at the end of the day, I want to see what Brian has come up with so that we can have a proper discussion.

Mae'n adolygiad cynhwysfawr; mae'n edrych ar y drefn ardrethi busnes annomestig a pholisïau penodol mewn perthynas â rhyddhad ardrethi. Dyna'r unig reswm pam rwyf yn gwrthwynebu eich gwelliannau heddiw; mae arnaf eisiau i adroddiad yr Athro Morgan fod ar gael yn gyhoeddus i ni edrych ar y materion hyn, ac nid wyf yn dymuno achub y blaen ar ei adroddiad. Efallai y bydd ganddo rai syniadau radical newydd, ond dyna ei ddiben. Ni allaf ond gofyn i bawb fod yn amyneddgar ac aros am ei adroddiad. Pan rydym wedi cael dadleuon eraill yn y Siambr, yn enwedig pan grybwyllwyd y Pwyllgor Materion Cymreig, dibynnwyd ar dystiolaeth Brian Morgan. Os yw'n ddigon da i ddibynnu arno mewn trafodaethau, rwyf yn siŵr y byddwch yn ddigon da i aros am ei adroddiad i ni gael trafodaeth ar ardrethi busnes. Felly, yn syml dyna'r rhesymeg dros wrthwynebu'r gwelliannau, yn y pen draw, mae arnaf eisiau gweld yr hyn sydd gan Brian i'w ddweud er mwyn i ni gael trafodaeth briodol.

I turn now to the comments made by the movers of the amendments. I smiled at the Minister for Finance when Eluned mentioned the issues of Scotland, Northern Ireland, AME and DEL. These are important issues in Government funding discussions. I have also visited Narberth and met businesspeople there, along with the local Member, Angela Burns, and the very issues and concerns that you mentioned were raised directly with me. It was as a result of such direct lobbying that I decided to ask Brian Morgan to look at what we should be doing on business rates

Trof yn awr at y sylwadau a wnaed gan y rheini a gynigiodd y gwelliannau. Gwenais ar y Gweinidog Cyllid pan roedd Eluned yn sôn am faterion yr Alban, Gogledd Iwerddon, gwariant a reolir yn flynyddol a therfyn gwariant adrannol. Mae'r rhain yn faterion pwysig yn nhrafodaethau cyllido'r Llywodraeth. Rwyf innau hefyd wedi ymweld ag Arberth a chwrdd â phobl fusnes yno, gyda'r Aelod lleol, Angela Burns, a chafodd yr union faterion a phryderon roeddech yn sôn amdanynt eu codi'n uniongyrchol â mi. O ganlyniad i lobïo

and whether we should have a more radical solution. I assure Members that he has had a pretty free hand in terms of where he has gone to get evidence and what he is likely to be reporting on, because I am not sure what is in the report. Alun Ffred's contribution was balanced when he said that it is not just about business rates; it is about the other levers that we have, which are also very important as part of that particular discussion.

uniongyrchol o'r fath y penderfynais ofyn i Brian Morgan edrych ar yr hyn y dylem fod yn ei wneud ar ardrethi busnes ac a ddylai fod gennym ateb mwy radical. Rwyf yn sicrhau Aelodau ei fod wedi cael llaw gweddol rydd o ran lle mae wedi mynd i gael tystiolaeth a'r hyn y mae'n debyg o adrodd arno, gan nad wyf yn siŵr beth sydd yn yr adroddiad. Roedd cyfraniad Alun Ffred yn gytbwys pan ddywedodd fod hyn yn ymwneud â mwy na dim ond ardrethi busnes; mae'n ymwneud â'r lifrau eraill sydd gennym, sydd hefyd yn bwysig iawn fel rhan o'r drafodaeth benodol honno.

On some of the other comments, William Graham talked about energy costs with regard to what was happening with small businesses. Energy costs are a major issue across the piece, William, in terms of the energy market and the cost of supply. There are many issues there. I thank all other Members, including David Rees and others, for their contributions. I hope that you will support the Government amendment and oppose the other two amendments.

Ar rai o'r sylwadau eraill, siaradodd William Graham am gostau ynni o ran yr hyn a oedd yn digwydd gyda busnesau bach. Mae costau ynni'n fater o bwys yn gyffredinol, William, o ran y farchnad ynni a chost cyflenwi. Ceir nifer o faterion yn fan honno. Diolch i'r holl Aelodau eraill, gan gynnwys David Rees ac eraill, am eu cyfraniadau. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth ac yn gwrthod y ddau welliant arall.

**Nick Ramsay:** I was pleased to hear that the Minister also believes that SMEs are the lifeblood of the economy. I know that there are differences across the Chamber, but that phrase came up time and again from different Members. I am pleased that we at least have a basis on which to move forward, in that we agree that SMEs are vital to our economy.

**Nick Ramsay:** Roeddwn yn falch o glywed bod y Gweinidog hefyd yn credu mai busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn yr economi. Rwyf yn gwybod bod gwahaniaethau ar draws y Siambr, ond cododd Aelodau gwahanol yr ymadrodd hwnnw dro ar ôl tro. Rwyf yn falch bod gennym o leiaf sail ar gyfer symud ymlaen ohono, gan ein bod yn cytuno bod busnesau bach a chanolig yn hanfodol i'n heconomi.

This is a very timely debate in the wake of yesterday's shocking news on the decline in welsh GDP, relative not just to the UK but to other European countries as well. 'Shocking' is not my word; it is the word that Professor Brian Morgan himself used on Radio Wales this morning. There is great concern out there among academics and businesspeople that we are in a position that we need to get out of as quickly as possible.

Mae hon yn ddadl amserol iawn yn sgîl y newyddion brawychus ddoe am y gostyngiad yn CMC Cymru, nid yn unig wrth gymharu â'r DU ond wrth gymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill hefyd. Nid fy ngair i yw 'brawychus', ond y gair a ddefnyddiodd yr Athro Brian Morgan ei hun ar Radio Wales y bore yma. Ceir cryn bryder ymhlith academyddion a phobl fusnes ein bod mewn sefyllfa mae arnom angen mynd allan ohoni cyn gynted ag y bo modd.

I will take us through some of the contributions and back to Janet Finch-Saunders's opening remarks. Janet picked up on the findings of the Enterprise and Business Committee and the town-centre

Byddaf yn mynd â ni drwy rai o'r cyfraniadau ac yn ôl i sylwadau agoriadol Janet Finch-Saunders. Siaradodd Janet am ganfyddiadau'r Pwyllgor Menter a Busnes a'r ymchwiliad i adfywio canol trefi rwyf i a nifer o Aelodau

regeneration inquiry in which I and a number of Members have taken part over the last few weeks. There is no doubt that, when that inquiry visited Caerphilly to talk to businesspeople in the town centre of Jeff Cuthbert's constituency, people were pleased that we were in Caerphilly, but they thought that far more could be done. They also felt that business rates was a key place to start. In shop after shop, and business after business—I know that they have made similar representations to the local Member—we heard that business rates need to be altered if we want to see the economy and local businesses thrive. That is what people are saying. I hope that we hear what the Minister thinks about that.

wedi cymryd rhan ynddo yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oes dim amheuaeth, pan ymwelodd yr ymchwiliad hwnnw â Chaerffili i siarad â'r bobl fusnes yng nghanol y dref yn etholaeth Jeff Cuthbert, roedd pobl yn falch ein bod yng Nghaerffili, ond roeddent yn meddwl y gellid gwneud llawer mwy. Roeddent hefyd yn teimlo bod ardrethi busnes yn lle allweddol i ddechrau. Mewn siop ar ôl siop, a busnes ar ôl busnes—gwn eu bod wedi cyflwyno sylwadau tebyg i'r Aelod lleol—clywsom fod angen newid ardrethi busnes os ydym am weld yr economi a busnesau lleol yn ffynnu. Dyna'r hyn y mae pobl yn ei ddweud. Rwyf yn gobeithio ein bod yn clywed beth yw barn y Gweinidog am hynny.

With regard to the group that she set up to look at business rates, which we have all supported, William Graham said in his comments that it was due to report at the end of February. The group has not reported yet, Minister; I hope that you will make a clear statement as soon as possible as to when it will report.

O ran y grŵp a sefydlodd i edrych ar ardrethi busnes, sef rhywbeth rydym i gyd wedi'i gefnogi, dywedodd William Graham yn ei sylwadau ei fod i fod i gyflwyno adroddiad ddiwedd mis Chwefror. Nid yw'r grŵp wedi cyflwyno adroddiad eto, Weinidog; rwyf yn gobeithio y byddwch yn gwneud datganiad clir cyn gynted ag y bo modd ynghylch pryd y bydd yn cyflwyno adroddiad.

**Edwina Hart:** It will report at the end of March. The reason for the delay was that a considerable amount of evidence was taken. I think that Members from various parties would welcome that, so as to ensure that the report is adequate. I have also indicated that we might table the report for debate.

**Edwina Hart:** Bydd yn cyflwyno ei adroddiad ddiwedd mis Mawrth. Y rheswm dros yr oedi oedd y cafwyd cryn dipyn o dystiolaeth. Rwyf yn meddwl y byddai Aelodau o'r pleidiau gwahanol yn croesawu hynny, er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn ddigonol. Rwyf hefyd wedi nodi y gallem gyflwyno'r adroddiad i'w drafod.

**Nick Ramsay:** Thank you for that clarification, Minister. I am sure that you agree that it is important that we get that report as soon as possible, and that action is then taken on the ground to help businesses. There is no use in having report after report if you are not going to act on them and help businesses in the way that they hope that you will.

**Nick Ramsay:** Diolch am yr eglurhad hwnnw, Weinidog. Rwyf yn siŵr eich bod yn cytuno ei bod yn bwysig ein bod yn cael yr adroddiad hwnnw cyn gynted ag y bo modd, a bod camau'n cael eu cymryd wedyn ar lawr gwlad i helpu busnesau. Nid oes diben cael adroddiad ar ôl adroddiad os nad ydych yn mynd i weithredu arnynt a helpu busnesau yn y ffordd maent yn gobeithio y byddwch yn ei wneud.

I could not work out what Alun Ffred Jones was trying to say in his contribution. He has obviously attended too many Plaid leadership hustings lately. A very confused message came out of his speech. At one point, he said that the business rates scheme was unfair; he then said that there was not much point in

Ni allwn ddirnad beth oedd Alun Ffred Jones yn ceisio ei ddweud yn ei gyfraniad. Mae'n amlwg ei fod wedi bod mewn gormod o hystingau arweinyddiaeth Plaid Cymru yn ddiweddar. Cafwyd neges ddryslyd iawn o'i araith. Ar un adeg, dywedodd fod y cynllun ardrethi busnes yn annheg; yna dywedodd

changing the scheme; and then he said that Plaid Cymru wants to change the scheme. He opposed our scheme, but then said that Plaid Cymru’s scheme would go further. I could not fathom what he was trying to say, but I will look at the transcript to see if any cogent remarks were made in that part of the debate.

nad oedd llawer o bwynt newid y cynllun; ac yna dywedodd fod ar Blaid Cymru eisiau newid y cynllun. Gwrthwynebodd ein cynllun, ond wedyn dywedodd y byddai cynllun Plaid Cymru yn mynd ymhellach. Ni allwn ddirnad beth yr oedd yn ceisio ei ddweud, ond byddaf yn edrych ar y trawsgrifiad i weld a gafodd unrhyw sylwadau effeithiol eu gwneud yn y rhan honno o'r ddadl.

William Graham and Mohammad Asghar both spoke about the need to grow the private sector, pointing out that Carwyn Jones, the First Minister, has said this in the past. We all agree that we need to grow the private sector, but we need action and not just words. Too often, the argument seems to be reduced to what size we want the public sector to be. The public sector in Wales needs to be supported, but this is about growing the private sector relative to the public sector. If you do not make money, you do not have money to spend; that is a key area of life that many Members would do well to accept.

Siaradodd William Graham a Mohammad Asghar ill dau am yr angen i dyfu'r sector preifat, gan nodi bod Carwyn Jones, y Prif Weinidog, wedi dweud hyn yn y gorffennol. Rydym i gyd yn cytuno bod angen i ni dyfu'r sector preifat, ond mae arnom angen gweithredu ac nid dim ond geiriau. Yn rhy aml, ymddengys fod y ddadl yn cael ei lleihau i ba faint rydym am i'r sector cyhoeddus fod. Mae angen cefnogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ond mae hyn yn ymwneud â thyfu'r sector preifat mewn perthynas â'r sector cyhoeddus. Os nad ydych yn gwneud arian, nid oes gennych arian i'w wario; mae hwnnw'n faes allweddol o fywyd y byddai'n beth da i nifer o'r Aelodau ei dderbyn.

In his contribution, David Rees spoke of the importance of small and medium-sized enterprises, which are the lifeblood of the economy. He spoke from experience in that sector, and his comments are to be welcomed. I point out, David, that Labour’s manifesto in 2011 was roundly derided by the Federation of Small Businesses as largely ignoring the importance of SMEs in the economy. Again, there is no point in us saying things in this Chamber that have little resonance outside. Your Government has to ensure that it puts the right policies in place to support small businesses. We need to listen to their concerns.

Yn ei gyfraniad, siaradodd David Rees am bwysigrwydd busnesau bach a chanolig, sef asgwrn cefn yr economi. Siaradodd o brofiad yn y sector hwnnw, a chaiff ei sylwadau eu croesawu. Tynnaf sylw, David, at y ffaith bod maniffesto Llafur yn 2011 wedi cael ei ddirmygu'n hallt gan y Ffederasiwn Busnesau Bach oherwydd ei fod yn anwybyddu pwysigrwydd busnesau bach a chanolig yn yr economi i raddau helaeth. Unwaith eto, nid oes diben dweud pethau yn y Siambr hon nad ydynt yn cael fawr o effaith tu allan. Rhaid i'ch Llywodraeth sicrhau ei bod yn rhoi'r polisïau cywir ar waith i gefnogi busnesau bach. Mae arnom angen gwrando ar eu pryderon.

I heard Members talking about economic woes in England. However, I go back to the point that I made earlier that it is GDP in Wales that has been in the news over the last two days. GDP in Wales has fallen not just relative to the UK but relative to Europe. In Scotland, GDP is 107% of the average rate for the 27 European countries; that puts in clear perspective the serious and shocking

Clywais Aelodau'n sôn am ofidiau economaidd yn Lloegr. Fodd bynnag, rwyf yn mynd yn ôl at y pwynt a wneuthum yn gynharach mai CMC Cymru sydd wedi bod yn y newyddion yn ystod y deuddydd diwethaf. Mae CMC yng Nghymru wedi disgyn nid yn unig wrth ei gymharu â'r DU ond wrth ei gymharu ag Ewrop hefyd. Yn yr Alban, mae CMC yn 107 y cant o gyfradd

problem that faces us in Wales.

gyfartalog y 27 gwlad Ewropeaidd; mae hynny'n rhoi persbectif clir ar y broblem ddifrifol a brawychus sy'n ein hwynebu yng Nghymru.

As the Minister said, we need to look to the future. To do that, we need to see that Wales benefits fully from the next round of structural funding from the European Union. We have to do that anyway, to ensure that we satisfy the EU in qualifying fully for those funds. We were told that we would not be in this position—that Wales would not need to qualify, because the situation would be better after spending the last rounds of structural funds. We are not better off. We are where we are, sadly, and businesses want an assurance that the right economic policy is going to be put in place to support them in future.

Fel y dywedodd y Gweinidog, mae angen i ni edrych i'r dyfodol. I wneud hynny, mae angen i ni weld bod Cymru'n manteisio’n llawn ar y cylch nesaf o gyllid strwythurol gan yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid i ni wneud hynny beth bynnag, i sicrhau ein bod yn bodloni'r UE o ran cymhwyso'n llawn ar gyfer cronfeydd hynny. Dywedwyd wrthym na fyddem yn y sefyllfa hon—na fyddai angen i Gymru fod yn gymwys, gan y byddai'r sefyllfa'n well ar ôl gwario cylchoedd diwethaf y cronfeydd strwythurol. Nid ydym yn well ein byd. Rydym yn lle'r ydym, yn anffodus, ac mae ar fusnesau eisiau cael sicrwydd bod y polisi economaidd iawn yn mynd i gael ei roi ar waith i'w cefnogi yn y dyfodol.

Antoinette Sandbach spoke not of initiatives but of the need for delivery. The delivery unit was mentioned once again. We look forward to the statement that we know is approaching on what the delivery unit has been doing. I keep asking the Government for examples of where the unit has delivered, but it is not exactly forthcoming. Hopefully, we will see the report as soon as possible; that is what businesses and the people of Wales expect. This issue is not about speaking in the Chamber; it is about the Welsh Government listening to what businesses want and moving forward with a positive agenda that benefits everyone.

Siaradodd Antoinette Sandbach nid am fentrau ond am yr angen i gyflawni. Soniwyd unwaith eto am yr uned gyflawni. Rydym yn edrych ymlaen at y datganiad rydym yn gwybod sy'n agosáu am yr hyn y mae'r uned gyflawni wedi bod yn ei wneud. Rwyf yn gofyn ac yn gofyn i'r Llywodraeth am enghreifftiau o ble mae'r uned wedi cyflawni, ond nid yw'n barod iawn i rannu gwybodaeth. Y gobaith yw y byddwn yn gweld yr adroddiad cyn gynted ag y bo modd; a dyna'r hyn y mae busnesau a phobl Cymru yn ei ddisgwyl. Nid yw'r mater hwn yn ymwneud â siarad yn y Siambr; mae'n ymwneud â Llywodraeth Cymru yn gwrando ar yr hyn y mae ar fusnesau ei eisiau a symud ymlaen ag agenda gadarnhaol sydd o fudd i bawb.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Are there any objections? I see that there are. I will, therefore, defer all voting on this matter until voting time.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw ein bod yn cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly gohiriaf y pleidleisio ar y mater hwn tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i’r Gadair am 3.55 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.55 p.m.*

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Datganoli
### Devolution

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham a gwelliannau 3 a 4 yn enw Peter Black.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of William Graham and amendments 3 and 4 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4938 Jocelyn Davies*

*Motion NDM4938 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn croesawu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran sicrhau pwerau datganoledig ychwanegol yn dilyn y refferendwm llwyddiannus yn 2011;*

*1. Welcomes the progress made in securing enhanced devolved powers resulting from the successful referendum in 2011;*

*2. Yn cydnabod y gefnogaeth eang ar gyfer rhagor o ddatganoli; a*

*2. Recognises the widespread support for further devolution; and*

*3. Yn edrych ymlaen at ragor o ddatblygiadau o ran datganoli pwerau, gan gynnwys cyfrifoldeb ariannol.*

*3. Looks forward to further advances in the devolution of powers, including fiscal responsibility.*

**Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Cynigiaf y cynnig.

**The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** I move the motion.

Ddoe, cefais y cyfle i gyfrannu at fy sesiwn olaf fel arweinydd yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog. Heddiw, rwy'n cael y fraint o arwain dadl am y tro olaf fel arweinydd. Fodd bynnag, Ddirprwy Lywydd, nid hwn fydd y tro olaf y byddaf yn siarad yn y Cynulliad.

Yesterday, I had the opportunity to contribute to First Minister's questions for the last time as party leader. Today, I have the privilege of opening a debate for the last time as party leader. However, Deputy Presiding Officer, this will not be the last time that I speak in the Assembly.

Mae sawl rheswm pam ein bod wedi dewis y testun hwn heddiw; nid y lleiaf ohonynt yw'r cynnydd mawr, yn sicr ers 1999, yn nifer yr etholwyr sy'n credu mai'r lle hwn bellach yw'r lle cywir i wneud y penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar eu bywydau. Dywedais ddoe mai nid er ei fwyn ei hun y dylai'r Cynulliad gael rhagor o bwerau, ond er mwyn gwella bywydau pobl. Dyna pam rydym i gyd, gobeithio, wedi dod i wleidyddiaeth, sef i sicrhau ein bod yn gallu llunio gwasanaethau sy'n gweddu i anian a dyheadau ein pobl, sef pobl Cymru yn y cyd-destun hwn.

There are many reasons why we have chosen this topic today, not least of which is the fact that there has been a huge increase, since 1999, in the number of constituents who believe that this is now the right place to make the important decisions that impact on their daily lives. I said yesterday that the Assembly should not be given enhanced powers for its own sake, but in order to improve people's lives. I hope that that is why we all entered politics, to ensure that we can design services that are appropriate to the desires and needs of our people—in this context, the people of Wales.

Cefais gyfnod fel Aelod Seneddol yn San Steffan, fel y cafodd o leiaf un Aelod arall yma—a Julie hefyd. Rwy'n siŵr y byddai'r ddau ohonynt yn cytuno ein bod wedi gweld, yn ystod ein cyfnod yn y fan honno, gymaint a oedd yn digwydd a oedd yn gyfan gwbl anaddas i Gymru. Meddyliwch pe bai'r newidiadau iechyd yn Lloegr yn digwydd mewn cyfnod cyn datganoli. Beth fyddai wedi digwydd i'r gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru? Meddyliwch am feysydd fel datblygu'r economi, byd amaeth, trafnidiaeth, addysg, tai ac yn y blaen. Mae cymaint wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae pethau yn digwydd yn San Steffan ar hyn o bryd sy'n gyfan gwbl amherthnasol i ymateb i'r sefyllfa yng Nghymru. Meddyliwch am y penderfyniad i ethol comisiynwyr yr heddlu. Nid oedd fawr ddim cefnogaeth i hynny yng Nghymru. Meddyliwch am y bwriad i breifateiddio rhan o wasanaethau'r heddlu. Faint o gefnogaeth sydd i hynny yng Nghymru?

I did spend a period as a Member of Parliament in Westminster, as did at least one other Member here—and Julie, too. I am sure that they would both agree that, during our time at Westminster, we saw how much was happening that was entirely inappropriate for Wales. What if the changes to the health service in England were being implemented pre-devolution? What would have happened to the health service in Wales? Think of areas such as economic development, agriculture, transport, education, housing and so on. So much has changed over the last few years. There are things happening in Westminster at the moment that are entirely irrelevant to responding to the needs of Wales. Think of the decision to elect police commissioners. There was virtually no support for that in Wales. Think of the intention to privatise some police services. How much support is there for that in Wales?

Nid oes rhyfedd, felly, bod galw cynyddol, nid y lleiaf ymhlith awdurdodau heddlu, i ddatganoli grym dros yr heddlu i'r Cynulliad Cenedlaethol. Os ydych yn gwneud hynny, mae dadl wedyn dros ddatganoli'r gyfundrefn droseddol yn ogystal. Beth am gyfrifoldeb dros ynni, fel yr oedd y Prif Weinidog yn ei ddweud ddoe? Beth am adnoddau naturiol Cymru? Beth am y seilwaith rheilffyrdd? Beth am borthladdoedd? Beth am ddarlledu? Gellid gwneud achos dros drosglwyddo cyfrifoldeb dros bob un o'r meysydd hynny, ar yr amod, wrth gwrs, bod setliad ariannol teg yn dilyn. Rwy'n cydnabod bod angen inni wneud achos clir o blaid datganoli pob un o'r meysydd hynny, a hynny ar y sail y byddai trosglwyddo cyfrifoldeb yn gwella ansawdd y gwasanaethau, ac yn rhoi cyfle inni lunio polisïau mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag anian a dyheadau mwyafrif pobl Cymru.

It is no surprise, therefore, that there is increasing demand, not least among police authorities, to devolve powers over policing to the National Assembly. If you do that, there is then a debate to be had about also devolving the criminal justice system. What about responsibility for energy, as the First Minister mentioned yesterday? What about Wales's natural resources? What about the railway infrastructure? What about ports? What about broadcasting? A case could be made for transferring responsibility for each and every one of those areas, on condition, of course, that a fair financial settlement was also put in place. I acknowledge that we need to make a clear case for devolving each and every one of those areas on the basis that transferring responsibility would improve the quality of services and would give us an opportunity to formulate policies in a way that accords with the will and aspirations of the majority of the people of Wales.

Rwy'n hyderus y gellid gwneud achos cryf ym mhob un o'r meysydd hynny. Rwy'n deall yn iawn, wrth gwrs, nad yw pob plaid yn y lle hwn am fynd mor bell, mor gyflym. Ond, yr hyn rwyf yn ei obeithio yw bod pawb yn dangos yr un uchelgais i symud ymlaen, i weld yr angen i ymateb i lle mae mwyafrif pobl Cymru yn sefyll ar y materion hyn.

I am confident that a strong case could be made in each and every one of those areas. I fully understand, of course, that not all parties here want to go that far, that quickly. However, what I do hope is that everyone shows the same ambition to progress, to see the need to respond to where the majority of the people of Wales stand on these issues.

Wrth edrych yn ôl dros gyfnod o 12 mlynedd, mae cynnydd aruthrol wedi'i wneud. Roedd nifer o bobl, o bob plaid—gallaf ddweud hynny heddiw—yn credu y byddai'n anodd inni ennill refferendwm ar bwerau deddfu yn 2011, ond roeddwn i'n gwbl argyhoeddedig y gallem ennill pe baem yn dangos arweiniad clir a chadarn o'r dechrau. Dyna pam y gwnaeth fy mhlaid i fynnu bod rhaid cael ymrwymiad i hynny yn y trafodaethau ar ffurfio Llywodraeth yn 2007. Y gwir plaen oedd hyn: roedd pobl Cymru ar y blaen i'r gwleidyddion, ac roeddent wedi gweld nad oedd y drefn ar ôl 2006 yn gynaliadwy. Roeddent yn methu â gweld pam fod rhaid cael caniatâd San Steffan cyn deddfu ac yn methu â deall pam fod cymaint o adrannau yn San Steffan a Whitehall mor gyndyn i roi'r mymryn lleiaf o hawl i ni. Fodd bynnag, ni wnes i, hyd yn oed, ragweld y byddai'r mwyafrif mor glir ym mhob rhan o Gymru, ac y byddai'n dod o fewn trwch blewyn ym Mynwy.

Looking back over a period of 12 years, huge progress has been made. There were many people, from all parties—I can say that today—who believed that it would be difficult for us to win a referendum on legislative powers in 2011, but I was convinced that we could win that referendum if we showed clear and strong leadership from the outset. That is why my party insisted on a commitment to that in the negotiations on forming a Government in 2007. The plain truth was that the people of Wales were ahead of the politicians, and had seen that the system after 2006 was unsustainable. They could not see why we needed Westminster's permission before legislating and could not understand why so many departments in Westminster and Whitehall were so reluctant to give the smallest piece of ground. However, even I did not anticipate such a clear majority in all parts of Wales, and that it would come within a hair's breadth in Monmouth.

4.00 p.m.

Mae perygl felly y gallai pobl Cymru fod ar y blaen i'r gwleidyddion unwaith eto ar faterion ariannol a threthiant. Faint ohonom a oedd yma yn ystod misoedd cynnar y Cynulliad yn 1999 a fyddai wedi credu y byddai 28% o bobl Cymru yn 2012 yn credu mai'r Cynulliad hwn a ddylai fod yn gyfrifol am bob treth yng Nghymru? Gyda dwy ran o dair o bobl Cymru bellach yn teimlo y dylai'r Cynulliad fod yn gyfrifol am o leiaf cyfran o drethi, mae pethau wedi newid ac wedi symud ymlaen mewn cyfnod byr iawn, a'n cyfrifoldeb ni, fel gwleidyddion, yw ymateb i'r galw hwnnw yn gadarnhaol ac adeiladol.

There is a danger therefore that the people of Wales could be ahead of the politicians again on financial and taxation matters. How many of us who were here in the early months of the Assembly in 1999 would have believed that 28% of the people of Wales in 2012 would believe that the Assembly should be responsible for all taxation in Wales? With two thirds of the people in Wales now feeling that the Assembly should be responsible for at least some taxation, things have changed and progressed in a very short time, and our responsibility as politicians is to respond to this demand in a positive and constructive way.

Pam y byddem am i'r Cynulliad gael yr hawl i amrywio trethi? Yn syml, oherwydd bod angen pob arf posibl i gryfhau'r economi. Pan oeddwn yn Weinidog dros yr economi rhwng 2007 a 2011, a rhaid inni gydnabod mai dyna'r cyfnod anoddaf ers sefydlu'r Cynulliad, oherwydd dirwasgiad, roeddwn i, fel nifer o bobl eraill rwy'n siŵr, yn hynod o rwystredig nad oedd modd i ni, fel Llywodraeth, wneud mwy i gryfhau'r economi ac i hybu cwmnïau a busnesau i greu swyddi yng Nghymru. O fewn y

Why would we want the Assembly to have the right to vary taxes? Simply put, it is because we need every possible tool to strengthen the economy. When I was Minister for the economy between 2007 and 2011, and we must recognise that that was the most difficult period since the inception of the Assembly, because there was a recession, I, like many others I am sure, was very frustrated that we as a Government could not do more to strengthen the economy and to encourage companies and businesses

cyfyngiadau a oedd arnom—roedd cyfyngiadau mawr, wrth gwrs—bu i ni gyflawni llawer a dwyn arian cyfalaf ymlaen i hybu’r economi, ond mae’r arfau pwysicaf dal yn nwylo Llywodraeth San Steffan: polisi macro-economaidd, polisi ariannol a pholisi trethiant.

to create jobs in Wales. Within the restrictions upon us—there were great restrictions, of course—we achieved a great deal and brought capital expenditure forward to boost the economy, but the most important tools are still in the hands of the Westminster Government: macro-economic policy, fiscal policy and taxation policy.

Rwy’n derbyn bod gwahaniaeth barn yn y Cynulliad ynglŷn â pha mor bell y dylem fynd, ond, yn fy marn i, yn sicr, mae modd trosglwyddo pwerau sylweddol ym maes trethiant: treth incwm, treth gorfforaeth, treth ar werth a threthi ar adnoddau. Wedyn, gallem fynd ati o ddifrif â’r broses o gryfhau’r economi. Rwy’n gwybod na fyddai modd inni amrywio graddau treth ar werth, ond byddai modd cael cyfran o’r dreth wedi ei neilltuo. Byddai hynny’n angenrheidiol, wrth gwrs, pe bai Llywodraeth San Steffan yn gwyro oddi wrth drethi uniongyrchol, fel y gwnaeth Gordon Brown, tuag at drethi anuniongyrchol. Os yw’r Llywodraeth yn gwneud hynny, mae’r pwll o arian sydd ar gael o dreth incwm yn lleihau.

I accept that there is a difference of opinion in the Assembly as to how far we should go, but, in my view, certainly, it is possible to transfer significant taxation powers: income tax, corporation tax, value added tax and tax on resources. We could then really get to grips with the process of strengthening the economy. I know that we could not vary VAT, but a percentage of the tax could be assigned. That would be necessary, of course, if the Westminster Government were to veer away from direct taxation, as Gordon Brown did, towards indirect taxation. If the Government does that, the pool of money available from income tax would reduce.

Mae’n bwysig ein bod yn cael pŵer ym maes trethiant er mwyn cryfhau’r economi, ond mae rheswm arall hefyd. Mae angen i ni, yn y lle hwn, gymryd cyfrifoldeb dros yr arian rydym yn ei wario yng Nghymru. Mae pobl wedi edrych ar hyn, ac nid wyf yn siŵr eu bod wedi gallu dod o hyd i un wlad yn y byd democrataidd nad yw’n gyfrifol am godi o leiaf cyfran o’r arian mae’n ei wario. Yn ychwanegol, mae’n ddisgyblaeth dda. Os nad oes gennych gyfrifoldeb dros drethi a’ch bod yn cael grant 100%, nid oes yr un atebolrwydd o ran sut mae’r arian yn cael ei wario.

It is important that we get taxation powers to strengthen the economy, but there is also another reason. We, in this place, need to take responsibility for the money that we spend in Wales. People have looked at this, and I am not sure that they have been able to find any other country in the democratic world that is not responsible for raising at least a percentage of the money that it spends. It is also good discipline. If you do not have responsibility for taxes and have a 100% grant, there is not the same accountability for how the money is spent.

Mae Cymru eisoes wedi dod yn bell yn ystod y mileniwm hwn: Senedd a Llywodraeth ddemocrataidd am y tro cyntaf yn ein hanes yn genedl, siapio’r sefydliad hwn i wneud i’r drefn weithio’n fwy hyblyg, gwella atebolrwydd, a bod yn fwy tryloyw.

Wales has already come a long way in this millennium: a democratic Senedd and Government for the first time in our nation’s history, shaping this institution to make the system work more flexibly, improving accountability, and being more transparent.

We have come a long way since the referendum in 1997, with a law-making Assembly and improved working practices, making the Assembly more accountable and transparent and an institution that the people of Wales now see as the right place to make

Rydym wedi dod yn bell ers y refferendwm ym 1997, gyda Chynulliad sy’n deddfu ac arferion gwaith gwell, sy’n gwneud y Cynulliad yn fwy atebol a thryloyw ac yn sefydliad y mae pobl Cymru yn awr yn ei weld fel y lle iawn i wneud y penderfyniadau

the decisions that affect their lives. I feel immensely privileged to have played a small part in those key developments. As I now step down as the leader of my party, I know that the work of turning this institution into an even better and stronger Assembly or Parliament is not complete. I hope to play my small part in moving it further.

sy'n effeithio ar eu bywydau. Rwyf yn teimlo'n hynod freintiedig fy mod wedi cael chwarae rhan fach yn y datblygiadau allweddol hynny. Wrth imi nawr gamu i lawr fel arweinydd fy mhlaid, gwn nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau i newid y sefydliad hwn yn Senedd neu yn Gynulliad gwell fyth a chryfach. Gobeithiaf chwarae fy rhan fach wrth ei symud ymhellach.

*Gwelliant 1 Willam Graham*

*Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:*

*', ond yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth bresennol Cymru i ddefnyddio potensial llawn y pwerau a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad i'r refferendwm yn 2011 ers yr etholiad ym mis Mai 2011';*

*Amendment 1 William Graham*

*Insert at the end of point 1:*

*', but regrets the failure of the current Welsh Government to utilise the full potential of the powers issued to the National Assembly as a result of the referendum in 2011 since the election in May 2011';*

*Gwelliant 2 Willam Graham*

*Ym mhwynt 3, dileu popeth ar ôl 'Yn edrych ymlaen at' a rhoi yn ei le 'gael argymhellion Comisiwn Silk, yn dilyn ei adolygiad helaeth o faterion ariannol yng Nghymru.'*

*Amendment 2 William Graham*

*In point 3, delete all after 'Looks forward to' and replace with 'receiving the recommendations of the Silk Commission, following its extensive review of fiscal matters in Wales.'*

**Andrew R.T. Davies:** I move amendments 1 and 2 in the name of William Graham.

**Andrew R.T. Davies:** Cynigaf welliannau 1 a 2 yn enw William Graham.

At the weekend, I was in Llandudno at the Young Farmers Clubs entertainment final, during which I watched a pantomime—[*Interruption*.] I was just about to say that the fourth former Member of Parliament is behind you in Simon Thomas. [*Laughter.*] We started out with two, and now we have four.

Dros y penwythnos, roeddwn yn Llandudno yn rownd derfynol adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc. Pan oeddwn yno cefais gyfle i wylio pantomeim—[*Torri ar draws.*] Roeddwn ar fin dweud bod y pedwerydd cyn Aelod Seneddol y tu ôl i chi sef Simon Thomas. [*Chwerthin.*] Dechreuasom gyda dau, a nawr mae gennym bedwar.

Moving on to this afternoon's debate, I welcome the opportunity to contribute to Plaid Cymru's debate. Amendment 1 seeks to draw attention to the lack of use by the Welsh Government of the powers that were granted in the referendum in March of last year. I raised that issue with the First Minister yesterday. Eleven months on from the elections in May, the Assembly Government has only introduced one piece of primary legislation. I do not think that there is an incoming Government anywhere in western Europe that has brought so little primary legislation before the legislature to which it is accountable. I will take an intervention if

Gan symud ymlaen at ddadl y prynhawn yma, rwyf yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at ddadl Plaid Cymru. Mae gwelliant 1 yn ceisio tynnu sylw at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r pwerau a roddwyd yn refferendwm mis Mawrth y llynedd. Codais y mater hwnnw â'r Prif Weinidog ddoe. Un mis ar ddeg ar ôl yr etholiadau ym mis Mai, dim ond un darn o ddeddfwriaeth sylfaenol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyflwyno. Nid wyf yn meddwl bod Llywodraeth sydd wedi dod i rym yn unman arall yng ngorllewin Ewrop sydd wedi cyflwyno cyn lleied o ddeddfwriaeth sylfaenol gerbron y ddeddfwrfa y mae'n

someone wants to point to another legislature before which a Government has not brought any pieces of primary legislation. I note that no-one is getting to their feet. We need to use the powers that we have and ensure that the people of Wales believe that the politicians that they send to this institution are making full use of the trust and their ability to improve the quality of life of people in Wales.

atebol iddi. Derbyniaf ymyriad os oes ar rywun eisiau tynnu sylw at ddeddfwrfa arall lle nad yw'r Llywodraeth wedi cyflwyno unrhyw ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol ger ei bron. Sylwaf nad oes neb yn codi ar ei draed. Mae arnom angen defnyddio'r pwerau sydd gennym a sicrhau bod pobl Cymru'n credu bod y gwleidyddion maent yn eu hanfon i'r sefydliad hwn yn defnyddio'r ymddiriedaeth yn llawn a'u gallu i wella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru.

Amendment 2 points to the fact that the UK Government has set up the Silk commission, which is in the process of gathering evidence at the moment. I notice that it has released a public opinion poll today that builds on the consensus that there is appetite for further devolution among the people of Wales. We on these benches recognise that, and we will play our part to make sure that that is supported. However, people also want delivery and to see the success of the devolved model of Government and improvements to their lives. When I go around Wales—as I have done extensively over the last few months, particularly in the community engagement fora that I have held, both of which have been in north Wales to date—I find that many people, when they look down to Cardiff, believe that devolution to date has been very much a south Wales project, and that we have not managed to break out of the bubble in Cardiff. The Government's philosophy in particular seems to be to build a replica of Whitehall, along with its constraints and bureaucracy.

Mae gwelliant 2 yn tynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu comisiwn Silk, sydd wrthi'n casglu tystiolaeth ar hyn o bryd. Sylwaf iddo ryddhau arolwg barn cyhoeddus heddiw sy'n adeiladu ar y consensws bod awydd am ragor o ddatganoli ymysg pobl Cymru. Rydym ni ar y meinciau cefn hyn yn cydnabod hynny, a byddwn yn chwarae ein rhan i wneud yn siŵr bod hynny'n cael ei gefnogi. Fodd bynnag, mae ar bobl hefyd eisiau gweld pethau'n cael eu cyflawni a gweld llwyddiant model datganoledig Llywodraeth a gwelliannau i'w bywydau. Pan fyddaf yn teithio o amgylch Cymru—fel rwyf wedi'i wneud yn helaeth dros yr ychydig fisoedd diwethaf, yn enwedig yn y fforymau ymgysylltu â'r gymuned rwyf wedi'u cynnal, y naill a'r llall ohonynt yng ngogledd Cymru hyd yn hyn—rwyf yn gweld bod nifer o bobl, pan fyddant yn edrych i lawr at Gaerdydd, yn credu bod datganoli hyd yn hyd wedi bod yn brosiect de Cymru i raddau helaeth, ac nad ydym wedi llwyddo i dorri'n rhydd o'r swigen yng Nghaerdydd. Mae'n ymddangos mai athroniaeth y Llywodraeth yn benodol yw dynwared Whitehall, ynghyd â'i gyfyngiadau a'i fiwrocratiaeth.

When we talk about devolution, as this motion does, we need to understand what we want to achieve. We want to achieve the empowerment of people, and we want people to be able to use the devolved model of Government to get improvements to their lives. That, fundamentally, is what we must achieve. When you look at the turnout in Assembly elections, you see that, regrettably, we have not managed to increase it above the 45% threshold. That is a challenge to all of us in this Chamber when we stand for election: we must ensure that the people of Wales truly understand what devolution offers them, and,

Pan fyddwn yn siarad am ddatganoli, fel y gwna'r cynnig hwn, mae arnom angen deall beth mae arnom eisiau ei gyflawni. Mae arnom eisiau grymuso pobl ac mae arnom eisiau i bobl allu defnyddio model datganoledig Llywodraeth i wella eu bywydau. Yn y bôn dyna'r hyn mae'n rhaid i ni ei gyflawni. Pan edrychwch ar y nifer sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, gwelwch, yn anffodus, nad ydym wedi llwyddo i godi'r nifer yn uwch na'r trothwy 45 y cant. Mae honno'n sialens i bob un ohonom yn y Siambr hon pan fyddwn yn sefyll am etholiad: rhaid i ni sicrhau bod pobl

above all, what this institution is responsible for. When you look at the array of devolved matters, including health, education and the economy, all of those are the key areas that most people would put at the top of the list of their priorities for where they want to see fundamental improvements.

Cymru yn wirioneddol ddeall beth mae datganoli'n ei gynnig iddynt, ac, yn anad dim arall, yr hyn mae'r sefydliad hwn yn gyfrifol amdano. Pan edrychwch ar yr amrywiaeth o faterion datganoledig, gan gynnwys iechyd, addysg a'r economi, mae'r rheini i gyd yn faterion allweddol y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn rhoi ar frig eu rhestr o flaenoriaethau ar gyfer ble mae arnynt eisiau gweld gwelliannau sylfaenol.

I very much welcome the opportunity for the Silk commission to take representations on fiscal responsibility. I share in some of the comments that the leader of Plaid Cymru made, in that, if you have an element of fiscal responsibility, it drives accountability. Above all, it drives the dynamism that we desperately need in public life to motivate people to create wealth and to be accountable for the money that they spend. The Silk commission will look at all these aspects and, ultimately, I believe that it will deliver a comprehensive piece of work. I hope that Governments at both ends of the M4, Members in this Chamber and people across Wales and in the rest of the United Kingdom will engage fully in this, because it is not necessarily a debate and an argument about Wales; it is a debate about the way in which the United Kingdom is governed and how the areas and countries of the United Kingdom go forward in the twenty-first century. I commend to Members amendments 1 and 2 in the name of William Graham.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i gomisiwn Silk gael sylwadau am gyfrifoldeb ariannol. Rwyf yn rhannu rhai o'r sylwadau a wnaeth arweinydd Plaid Cymru, sef, os oes gennych elfen o gyfrifoldeb ariannol, ei fod yn gyrru atebolrwydd. Yn anad dim arall, mae'n gyrru'r grym mae taer ei angen arnom mewn bywyd cyhoeddus i ysgogi pobl i greu cyfoeth a bod yn atebol am yr arian maent yn ei wario. Bydd comisiwn Silk yn edrych ar yr holl agweddau hyn ac, yn y pen draw, credaf y bydd yn darparu darn cynhwysfawr o waith. Gobeithiaf y bydd Llywodraethau'r naill ben i'r M4 a'r llall, Aelodau yn y Siambr hon a phobl ledled Cymru ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn cymryd rhan lawn yn hyn, oherwydd nid yw o anghenraid yn ddadl am Gymru; mae'n ddadl am y ffordd y caiff y Deyrnas Unedig ei llywodraethu a sut y mae ardaloedd a gwledydd y Deyrnas Unedig yn symud ymlaen yn yr unfed ganrif ar hugain. Rwyf yn cymeradwyo gwelliannau 1 a 2 i'r Aelodau yn enw William Graham.

*Gwelliant 3 Peter Black*

*Amendment 3 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru a sefydlwyd gan lywodraeth y DU i edrych ar ddatblygiad pellach o ran datganoli pwerau gan gynnwys cyfrifoldeb ariannol.*

*Welcomes the Commission on Devolution in Wales established by the UK government to look at further advancement in the devolution of powers, including fiscal responsibility.*

*Gwelliant 4 Peter Black*

*Amendment 4 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r arolwg a gyhoeddwyd gan BBC Cymru/ICM sy'n dangos bod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn cefnogi rhyw*

*Welcomes the poll published by BBC Wales/ICM which shows that a majority of people in Wales support some form of tax-*

*fath o bwerau amrywio treth i Gymru.*

*varying powers for Wales.*

**Eluned Parrott:** I move amendments 3 and 4 in the name of Peter Black.

**Eluned Parrot:** Rwyf yn cynnig gwelliannau 3 a 4 yn enw Peter Black.

First, I would like to say that it is a privilege to speak in a debate on the very nature of our democracy and in one that is of such personal significance to Ieuan Wyn Jones, as it is his last debate as leader of Plaid Cymru. It feels like a very proper way to pay tribute to the work you have done over the years on devolution, Ieuan. It is also, perhaps, an interesting way for us all to be able to contribute to the debate that you have led so well.

Yn gyntaf oll, carwn ddweud ei bod yn fraint siarad mewn dadl ar union natur ein democratiaeth ac mewn dadl sydd o arwyddocâd mor bersonol i Ieuan Wyn Jones, gan mai dyma ei ddadl olaf fel arweinydd Plaid Cymru. Mae'n teimlo fel ffordd briodol iawn o dalu teyrnged i'r gwaith rydych wedi'i wneud dros y blynyddoedd ar ddatganoli, Ieuan. Efallai ei bod hefyd yn ffordd ddiddorol i ni allu cyfrannu at y ddadl rydych chi wedi'i harwain gystal.

I am also a passionate believer in devolution, so I, too, welcome the progress that has been made in gaining more powers for the Assembly. However, I must admit that I am frustrated that, since having acquired the tools to do the job, the Welsh Government seems to have been happy to leave them in the shed. A tool is not a tool if you do nothing with it. On a personal level, as a new Assembly Member, I am disappointed that we have not had more opportunities to look at legislation. As an institution, it is vital that we show ourselves to be positive and proactive. The perceived lack of a significant legislative programme may give the impression to the public that we are not as active on its behalf as we might be. That is regrettable, because that reflects badly not only on us as individuals but on the institution of the Assembly, for which I fought for so many years as a campaigner before becoming an Assembly Member.

Rwyf hefyd yn credu'n angerddol mewn datganoli, felly rwyf innau hefyd yn croesawu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud i gael rhagor o bwerau i'r Cynulliad. Fodd bynnag, rhaid i mi gyfaddef fy mod yn teimlo'n rhwystredig oherwydd ers cael yr arfau i wneud y gwaith ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn fodlon eu gadael yn y sied. Nid yw arf yn arf os na wnewch chi ddim byd gydag ef. Ar lefel bersonol, a minnau yn Aelod Cynulliad newydd, rwyf yn siomedig nad ydym wedi cael rhagor o gyfleoedd i edrych ar ddeddfwriaeth. Fel sefydliad, mae'n hanfodol ein bod yn dangos ein bod yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol. Efallai fod y canfyddiad o ddiffyg rhaglen ddeddfwriaethol sylweddol yn rhoi'r argraff i'r cyhoedd nad ydym mor weithgar ar eu rhan ag y gallem fod. Mae hynny'n anffodus, oherwydd ei fod nid yn unig yn adlewyrchu'n wael arnom ni fel unigolion, ond ar sefydliad y Cynulliad, y bûm yn brwydro ers cynifer o flynyddoedd ar ei gyfer fel ymgyrchydd cyn dod yn Aelod Cynulliad.

Devolution has proven itself to be an organic process, and it is for that reason that we have tabled amendment 3 to welcome the establishment of the Silk commission. There are further issues that we need to explore, particularly with regard to fiscal matters, and I very much welcome the fact that all four main parties are at the heart of that process. We have talked on many occasions in this Chamber about what we might be able to achieve with borrowing powers in particular. Therefore, I for one look forward to seeing

Rydym wedi gweld bod datganoli yn broses organig, ac oherwydd hynny rydym wedi cyflwyno gwelliant 3 i groesawu sefydlu comisiwn Silk. Ceir rhagor o faterion y mae arnom angen eu pwyso a'u mesur, yn enwedig mewn perthynas â materion ariannol, ac rwyf yn croesawu'r ffaith bod y pedair prif blaid wrth galon y broses honno. Rydym wedi siarad droeon yn y Siambr hon ynghylch yr hyn y gallem ei gyflawni gyda phwerau benthyca'n benodol. Felly, rwyf yn edrych ymlaen at weld gwaith y comisiwn

the work of the commission as it develops.

wrth iddo ddatblygu.

However, as Ieuan Wyn Jones rightly said, this is not about power for power’s sake, but power for a purpose—what we do with the powers we have and what more we can achieve for the people of Wales if we have more powers. That is the direction that I would like to see the debate moving in next, justifying the people of Wales’s faith in the Assembly as an institution by the actions that we take in this place.

Fodd bynnag, fel y dywedodd Ieuan Wyn Jones yn iawn, nid yw hyn yn ymwneud â phŵer er ei fwyn ei hun, ond pŵer at bwrpas—yr hyn rydym yn ei wneud gyda’r pwerau sydd gennym a beth arall gallwn ei gyflawni i bobl Cymru os oes gennym ragor o bwerau. Dyna’r cyfeiriad yr hoffwn weld y ddadl yn ei dilyn nesaf, gan gyfiawnhau ffydd pobl Cymru yn y Cynulliad fel sefydliad drwy’r gweithredoedd a wnawn yma.

In amendment 4, we welcome the public support for continuing our journey in terms of the devolution of fiscal powers, as demonstrated by the BBC Wales poll that we saw on St David’s Day. The driver in that journey towards further devolution must always be the people of Wales, and we must always be mindful of what they want to see us do. However, we must also give them examples, give them a reason to have faith in us, give them an opportunity and give them the leadership that will help them see the benefits of further devolution for them. They must see what we will achieve and what further devolution will mean for them in their everyday lives, not for us in this Chamber.

Yng ngwelliant 4, rydym yn croesawu cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer parhau â’n siwrnai i ddatganoli pwerau ariannol, fel y dangoswyd gan arolwg barn BBC Cymru y gwelsom ar Ddydd Gŵyl Dewi. Rhaid i’r siwrnai honno tuag at ragor o ddatganoli gael ei gyrru gan bobl Cymru bob amser, a rhaid i ni bob amser gofio’r hyn mae arnynt eisiau i ni ei wneud. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd roi enghreifftiau iddynt, rhoi rheswm iddynt fod â ffydd ynom, rhoi cyfle iddynt a rhoi’r arweinyddiaeth iddynt a fydd yn eu helpu i weld manteision rhagor o ddatganoli. Rhaid iddynt weld beth fyddwn yn ei gyflawni a beth fydd rhagor o ddatganoli yn ei olygu iddynt yn eu bywydau bob dydd, nid i ni yn y Siambr hon.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Rwy’n gwerthfawrogi’n fawr y cyfle hwn i gyfarch fy nghyd gyn Aelod Seneddol. Rydym wedi sefydlu bod pedwar cyn Aelod Seneddol yma, ond bod rhai ohonom yn dal i lusgo ymlaen mewn tŷ anetholedig. Mae’r cyfraniad mwyaf a wnaed gan Ieuan Wyn Jones i ddatganoli yng Nghymru yn hollol amlwg i mi, oherwydd roeddwn mewn swydd arall pan ddigwyddodd hynny ac yn gyfrifol am lywyddu’r lle hwn. Roedd y penderfyniad cynhyrfus i arwain Plaid Cymru i mewn i Lywodraeth am y tro cyntaf erioed yn hanes y byd yn benderfyniad anodd, ond yn benderfyniad a arweiniodd at ymateb effeithiol iawn o fewn y blaid ac o fewn Llywodraeth Cymru.

**Lord Elis Thomas:** I appreciate very much this opportunity to salute my fellow former Member of Parliament. We have established that there are four former MPs here, but some of us continue to work in an unelected House. The greatest contribution made by Ieuan Wyn Jones to devolution in Wales is quite apparent to me, because I was in another position when that happened and responsible for presiding over this place. The exciting decision to lead Plaid Cymru into Government for the very first time in the history of the world was a difficult decision, but a decision that led to a very effective response within the party and the Welsh Government.

Yn wir, mae’r gwahaniaeth a wnaeth y Gweinidog economi ar y pryd ac, yn arbennig i’m mhwrpas i, y Gweinidog trafnidiaeth, i’w weld yn ddyddiol o hyd ar hyd y A470. Dim ond ddoe, roeddwn yn pasio arwydd melyn

Indeed, the difference that the then Minister for the economy and, particularly for my purposes, the Minister for transport, has made is still to be seen daily along the A470. Only yesterday, I passed a new yellow sign that

newydd yn dweud bod y cysylltiad rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes yn cael ei adeiladu'n iawn. Dyma, wedi'r cyfan, yw diben Llywodraeth—gweithredu ar ran pobl Cymru a'i chynrychioli.

declared that the link between Maes yr Helmau and Cross Foxes was being constructed properly. This, after all, is the purpose of Government—to take action on behalf of the people of Wales and to represent them.

4.15 p.m.

Fodd bynnag, wrth gytuno i siarad heddiw, penderfynais mai'r peth saffaf y gallwn ei wneud, ar ôl talu teyrnged i fy ngwir anrhydeddus gyfaill, fel y byddem yn dweud mewn lle arall, byddai rhoi araith fer ar ystyr hanesyddol datganoli. Dirprwy Lywydd, ni fydd ond yn para tri munud.

However, in agreeing to speak today, I decided that the safest thing that I could do, after paying tribute to my right honourable friend, as we used to say in another place, would be to give a brief address on the historical meaning of devolution. Deputy Presiding Officer, it will only last three minutes.

Yn gyntaf, carwn ddweud wrth y Senedd hon bod datganoli wastad wedi bodoli. Yn hanes y tir a elwir bellach yn Gymru ni fu erioed cyfnod pan nad oedd rhywbeth a ellid ei alw'n ddatganoli, o ddyddiau Caer-went a Chaerllion, pan ddarganfu'r Rhufeiniaid mai'r unig ffordd o reoli'r wlad hon oedd rhoi rhyw fath o rym i'r bobl oedd yn byw yno dros eu hetifeddiaeth, hyd at y dyddiau—rwy'n symud yn gyflym fel y sylwch—pan sefydlodd Edward IV Gyngor Cymru a'r Mers. Dyma, efallai, yw'r enghraifft fwyaf diddorol o ddatganoli yn holl hanes yr Oesoedd Canol. Sefydlwyd Cyngor Cymru a'r Mers cyn Cyngor y Gogledd yng ngogledd Lloegr ac, wrth gwrs, datblygodd bwerau deddfwriaethol, gweithredol a dienyddiol a phwerau mynd i ryfel—nid ydym am fynd i'r cyfeiriad hwnnw gan nad ydym yn galw am y math hwnnw o bwerau. Yn y cyfnod Tuduraidd, datblygodd Cyngor Cymru a'r Mers, a oedd yn gyngor a oedd yn gweithredu pwerau gweithredol tywysog Cymru ar y pryd, fel gweinyddwr gwladol. Datblygwyd hwnnw yn Llwydlo gan greu Llwydlo yn brifddinas Cymru. Tra ein bod yn sôn am dywysogaeth Cymru, dewch inni gofio mai ffordd o ddatganoli a sefydlwyd gan Arglwyddi Nant Conwy oedd tywysogaeth Cymru. Perthyn i ni y mae tywysogaeth Cymru, nid i frenhiniaeth Lloegr—neu Frenhines y Deyrnas Unedig.

First, I would like to tell this Senedd that devolution has always existed. In the history of the land that is now known as Wales, there has never been a time when there has not been something that could be called devolution, from the days of Caerwent and Caerleon, when the Romans discovered that the only way of ruling this country was to give some sort of power over their heritage to the people who lived here, to the days—you will notice that I am moving swiftly on—when Edward IV established the Council of Wales and the Marches. This, perhaps, is the most interesting example of devolution in the whole history of the Middle Ages. The Council of Wales and the Marches was established before the Council of the North in the north of England and, of course, it developed legislative, executive and capital powers, and powers to go to war—we do not wish to go in that direction because we are not seeking those sorts of powers. In the Tudor period, the Council of Wales and the Marches was a council that implemented the prince of Wales's executive powers at the time, as a national administrator. That was developed in Ludlow, which made Ludlow the capital city of Wales. While we are talking about the Welsh principality, let us bear in mind that the Welsh principality was a form of devolution put in place by the Lords of Nant Conwy. The Welsh principality belongs to us, not to the English Crown—or the Queen of the United Kingdom.

Dewch inni symud ymlaen yn gyflym a

Let us move swiftly on and pass by the Court

phasio heibio Cwrt y Sesiwn Fawr a dod yn syth i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan, am y tro cyntaf, roeddem mewn cyfnod o ddemocratiaeth ddatganoledig, lle'r oedd y Rhyddfrydwyr yn serennu ac yn cyflwyno mesurau o ddatganoli, yn enwedig ym maes addysg a llywodraeth leol a lle'r oedd fy arwr mawr, a fy mentor yn y nefoedd, Thomas Edward Ellis, yn gosod y llwyfan ar gyfer Senedd i Gymru.

Felly, nid peth dieithr yw rheoli'r genedl hon mewn ffyrdd gwahanol i genhedloedd eraill y deyrnas. Yn wir, byddwn yn dweud mai hwn yw gwir hanes Cymru, fel y mae Huw Edwards wedi dangos ac yn parhau i ddangos yn glir ar y teledu. Felly, anogaf Aelodau i ymwroli a pheidio â phoeni oherwydd, ys dywedodd Dafydd Iwan, 'ry'n ni yma o hyd'.

**Mick Antoniw:** Before I get into my contribution, I would like to raise one issue, which is that we could, perhaps, join together on one issue of devolution, which is the devolution of responsibility for Remploy and its associated funding that will enable us to do something alternative to support the Remploy workers. It is an area that is an anomaly and any representations that any of us could make would be helpful.

I wanted to talk about Wales's relationship with the rest of the UK. Part of our debate takes place against the background of a United Kingdom constitution that is now dysfunctional and not fit for purpose. To me, devolution has always been more about decentralisation of power and about the empowerment of individuals and communities. There can be little doubt that devolution has been successful to the extent that we see the growth in support for this institution and the work of this institution.

We have had the successful referendum for more powers, which established this Assembly as a legislature in its own right. We now have the Silk commission, but it still only looking at some of the important constitutional issues that affect us.

It is unfortunate that the coalition Government appears to have little understanding of the dialectical process that

of Great Sessions and arrive at the nineteenth century, when, for the first time, we are in a period of devolved democracy, where the Liberals shined and introduced measures of devolution, especially in the fields of education and local government and where my great hero, and mentor in heaven, Thomas Edward Ellis, set the stage for a Parliament for Wales.

Therefore, ruling this nation in a different way to the other nations of the kingdom is not an alien concept. Indeed, I would say that this is the true history of Wales, as Huw Edwards has clearly demonstrated and continues to demonstrate on television. Therefore, I encourage Members to be brave and not to worry because, as Dafydd Iwan said, '*Ry'n ni yma o hyd'*—we're still here.

**Mick Antoniw:** Cyn i mi ddechrau ar fy nghyfraniad, hoffwn godi un mater, sef y gallem, efallai, ymuno â'n gilydd ar un mater sy'n ymwneud â datganoli, sef datganoli'r cyfrifoldeb dros Remploy a'i gyllid cysylltiedig a fydd yn ein galluogi i wneud rhywbeth gwahanol i gefnogi gweithwyr Remploy. Mae'n faes sy'n anomaledd a byddai unrhyw sylwadau y gall unrhyw rai ohonom eu gwneud yn ddefnyddiol.

Roedd arnaf eisiau siarad am berthynas Cymru â gweddill y DU. Mae rhan o'n dadl yn digwydd mewn cyd-destun o gyfansoddiad Teyrnas Unedig sydd nawr yn gamweithredol ac nad yw'n addas i'r diben. I mi, mae datganoli bob amser wedi ymwneud mwy â symud pŵer o'r canol a grymuso unigolion a chymunedau. Nid oes prin ddim amheuaeth bod datganoli wedi bod yn llwyddiannus i'r graddau rydym yn gweld y twf yn y gefnogaeth ar gyfer y sefydliad hwn a gwaith y sefydliad hwn.

Cawsom y refferendwm llwyddiannus i gael rhagor o bwerau, a sefydlodd y Cynulliad hwn fel deddfwrfa yn ei rinwedd ei hun. Nawr mae gennym gomisiwn Silk, ond dim ond edrych ar rai o'r materion cyfansoddiadol pwysig sy'n effeithio arnom y mae.

Mae'n anffodus ei bod yn ymddangos nad yw'r Llywodraeth glymblaid yn deall fawr ddim o'r broses ddialectegol sy'n mynd

is currently under way, which is that devolution has its own momentum. In the absence of any structured debate, the UK Government, through its proposals to end national collective bargaining and to introduce regional pay, and its proposals for welfare benefit reform, regional benefits and possibly a regional minimum wage, is removing the cement of the welfare state that provides the raison d'être for the very continuation of the United Kingdom. It is the redistributive function of the UK economy that has traditionally bound us and creates a common purpose and solidarity. Without it, there are dangers that the UK will lose its political purpose.

The real elephant in the room is English devolution, and until that issue is tackled head-on, it will be impossible to settle some of the other key constitutional questions, such as, what is the role of the UK Parliament, what structure should the UK Parliament take in the future, what do we want the UK to look like in the coming decades and what unites us rather than divides us. The key question is about English devolution. We cannot resolve the former questions without resolving the latter. In my view, the idea of an English parliament is not a realistic solution. It would create an imbalance that would make a new restructured UK and its parliament unviable and unworkable. Rather, the debate should focus on the issue of the decentralisation of power to the regions of England. That is an important issue for us, but, ultimately, it must be a decision for the whole of the English population, which must decide what its role is within any future United Kingdom.

The Institute for Public Policy Research recently carried out a detailed survey that concluded that the English are not interested in regional devolution, but want an English parliament. I do not accept that argument, because there has been no proper debate on these issues or options in England. Rather, there has been a reactive response to what is happening in Wales, Scotland and Northern Ireland. Understandably, they feel ignored and left out. As Bob Dylan sang,

rhagddi ar hyn o bryd, sef bod gan ddatganoli ei fomentwm ei hun. Gan nad oes unrhyw ddadl strwythuredig, mae Llywodraeth y DU, drwy ei chynigion i roi diwedd ar fargeinio cenedlaethol ar y cyd a chyflwyno tâl rhanbarthol, a'i chynigion i ddiwygio budd-daliadau lles, budd-daliadau rhanbarthol ac o bosibl isafswm cyflog rhanbarthol, yn chwalu sment y wladwriaeth les sy'n rhoi'r raison d'être ar gyfer union gyfansoddiad y Deyrnas Unedig. Swyddogaeth ailddosbarthol economi'r DU sydd wedi ein clymu'n draddodiadol ac sy'n creu pwrpas cyffredin ac undod. Heb hynny, ceir peryglon y bydd y DU yn colli ei phwrpas gwleidyddol.

Y peth amlwg y mae pawb yn osgoi ei drafod yw datganoli Lloegr, a nes eir i'r afael â'r mater hwnnw ar ei ben, bydd yn amhosibl setlo rhai o'r cwestiynau cyfansoddiadol allweddol eraill, megis, beth yw swyddogaeth Senedd y DU, beth ddylai strwythur Senedd y DU fod yn y dyfodol, sut yr ydym am i'r DU fod yn y degawdau nesaf a beth sy'n ein huno yn hytrach na'n gwahanu. Mae'r cwestiwn allweddol yn ymwneud â datganoli Lloegr. Ni allwn ddatrys y cwestiynau cyntaf heb ddatrys yr olaf. Yn fy marn i, nid yw'r syniad o senedd i Loegr yn ateb realistig. Byddai'n creu anghydbwysedd a fyddai'n golygu bod DU newydd wedi'i hailstrwythuro a'i senedd yn annichonadwy ac yn anymarferol. Yn hytrach, dylai'r ddadl ganolbwyntio ar fater symud pŵer o'r canol i ranbarthau Lloegr. Mae hwnnw'n fater pwysig i ni, ond, yn y pen draw, rhaid iddo fod yn benderfyniad i boblogaeth Lloegr i gyd, a fydd yn gorfod penderfynu beth yw ei swyddogaeth mewn unrhyw Deyrnas Unedig yn y dyfodol.

Yn ddiweddar cynhaliodd y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus arolwg manwl a ddaeth i'r casgliad nad oes gan Saeson ddiddordeb mewn datganoli rhanbarthol, ond bod eisiau senedd i Loegr arnynt. Nid wyf yn derbyn y ddadl honno, oherwydd ni fu dim dadl iawn ar y materion na'r opsiynau hyn yn Lloegr. Yn hytrach, bu ymateb adweithiol i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn ddealladwy, maent yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu a'u gadael ar y cyrion. Fel roedd Bob Dylan yn canu,

‘don’t speak too soon For the wheel’s still in spin…For the times they are a-changin’.’

*‘don’t speak too soon For the wheel’s still in spin…For the times they are a-changin’.’*

**Darren Millar:** Thank you for taking my intervention. I share your view that the issue of English devolution needs to be resolved, and I would favour a federal system within the United Kingdom. However, you say that the issue of regional government or devolution in England has not been addressed. I seem to remember a referendum in the north-east of England where it was soundly rejected and knocked back by the public.

**Darren Millar:** Diolch am dderbyn fy ymyriad. Rwyf yn rhannu eich safbwynt bod angen datrys mater datganoli Lloegr, a byddwn yn ffafrio system ffederal yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, rydych yn dweud nad yw mater llywodraeth ranbarthol na datganoli yn Lloegr wedi cael sylw. Cofiaf refferendwm yng ngogledd-ddwyrain Lloegr lle cafodd ei wrthod yn llwyr gan y cyhoedd.

**Mick Antoniw:** It was, but it was not part of a national constitutional debate or structure. It was also at a time when devolution was in its infancy, so the consequences of devolution for the UK constitution had not taken effect. It was also a proposal that gave such limited powers that it was a bit like the 1979 devolution referendum that we had.

**Mick Antoniw:** Mae hynny’n wir, ond nid oedd yn rhan o strwythur na dadl gyfansoddiadol genedlaethol. Cafodd hefyd ei gynnal ar adeg pan roedd datganoli megis dechrau, felly nid oedd canlyniadau datganoli i gyfansoddiad y DU wedi dwyn ffrwyth. Roedd hefyd yn gynnig a oedd yn rhoi pwerau mor gyfyngedig ei fod braidd yn debyg i’r refferendwm ar ddatganoli a gawsom ni ym 1979.

I will not sing Bob Dylan songs as I carry on, but, in my view, the constitutional wheel in England has not yet started spinning. All political parties at Westminster have so far failed to get to grips with the English question and thereby the UK constitutional question. It is for that reason that I support the First Minister’s call for a UK constitutional convention, perhaps a Kilbrandon commission mark 2, because unless we have an inclusive and comprehensive debate at a UK level, our constitution will go into freefall, leading to the inevitable break-up of the United Kingdom. That is not something that I would welcome, because I believe that there is a clear and important future for the United Kingdom. I believe that a restructured United Kingdom with, perhaps, a written constitution would be in the best interest of Wales and the Welsh people. Independence or separatism, certainly within a global capitalist economy, is a romantic myth. We will only achieve a change that empowers people if we work for it. We have, perhaps, 10 years in which to hold this debate and to resolve these constitutional questions, otherwise we will suffer the consequences.

Nid wyf am ganu caneuon Bob Dylan wrth i mi fynd ymlaen ond, yn fy marn i, nid yw’r olwyn gyfansoddiadol yn Lloegr wedi dechrau troi eto. Hyd yn hyn mae pob plaid wleidyddol yn San Steffan wedi methu â mynd i’r afael â chwestiwn Lloegr ac felly cwestiwn cyfansoddiadol y DU. Oherwydd hynny rwyf yn cefnogi galwad y Prif Weinidog am gonfensiwn cyfansoddiadol i’r DU, comisiwn Kilbrandon arall efallai, oherwydd oni bai ein bod yn cael dadl gynhwysol a chynhwysfawr ar lefel y DU, byddwn yn colli rheolaeth ar ein cyfansoddiad, a fydd yn anochel yn arwain at chwalu’r Deyrnas Unedig. Nid yw hynny’n rhywbeth y byddwn yn ei groesawu, oherwydd rwyf yn credu bod dyfodol clir a phwysig i’r Deyrnas Unedig. Credaf y byddai Teyrnas Unedig wedi’i hailstrwythuro, o bosibl â chyfansoddiad ysgrifenedig, er budd gorau Cymru a phobl Cymru. Mae annibyniaeth neu ymwahaniaeth, yn sicr mewn economi gyfalafol fyd-eang, yn chwedl ramantaidd. Dim ond os byddwn yn gweithio amdano byddwn yn cyflawni newid sy’n grymuso pobl. Mae gennym, efallai, 10 mlynedd i gynnal y ddadl hon a datrys y cwestiynau cyfansoddiadol hyn, fel arall byddwn yn dioddef y canlyniadau.

**Elin Jones:** Mae datganoli grymoedd yn rhoi'r cyfle i'r Cynulliad hwn a'i Lywodraeth i benderfynu ar flaenoriaethau polisi a'u gweithredu yng Nghymru yn unol â gwerthoedd pobl Cymru. Efallai mai'r enghraifft orau o hyn, ac yn sicr yr un mwyaf cyfredol, yw strwythur ein gwasanaeth iechyd a chyfeiriodd Ieuan Wyn Jones at hynny yn ei araith agoriadol. Mae Llywodraeth San Steffan ar fin cwblhau Deddf a fydd yn dryllio a chaniatáu preifateiddio'r NHS yn Lloegr. Gwnaeth Llywodraeth Cymru'n Un waredu'r farchnad fewnol o'r NHS yng Nghymru ac ymwrthod â chyllid preifat a phreifateiddio. Mae'r Llywodraeth hon i'w chanmol am barhau gyda hynny, er bod rhywfaint o rwyg o fewn Llafur Cymru wrth i fwyafrif ei Aelodau Seneddol bleidleisio yn Nhŷ'r Cyffredin o blaid defnyddio'r sector preifat.

**Elin Jones:** The devolution of powers gives this Assembly and its Government the opportunity to decide on policy priorities and to implement them in Wales according to the values of the people of Wales. Perhaps the best example of this, and certainly the most current one, is the structure of our health service, which Ieuan Wyn Jones referred to in his opening speech. The Westminster Government is about to finalise an Act that will fragment and allow the privatisation of the NHS in England. The One Wales Government got rid of the internal market from the NHS in Wales and rejected private finance and privatisation. This Government should be praised for carrying on with that, although there is something of a schism within Welsh Labour as the majority of its Members of Parliament voted in the House of Commons in favour of using the private sector.

Beth bynnag am hynny, mae NHS Brydeinig Aneurin Bevan wedi cael ei chwalu erbyn hyn, ond nid gan bleidiau cenedlaethol yng Nghymru a'r Alban, ond gan Lywodraethau yn San Steffan. I Aneurin Bevan—heb amheuaeth, rwy'n siŵr—y *national* yn y *national health service* oedd Prydain. Erbyn heddiw, yn glir iawn, y *national* yn yr NHS yw Cymru, neu Loegr yn achos NHS Lloegr, neu'r Alban yn NHS yr Alban. NHS yr Alban ac NHS Cymru yn unig sy'n cadw at werthoedd craidd Aneurin Bevan yn fy nhyb i. Mae datganoli wedi caniatáu i hynny ddigwydd.

Putting that aside, Aneurin Bevan's British NHS has been destroyed, not by the nationalist parties in Wales and Scotland, but by Westminster Governments. I have no doubt that, to Aneurin Bevan, the 'national' in 'national health service' referred to Britain. Today, quite clearly, the 'national' in NHS is Wales, or England in the case of the NHS in England, or Scotland in NHS Scotland. In my opinion, only the NHS in Scotland and the NHS in Wales are keeping to Aneurin Bevan's core values. Devolution has allowed that to happen.

Er bod annibyniaeth i NHS Cymru, nid oes wal haearn rhyngddi ac NHS Lloegr, ac mae goblygiadau i NHS Cymru o'r ad-drefnu yn Lloegr. Mae Lynne Neagle wedi tynnu ein sylw at hyn yma, fel y mae Dafydd Wigley a Hywel Williams wedi'i wneud yn San Steffan. Er enghraifft, mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi amcangyfrif y bydd newidiadau i'r NHS yn Lloegr yn costio £11.5 miliwn yn ychwanegol iddo, gyda'r contractau presennol a gyflenwir yn Lloegr yn costio mwy o dan yr ad-drefnu o'r NHS yn Lloegr.

Although NHS Wales is independent, there is no iron curtain between it and the NHS in England, and there are implications for NHS Wales from the reorganisation in England. Lynne Neagle has drawn our attention to this issue here, as Dafydd Wigley and Hywel Williams have done in Westminster. For example, Betsi Cadwaladr University Local Health Board has estimated that the changes to the NHS in England will cost it an additional £11.5 million, as the current contracts that are delivered in England will cost more following the reorganisation of the NHS in England.

I'r rhai ohonom sy'n credu yn yr NHS, gallwn fod yn ddiolchgar iawn am ddatganoli

To those of us who believe in the NHS, we can be very grateful for devolution and its

a'i barhad, ac am sefydlu pwerau iechyd yn ein Cynulliad.

continuation and for the establishment of powers over health in our Assembly.

**Darren Millar:** I am grateful to you for taking the intervention. One thing that concerns many people in Wales is the decision to cut NHS spending by a significant amount—it is a record-breaking amount, in fact—over the next few years. That is something that your party supported when in Government, by the way, in coalition with the Labour Party. I accept that, under devolution, you have different policy objectives and different priorities—[*Interruption.*]

**Darren Millar:** Rwyf yn ddiolchgar i chi am dderbyn yr ymyriad. Un peth sy'n pryderu nifer o bobl yng Nghymru yw'r penderfyniad i dorri gwariant y GIG yn sylweddol—mae'n swm nas gwelwyd o'r blaen mewn gwirionedd—dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae hynny'n rhywbeth roedd eich plaid wedi'i gefnogi pan roedd mewn Llywodraeth, gyda llaw, mewn clymblaid â'r Blaid Lafur. Rwyf yn derbyn, o dan ddatganoli, bod gennych amcanion polisi gwahanol a blaenoriaethau gwahanol—[*Torri ar draws.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You do need to come to some point.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae angen i chi ddod i ryw bwynt.

**Darren Millar:** I am making my point, Deputy Presiding Officer.

**Darren Millar:** Rwyf yn gwneud fy mhwynt, Ddirprwy Lywydd.

Is it not the point that for all the ranting that you have just done about the English NHS, it is really important that we get the Welsh NHS back on its feet? Supporting the cuts is no way to do that.

Er eich holl refru am y GIG yn Lloegr, onid yw'n bwysig iawn ein bod yn cael GIG Cymru yn ôl ar ei draed? Nid yw cefnogi'r toriadau yn ffordd o wneud hynny.

**Elin Jones:** Gallem feddwl hefyd am feysydd nad ydynt wedi'u datganoli y byddai'n dda eu gweld yn cael eu datganoli fel y gellid osgoi rhai o'r newidiadau niweidiol y mae Llywodraeth y Torïaid a'r Lib Dems yn eu cyflwyno yn San Steffan, er enghraifft, ad-drefnu'r wladwriaeth les, amodau gwaith a phensiynau ein gweithwyr cyhoeddus, a newidiadau i'n cyfundrefn heddlu.

**Elin Jones:** We could also think of areas that have not been devolved that it would be good to see being devolved so that we could avoid some of the damaging changes that the Tory-Lib Dem Government in Westminster is introducing, such as the reorganisation of the welfare state, the working conditions and pensions of our public sector workers and changes to our policing system.

Mae'r gwasanaeth heddlu yn cael ei daro'n wael iawn gan doriadau cyllideb. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys 350 o swyddogion heddlu yn llai, a 1,700 yn llai dros Gymru gyfan, sy'n cyfateb i wasanaeth heddlu llawn.

The police service is being very badly hit by budget cuts. Dyfed-Powys Police has lost 350 police officers, and 1,700 police officers have been lost across the whole of Wales, which corresponds to a full police service.

Yn ogystal â'r toriadau ariannol, bydd newidiadau o ran y comisiynwyr heddlu a fydd yn cael eu cyflwyno ddiwedd eleni. Meddyliwch am funud fod yn blismon mewn unrhyw dref yng Nghymru, a'ch baich gwaith yn cynyddu a llai o heddweision i'ch cynorthwyo o'ch cwmpas, a'ch Llywodraeth—Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn y cyd-destun hwn—yn meddwl mai'r flaenoriaeth yw cynnal etholiadau drwy

In addition to the funding cuts, there will be changes by way of the police commissioners that will be introduced at the end of the year. Think for a moment of being a police officer in any town in Wales, with your workload increasing and fewer colleagues around to help you, and your Government—the United Kingdom Government in this context—thinking that the priority is to hold elections across England and Wales in November to

Gymru a Lloegr ym mis Tachwedd i ethol comisiynwyr heddlu. Pe bai'r pwerau dros y gwasanaeth heddlu wedi cael eu datganoli, rwy'n gwbl sicr na fyddem yn wynebu'r fath nonsens ag etholiadau ym mis Tachwedd eleni ac y byddai'n blaenoriaethau ni yn wahanol iawn.

elect police commissioners. Had powers for the police service been devolved, I am confident that we would not be facing the nonsense of elections this November and that our priorities would be very different.

Felly, mae nifer o feysydd yn datgan achos cryf dros gyfrifoldebau ychwanegol i'r Cynulliad. Rwyf wedi gweld cefnogaeth hefyd i drosglwyddo pwerau trethiannol i'r Cynulliad, a fyddai'n caniatáu i'r gyfundrefn lywodraeth yng Nghymru fod yn gwbl atebol. Nid hap a damwain yw'r sifft hon yn y gefnogaeth i bwerau trethiannol i Gymru a datblygu datganoli; mae'r sifft hon wedi cael ei harwain dros y 12 mlynedd diwethaf gan Ieuan Wyn Jones. Nid mater o hap a damwain ydyw; rydym wedi llwyddo i adeiladu'n cenedl dros y 12 mlynedd diwethaf dan ei arweiniad ef. Drwy gefnogi'r cynnig hwn, byddwn yn parhau i adeiladu'r genedl.

Therefore, in a number of areas there is a strong case for giving the Assembly additional powers. I have also seen support for transferring tax powers to the Assembly, making the government structure in Wales fully accountable. This shift in support for tax powers for Wales and for progress on devolution is not an ad hoc development; it has been led over the last 12 years by Ieuan Wyn Jones. It is not an ad hoc development; we have succeeded in our work of nation building over the last 12 years under his leadership. In supporting this motion, we will continue with the work of nation building.

4.30 p.m.

**Julie Morgan:** First of all, I congratulate Ieuan Wyn Jones on his contribution to devolution as he steps down as leader of Plaid Cymru. We were together for a short time in the House of Commons and we have been together here for a short time, and I do not think that anybody has any doubt about his commitment to public service and to Wales.

**Julie Morgan:** Yn gyntaf oll, rwyf yn llongyfarch Ieuan Wyn Jones am ei gyfraniad at ddatganoli wrth iddo sefyll i lawr fel arweinydd Plaid Cymru. Roeddem gyda'n gilydd am gyfnod byr yn Nhŷ'r Cyffredin ac rydym wedi bod gyda'n gilydd am gyfnod byr yma, ac nid wyf yn meddwl nad oes gan neb unrhyw amheuaeth ynghylch ei ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus ac i Gymru.

The Labour Party's manifesto pledge before the 1997 general election, followed by the Government of Wales Act 1998, the wafer-thin victory in the referendum, and the setting up of the Assembly in 1999 have had far-reaching constitutional consequences. It was a brave move to break up a centralised state, and we should give credit to Tony Blair and the legacy of John Smith for devolution. We had that great success in 2011 in getting more powers in the referendum—

Mae addewid maniffesto'r Blaid Lafur cyn etholiad cyffredinol 1997, a ddilynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, buddugoliaeth o drwch blewyn yn y refferendwm, a sefydlu'r Cynulliad ym 1999 wedi cael canlyniadau cyfansoddiadol pellgyrhaeddol. Roedd yn gam dewr chwalu'r wladwriaeth ganoledig, a dylem roi clod i Tony Blair ac etifeddiaeth John Smith am ddatganoli. Cawsom y llwyddiant gwych hwnnw'n 2011 i gael rhagor o bwerau yn y refferendwm—

**Leanne Wood:** I just wondered whether you regretted the difference between the settlements given by Tony Blair to Scotland and to Wales.

**Leanne Wood:** Roeddwn yn pendroni tybed a oeddech yn gresynu wrth y gwahaniaeth rhwng y setliadau a roddwyd gan Tony Blair i'r Alban ac i Gymru.

**Julie Morgan:** My feeling was that, at that stage, what we had in Wales was what the people of Wales wanted, and devolution has since grown in Wales. In any case, it was great that when we had the additional powers in 2011, the four parties here were all involved. We are now again in a period of change with negotiations going on between the Welsh and Westminster Governments about the Barnett formula, the Silk commission sitting, and a referendum on Scottish independence on the horizon. There is no doubt that should a referendum be successful in Scotland, there will be huge implications for Wales and Northern Ireland. Wales's influence in a UK without Scotland would be very small.

**Julie Morgan:** Ar yr adeg honno, roeddwn yn teimlo'r mai'r hyn a oedd gennym yng Nghymru oedd yr hyn yr oedd ar bobl Cymru ei eisiau, ac mae datganoli wedi tyfu yng Nghymru ers hynny. Ta waeth, roedd yn wych bod y pedair plaid i gyd yn cymryd rhan pan gawsom y pwerau ychwanegol yn 2011. Nawr unwaith eto rydym mewn cyfnod o newid gyda thrafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan ynghylch fformiwla Barnett, comisiwn Silk, a refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban ar y gorwel. Nid oes dim amheuaeth petai refferendwm yn llwyddiannus yn yr Alban y bydd goblygiadau enfawr i Gymru ac i Ogledd Iwerddon. Bach iawn fyddai dylanwad Cymru mewn DU heb yr Alban.

The election of a majority SNP Government in Scotland, with a Tory-led Government in England intent on breaking up the welfare state, means that there could be a superficial attraction to want to break away from Tory-dominated England. However, it is surely important to take a wider look at the issue because of the implications to all parts of the UK, and surely it would be better to consider a UK-wide proposal for a modernised United Kingdom with a written constitution, building on devolution—and building devolution into the constitution—and making a broadbrush funding formula part of that constitution. I also support the First Minister's call for a constitutional convention. I think that we should aim for a written constitution in a set period of time—Mick Antoniw said 10 years, and I would agree with that. Of course, the House of Lords would have to be sorted out first; sorry about that, Dafydd Elis-Thomas. A written constitution would have to be voted on by the whole United Kingdom so that it would bind everybody in the UK and so that a Government could not just change the constitution when it came in. It would require a mental change of attitude by politicians because it would fetter the power of an elected Government. I believe that something has to be done because of devolution. Written into the constitution should be a funding formula whereby the richer parts contribute more to the pot than the poorer parts.

Mae ethol Llywodraeth SNP fwyafrifol yn yr Alban, gyda Llywodraeth wedi'i harwain gan y Toriaid yn Lloegr sydd â'i bryd ar chwalu'r wladwriaeth les, yn golygu y gallai fod atyniad arwynebol i fod eisiau torri'n rhydd oddi wrth Loegr wedi'i dominyddu gan y Toriaid. Fodd bynnag, siawns ei bod yn bwysig edrych ar y mater yn ehangach oherwydd y goblygiadau i bob rhan o'r DU, a siawns y byddai'n well ystyried cynnig ar gyfer y DU i gyd ar gyfer Teyrnas Unedig wedi'i moderneiddio sydd â chyfansoddiad ysgrifenedig, gan adeiladu ar ddatganoli—a gan adeiladu datganoli i'r cyfansoddiad—a gwneud fformiwla cyllido eang yn rhan o'r cyfansoddiad hwnnw. Rwyf hefyd yn cefnogi galwad y Prif Weinidog am gonfensiwn cyfansoddiadol. Rwyf yn credu y dylem anelu at gyfansoddiad ysgrifenedig cyn pen cyfnod penodol—dywedodd Mick Antoniw 10 mlynedd, a byddwn yn cytuno â hynny. Wrth gwrs, byddai'n rhaid rhoi trefn ar Dŷ'r Arglwyddi yn gyntaf; mae'n ddrwg gennyf am hynny, Dafydd Elis-Thomas. Byddai'n rhaid i'r Deyrnas Unedig i gyd bleidleisio ar gyfansoddiad ysgrifenedig er mwyn iddo rwymo pawb yn y DU ac fel na fyddai modd i Lywodraeth newid y cyfansoddiad pan fyddai'n dod i rym. Byddai'n galw am newid agwedd feddyliol gwleidyddion oherwydd byddai'n cyfyngu ar bŵer Llywodraeth etholedig. Rwyf yn credu ei bod yn rhaid gwneud rhywbeth oherwydd datganoli. Yn y cyfansoddiad dylid ysgrifennu fformiwla cyllido a fyddai'n golygu bod y rhannau

cyfoethocaf yn cyfrannu mwy at y pwrs na'r rhannau tlotach.

We have had some talk about powers that could or should be devolved. I also think that there is scope for further devolution of powers. I was a member of the Welsh Affairs Committee about 15 years ago when we made a strong recommendation that youth justice should be devolved, and, because of its close links with social services, my personal view is that this would be an absolutely logical step to take. There is also a debate about whether policing should be devolved, and if you look at the fact that local authorities are already partly responsible for funding of the police, and that they also have responsibility for community safety, in theory it is something that should certainly be considered. However, if you start thinking about whether responsibility for the police should be devolved, there is then the question of whether you could devolve the police without the courts, and devolve the courts without the prisons. We need a more in-depth discussion about whether policing should be devolved.

Rydym wedi cael rhywfaint o sôn am y pwerau y gellid neu y dylid eu datganoli. Rwyf hefyd yn meddwl bod cwmpas ar gyfer datganoli rhagor o bwerau. Roeddwn yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cymreig oddeutu 15 mlynedd yn ôl pan wnaethom argymhelliad cryf y dylid datganoli cyfiawnder ieuenctid, ac, oherwydd ei gysylltiadau agos gyda gwasanaethau cymdeithasol, rwyf yn bersonol yn credu y byddai hwn yn gam hollol resymegol i'w gymryd. Ceir dadl hefyd ynghylch a ddylid datganoli plismona, ac os edrychwch ar y ffaith bod awdurdodau lleol eisoes yn rhannol gyfrifol am gyllido'r heddlu, a'u bod hefyd yn gyfrifol am ddiogelwch cymunedol, mewn theori mae'n rhywbeth y dylid yn sicr ei ystyried. Fodd bynnag, os ydych yn dechrau meddwl ynghylch a ddylid datganoli cyfrifoldeb dros yr heddlu, ceir wedyn y cwestiwn ynghylch a allech ddatganoli'r heddlu heb y llysoedd, a datganoli'r llysoedd heb y carchardai. Mae arnom angen trafodaeth fanylach ynghylch a ddylid datganoli plismona

It is an exciting and challenging time. I have been a passionate supporter of devolution during the time that I have been active in politics, and to see the changes that have happened has been thrilling. I think that we are at the stage now where a lot more can happen, and I am very anxious that the United Kingdom does not break up into little independent bits. We need to be interdependent and work together. We should put power as close to the people as we can, but keep together and work together. That is the way in which we should move forward.

Mae'n gyfnod cyffrous a dyrys. Rwyf wedi bod yn un o gefnogwyr angerddol datganoli yn ystod y cyfnod rwyf wedi bod yn weithgar ym maes gwleidyddiaeth, ac mae wedi bod yn wefreiddiol gweld y newidiadau sydd wedi digwydd. Rwyf yn credu ein bod ar gam nawr lle gall llawer mwy ddigwydd, ac rwyf yn amharod iawn i weld y Deyrnas Unedig yn chwalu yn ddarnau annibynnol bach. Mae arnom angen bod yn annibynnol a chydweithio. Dylem roi'r pŵer cyn agosed at y bobl ag y gallwn, ond cadw gyda'n gilydd a gweithio gyda'n gilydd. Dyna'r ffordd y dylem symud ymlaen.

**Leanne Wood:** I start my contribution by adding my voice to all the others in paying tribute to Ieuan Wyn Jones, as this is his last debate as party leader. We sit today in what is, in effect, a Parliament. We very nearly did not have a Parliament. We would not have had the referendum this time last year without the One Wales Government. If Ieuan Wyn Jones had not faced down Peter Hain when he was playing games back in 2009, the referendum would not have gone ahead.

**Leanne Wood:** Rwyf am ddechrau fy nghyfraniad drwy ychwanegu fy llais at y rhai eraill i gyd i dalu teyrnged i Ieuan Wyn Jones, gan mai dyma ei ddadl olaf fel arweinydd plaid. Rydym yn eistedd heddiw mewn Senedd i bob pwrpas. Bron iawn i ni beidio â chael Senedd. Ni fyddem wedi cael y refferendwm yr adeg hon y llynedd heb Lywodraeth Cymru'n Un. Pe na bai Ieuan Wyn Jones wedi trechu Peter Hain pan roedd yn chwarae gemau yn ôl yn 2009, ni fyddai'r

Ieuan, thank you for holding firm and ensuring the delivery of another very important step on Wales's journey. The leader of the PCS union, my friend Mark Serwotka, said that Ieuan Wyn Jones, as Minister for economic development, went against the grain of neo-liberalism. Now, more than ever, we need to be going against the grain of neo-liberalism. That is what devolution has enabled us to do. We have been able to plough a furrow that is different.

refferendwm wedi mynd ymlaen. Ieuan, rwyf yn diolch i chi am ddal eich tir a sicrhau bod cam pwysig iawn arall wedi cael ei gymryd ar siwrnai Cymru. Dywedodd arweinydd yr undeb PCS, fy nghyfaill Mark Serwotka, fod Ieuan Wyn Jones, fel Gweinidog dros ddatblygu economaidd, wedi mynd yn groes i'r graen o neo-ryddfrydiaeth. Nawr, mwy nag erioed, mae angen i ni fynd yn groes i'r graen o neo-ryddfrydiaeth. Dyna'r hyn y mae datganoli wedi ein galluogi i'w wneud. Rydym wedi gallu torri cwys wahanol.

Wales is more independent now than ever, yet people still want more. After 12 years, people in Wales now see Welsh decision making as natural and desirable. We, the Government, and the people out there all know that we need more powers. Only yesterday, we heard how the economy of west Wales and the Valleys has declined even further, despite injections of billions of pounds. The powers or levers that the Assembly's Government has to take serious and substantial action to address our structural economic weaknesses are woefully inadequate. We cannot deliver the policy improvements that Welsh people need and demand because our settlement is lacking. In his questions to the First Minister yesterday and today, Ieuan Wyn Jones said that he does not favour constitutional change for its own sake. He is absolutely right.

Mae Cymru'n fwy annibynnol nawr nag erioed, ond mae ar bobl Cymru eisiau mwy o hyd. Ar ôl 12 mlynedd, mae pobl yng Nghymru nawr yn gweld bod gwneud penderfyniadau Cymreig yn rhywbeth naturiol a dymunol. Rydym ni, y Llywodraeth, a'r bobl allan yna i gyd yn gwybod bod angen rhagor o bwerau arnom. Dim ond ddoe, clywsom sut y mae economi gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi dirywio hyd yn oed ymhellach, er gwaethaf chwistrelliad gwerth bilynnau o bunnoedd. Mae'r pwerau neu'r lifrau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i gymryd camau difrifol a sylweddol i fynd i'r afael â'n gwendidau economaidd strwythurol yn eithriadol o annigonol. Ni allwn gyflawni'r gwelliannau polisi y mae eu hangen ar bobl Cymru a'r rheini y maent yn galw amdanynt oherwydd bod ein setliad yn wan. Yn ei gwestiynau i'r Prif Weinidog ddoe a heddiw, dywedodd Ieuan Wyn Jones nad yw'n ffafrio newid cyfansoddiadol er ei fwyn ei hun. Mae'n llygad ei le.

**Nick Ramsay:** On your point about the decline of GDP in west Wales and the Valleys, what specific power would the Assembly have needed to avoid that decline, which is not a problem caused by the Welsh Government's policies as they stand?

**Nick Ramsay:** Ynghylch eich pwynt am ostyngiad CMC yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, pa bŵer penodol y byddai wedi bod ei angen ar y Cynulliad er mwyn osgoi'r gostyngiad hwnnw, nad yw'n broblem a achosir gan bolisïau Llywodraeth Cymru fel y maent?

**Leanne Wood:** The answer to your question is that we need all macro-economic powers.

**Leanne Woood:** Yr ateb i'ch cwestiwn yw bod angen pob pŵer macro-economaidd arnom.

Plaid Cymru seeks constitutional change so that we can properly deal with the problems faced by people in our country. At the moment, those problems are chiefly economic. If we are honest, the economy is

Mae Plaid Cymru yn chwilio am newid cyfansoddiadol er mwyn i ni allu delio â'r problemau sy'n wynebu pobl ein gwlad yn iawn. Ar hyn o bryd, problemau economaidd yw'r rheini gan fwyaf. Os ydym yn onest, nid

not devolved in any meaningful way. Economic development programmes are under Welsh control, but the Assembly has fewer fiscal powers than Pont-y-clun community council. Plaid Cymru has long championed the need for us to have borrowing powers. I welcome that fact that other parties are starting to agree with us. Cross-party agreement on borrowing powers could be what is needed to deliver those powers. Are there opportunities for a national unity approach to push for more democratic control in Wales, more control over those economic levers in particular?

yw'r economi wedi'i datganoli mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Mae rhaglenni datblygu economaidd yn cael eu rheoli yng Nghymru, ond mae gan y Cynulliad lai o bwerau ariannol na chyngor cymuned Pont-y-clun. Ers tro byd mae Plaid Cymru wedi hyrwyddo'r angen i ni gael pwerau benthyca. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod pleidiau eraill yn dechrau cytuno â ni. Efallai mai cytundeb trawsbleidiol ar bwerau benthyca sydd ei angen i gyflawni'r pwerau hynny. A oes cyfleoedd am ddull gweithredu undod cenedlaethol i wthio am ragor o reolaeth ddemocrataidd yng Nghymru, rhagor o reolaeth dros y lifrau economaidd hynny'n benodol?

Why limit our ambitions to economic levers? I am sure that there are Members in other parties who agree with Plaid Cymru on the need for democratic control over broadcasting. Is everyone here happy with the criminal justice system? Do you believe that police commissioners are not going to cut it? Are you concerned about the privatisation of the police? If so, then how can you oppose the devolution of policing? I am sure that there are people in other parties who are ambitious and want democratic control over energy projects that generate more than 100 MW.

Pam cyfyngu ar ein dyheadau i lifrau economaidd? Rwyf yn siŵr bod Aelodau mewn pleidiau eraill sy'n cytuno â Phlaid Cymru ar yr angen am reolaeth ddemocrataidd dros ddarlledu. A yw pawb yma'n hapus â'r system cyfiawnder troseddol? A ydych yn credu na fydd comisiynwyr yr heddlu yn cyrraedd y safon? A ydych yn poeni am breifateiddio'r heddlu? Os felly, sut y gallwch wrthwynebu datganoli plismona? Rwyf yn siŵr bod pobl mewn pleidiau eraill sy'n uchelgeisiol ac sydd am weld rheolaeth ddemocratiaeth dros brosiectau ynni sy'n cynhyrchu dros 100 MW.

Wales is on the move. After giving Welsh democracy a big thumbs-up just over a year ago, people want their Government to go further. I am confident that that bodes well for the process that will continue to evolve—and it must evolve—so that we can take control and responsibility for our own problems. Wales is on the move, and, as Ieuan Wyn Jones said recently, the best is yet to come.

Mae Cymru'n symud. Ar ôl dangos cefnogaeth glir i ddemocratiaeth Cymru ychydig dros flwyddyn yn ôl, mae ar bobl eisiau i'w Llywodraeth fynd ymhellach. Rwyf yn hyderus bod hynny'n argoeli'n dda ar gyfer y broses a fydd yn parhau i esblygu—a rhaid iddi esblygu—er mwyn i ni allu ysgwyddo'r rheolaeth a'r cyfrifoldeb dros ein problemau ein hunain. Mae Cymru'n symud, ac, fel y dywedodd Ieuan Wyn Jones yn ddiweddar, mae'r gorau eto i ddod.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar y Prif Weinidog—Carwyn Jones.

**The Deputy Presiding Officer:** I call on the First Minister—Carwyn Jones.

**Y Prif Weinidog:** Diolch am gofio fy enw, Ddirprwy Lywydd.

**The First Minister:** Thank you for remembering my name, Deputy Presiding Officer.

Hoffwn ddiolch i bawb am y cyfraniadau a wnaethpwyd y prynhawn yma. Wrth feddwl

I thank everyone for their contributions this afternoon. Looking back over the past year

yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf a'r refferendwm a gynhaliwyd, rhoes y canlyniad lawer o bleser personol a gwleidyddol i mi ac i sawl un arall yn y Siambr. Mae'n wir dweud bod llawer o ddadlau wedi bod o ran pryd yn gwmws i gynnal y refferendwm. Bu llawer o drafod rhwng Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog ar y pryd, a minnau am y cwestiwn o gynnal yn yr haf neu'r hydref, ym mis Mawrth neu ar ddiwrnod etholiadau'r Cynulliad. Nid wyf yn credu bod pawb wedi cytuno â hynny, o gofio y byddai criw o bobl yn canfasio gyda'i gilydd ar nos Lun ac yn canfasio yn erbyn ei gilydd ar nos Fawrth. Ni fyddai hynny wedi helpu o ran gwerthu'r achos i bobl Cymru.

and at the referendum, the result gave me, and many Members here today, a great deal of pleasure both personally and politically. It is true to say that a great deal of discussion took place as to the exact timing of the referendum. Ieuan Wyn Jones, as the Deputy First Minister at the time, and I discussed at length the question of holding it in the summer or in the autumn, in March or on the same day as the Assembly elections. I do not think that everyone agreed with that, given that groups could well have been out canvassing together on a Monday, only to canvass against each other on the Tuesday. That would not have been helpful in terms of making the case to the people of Wales.

Hefyd, mae'n wir dweud bod sawl un yn cofio'r refferendwm ym 1979, ac yn cario ambell glais ar ôl y refferendwm hwnnw. Mae pob un ohonom yn cofio refferendwm 1997, ac yn cofio'r ffaith bod yr arolygon barn wedi dangos mwyafrif o blaid datganoli, ond bod y mwyafrif hwnnw wedi lleihau, yn enwedig yn ystod yr wythnos cyn i'r bleidlais gael ei chynnal. Ar ôl y refferendwm hwnnw, sylwais, wrth edrych ar y map o'r ardaloedd a bleidleisiodd o blaid a'r ardaloedd a bleidleisiodd yn erbyn, ei fod yn debyg iawn i fap a welais pan oeddwn yn yr ysgol. Roedd y map hwnnw'n dangos tiroedd y Normaniaid a thiroedd y Cymry yn yr unfed ganrif ar ddeg. Roedd y canlyniad yn 1997 yn dangos bod rhwyg yn dal i fod yng nghymdeithas Cymru rhwng yr hen ardal Normanaidd a'r hen ardal Gymreig. Maen nhw'n dweud bod y Normaniaid wedi dod i Gymru oherwydd bod arweinydd o Ben-y-bont ar Ogwr wedi methu â thalu'r arian a oedd yn ddyledus i Iarll Caerloyw ar ôl i'r Normaniaid ddod i'w helpu i ymladd yn erbyn rhywun arall yn yr ardal. Felly, daeth y Normaniaid i Gymru gan nad oedd ef wedi talu. Roeddwn yn teimlo bod dyletswydd arnaf i sicrhau bod y rhwyg yn cael ei thrwsio dros y blynyddoedd. [*Chwerthin*.] Gwelsom y canlyniad y llynedd, pan fu i bron pob rhan o Gymru bleidleisio o blaid pwerau newydd. Roedd symudiad mawr mewn ambell fan, er enghraifft yn sir y Fflint, ac yn sir Fynwy, o gofio ymdrechion mawr yr Aelod dros Fynwy wrth iddo ymgyrchu dros bwerau newydd.

It is also true to say that many remember the 1979 referendum and still feel bruised by its result. We all remember the 1997 referendum and will know that the opinion polls showed a majority in favour of devolution, but, in the week leading up to the vote, that majority diminished. Following that referendum, I noticed, in looking at a map of the areas that voted in favour and the areas that voted against, that the map looked very much like a map I saw while at school. This map was one that showed the lands held by the Normans and those of the Welsh people in the eleventh century. The 1997 result showed that there continued to be a divide in Welsh society between the old Norman parts of Wales and the old Welsh regions. They say that the Normans came to Wales because a Bridgend chieftain had failed to repay monies due to the Earl of Gloucester following the help provided to him by the Normans in his struggle against another local leader. The Normans came to Wales because of this unpaid debt. I therefore felt that I had a duty to bridge that divide over the years. [*Laughter*.] We saw the result last year, when almost all parts of Wales voted in favour of these new powers. We saw a significant shift in some parts, such as Flintshire, and Monmouthshire, given the significant efforts made by the Member for Monmouth in campaigning in favour of the new powers.

The question for us now is where to go next. There are two areas that have to be examined outside of the Silk commission. The first is the Barnett formula. It has been well rehearsed in the Chamber that we are underfunded by £300 million a year. The other issue that is outside the remit of the Silk commission is that of borrowing. It is crucial that this Government has the ability to borrow in the same way as England, Scotland and Northern Ireland, and, indeed, local authorities. If we do not have that ability, we run the risk of being in a situation where large projects cannot take place because they are in Wales. That cannot be right for the future.

Y cwestiwn i ni nawr yw ble mae mynd nesaf. Rhaid archwilio dau faes y tu allan i gomisiwn Silk. Fformiwla Barnett yw'r cyntaf. Rydym wedi clywed droeon yn y Siambr ein bod wedi cael ein tangyllido £300 miliwn y flwyddyn. Y mater arall sydd y tu allan i gylch gwaith comisiwn Silk yw benthyca. Mae'n hanfodol bod y Llywodraeth hon yn gallu benthyca arian yn yr un modd â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac, yn wir, awdurdodau lleol. Os nad yw'r gallu hwnnw gennym, rydym mewn perygl o fod mewn sefyllfa sy'n golygu nad oes modd cynnal prosiectau mawr oherwydd eu bod yng Nghymru. Ni all hynny fod yn iawn ar gyfer dyfodol.

Part one of the Silk commission will look at issues such as taxation. I agree with the leader of Plaid Cymru that it is right, in principle, that this institution should have powers to raise money. I believe that that would make the Government and the Assembly more accountable, although I do not accept that they are not accountable at present. However, they will, perhaps, be more accountable in future. In the same way, it is an anomaly that this is the only part of the world where there are two legislatures operating in the same jurisdiction. That situation does not exist anywhere else, which is why we have issued the Green Paper on the principle of a separate Welsh jurisdiction.

Bydd rhan un comisiwn Silk yn edrych ar faterion fel trethiant. Rwyf yn cytuno ag arweinydd Plaid Cymru ei bod yn iawn, mewn egwyddor, y dylai'r sefydliad hwn gael pwerau i godi arian. Rwyf yn credu y byddai hynny'n gwneud y Llywodraeth a'r Cynulliad yn fwy atebol, er nad wyf yn derbyn nad ydynt yn atebol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, efallai byddant yn fwy atebol yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae'n anomaledd mai dyma'r unig ran o'r byd lle ceir dwy ddeddfwrfa yn gweithredu yn yr un awdurdodaeth. Nid yw'r sefyllfa honno'n bodoli yn unman arall, sef pam rydym wedi cyhoeddi'r Papur Gwyrdd ar egwyddor awdurdodaeth Cymru ar wahân.

Some taxes could be devolved fairly quickly—we are talking about a landfill tax, an aggregates levy and stamp duty being devolved to Scotland, and responsibility for air passenger duty already given in part to Northern Ireland. There is no greater way to revitalise the fortunes of Cardiff Airport—I note what was said inside and outside the Chamber yesterday—than the devolution of air passenger duty. We know that it would be a significant boost to the airport's future.

Byddai modd datganoli rhai trethi'n weddol gyflym—rydym yn siarad am ddatganoli treth tirlenwi, ardoll agregau a threth stamp i'r Alban, ac mae cyfrifoldeb dros doll teithwyr awyr eisoes wedi cael ei roi yn rhannol i Ogledd Iwerddon. Nid oes ffordd well o adfywio ffawd Maes Awyr Caerdydd—nodaf yr hyn a ddywedwyd yn y Siambr a'r tu allan ddoe—na datganoli toll teithwyr awyr. Rydym yn gwybod y byddai'n hwb sylweddol i ddyfodol y maes awyr.

Members will have heard me mention income tax and corporation tax in the Chamber before now. My view on the devolution of income tax is that it would require another referendum—there is no doubt about that. There is also no doubt that it would be difficult, but above all else, it cannot be done without reform of the Barnett formula, otherwise it will simply lock in the

Bydd Aelodau wedi fy nghlywed yn sôn am dreth incwm a threth gorfforaeth yn y Siambr cyn nawr, Fy marn i ar ddatganoli treth incwm yw y byddai'n galw am refferendwm arall—nid oes dim amheuaeth ynghylch hynny. Nid oes dim amheuaeth chwaith y byddai'n anodd, ond yn anad dim arall, ni ellir ei wneud heb ddiwygio fformiwla Barnett, fel arall bydd yn cloi'r tangyllido

underfunding that we already have. Members will have heard my scepticism on corporation tax. My fear is that, if it was devolved generally, we would end up in a situation where everybody would bring corporation tax down to the same level, there would be no competitive advantage, and every administration would find a hole in its finances.

sydd gennym yn barod. Bydd Aelodau wedi clywed fy amheuaeth ynghylch treth gorfforaeth. Fy ofn yw, petai'n cael ei datganoli'n gyffredinol, y byddai gennym sefyllfa lle byddai pawb yn dod â threth gorfforaeth i lawr i'r un lefel, ni fyddai dim mantais gystadleuol, a byddai pob gweinyddiaeth yn dod o hyd i dwll yn ei chyllid.

4.45 p.m.

Perhaps the more interesting part of the Silk commission is part 2: that is the area where there has been no significant debate over the past few years. There are areas that need to be examined: criminal justice is one such area, and family justice is another area. It is not often referred to in the Chamber, but family justice is an area in which we already have expertise, and which, in many ways, is easier and cheaper to devolve. We know that policing is an area that is anomalous in many ways. The fire brigade and emergency health services are devolved, but policing sits outside of the devolved area of competence. Silk must look at that.

Efallai mai rhan fwyaf diddorol comisiwn Silk yw rhan 2: dyna'r maes lle na chafwyd dadl arwyddocaol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ceir meysydd mae angen eu harchwilio: mae cyfiawnder troseddol yn un maes o'r fath ac mae cyfiawnder teuluol yn faes arall. Ni chyfeirir ato'n aml yn y Siambr, ond mae cyfiawnder teuluol yn faes lle mae gennym arbenigedd yn barod ac, mewn nifer o ffyrdd, mae'n haws ac yn rhatach i'w ddatganoli. Rydym yn gwybod bod plismona yn faes sy'n anghyson mewn nifer o ffyrdd. Mae'r frigâd dân a gwasanaethau iechyd brys wedi'u datganoli, ond mae plismona y tu allan i'r maes cymhwysedd datganoledig. Rhaid i Silk edrych ar hynny.

We have had many debates in the Chamber about the railways and the fact that the budget for rail infrastructure in Wales is not held in Wales. There are other areas, such as the community infrastructure levy, which is, effectively, a planning issue that impacts on our ability to change planning law in Wales. The same is true of energy consents. There is no reason why the people of Wales should not have substantial control over their own energy resources, in the same way as the people of England, Scotland and Northern Ireland. If it is right for Scotland and Northern Ireland, it must be right, at least in part, for Wales.

Rydym wedi cael nifer o ddadleuon yn y Siambr am y rheilffyrdd a'r ffaith nad yw'r gyllideb ar gyfer y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru'n cael ei dal yng Nghymru. Ceir meysydd eraill, megis yr ardoll seilwaith cymunedol, sydd, i bob pwrpas, yn fater cynllunio sy'n effeithio ar ein gallu i newid cyfraith cynllunio yng Nghymru. Mae'r un peth yn wir am ganiatâd ynni. Nid oes dim rheswm pam na ddylai pobl Cymru gael rheolaeth sylweddol dros eu hadnoddau ynni eu hunain, yn yr un modd â phobl Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Os yw'n iawn i'r Alban ac i Ogledd Iwerddon, rhaid iddo fod yn iawn, o leiaf yn rhannol, i Gymru.

Let me turn to the amendments. We cannot support amendment 1, for obvious reasons that we have debated at length in the Chamber; the Government has a substantial legislative programme over the course of the next five years. We will support amendment 2, but that is because we look forward to the Silk commission making its recommendations and not because we oppose

Gadewch i mi droi at y gwelliannau. Ni allwn gefnogi gwelliant 1, am resymau amlwg rydym wedi'u trafod am gryn amser yn y Siambr; mae gan y Llywodraeth raglen ddeddfwriaethol sylweddol dros y pum mlynedd nesaf. Byddwn yn cefnogi gwelliant 2, ond mae hynny oherwydd ein bod yn edrych ymlaen at argymhellion comisiwn Silk ac nid oherwydd ein bod yn

further devolution of powers, including fiscal responsibility. It is important to note the work that the Silk commission is doing. We will support amendment 3; it is similar to amendment 2. Amendment 4 is a statement of fact, which we are more than happy to support. However, there is an important point here: constitutional change is taking place in the UK on a piecemeal basis. We do not know what is going to happen in Scotland over the next two years. We know of the general direction in Wales with the Silk commission, but the reality is that none of this can be taken forward without an overall constitutional convention within the UK. We cannot live in the twenty-first century with a constitution designed for the nineteenth century. That means a written constitution and it means that constitutional protection should be given to this institution and, indeed, to the Scottish Parliament and the Northern Ireland Assembly. It is important that the power—theoretical though it may be—to abolish this institution next week should not rest with the UK Parliament at Westminster.

gwrthwynebu datganoli rhagor o bwerau, gan gynnwys cyfrifoldeb ariannol. Mae'n bwysig nodi'r gwaith y mae comisiwn Silk yn ei wneud. Byddwn yn cefnogi gwelliant 3; mae'n debyg i welliant 2. Mae gwelliant 4 yn datgan ffaith, ac rydym yn fwy na bodlon cefnogi hynny. Fodd bynnag, ceir pwynt pwysig yma: mae newid cyfansoddiadol yn digwydd yn y DU bob yn dipyn. Nid ydym yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd yn yr Alban dros y ddwy flynedd nesaf. Rydym yn gwybod am y cyfeiriad cyffredinol yng Nghymru gyda chomisiwn Silk, ond y gwir amdani yw nad oes modd mynd â dim o hyn rhagddo heb gonfensiwn cyfansoddiadol cyffredinol yn y DU. Ni allwn fyw yn yr unfed ganrif ar hugain â chyfansoddiad sydd wedi'i ddylunio ar gyfer y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae hynny'n golygu cyfansoddiad ysgrifenedig ac mae'n golygu y dylid rhoi gwarchodaeth gyfansoddiadol i'r sefydliad hwn ac, yn wir, i Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'n bwysig na ddylid rhoi'r pŵer—er ei fod yn ddamcaniaethol—i ddiddymu'r sefydliad hwn yr wythnos nesaf yn nwylo Senedd y DU yn San Steffan.

There are other issues that need to be considered further. The West Lothian question is well documented. English votes for English laws is an attractive proposition, but what of the situation where the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs goes to the European agriculture council and votes on behalf of the entire UK while only being responsible for agriculture in England? It is the converse of the West Lothian question.

Ceir materion eraill y mae angen eu hystyried ymhellach. Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu am gwestiwn West Lothian. Mae pleidleisiau Seisnig ar gyfer cyfreithiau Seisnig yn gynnig deniadol, ond beth am y sefyllfa pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn mynd i gyngor amaethyddiaeth Ewrop ac yn pleidleisio ar ran y DU i gyd ac yntau ddim ond yn gyfrifol am amaethyddiaeth yn Lloegr? Mae'n mynd yn groes i gwestiwn West Lothian.

I look forward to this debate continuing and to the recommendations of the Silk commission. I look forward to this institution and the people of Wales accumulating more power for the good of the people of Wales.

Edrychaf ymlaen at weld y ddadl hon yn parhau ac at argymhellion comisiwn Silk. Edrychaf ymlaen at weld y sefydliad hwn a phobl Cymru yn cael mwy o bŵer er budd pobl Cymru.

**The Deputy Presiding Officer:** Before I call Ieuan Wyn Jones to reply to the debate, I add my own tribute to him for his outstanding service as leader of Plaid Cymru.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cyn i mi alw ar Ieuan Wyn Jones i ymateb i'r ddadl hon rwyf yn ychwanegu fy nheyrnged fy hun iddo am ei wasanaeth neilltuol fel arweinydd Plaid Cymru.

**Ieuan Wyn Jones:** Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddweud pa mor

**Ieuan Wyn Jones:** Thank you, Deputy Presiding Officer. I would like to say how

falch yr wyf o gael ymateb i'r ddadl hon, sy'n dangos yn eithaf clir bellach bod datganoli yn rhywbeth sy'n symud i'r cyfeiriad cywir. Mae gennym oll farn ynglŷn â pha mor gyflym a pha mor bell y dylem fynd, ond, o leiaf o wrando ar y drafodaeth hon heddiw, mae symud amlwg yn digwydd, sy'n rhywbeth y gallwn oll ei groesawu, er y byddai rhai ohonom am fynd gryn dipyn ymhellach.

pleased I am to be able to reply to this debate, which shows clearly that devolution is now moving in the right direction. We all have an opinion on how fast and how far we should be going, but at least, from listening to today's debate, a clear shift is taking place, which we can all welcome, although some of us would want to go a fair bit further.

I was pleased to listen to Andrew R.T. Davies talking about the issue of fiscal responsibility, which gives us greater accountability. We noticed, Andrew, that there is a little bit of a difference between the evidence that your group has given and that the Conservative Party has given. However, you have talked today about greater accountability through fiscal responsibility. I think that we could both define fiscal responsibility in different ways, but putting that on the table is a substantial contribution to the debate. Eluned Parrott talked about her passion for devolution and about the need to ensure that we use the powers when we get them, which is a comment that has been made elsewhere.

Roeddwn yn falch o wrando ar Andrew R.T. Davies yn siarad am gyfrifoldeb ariannol, sy'n rhoi mwy o atebolrwydd i ni. Roeddem wedi sylwi, Andrew, bod rhywfaint o wahaniaeth rhwng y dystiolaeth mae eich grŵp wedi'i rhoi a'r dystiolaeth mae'r Blaid Geidwadol wedi'i rhoi. Fodd bynnag, rydych wedi siarad heddiw am ragor o atebolrwydd drwy gyfrifoldeb ariannol. Rwyf yn meddwl y gallai'r ddau ohonom ddiffinio cyfrifoldeb ariannol mewn ffyrdd gwahanol, ond mae rhoi hynny ar y bwrdd yn gyfraniad sylweddol at y ddadl. Siaradodd Eluned Parrott am ei hangerdd dros ddatganoli ac am yr angen i sicrhau ein bod yn defnyddio'r pwerau pan fyddwn yn eu cael, sydd yn sylw sydd wedi cael ei wneud mewn mannau eraill.

Diolch hefyd i Dafydd am ei sylwadau caredig. Rwy'n edrych ymlaen at weld yr hyn sy'n digwydd ym Maes yr Helmau fy hun hefyd, gan obeithio na fydd yn rhy hir. Cawsom sylwadau gan Dafydd ynglŷn â'r modd mae datganoli wedi bod yn rhan o'n hanes.

I also thank Dafydd for his kind remarks. I, too, look forward to seeing what is happening in Maes yr Helmau, in the hope that it will not take too long. We heard some comments from Dafydd on how devolution has been a part of our history.

Mick Antoniw talked about the need for changes to happen elsewhere, as well as in Wales. I have often felt that it is a matter for the people of England to decide on the kind of devolution that they should be having, but it is pretty obvious that, in order to consider the impact of what is happening in Scotland, that debate will continue.

Siaradodd Mick Antoniw am yr angen am newidiadau mewn mannau eraill, yn ogystal ag yng Nghymru. Rwyf yn aml wedi teimlo ei fod yn fater i bobl Lloegr benderfynu ar y math o ddatganoli y dylent fod yn ei gael, ond mae'n eithaf amlwg, er mwyn ystyried effaith beth sy'n digwydd yn yr Alban, y bydd y ddadl honno'n parhau.

Roedd Elin yn sôn am y ffaith, o ganlyniad i ddatganoli, nad ydym wedi gweld yr hyn sydd wedi digwydd yn Lloegr o safbwynt y gwasanaeth iechyd. Rydym wedi gallu symud ymlaen i lunio'r gwasanaeth iechyd mewn ffordd sy'n fwy perthnasol i anian pobl Cymru.

Elin addressed the fact that, through devolution, we have not experienced what has happened in England in terms of the health service. We have been able to progress to formulate a health service that is more relevant to the mood in Wales.

Julie also said that she is a passionate devolutionist, and I recognise that. Julie and I are probably in different places with regard to where we want to be at the end of the day, but the issues that she put on the table, with regard to Barnett, Silk and tax-varying powers, sometime in the future, are ripe for discussion, and take us forward.

Dywedodd Julie hefyd ei bod yn ddatganolwr angerddol, ac rwyf yn cydnabod hynny. Mae'n debyg bod Julie a minnau mewn llefydd gwahanol o ran ble mae arnom eisiau bod yn y pen draw, ond mae'r materion a roddodd ar y bwrdd o ran Barnett, Silk a phwerau amrywio treth, rhywbryd yn y dyfodol, yn addas i'w trafod nawr, a mynd â ni yn ein blaenau.

Leanne also mentioned the fact that we are able to shape policies very much in tune with the mood in Wales, and we welcome that. She is right that the big power levers over the economy are still held at Westminster, particularly with regard to macro-economic and monetary policy. We are now talking about having greater responsibility, at least in the short term, over tax matters, which would be a useful way in which we could improve our economy.

Soniodd Leanne hefyd am y ffaith ein bod yn gallu llunio polisïau sy'n cyd-fynd â'r awydd yng Nghymru, ac rydym yn croesawu hynny. Mae hi'n iawn fod y lifrau pŵer mawr dros yr economi yn dal yn San Steffan, yn enwedig mewn perthynas â pholisi macro-economaidd ac ariannol. Rydym nawr yn siarad am gael rhagor o gyfrifoldeb, o leiaf yn y tymor byr, dros faterion treth, a fyddai'n ffordd ddefnyddiol i ni allu gwella ein heconomi.

Rwy'n diolch i'r Prif Weinidog hefyd. Nid oeddwn wedi sylweddoli pam eich bod mor frwd o blaid yr ymgyrch, Brif Weinidog. Rwy'n gwybod eich bod wedi gweithio'n galed iawn, ond rydych yn talu'r pwyth yn ôl am yr hyn a ddigwyddodd rai canrifoedd yn ôl. Fodd bynnag, rydym yn falch iawn am hynny, ac am lwyddiant y refferendwm. Rwy'n talu teyrnged i chi am eich gwaith ar yr ymgyrch honno.

I also thank the First Minister. I had not realised why you were so keen in favour of the campaign, First Minister. I know that you worked very hard, but you were making up for what happened some centuries ago. However, we are very pleased about that and about the success of the referendum. I pay tribute to you for the work that you did on that campaign.

You have set a clear agenda on where the Government now sits in relation to extra powers. It was an interesting contribution, taking us forward, talking about issues such as criminal justice, family justice, policing and the railways. The railways issue is one on which we should be pushing hard, since, as we suspect, the whole issue of electrification will fall short of where the people of Wales would want it to go.

Rydych wedi gosod agenda glir ar sefyllfa'r Llywodraeth ar hyn o bryd mewn perthynas â phwerau ychwanegol. Roedd yn gyfraniad diddorol, yn mynd â ni ymlaen, gan siarad am faterion fel cyfiawnder troseddol, cyfiawnder teuluol, plismona a'r rheilffyrdd. Mae'r rheilffyrdd yn un mater y dylem fod yn ei wthio'n galed, oherwydd, fel rydym yn amau, bydd y mater o drydaneiddio yn methu â chyrraedd lle y byddai ar bobl Cymru eisiau ei weld yn cyrraedd.

There is still a difference between us on the issue and extent of tax-varying powers, but the fact that this is now on the table for discussion shows how far we have come in the 12 years since I have been party leader. Now, I can look forward, and I hope that this debate today will give us an opportunity to take that forward. Some interesting positions have been staked out today. I am pleased that

Ceir gwahaniaeth o hyd rhyngom ar fater a graddau pwerau amrywio treth, ond mae'r ffaith bod hyn nawr ar y bwrdd nawr i'w drafod yn dangos pa mor bell rydym wedi dod yn y 12 mlynedd ers i mi fod yn arweinydd ar y blaid. Nawr, gallaf edrych ymlaen, a gobeithiaf y bydd y ddadl hon heddiw'n rhoi cyfle i ni fynd â hyn rhagddo. Mae rhai sefyllfaoedd diddorol wedi cael eu

we tabled this motion, because it has given us an ability, in all parties, to say exactly where we think the next process in devolution should be, and it seems to me that there is now consensus that there have to be further developments. I feel extremely proud that we have tabled the debate, and that we have been able to move things forward in such a way.

hamlinellu heddiw. Rwyf yn falch ein bod wedi cyflwyno'r cynnig hwn, oherwydd mae wedi ein galluogi, ym mhob plaid, i ddweud yn union ble rydym yn meddwl y dylai'r broses nesaf fod mewn datganoli, ac mae'n ymddangos i mi fod consensws nawr ei bod yn rhaid cael rhagor o ddatblygiadau. Rwyf yn teimlo'n arbennig o falch ein bod wedi cyflwyno'r ddadl, a'n bod wedi gallu symud pethau ymlaen yn y fath fodd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly caiff pob pleidlais ar yr eitem hon ei gohirio tan y cyfnod pleidleisio.

**The Presiding Officer:** The question is that the motion be agreed without amendment. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
## Welsh Liberal Democrats Debate

### Eiddo Gwag
### Empty Properties

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliannau 2 a 4 yn enw Jocelyn Davies a gwelliant 3 yn enw William Graham. Os yw gwelliant 1 yn cael ei gytuno, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendments 2 and 4 in the name of Jocelyn Davies and amendment 3 in the name of William Graham. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected.

*Cynnig NDM4939 Peter Black*

*Motion NDM4939 Peter Black*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Yn galw am:*

*1. Calls for:*

*a) cyflwyno cynllun gwarantu blaendal yng Nghymru i helpu prynwyr tro cyntaf i brynu eu cartref cyntaf;*

*a) the introduction of a deposit guarantee scheme in Wales to help first time buyers on to the housing ladder;*

*b) defnyddio dulliau ariannu amgen yn weithredol fel bondiau ac adeiladu cartrefi newydd ar lefelau rhent gwahanol fel ffordd o fynd i'r afael â'r diffyg presennol o ran tai fforddiadwy;*

*b) the active use of alternative funding methods such as bonds and building new homes at differing rent levels as a way of tackling the current deficit in affordable housing;*

*c) rhaglen cartrefi gwag ledled Cymru i gynyddu nifer yr eiddo gwag sy'n dod yn ôl i*

*c) a Wales-wide empty homes programme to increase the number of empty properties*

*gael eu defnyddio fel eiddo preswyl gan roi mwy o bwerau i awdurdodau lleol i ddod ag eiddo gwag yn ôl i gael eu defnyddio; a*

*d) rhoi rhagor o bwerau i awdurdodau lleol i bennu cyfraddau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo gwag ac ail gartrefi yn eu hardaloedd.*

*returned to residential use with greater powers given to local authorities to bring empty properties back into use; and*

*d) greater powers to be given to local authorities to set council tax rates for empty properties and second homes in their areas.*

**Peter Black:** I move the motion.

**Peter Black:** Cynigiaf y cynnig.

In my view and in the view of many other people, we are facing a housing supply crisis in Wales, because there are simply not enough homes to meet demand; specifically, there are not enough affordable homes.

Yn fy marn i ac ym marn llawer o bobl eraill, rydym yn wynebu argyfwng o ran cyflenwad tai yng Nghymru, oherwydd yn syml nid oes digon o gartrefi i gwrdd â'r galw; ac yn benodol, nid oes digon o dai fforddiadwy.

At the moment, we have no targets for affordable homes, but a study commissioned by the previous One Wales Government in July 2010, by Alan Holmans and Sarah Monk, said that, to meet the current demand for property in Wales, an additional 14,200 homes need to be built per year, of which 5,100 are affordable. No Government has ever got close to that target, certainly not while I have been here, but we are now falling far shorter of that aspiration, if it is not a target, than we have done in the past. In 2011, just 3,495 new homes were built, compared with 8,764 in 2010.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym ddim targedau ar gyfer tai fforddiadwy, ond mewn astudiaeth a gomisiynwyd gan y Llywodraeth Cymru'n Un flaenorol ym mis Gorffennaf 2010, gan Alan Holmans a Sarah Monk, dywedwyd er mwyn cwrdd â'r galw presennol am eiddo yng Nghymru fod angen adeiladu 14,200 yn rhagor o gartrefi bob blwyddyn, gyda 5,100 ohonynt yn fforddiadwy. Nid yw'r un Llywodraeth erioed wedi dod yn agos at y targed hwnnw, yn sicr nid ers pan rwyf i wedi bod yma, ond rydym yn awr yn disgyn ymhellach fyth ar ei hôl hi nag yn y gorffennol o ran cyflawni'r uchelgais hwnnw, os nad yw'n darged. Yn 2011, dim ond 3,495 o gartrefi newydd a adeiladwyd, o'i gymharu â 8,764 yn 2010.

People are struggling to get onto the housing ladder because of difficulties in securing mortgages to meet the costs of first-time buyer home prices. The Welsh Liberal Democrats are calling for the introduction of a deposit guarantee scheme in Wales, similar to the UK coalition Government's NewBuy scheme, to help first-time buyers have a home of their own. The coalition Government in Westminster has launched a NewBuy scheme for England, whereby those wishing to buy a new home and who meet the lender's affordability and credit criteria, will be eligible for a mortgage loan of up to 95% of the purchase price. Many people who want to buy a home can probably afford to repay a mortgage of that amount, but cannot afford or do not have the deposit needed to get to that point in the first place. So, this scheme, which is already provided by some councils in Wales, is a huge bonus and of assistance to

Mae pobl yn ei chael yn anodd prynu eu cartref cyntaf oherwydd anawsterau wrth sicrhau morgeisi i dalu prisiau cartrefi prynwyr tro cyntaf. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn galw am gyflwyno cynllun gwarantu blaendal yng Nghymru, yn debyg i gynllun NewBuy Llywodraeth glymblaid y DU, er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf i gael eu cartref eu hunain. Mae'r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan wedi lansio cynllun NewBuy yn Lloegr, lle bydd y rheini sy'n dymuno prynu cartref newydd, ac sy'n bodloni meini prawf credyd a fforddiadwyedd darparwr y benthyciad, yn gymwys i gael benthyciad morgais gwerth hyd at 95 y cant o'r pris prynu. Mae llawer o'r bobl sydd am brynu cartref fwy na thebyg yn gallu fforddio ad-dalu morgais o'r swm hwnnw, ond ni allant fforddio neu nid oes ganddynt y blaendal sydd ei angen arnynt i gyrraedd y pwynt hwnnw yn y lle cyntaf.

first-time buyers.

Felly, mae'r cynllun hwn, sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan rai cynghorau yng Nghymru, yn fonws mawr ac o gymorth i brynwyr tro cyntaf.

While we will not accept the Welsh Government’s amendment 1, we welcome the news that it is considering the merits of a mortgage indemnity guarantee scheme to help first-time buyers onto the housing ladder. However, we would like to see the action for this being implemented as a matter of urgency.

Er na fyddwn yn derbyn gwelliant 1 gan Lywodraeth Cymru, croesawn y newyddion ei bod yn ystyried rhinweddau cynllun gwarantu indemniad morgais er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf i brynu eu cartref cyntaf. Fodd bynnag, byddem yn hoffi gweld y camau gweithredu hyn yn cael eu rhoi ar waith fel mater o frys.

A number of councils are already looking at measures to underwrite mortgages for first-time buyers at a local level. Will the Welsh Government mirror their innovation and efficiency in introducing such a scheme, and also mirror the actions of the UK coalition Government in introducing the NewBuy scheme to support families seeking to get on the first rung of the housing ladder?

Mae sawl cyngor eisoes yn edrych ar fesurau i warantu morgeisi ar gyfer prynwyr tro cyntaf ar lefel leol. A wnaiff Llywodraeth Cymru efelychu eu harloesedd a’u heffeithlonrwydd drwy gyflwyno cynllun o'r fath, a hefyd efelychu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU drwy gyflwyno'r cynllun NewBuy i gefnogi teuluoedd sy'n ceisio camu ar ris gyntaf yr ysgol dai?

For example, under Conwy County Borough Council’s mortgage bond scheme, borrowers are able to select any property in Conwy up to a maximum loan size of £133,000. First-time buyers then put down 5% of the property price and the council provides a cashback indemnity of up to 20% as additional security. Although individual councils are doing that, it is not available across the whole of Wales. That is why we believe that there needs to be a Wales-wide scheme, and why we believe that the Welsh Government needs to act to try to put that in place. I hope that the Minister’s intention can be put into effect as soon as possible.

Er enghraifft, o dan gynllun bond morgais Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gall benthycwyr ddewis unrhyw eiddo yng Nghonwy hyd at uchafswm benthyciad o £133,000. Yna, bydd prynwyr tro cyntaf yn cyfrannu 5 y cant o bris yr eiddo ac mae'r cyngor yn darparu indemniad arian-yn-ôl gwerth hyd at 20 y cant fel gwarant ychwanegol. Er bod cynghorau unigol yn gwneud hynny, nid yw ar gael ledled Cymru gyfan. Dyna pam y credwn fod angen cael cynllun Cymru gyfan, a dyna pam y credwn fod angen i Lywodraeth Cymru weithredu er mwyn ceisio rhoi hynny ar waith. Gobeithiaf y gellir rhoi bwriad y Gweinidog ar waith cyn gynted â phosibl.

However, to reduce the cost of housing, the supply issue must also be dealt with. Wales is one of the few places in the UK where house prices are creeping upwards, and the reason for that is that demand is outpacing supply. I said that just under 3,500 new homes were built in 2011, but trying to find a home to live in is difficult in many parts of Wales. We do not appear to be building enough homes to meet the demand.

Fodd bynnag, er mwyn lleihau cost tai, rhaid rhoi sylw i'r cyflenwad hefyd. Cymru yw un o'r ychydig leoedd yn y DU lle mae prisiau tai yn codi'n araf bach, a'r rheswm dros hynny yw bod y galw yn fwy na'r cyflenwad. Dywedais fod ychydig o dan 3,500 o gartrefi newydd wedi'u hadeiladu yn 2011, ond mae ceisio dod o hyd i gartref i fyw ynddo yn anodd mewn sawl rhan o Gymru. Nid yw'n ymddangos ein bod yn adeiladu digon o gartrefi i gwrdd â'r galw.

There is an issue with empty properties,

Mae eiddo gwag yn broblem, a dychwelaf at

which I will return to, but because we are not meeting the aspiration of building 14,200 new homes and because we are not providing affordable homes, over 90,000 people are on social housing waiting lists in Wales at the moment. Unless action is taken to address this problem, the number of people on waiting lists will increase, as will the incidence of homelessness in Wales. This is an issue that needs to be dealt with urgently, and I am still concerned that, despite the promises, we do not have a target for affordable homes in Wales. It is crucial that a target is put in place, not because I think that targets are good in themselves, but because the sector needs something to aim for and to work towards. At the moment, we appear to be drifting in terms of that part of housing policy.

hynny, ond oherwydd nad ydym yn cyflawni'r uchelgais i adeiladu 14,200 o gartrefi newydd ac oherwydd nad ydym yn darparu tai fforddiadwy, mae dros 90,000 o bobl ar restrau aros tai cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd. Oni chymerir camau i fynd i'r afael â'r broblem hon, bydd nifer y bobl ar restrau aros yn cynyddu yn ogystal â nifer yr achosion o ddigartrefedd yng Nghymru. Mae hwn yn fater sydd angen rhoi sylw iddo ar frys, ac rwyf yn dal i bryderu, er gwaethaf yr addewidion, nad oes gennym darged ar gyfer tai fforddiadwy yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod targed yn cael ei bennu, nid am fy mod yn credu fod targedau'n dda ar eu pen eu hunain, ond oherwydd bod angen i'r sector gael rhywbeth i anelu ac i weithio tuag ato. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos ein bod yn colli golwg ar faterion yn ymwneud â'r rhan honno o'r polisi tai.

5.00 p.m.

There are also variable local authority success rates at returning empty properties back into residential use, which underlines the need for an all-Wales approach to the issue. It simply is not good enough that we have more than 20,000 empty homes in Wales in the private sector alone when there is such a clear demand for housing. I welcome the Minister's initiative on recyclable loans and the £5 million that has been put in place for that. However, although that initiative is good, welcome and will help a number of local authorities in their efforts to bring private sector homes back into use, more needs to be done.

Mae cyfraddau llwyddiant awdurdodau lleol hefyd yn amrywio o ran defnyddio eiddo gwag fel cartrefi preswyl unwaith eto, ac mae hynny'n tanlinellu'r angen i gael agwedd Cymru gyfan at y mater. Yn syml, nid yw'n ddigon da bod gennym dros 20,000 o gartrefi gwag yng Nghymru yn y sector preifat yn unig pan fo cymaint o alw clir am dai. Rwyf yn croesawu cynllun y Gweinidog ar gyfer benthyciadau y gellid eu hailgylchu a'r £5 miliwn sydd wedi'i neilltuo ar gyfer hynny. Fodd bynnag, er bod y cynllun hwnnw'n un da, ac er bod croeso iddo ac y bydd yn helpu llawer o awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i ddefnyddio cartrefi sector preifat unwaith eto, mae angen gwneud rhagor.

As of 1 April 2010, there were 21,966 private sector dwellings that had been vacant for six months or more. Of those dwellings, 955 were returned to occupation by local authority direct action during the 2010-11 financial year, which is a rate of property-use return of just over 4%. Wrexham, Conwy and Denbighshire were the three local authorities that reported the greatest proportion of private sector dwellings returned to occupation as a result of local authority direct action, while Monmouthshire did not return to use any private sector properties within its

Ar 1 Ebrill 2010, roedd 21,966 o anheddau sector preifat wedi bod yn wag am chwe mis neu fwy. O'r rheini, yn ystod blwyddyn ariannol 2010-11, llwyddwyd i ddefnyddio 955 ohonynt fel cartrefi unwaith eto wrth i awdurdodau lleol gymryd camau gweithredu uniongyrchol. O ran y gyfradd defnyddio eiddo unwaith eto, mae hynny ychydig dros 4 y cant. Y tri awdurdod lleol a gofnododd y gyfran fwyaf o ddefnyddio anheddau sector preifat unwaith eto o ganlyniad i gamau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol oedd Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych. Ar y llaw

boundaries that had been vacant for six months or more. So, again, there is variable performance on this across Wales.

arall, ni lwyddodd Sir Fynwy i ailddefnyddio unrhyw eiddo sector preifat a oedd wedi bod yn wag am chwe mis neu fwy. Felly, unwaith eto, mae'r perfformiad yn amrywio yn hyn o beth ledled Cymru.

Although there are some very good examples and some very good practice out there that could be rolled out with Welsh Government encouragement, it seems to me that we need an overall strategy for empty properties in Wales to provide not only the carrot, but the stick. The carrot is in place, but there is no stick. If you own an empty property that has been empty for years and that is causing a blight on the community you should pay an extra price to the community to compensate it for the problems that you are causing and to give the local authority additional resources to bring the house back into use.

Er bod rhai enghreifftiau da iawn a rhai arferion da iawn y gellid eu rhoi ar waith gydag anogaeth Llywodraeth Cymru, mae'n ymddangos imi fod angen strategaeth gyffredinol arnom ar gyfer eiddo gwag yng Nghymru er mwyn darparu nid yn unig y foronen, ond y ffon hefyd. Mae'r foronen yn ei lle, ond nid oes ffon. Os ydych yn berchen ar eiddo gwag sydd wedi bod yn wag ers blynyddoedd a'i fod yn ddolur llygad i'r gymuned, dylech dalu pris ychwanegol i'r gymuned er mwyn gwneud iawn am y problemau rydych yn eu hachosi ac i roi adnoddau ychwanegol i'r awdurdod lleol er mwyn defnyddio'r tŷ unwaith eto.

That is why I support changes to the legislation—I hope to see that in the housing Bill when it eventually emerges—so that local authorities can, if they wish, increase the amount of council tax payable on empty properties, not just to penalise the owner but to provide a stick to encourage them to do something about it. Too many properties are lying empty because the owners cannot be bothered, are tied up in all sorts of other issues with regard to bringing them back into use, or feel that there is no need to take action; they forget about them and let them languish. I have always found that completely inexplicable, but it does happen and I think that every Member here would be able to point to a property in that condition in their community. Those properties are scattered across Wales, and that is why we need to take action. We need a Welsh Government central direction or strategy that local authorities can work to in order to start to put that right.

Dyna pam fy mod yn cefnogi newidiadau i'r ddeddfwriaeth—gobeithaf weld hynny yn y Bil Tai pan fydd yn dod i'r fei ymhen hir a hwyr—fel y gall awdurdodau lleol, os dymunant, gynyddu swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar eiddo gwag, nid er mwyn cosbi'r perchnogion yn unig ond i ddarparu ffon i'w hannog i wneud rhywbeth yn ei gylch. Mae gormod o lawer o eiddo yn wag oherwydd bod y perchnogion wedi colli amynedd â nhw, oherwydd bod pob math o faterion eraill yn gysylltiedig â defnyddio'r tai unwaith eto, neu oherwydd eu bod yn teimlo nad oes angen iddynt wneud dim; maent yn anghofio amdanynt ac yn gadael iddynt fynd â'u pen iddynt. Mae hynny bob amser wedi peri penbleth llwyr imi, ond mae'n digwydd a chredaf y gallai pob Aelod yma gyfeirio at eiddo sydd yn y cyflwr hwnnw yn eu cymuned. Mae'r adeiladau hynny wedi'u gwasgaru ledled Cymru, a dyna pam mae angen inni gymryd camau. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad neu strategaeth ganolog ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn dechrau unioni hynny.

Homelessness has increased significantly in Wales over recent years. It decreased between 2004 and 2009, but it increased dramatically, by 29%, between July and September last year, compared with the same quarter in 2009. I am sure that we will have many theories about why that has happened,

Mae digartrefedd wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd gostyngiad rhwng 2004 a 2009, ond cynyddodd yn sylweddol, 29 y cant, rhwng mis Gorffennaf a mis Medi y llynedd, o'i gymharu â'r un chwarter yn 2009. Rwyf yn siŵr y bydd gennym lawer o ddamcaniaethau

and I am sure that I will hear some of those later in the debate. However, I do not think that there is a straightforward or single reason. It is a very complex picture and we must take account of that. However, there is certainly a need to address that. I know that a review of homelessness was carried out by the previous Minister for housing, but I think that we need to look at the provision available to local authorities and the third sector for putting support in place for those who are homeless and in need of assistance to get back into a home.

ynghylch pam ddigwyddodd hynny, ac rwyf yn siŵr o glywed rhai o'r rheini yn nes ymlaen yn y ddadl. Fodd bynnag, ni chredaf fod un rheswm syml. Mae'n ddarlun cymhleth iawn a rhaid inni ystyried hynny. Fodd bynnag, yn sicr mae angen mynd i'r afael â hynny. Gwn fod y Gweinidog tai blaenorol wedi cynnal adolygiad o ddigartrefedd, ond credaf fod angen inni edrych ar y ddarpariaeth sydd ar gael i awdurdodau lleol ac i'r trydydd sector ar gyfer sicrhau bod cymorth ar gael i'r rheini sy'n ddigartref ac sydd angen help arnynt i fynd yn ôl i gartref.

Since 1999, when this Assembly came into being, many additional facilities have been built for those who are street homeless, but a huge amount needs to be done for those who are not necessarily street homeless, but sofa surfing or living in temporary accommodation and in need of finding permanent accommodation. Of course, the fact that there are huge waiting lists and that demand exceeds supply means that the amount of social housing available is less than it was. The number of vacancies is at an all-time low across Wales, most probably because of that change. That is why we need to build additional affordable homes urgently to ensure that we are addressing homelessness and other related problems.

Er 1999, pan sefydlwyd y Cynulliad hwn, mae llawer o gyfleusterau ychwanegol wedi'u hadeiladu ar gyfer y rheini sy'n ddigartref ar y stryd, ond mae angen gwneud llawer iawn ar gyfer y rheini nad ydynt o reidrwydd yn ddigartref ar y stryd, ond yn hytrach yn symud o un soffa i'r llall neu'n byw mewn llety dros dro ac angen dod o hyd i lety parhaol. Wrth gwrs, mae'r ffaith fod y rhestrau aros yn faith a bod y galw yn fwy na'r cyflenwad yn golygu bod llai o dai cymdeithasol ar gael nag yr oedd. Mae nifer y lleoedd gwag ar ei lefel isaf erioed ledled Cymru, oherwydd y newid hwnnw fwy na thebyg. Dyna pam mae angen inni adeiladu rhagor o dai fforddiadwy ar frys er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â digartrefedd a phroblemau cysylltiedig eraill.

I have provided an outline of what we think the problems are with regard to housing and some ideas about where we should go from there. I hope that the Assembly can support this motion today.

Rwyf wedi darparu amlinelliad o'r hyn y credwn yw'r problemau o ran tai yn ogystal â rhai syniadau ynghylch beth ddylem ei wneud nesaf. Gobeithiaf y gall y Cynulliad gefnogi'r cynnig hwn heddiw.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Dileu’r cyfan a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*1. Yn nodi:*

*1. Notes:*

*a) mae Llywodraeth Cymru yn ystyried rhinweddau cynllun gwarant indemniad morgais er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf i brynu eu cartref cyntaf;*

*a) the Welsh Government is considering the merits of a mortgage indemnity guarantee scheme to help first time buyers onto the housing ladder;*

*b) mae Llywodraeth Cymru yn ceisio pennu ffynonellau eraill o gyllid er mwyn ariannu’r gwaith o adeiladu cartrefi mwy fforddiadwy;*

*b) the Welsh Government is seeking to identify alternative funding sources to finance the building of more affordable homes;*

*c) bydd y fenter newydd genedlaethol ynghylch cartrefi gwag 'Troi Tai yn Gartrefi' yn cynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o'u pwerau presennol i fynd i'r afael â phroblem cartrefi gwag;*

*c) the new national empty homes initiative 'Houses into Homes' will assist local authorities in using their existing powers to maximum effect to tackle the problem of empty homes;*

*d) bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ehangu pwerau disgresiwn awdurdodau lleol i amrywio cyfraddau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo gwag ac ail gartrefi yn eu hardaloedd; ac*

*d) the Welsh Government will consider extending local authorities' discretionary powers to vary council tax rates for empty properties and second homes in their areas; and*

*e) yr heriau a amlinellir yn y papur diweddar, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, a'r angen am gytundeb barn ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer bodloni anghenion tai pobl.*

*e). the challenges set out in the recent paper, published by the Minister for Housing, Regeneration and Heritage, and the need for a consensus on the priorities to meet people's housing needs.*

*2. Yn credu y bydd Diwygiadau Lles arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael effaith uniongyrchol ar dai fforddiadwy, yn arbennig i'r rhai ar incwm isel. Tynnwyd sylw at hyn mewn ymchwil diweddar gan y Sefydliad Tai Siartredig.*

*2. Believes that the UK Government's proposed Welfare Reforms will have a direct impact on affordable housing, especially for those on low incomes, as highlighted in recent research by the Chartered Institute of Housing.*

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 2 Jocelyn Davies*

*Amendment 2 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:*

*Add as new sub-point at end of point 1:*

*Llywodraeth Cymru i osod targedau uchelgeisiol ar gyfer creu tai fforddiadwy, gan adeiladu ar lwyddiant y llywodraeth flaenorol.*

*the Welsh Government to set ambitious targets for creating affordable homes, building on the success of the previous government.*

*Gwelliant 4 Jocelyn Davies*

*Amendment 4 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi bod y gostyngiad yn y cyllid cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn lleihau ei gallu i gyllido cynlluniau tai fforddiadwy yn sylweddol.*

*Notes that the reduction in capital funding available to the Welsh Government significantly reduces its ability to fund affordable housing schemes.*

**Leanne Wood:** I move amendments 2 and 4 in the name of Jocelyn Davies.

**Leanne Wood:** Cynigiaf welliannau 2 a 4 yn enw Jocelyn Davies.

I speak on behalf of Plaid Cymru today in this debate. Before addressing the Plaid Cymru amendments, I would like to look at

Siaradaf ar ran Plaid Cymru heddiw yn y ddadl hon. Cyn troi at welliannau Plaid Cymru, hoffwn edrych ar y cynnig a'r

the motion and the other amendments. There is not a great deal to disagree with in the motion or the Government's amendment, although neither really takes us any further forward. We heard yesterday how the changes to housing benefit will, according to all relevant third sector organisations that work within the housing sector, increase homelessness. Homelessness has already increased by 15% since April and the housing benefit changes only account for half of the year, and they are not yet fully implemented. All the expectations are that we will see a further rapid increase in homelessness as these changes impact. In that sense, we would agree with that part of the Government's amendment that talks about the UK Government's welfare reform. It would be difficult to disagree. Those welfare reforms will have a direct impact on affordable housing, especially for those on low incomes. However, other aspects of the amendment are weak. For example:

gwelliannau eraill. Nid oes llawer iawn y gellir anghytuno ag ef yn y cynnig nac yng ngwelliant y Llywodraeth, er nad yw'r naill na'r llall mewn gwirionedd yn mynd â ni ddim pellach ymlaen. Clywsom ddoe sut y bydd newidiadau i'r budd-dal tai, yn ôl pob mudiad trydydd sector perthnasol sy'n gweithio yn y sector tai, yn arwain at gynnydd mewn digartrefedd. Mae digartrefedd eisoes wedi codi 15 y cant ers mis Ebrill ac mae'r newidiadau i'r budd-dal tai yn cyfrif am hanner y flwyddyn yn unig, ac nid ydynt wedi cael eu gweithredu'n llawn eto. Mae'r holl ddisgwyliadau'n awgrymu y byddwn yn gweld cynnydd cyflym pellach mewn digartrefedd wrth i'r newidiadau hyn daro. Yn hynny o beth, byddem yn cytuno â'r rhan honno o welliant y Llywodraeth sy'n sôn am broses ddiwygio lles Llywodraeth y DU. Byddai'n anodd anghytuno. Bydd y diwygiadau lles hynny'n cael effaith uniongyrchol ar dai fforddiadwy, yn enwedig i'r rheini ar incwm isel. Fodd bynnag, mae agweddau eraill o'r gwelliant yn wan. Er enghraifft:

'the Welsh Government will consider extending local authorities' discretionary powers to vary council tax rates for empty properties'

'bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ehangu pwerau disgresiwn awdurdodau lleol i amrywio cyfraddau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo gwag'

and

ac

'the Welsh Government is considering the merits of a mortgage indemnity guarantee scheme'.

'mae Llywodraeth Cymru yn ystyried rhinweddau cynllun gwarant indemniad morgais'.

We have major problems in our economy; the figures that were released yesterday tell us that. We have major problems in ensuring a supply of affordable housing. Yet the Government is only considering what can be done.

Mae gennym broblemau mawr yn ein heconomi; mae'r ffigurau a ryddhawyd ddoe yn dweud hynny wrthym. Mae gennym broblemau mawr o ran sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy. Eto i gyd, yr unig beth a wna'r Llywodraeth yw ystyried beth y gellir ei wneud.

We therefore will be abstaining on the vote on the Government amendment on the grounds that it does not really add anything and that, if it is agreed, the Plaid Cymru amendments will fall. We will support amendment 3.

Byddwn felly yn ymatal yn y bleidlais ar welliant y Llywodraeth ar y sail nad yw'n ychwanegu unrhyw beth mewn gwirionedd ac, os caiff ei gytuno, bydd gwelliannau Plaid Cymru yn syrthio. Byddwn yn cefnogi gwelliant 3.

The Plaid Cymru amendments follow a theme that I am sure most Members will be familiar with. We want to see targets, like the

Mae gwelliannau Plaid Cymru yn dilyn thema rwyf yn siŵr y bydd rhan fwyaf yr Aelodau'n gyfarwydd â hi. Rydym am weld

ones that we had in the 'One Wales' agreement, which were exceeded by my colleague, Jocelyn Davies. We also want to see a capital investment vehicle—call it Build for Wales or something else if you want to, but we need it. The cuts to capital budgets here mean that we must find alternative money to build affordable homes or to make empty homes habitable.

targedau, fel y rheini a gawsom yng nghytundeb 'Cymru'n Un'. Targedau y gwnaeth fy nghyd-Aelod, Jocelyn Davies, ragori arnynt. Rydym hefyd am weld cyfrwng ar gyfer buddsoddiad cyfalaf—galwch ef yn Adeiladu ar gyfer Cymru neu rywbeth arall os dymunwch, ond mae ei angen arnom. Mae'r toriadau i gyllidebau cyfalaf yma yn golygu bod yn rhaid inni ddod o hyd i arian arall i adeiladu cartrefi fforddiadwy neu i ddefnyddio cartrefi gwag unwaith eto.

*Gwelliant 3 William Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:*

*Add as new sub-point at end of point 1:*

*Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â darparwyr tai sector preifat a thrydydd sector allweddol a chyllidwyr i gytuno ar Strategaeth Adfer Tai i Gymru a'i gweithredu.*

*the Welsh Government to engage with key Private and Third Sector Housing providers and funders to agree and implement a Housing recovery Strategy for Wales.*

**Mark Isherwood:** I move amendment 3 in the name of William Graham.

**Mark Isherwood:** Cynigiaf welliant 3 yn enw William Graham.

Years before the credit crunch, recession and change in the UK Government, Homes for All Cymru said that there are simply not enough decent homes at a cost people can afford to meet demand, and that it is getting worse because demand is increasing and fewer homes are being provided. It said that this was not a new crisis, although the economic downturn was making it even worse, adding that the current housing system had been failing for a long time.

Flynyddoedd cyn y wasgfa gredyd, y dirwasgiad a'r newid yn Llywodraeth y DU, dywedodd Cartrefi i Bawb Cymru yn syml nad oedd digon o gartrefi boddhaol am bris roedd pobl yn gallu ei fforddio i gwrdd â'r galw, a bod pethau'n gwaethygu oherwydd bod y galw yn cynyddu a bod llai o gartrefi yn cael eu darparu. Dywedodd nad oedd hwn yn argyfwng newydd, er bod y dirywiad economaidd yn ei wneud yn waeth byth. Ychwanegodd fod y system dai bresennol wedi bod yn methu ers amser hir.

Each time I raised this in debate from 2003 Labour voted it down. It failed to act when the economic sun was shining. By the time that the current UK Government came to office, UK peacetime house-building rates had reached lows not seen since the 1920s. During the first 12 years of devolution, the Labour-led Welsh Government delivered some 12,500 new affordable homes, almost a 60% cut on the 28,500 delivered in the last 12 years of the UK Conservative Government to 1997. New home registrations last year rose 0.43% in England and 9.5% in Scotland, but fell 17% in Wales.

Bob tro y codais y mater hwn mewn dadl o 2003 ymlaen, roedd Llafur wedi pleidleisio yn ei erbyn. Ni wnaethant weithredu pan oedd yr haul economaidd yn tywynnu. Erbyn i Lywodraeth bresennol y DU ddod i rym, roedd cyfraddau adeiladu tai yn y DU ar eu lefelau isaf mewn cyfnod o heddwch ers y 1920au. Yn ystod 12 mlynedd gyntaf datganoli, darparwyd tua 12,500 o dai fforddiadwy newydd gan Lywodraeth Cymru dan arweiniad Llafur, sydd bron yn 60 y cant o doriad ar y 28,500 a ddarparwyd yn ystod 12 mlynedd diwethaf Llywodraeth Geidwadol y DU hyd at 1997. Y llynedd, gwelwyd codiad o 0.43 y cant yn nifer y tai newydd a gofrestrwyd yn Lloegr yn ogystal â

chodiad o 9.5 y cant yn yr Alban, ond syrthiodd 17 y cant yng Nghymru.

That is why we support this motion and why our amendment 3 calls for

Dyna pam ein bod yn cefnogi'r cynnig hwn a pham mae ein gwelliant 3 yn galw ar

‘the Welsh Government to engage with key Private and Third Sector Housing providers and funders to agree and implement a Housing recovery Strategy for Wales.’

‘Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â darparwyr tai sector preifat a thrydydd sector allweddol a chyllidwyr i gytuno ar Strategaeth Adfer Tai i Gymru a’i gweithredu.’

The UK Government published its housing strategy for England in November 2011. It included a new-build indemnity scheme, led by the Home Builders Federation and the Council of Mortgage Lenders to provide up to 95% loan-to-value mortgages for new-build properties, and further help for first time buyers through FirstBuy. In Wales, the £12 million in FirstBuy money provided to the Welsh Government by the UK Treasury disappeared into the ether, and the Welsh Government tells us that it is still considering the merits of a mortgage indemnity scheme. Scotland announced its scheme even before England did last November. When NewBuy was formally launched in England on Monday, the Council of Mortgage Lenders stated that it has the potential to increase the supply of housing and enable purchasers who can afford to service a mortgage but cannot fund a high deposit to have a choice of property.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei strategaeth dai ar gyfer Lloegr ym mis Tachwedd 2011. Roedd yn cynnwys cynllun indemniad ar gyfer tai newydd, dan arweiniad y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi i ddarparu morgeisi hyd at 95 y cant o'r gymhareb rhwng benthyciad a gwerth ar gyfer tai newydd, a rhagor o gymorth i brynwyr tro cyntaf drwy FirstBuy. Yng Nghymru, mae'r £12 miliwn o arian FirstBuy a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru gan Drysorlys y DU wedi diflannu, ac mae Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym ei bod yn dal i ystyried rhinweddau cynllun indemniad morgais. Roedd yr Alban wedi cyhoeddi ei gynllun hyd yn oed cyn i Loegr wneud hynny fis Tachwedd diwethaf. Pan lansiwyd NewBuy yn ffurfiol yn Lloegr ddydd Llun, dywedodd y Cyngor Benthycwyr Morgeisi fod ganddo'r potensial i gynyddu'r cyflenwad o dai ac i alluogi prynwyr sy'n gallu fforddio ad-dalu morgais, ond nad ydynt yn gallu talu blaendal mawr, i gael dewis o eiddo.

The north Wales construction companies group has expressed serious concerns and frustrations regarding the current state of their industry in Wales. It highlights:

Mae'r grŵp o gwmnïau adeiladu yng ngogledd Cymru wedi mynegi rhwystredigaeth a phryderon difrifol ynghylch cyflwr presennol eu diwydiant yng Nghymru. Mae'n tynnu sylw at:

‘The proactive way in which the English Government is helping the English housebuilding industry with the “First Buy Scheme” and other proposals such as mortgage guarantee schemes and kick start initiatives’.

Y ffordd ragweithiol y mae'r Llywodraeth yn Lloegr yn helpu'r diwydiant adeiladu tai yn Lloegr gyda'r Cynllun “First Buy” a chynigion eraill fel cynlluniau gwarantu morgais a mentrau i roi hwb cychwynnol.

Writing to the Welsh Minister for housing, the group states that

Yn ei lythyr at Weinidog tai Cymru, dywed y grŵp

‘without immediate intervention, companies in the construction sector foresee serious

heb ymyrraeth ar unwaith, mae cwmnïau yn y sector adeiladu yn rhagweld goblygiadau

ramifications for the future of the industry'.

difrifol i ddyfodol y diwydiant.

Writing to the Minister for business, the group states that

Yn ei lythyr at y Gweinidog busnes, dywed y grŵp

'Jane Hutt's procurement statement on 21st February is tainted and manipulated data/evidence and does not truly reflect the actual position of the indigenous Welsh construction industry'.

Mae'r data/tystiolaeth yn natganiad Jane Hutt ar gaffael ar 21 Chwefror wedi'u llygru a'u hystumio ac nid yw'n adlewyrchu sefyllfa wirioneddol y diwydiant adeiladu cynhenid yng Nghymru.

The private rented sector owns 15% of Welsh housing stock; this is increasing daily. With some 100,000 households on housing waiting lists, the private rented sector tells me that if the Welsh Government does not do something quickly there will be even more homelessness. It states that, on top of social letting agencies, there should be Wales-wide private rented sector access agencies for vulnerable people, working like Cefni Lettings in north-west Wales, a partnership of trust between the private sector and local authorities, with the National Landlords Association and the third sector implementing and delivering more for less rather than replicating for higher cost.

Mae'r sector rhentu preifat yn berchen ar 15 y cant o stoc tai Cymru; ac mae'r ffigur hwn yn cynyddu'n ddyddiol. Gyda thua 100,000 o aelwydydd ar restrau aros am dai, mae'r sector rhentu preifat yn dweud wrthyf oni wnaiff Llywodraeth Cymru wneud rhywbeth yn gyflym bydd hyd yn oed fwy o ddigartrefedd. Mae'n datgan, yn ogystal â sefydlu asiantaethau gosod tai cymdeithasol, y dylid cael asiantaethau Cymru gyfan i ddarparu mynediad at y sector rhentu preifat i bobl agored i niwed, yn gweithredu fel Cefni Lettings yng ngogledd-orllewin Cymru, sy'n bartneriaeth o ymddiriedaeth rhwng y sector preifat ac awdurdodau lleol, gyda Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid a'r trydydd sector yn gweithredu ac yn darparu mwy am lai, yn hytrach na dyblygu am gost uwch.

The Welsh housing investment trust was supposed to fill the black hole in funding from April 2011, but collapsed as undeliverable in the previous December. Fifteen months later, we are still waiting to hear details on alternative housing bond funding.

Roedd Ymddiriedolaeth buddsoddi tai Cymru i fod i lenwi'r twll du mewn cyllid o fis Ebrill 2011, ond daeth i ben cyn hynny ym mis Rhagfyr oherwydd nad oedd modd ei ddarparu. Bymtheg mis yn ddiweddarach, rydym yn dal i ddisgwyl clywed manylion am gyllid bond arall ar gyfer tai.

Some local authorities have taken a lead on empty homes. Some are falling behind. As Denbighshire's empty homes officer says:

Mae rhai awdurdodau lleol wedi cymryd yr awenau ar gartrefi gwag. Mae rhai'n cael eu gadael ar ôl. Fel y dywed swyddog tai gwag Sir Ddinbych:

'The key is to understand why it's empty and to work closely with the owner to bring it back into use'.

Yr hyn sy'n allweddol yw deall pam ei fod yn wag ac i weithio'n agos gyda'r perchennog i'w ddefnyddio unwaith eto.

We welcome the Welsh Government's £5 million empty homes fund, equivalent to the UK Government's £100 million empty homes fund for England, but note that the UK Government is going much further, with an additional £50 million to tackle the worst concentrations of empty homes, consultation

Croesawn gronfa cartrefi gwag Llywodraeth Cymru, gwerth £5 miliwn, sy'n cyfateb i gronfa cartrefi gwag gwerth £100 miliwn Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr, ond nodwn fod Llywodraeth y DU yn mynd yn llawer pellach, gyda £50 miliwn ychwanegol i fynd i'r afael â'r crynodiadau gwaethaf o

on an empty homes premium on council tax and proposals to target empty dwelling management Orders at the worst long-term empty homes. Almost a year into the fourth Assembly, it is time for words to become action for a housing recovery strategy for Wales.

gartrefi gwag, ymgynghoriad ar godi premiwm treth gyngor ar gartrefi gwag, a chynigion i dargedu Gorchmynion rheoli anheddau gwag ar gyfer y cartrefi gwag hirdymor gwaethaf. Ar ôl bron i flwyddyn o'r pedwerydd Cynulliad, mae'n bryd troi'r gair yn weithred a chael strategaeth adfer tai i Gymru.

**Aled Roberts:** There is no doubt that, during the last four years, we have seen housebuilding fall to its lowest level since the 1920s. The proportion of low-income and middle-income earners aged 35 and under who are now renting has more than tripled, from 14% in the late 1980s to 47% this year, according to the Resolution Foundation. It is no good hoping that people will climb the property ladder if the bottom rung of homeownership is missing. The provision of affordable properties and the availability of mortgages are therefore vital.

**Aled Roberts:** Nid oes dwywaith, yn ystod y pedair blynedd diwethaf, fod cyfraddau adeiladu tai wedi gostwng i'w lefel isaf ers y 1920au. Yn ôl y Resolution Foundation, mae cyfran y bobl 35 oed ac iau ar incwm isel ac incwm canolig sydd yn awr yn rhentu wedi mwy na threblu, o 14 y cant ar ddiwedd yr 1980au i 47 y cant eleni. Nid oes pwrpas gobeithio y bydd pobl yn dringo'r ysgol eiddo os yw gris isaf perchentyaeth ar goll. Felly, mae darparu tai fforddiadwy a sicrhau bod morgeisi ar gael yn hanfodol.

During a debate earlier this afternoon, we agreed on the need for both the UK and Welsh Governments to engage with the banks on the availability of finance for businesses. The same issue arises with regard to the availability of finance for young families. This afternoon, according to enquiries made of high-street providers, the current maximum loan-to-value rates from HSBC and NatWest are just 60%. In the past six years, the number of low-income and middle-income earners aged under 35 who own a home has reduced from approximately 51% to 34%.

Yn ystod dadl yn gynharach y prynhawn yma, gwnaethom gytuno bod angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r banciau er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer busnesau. Mae'r un mater yn codi o ran sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer teuluoedd ifanc. Y prynhawn yma, yn ôl ymholiadau a wnaethpwyd gyda darparwyr ar y stryd fawr, y cyfraddau presennol uchaf gan HSBC a NatWest ar gyfer y gymhareb rhwng benthyciad a gwerth oedd 60 y cant. Yn y chwe blynedd diwethaf, mae nifer y bobl ar incwm isel ac incwm canolig o dan 35 oed sy'n berchen ar dŷ wedi gostwng o tua 51 y cant i 34 y cant.

5.15 p.m.

This is an important issue. Strong families and stable communities are built on the basis of good homes. That is why we need to build new homes, yet, according to the latest Royal Institution of Chartered Surveyors figures, for the three months leading up to January 2012, Wales had the second lowest figures for new-build properties of any region in the UK. That is why the Welsh Government needs to be innovative in the schemes that it uses to provide affordable homes. Nevertheless, as Mark Isherwood pointed out, there is a real danger that, 10 months on from the creation of the fourth Assembly, we have warm words

Mae hwn yn fater pwysig. Mae teuluoedd cryf a chymunedau sefydlog wedi'u seilio ar gartrefi da. Dyna pam mae angen inni adeiladu cartrefi newydd, ac eto, yn ôl ffigurau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, ar gyfer y tri mis hyd at fis Ionawr 2012, roedd ffigurau Cymru ar gyfer tai newydd yr isaf ond un o holl ranbarthau'r DU. Dyna pam mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn arloesol yn y cynlluniau a ddefnyddia i ddarparu cartrefi fforddiadwy. Er hynny, fel y dywedodd Mark Isherwood, 10 mis ar ôl creu'r pedwerydd Cynulliad mae perygl gwirioneddol nad oes gennym lawer

but little else. As Leanne Wood mentioned, it is all very well for the Government's amendments to state that it will consider something, but what we need are actions rather than words.

mwy na geiriau cynnes. Fel y soniodd Leanne Wood, mae'n ddigon hawdd i welliannau'r Llywodraeth ddweud y bydd yn ystyried rhywbeth, ond yr hyn sydd ei angen yw camau gweithredu yn hytrach na geiriau.

In chapter 6 of its document, under the heading 'Standing Up for Welsh Homes', the Government sets out its proposals for Welsh homes, including a commitment to launch the Welsh housing partnership, to provide housing bonds and introduce a new empty properties initiative. At the same time, there was also a commitment to support local authorities to build new homes for rent and to encourage community land trusts. The commentary in support of the document states that the Government will work with Carmarthenshire on new-build properties. It points out that work has started on the development of an appropriate model of co-operative housing and mutual home ownership. It held an awareness-raising seminar in September 2011 and, at that time, indicated that developments elsewhere were being reviewed, after which the development of pilot schemes was envisaged. We need those pilot schemes to be rolled out now.

Ym mhennod 6 ei dogfen, o dan y pennawd 'Sefyll Cornel Tai Cymru', mae'r Llywodraeth yn nodi ei chynigion ar gyfer cartrefi yng Nghymru, gan gynnwys ymrwymiad i lansio partneriaeth tai Cymru, i ddarparu bondiau tai ac i gyflwyno menter newydd ar gyfer eiddo gwag. Ar yr un pryd, roedd hefyd ymrwymiad i gefnogi awdurdodau lleol i adeiladu cartrefi newydd i'w rhentu ac i annog ymddiriedolaethau tir cymunedol. Mae'r sylwadau wrth gefn y ddogfen yn datgan y bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda Sir Gaerfyrddin ar dai newydd. Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod gwaith wedi dechrau ar ddatblygu model priodol o dai cydweithredol a pherchentyaeth gydfuddiannol. Cynhaliodd seminar codi ymwybyddiaeth ym mis Medi 2011 ac, ar y pryd, nododd fod datblygiadau mewn lleoedd eraill yn cael eu hadolygu, ac yn dilyn hynny, rhagwelwyd y byddai cynlluniau peilot yn cael eu datblygu. Mae arnom angen gweld y cynlluniau peilot hyn yn cael eu cyflwyno yn awr.

It is interesting to note from the comments by Peter Black and Mark Isherwood that the three authorities that have been most successful in returning empty homes to ownership and use are also three authorities that are facing difficulties with real tensions in relation to their local development plans. Conwy, Denbighshire and Wrexham face problems with the rate of housing supply that their local populations are willing to accept. Locally, much of the debate has centred on the overall housing requirement, yet the real issue that has been lost in the debate is the provision of affordable homes within those figures. Why is it that the Welsh Government centres its local development plan policies on housing requirements and sets national figures that are then required to be reflected in local development plans, yet no such national figure is set out for affordable homes? From my experience in Wrexham, even though the provision of affordable housing is embedded in national planning policy and is a key priority backed by Welsh

Mae'n ddiddorol nodi o'r sylwadau gan Peter Black a Mark Isherwood mai'r tri awdurdod sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus wrth ddefnyddio cartrefi gwag unwaith eto yw'r tri awdurdod sydd hefyd yn wynebu anawsterau gyda thensiynau gwirioneddol mewn cysylltiad â'u cynlluniau datblygu lleol. Mae Conwy, Sir Ddinbych a Wrecsam yn wynebu problemau gyda chyfradd y cyflenwad tai y mae eu poblogaethau lleol yn fodlon ei derbyn. Yn lleol, mae llawer o'r drafodaeth wedi canolbwyntio ar y gofyniad cyffredinol am dai, ac eto'r broblem wirioneddol sydd wedi mynd ar goll yn y ddadl yw darpariaeth cartrefi fforddiadwy yn y ffigurau hynny. Pam mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ei pholisïau ar gynlluniau datblygu lleol ar y gofynion am dai ac yn pennu ffigurau cenedlaethol sy'n rhaid eu hadlewyrchu mewn cynlluniau datblygu lleol, ond eto ni chaiff ffigur cenedlaethol o'r fath ei bennu ar gyfer cartrefi fforddiadwy? O'm profiad i yn Wrecsam, er bod darparu tai fforddiadwy yn rhan annatod o'r polisi

Government funding, when local authorities have sought to provide 100% affordable housing on certain sites, if there have been objections by housebuilders and developers, the local authorities are questioned by Welsh Government planning officials.

cynllunio cenedlaethol ac yn flaenoriaethau allweddol a gefnogir gan gyllid Llywodraeth Cymru, pan fydd awdurdodau lleol yn ceisio darparu 100 y cant o dai fforddiadwy ar safleoedd penodol, os yw'r adeiladwyr tai a'r datblygwyr wedi gwrthwynebu, mae swyddogion cynllunio Llywodraeth Cymru yn cwestiynu'r awdurdodau lleol.

The presence of over 20,000 empty homes in Wales makes it clear that new homes are not the only solution to the housing shortage. However, we want the Government to do more than 'consider' by going on to actively use alternative funding methods to ensure that local authorities, supported by their communities, are not constrained by the actions of officials from the Welsh Government planning department.

Mae'r ffaith bod dros 20,000 o gartrefi gwag yng Nghymru yn dangos yn glir nad tai newydd yw'r unig ateb i'r prinder tai. Fodd bynnag, rydym am weld y Llywodraeth yn gwneud mwy nag 'ystyried', gan fwrw ymlaen yn frwd i ddefnyddio dulliau cyllido eraill i sicrhau nad yw awdurdodau lleol, gyda chefnogaeth eu cymunedau, yn cael eu cyfyngu gan weithredoedd swyddogion o adran gynllunio Llywodraeth Cymru.

**Jenny Rathbone:** Any scheme that will help first-time buyers is definitely worth looking at. Aled Roberts's figures about the number of people under the age of 35 who are unable to purchase a property are a cause for concern for people who want to start a family. In the context of the ever-rising local authority housing waiting lists, it is important that those who are able to buy a property are encouraged to do so. In Cardiff alone, we now have 12,000 people on the housing waiting list, and that means that people will be waiting a very long time before they can move into a house that is suitable for a family. This is causing a huge amount of distress.

**Jenny Rathbone:** Yn sicr, mae unrhyw gynllun a fydd yn helpu prynwyr tro cyntaf yn werth ei ystyried. Mae ffigurau Aled Roberts am nifer y bobl o dan 35 oed nad ydynt yn gallu prynu eiddo yn peri pryder i bobl sydd am ddechrau teulu. Yng nghyd-destun rhestrau aros am dai awdurdodau lleol sy'n cynyddu'n barhaus, mae'n bwysig bod y rheini sy'n gallu prynu eiddo yn cael eu hannog i wneud hynny. Yng Nghaerdydd yn unig, mae gennym bellach 12,000 o bobl ar y rhestr aros am dai, ac mae hynny'n golygu y bydd pobl yn aros am amser hir iawn cyn y gallant symud i mewn i dŷ sy'n addas ar gyfer teulu. Mae hyn yn achosi llawer iawn o ofid.

I would like to highlight what the Welsh Government is already doing to encourage people to look at buying a house. For example, it has its shared equity scheme, which allows purchasers to raise a mortgage on 70% of a property's value, with the rest being held by a housing association. Equally, there is the Welsh Government's homebuy shared-equity scheme, which also offers the opportunity for new social housing to be either rented or part-owned on a shared equity basis. Finally, the Rent First scheme, which gives tenants the opportunity to eventually buy their property, is another thing to be welcomed, and the £50 million that the Labour Government in Wales has put into this is very much appreciated. However, in the current financial climate we have to be

Hoffwn dynnu sylw at yr hyn y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei wneud i annog pobl i ystyried prynu tŷ. Er enghraifft, mae ganddi ei chynllun rhannu ecwiti, sy'n caniatáu i brynwyr godi morgais ar 70 y cant o werth yr eiddo, a'r gweddill yn cael ei ddal gan gymdeithas dai. Hefyd, mae cynllun rhannu ecwiti Cymorth Prynu Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig cyfle i rentu tai cymdeithasol newydd neu sicrhau perchnogaeth rannol drostynt ar sail rhannu ecwiti. Yn olaf, mae'r cynllun Rhent Gyntaf, sy'n rhoi cyfle i denantiaid brynu eu heiddo yn y pen draw, yn rhywbeth arall i'w groesawu, ac mae'r £50 miliwn y mae'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru wedi'i gyfrannu at hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd

aware that raising the deposit at all will be very challenging for anybody setting out along this road.

ariannol bresennol rhaid inni fod yn ymwybodol y bydd codi blaendal o gwbl yn heriol iawn i unrhyw un sy'n dilyn y llwybr hwn.

When you think that the average house price in Wales is £150,000, and that mortgages at decent rates—that is, not with the sort of lenders who want to take advantage of people’s desperation—are generally at a maximum of 80% of the value of the property, that means that on average somebody would have to find £30,000 as a deposit. If loans are only being given at 60% of the value, according to Aled Roberts, that would mean £60,000. Not everybody will be buying a house at the average price, but even so, the sorts of figures that one is having to describe in terms of the deposits that people are having to raise are well beyond the means of most people on average earnings, who are struggling to pay their bills in the current financial climate. A deposit guarantee scheme might be part of the answer. It is perfectly in order for the Welsh Government to look at the potential for such a scheme, but clearly we need to avoid some of the pitfalls of the English scheme, which was launched by the Tory-Lib Dem coalition Government this week.

Pan gofiwch mai pris cyfartalog tŷ yng Nghymru yw £150,000, a bod morgeisi ar gyfraddau teg—hynny yw, nid gyda'r math o ddarparwyr benthyciadau sy'n manteisio ar anobaith pobl—ar gael yn gyffredinol hyd at uchafswm o 80 y cant o werth yr eiddo, mae hynny'n golygu, ar gyfartaledd, y byddai'n rhaid i rywun ddod o hyd i £30,000 o flaendal. Os, yn ôl Aled Roberts, mai dim ond benthyciadau hyd at 60 y cant o'r gwerth sy'n cael eu rhoi, byddai hynny'n golygu £60,000. Ni fydd pawb yn prynu tŷ ar y pris cyfartalog, ond er hynny, mae'r mathau o ffigurau a ddisgrifir o ran y blaendaliadau y mae’n rhaid i bobl eu rhoi yn llawer uwch na'r hyn y bydd y rhan fwyaf o bobl ar enillion cyfartalog, sydd eisoes yn cael trafferth talu eu biliau yn yr hinsawdd ariannol bresennol, yn gallu ei fforddio. Gallai cynllun gwarantu blaendal fod yn rhan o'r ateb. Mae'n berffaith briodol i Lywodraeth Cymru edrych ar botensial cynllun o'r fath, ond yn amlwg mae angen inni osgoi rhai o ddiffygion y cynllun yn Lloegr, a lansiwyd gan Lywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yr wythnos hon.

The NewBuy scheme that they have launched is high on rhetoric and short on practicality. Of the target 100,000 new purchasers, many of the 28,000 people who have registered for the scheme were already going to buy in any case, so how many actual new purchasers will it reach? That is open to debate. Added to which, it only applies to new-build properties, and nine tenths of all homes sold are not new build. It therefore excludes those homes and potentially depresses the price that a seller might be able to get for those sorts of homes. It does not include any sort of shared ownership or link with social landlords. The Welsh schemes so far are much fairer, and I have serious concerns about any Government-backed loan-to-value mortgages that enable people to take out mortgages that are far higher than they would ever be able to afford in the light of the fact that interest rates are bound to go up.

Mae'r cynllun NewBuy y maent wedi ei lansio yn llawn rhethreg ond yn brin o ymarferoldeb. O'r targed o 100,000 o brynwyr newydd, roedd llawer o'r 28,000 o bobl sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynllun eisoes yn mynd i brynu beth bynnag, felly sawl prynwr newydd gwirioneddol fydd y cynllun yn ei helpu? Mae hynny’n destun trafod. At hynny, dim ond tai newydd sy'n gymwys, ac nid yw naw o bob deg tŷ a werthir yn dai newydd. Felly, mae'n eithrio'r cartrefi hynny ac o bosibl yn lleihau'r pris y gallai gwerthwr ei gael am y mathau hynny o gartrefi. Nid yw'n cynnwys unrhyw fath o gydberchnogaeth na chyswllt gyda landlordiaid cymdeithasol. Mae cynlluniau Cymru hyd yn hyn yn llawer tecach, ac mae gennyf bryderon difrifol am unrhyw forgeisi benthyciad-i-werth a gefnogir gan y Llywodraeth sy'n galluogi pobl i godi morgeisi sy'n llawer iawn uwch nag y byddent byth yn gallu eu fforddio fel arall o gofio'r ffaith bod cyfraddau llog yn siŵr o

godi.

**Mark Isherwood:** Will you take an intervention?

**Mark Isherwood:** A wnewch dderbyn ymyriad?

**The Deputy Presiding Officer:** Order. There is not really enough time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid oes digon o amser.

**Jenny Rathbone:** I have a problem with the wording of both the motion and the amendment, where we talk about the 'housing ladder'—it is important that people realise that this idea that housing always goes up in price is incorrect, and housing can and does go down in price. The empty homes scheme is the one that I particularly welcome.

**Jenny Rathbone:** Mae gennyf broblem gyda geiriad y cynnig a'r gwelliant, pan fyddwn yn sôn am yr ysgol dai—mae'n bwysig bod pobl yn sylweddoli nad yw'r syniad hwn fod prisiau tai bob amser yn codi yn gywir, ac mae prisiau tai yn gallu gostwng mewn pris ac mae hynny'n digwydd. Rwyf yn croesawu'r cynllun cartrefi gwag yn arbennig.

**Kirsty Williams:** I would like to focus my contribution this afternoon on point (d) of the Liberal Democrat motion, which would allow local councils greater flexibility and powers to vary council tax rates as they are applied to second homes and properties that are left deliberately empty in their local authority areas.

**Kirsty Williams:** Hoffwn ganolbwyntio fy nghyfraniad y prynhawn yma ar bwynt (d) o gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol, a fyddai'n rhoi rhagor o hyblygrwydd a phwerau i gynghorau lleol amrywio cyfraddau'r dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi ac ar gyfer eiddo sy'n cael eu gadael yn wag yn fwriadol yn eu hardaloedd awdurdodau lleol.

Of course, on their own, these measures will not solve the acute housing problems that we face in Wales. However, I believe that they will have a part to play in a suite of policy interventions that could make a difference. Empty homes are a resource that we as a society cannot afford to let go begging. There are too many people in need of a property to live in and often, as we have heard, empty properties can be a source of nuisance and problems within communities. I am very pleased indeed that the Government has provided the proverbial carrot to the owners of such properties to bring them back into use, but I also believe that we need the proverbial stick as well to ensure that those intransigent property owners who refuse to engage positively with this agenda pay a penalty for refusing to do so. Of course, many property owners will want to engage positively, but I can think of one infamous case in my constituency where the landlord is deliberately letting a property stay empty because he does not like the planning restrictions on affordable homes that have been placed upon him by the Brecon Beacons National Park Authority. He would rather leave the property empty than engage and

Wrth gwrs, ar eu pen eu hunain, ni fydd y mesurau hyn yn datrys y problemau tai difrifol a wynebwn yng Nghymru. Fodd bynnag, credaf y bydd ganddynt ran i'w chwarae mewn cyfres o ymyriadau polisi a allai wneud gwahaniaeth. Mae cartrefi gwag yn adnodd na allwn fel cymdeithas fforddio ei golli. Mae gormod o bobl sydd arnynt angen eiddo i fyw ynddo ac yn aml, fel rydym wedi'i glywed, gall eiddo gwag fod yn ffynhonnell o niwsans a phroblemau mewn cymunedau. Rwyf yn wirioneddol falch fod y Llywodraeth wedi darparu'r foronen ddiarhebol i berchnogion eiddo o'r fath i'w defnyddio unwaith eto, ond credaf hefyd fod arnom angen y ffon ddiarhebol hefyd i sicrhau bod y perchnogion eiddo cyndyn hynny sy'n gwrthod ymgysylltu'n gadarnhaol â'r agenda hon yn talu cosb am wrthod gwneud hynny. Wrth gwrs, bydd llawer o berchnogion eiddo am ymgysylltu'n gadarnhaol, ond gallaf feddwl am un achos amlwg yn fy etholaeth lle mae'r landlord yn fwriadol yn gadael eiddo yn wag am nad yw'n cytuno â'r cyfyngiadau cynllunio ar gartrefi fforddiadwy sydd wedi'u gosod arno gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Byddai'n well ganddo adael yr

provide important and much-needed accommodation in the Brecon area.

In April 2011, only 4% of the empty properties identified a year previously, in April 2010, had been brought back into use. That demonstrates that the existing tools are not doing the job on their own. Let us not underestimate the significant contribution that bringing empty properties back into use could make. In Carmarthenshire, the social housing waiting list could be reduced by a quarter if all the empty properties in the county were brought into use. Of course, you cannot get a direct correlation with that, but it demonstrates the significant contribution that empty properties could make to social housing waiting lists.

In recent weeks, we have heard a great deal of discussion about the benefits of taxing wealth over income. I am afraid to say that I do not have any figures for the prevalence of mansions in Wales, but I do know the number of second homes—it runs into the thousands. There is a clear correlation between high levels of second-home ownership and high average house prices in those areas. There is also an interesting correlation between second-home ownership, high house prices and the presence of a national park and the planning restrictions within its boundaries that should not go amiss. I do not believe that somebody who is wealthy enough to buy a second home in Gwynedd, Pembrokeshire, Powys or Cardiff bay would be particularly put off by an additional hike in their council tax. Perhaps some would be put off, but, if they are not, it should be left to local authorities to set council tax rates at a higher level for those homes. They could use the resources raised by that mechanism to invest in their local housing stock, by employing additional staff to help people with housing problems or by using it as capital. To do that, revenue support grant arrangements would need to be changed because of the claw-back situations that could arise if local councils did that. I make no apology for asking those people who can afford a second home to contribute to their community all year round, rather than just at holiday time.

eiddo yn wag nag ymgysylltu a darparu llety sydd mor bwysig ac angenrheidiol yn ardal Aberhonddu.

Ym mis Ebrill 2011, dim ond 4 y cant o'r eiddo gwag a nodwyd y flwyddyn flaenorol, ym mis Ebrill 2010, a lwyddwyd i’w defnyddio unwaith eto. Mae hynny'n dangos nad yw'r dulliau presennol yn gweithio ar eu pen eu hunain. Ni ddylem ddiystyru'r cyfraniad sylweddol y gellid ei wneud drwy ddefnyddio eiddo gwag unwaith eto. Yn Sir Gaerfyrddin, gellid torri chwarter oddi ar y rhestr aros am dai cymdeithasol petai'r holl eiddo gwag yn y sir yn cael eu defnyddio unwaith eto. Wrth gwrs, nid yw'n bosibl profi cydberthynas uniongyrchol rhwng hynny, ond mae'n dangos y cyfraniad sylweddol y gallai eiddo gwag ei gael ar restrau aros am dai cymdeithasol.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi clywed llawer o sôn am fanteision trethu cyfoeth yn hytrach nag incwm. Ofnaf nad oes gennyf ddim ffigurau am sawl plasty sydd yng Nghymru, ond rwyf yn gwybod y ffigurau ar gyfer ail gartrefi—mae'n filoedd. Ceir cydberthynas glir rhwng lefelau uchel o berchnogaeth ail gartrefi a phrisiau cyfartalog uchel y tai yn yr ardaloedd hynny. Ceir hefyd cydberthynas ddiddorol na ddylid ei hanghofio rhwng perchnogaeth ail gartrefi, prisiau uchel tai a phresenoldeb parc cenedlaethol a'r cyfyngiadau cynllunio o fewn ei ffiniau. Ni chredaf y byddai cynnydd ychwanegol yn eu treth gyngor yn amharu gormod ar rywun sy'n ddigon cyfoethog i brynu ail gartref yng Ngwynedd, yn Sir Benfro, ym Mhowys neu ym mae Caerdydd. Efallai y byddai'n effeithio ar benderfyniadau rhai ohonynt, ond, os na, dylai awdurdodau lleol allu pennu cyfraddau'r dreth gyngor ar lefel uwch i'r cartrefi hynny. Gallent ddefnyddio'r adnoddau a godir gan y mecanwaith hwnnw i fuddsoddi yn eu stoc tai lleol, drwy gyflogi staff ychwanegol i helpu pobl â phroblemau tai neu drwy ddefnyddio'r adnoddau fel cyfalaf. I wneud hynny, byddai angen newid trefniadau'r grant cynnal refeniw oherwydd y sefyllfaoedd adfachu a allai godi petai cynghorau lleol yn gwneud hynny. Nid wyf yn ymddiheuro am ofyn i'r bobl hynny sy'n gallu fforddio ail gartref gyfrannu at eu cymuned drwy gydol y flwyddyn, yn hytrach nag yn ystod amser

gwyliau yn unig.

**Jocelyn Davies:** My contribution is on the proposal in the motion to introduce a deposit guarantee scheme. Members will be aware that the biggest barriers to purchasing a home now are the availability of mortgages and the requirement of large deposits, as was mentioned earlier. That has resulted in the average age of the first time buyer rising to 37 years of age. I find that a depressing statistic. My daughter, who is in her early 20s, still lives at home with me and anybody who has children living at home with them could find that they are there until they are nearly 40.

**Jocelyn Davies:** Mae fy nghyfraniad yn ymwneud â'r cynnig i gyflwyno cynllun gwarantu blaendal. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol mai'r rhwystrau mwyaf i brynu cartref yn awr yw argaeledd morgeisi a'r gofyniad am flaendal mawr, fel y soniwyd yn gynharach. Mae hynny wedi arwain at sefyllfa lle mae cyfartaledd oedran prynwr tro cyntaf wedi codi i 37 mlwydd oed. Mae hwnnw'n ystadegyn digalon. Mae fy merch, sydd yn ei 20au cynnar, yn dal i fyw gartref gyda mi, ac mae'n bosibl y bydd unrhyw un sydd â phlant yn byw gartref gyda nhw yn gorfod cyd-fyw nes bod y plant bron yn 40 oed.

I am not convinced that the scheme referred to offers any solutions to the failure of the free market to provide affordable homes. I certainly do not see it as a magic bullet in the way that it has been portrayed by some. Since it was first announced in England last autumn, some of the lenders who originally supported it have fallen away. Currently, only three lenders are showing an interest by setting down the details of their 95% mortgages. It concerns me that those mortgages have a much higher interest rate than a standard mortgage. Lenders will still be liable for well over 80% of the property value. The reluctance of lenders to offer this product does not bode well for its future. Some housing experts have argued that the scheme might push up prices. The real problem with the housing market is that prices are too high compared to wages and I cannot see wages rising significantly in the foreseeable future. Hoping that wages will catch up with house prices is futile.

Nid wyf wedi fy argyhoeddedig bod y cynllun y cyfeirir ato yn cynnig unrhyw atebion i fethiant y farchnad rydd i ddarparu cartrefi fforddiadwy. Yn sicr, nid wyf yn ei weld fel bwled hud fel y caiff ei bortreadu gan rai. Ers ei gyhoeddi gyntaf yn Lloegr yr hydref diwethaf, mae rhai o'r darparwyr benthyciadau a gefnogodd y cynllun yn wreiddiol wedi troi eu cefn arno. Ar hyn o bryd, dim ond tri darparwr benthyciadau sy'n dangos diddordeb drwy nodi manylion eu morgeisi 95 y cant. Mae'n peri pryder imi fod y morgeisi hyn yn denu cyfradd llog uwch o lawer na morgais safonol. Bydd darparwyr benthyciadau'n dal i fod yn atebol am ymhell dros 80 y cant o werth yr eiddo. Nid yw amharodrwydd darparwyr benthyciadau i gynnig y cynnyrch hwn yn argoeli'n dda ar gyfer ei ddyfodol. Mae rhai arbenigwyr tai wedi dadlau y gallai'r cynllun wthio prisiau i fyny. Y gwir broblem gyda'r farchnad dai yw bod prisiau'n rhy uchel o'u cymharu â chyflogau ac ni allaf weld cyflogau'n codi'n sylweddol yn y dyfodol agos. Breuddwyd gwrach yw gobeithio y bydd cyflogau'n dal i fyny gyda phrisiau tai.

5.30 p.m.

Economists have argued that it will not help those wanting to purchase homes, but will allow sellers to charge more than they would have otherwise. We should bear that in mind. Earlier, Mark Isherwood mentioned the response of the Council of Mortgage Lenders, but even the CML advises that we should proceed with caution, because

Mae economegwyr wedi dadlau na fydd hwn yn helpu'r rheini sydd am brynu cartrefi, ond y bydd yn caniatáu i werthwyr godi mwy nag y byddent fel arall. Dylem gadw hynny mewn cof. Yn gynharach, soniodd Mark Isherwood am ymateb y Cyngor Benthycwyr Morgeisi, ond mae hyd yn oed y Cyngor Benthycwyr Morgeisi yn ein cynghori i fwrw ymlaen

mortgages have been found to be based on the price of the property rather than its value. Those are two very significant differences.

gyda gofal, oherwydd canfuwyd bod morgeisi wedi'u seilio ar bris yr eiddo yn hytrach na'i werth. Mae gwahaniaeth mawr iawn rhwng y ddau hynny.

**Mark Isherwood:** Reading the statement by the Council of Mortgage Lenders that has come out this afternoon, I see that the three lenders have already gone up to five—Halifax, Santander, Barclays, Nationwide and NatWest—with more expected to join. The CML is wholly supportive; in fact, it helped design the scheme. Are you aware that 95% mortgage guarantee schemes always existed until the end-of-boom-and-bust myth promoted by Gordon Brown led lenders to stop providing them? Those schemes saw us through the last two recessions, when I was working in the industry, without a pricey promise for first-time buyers.

**Mark Isherwood:** Wrth ddarllen y datganiad gan y Cyngor Benthycwyr Morgeisi a gyhoeddwyd y prynhawn yma, gwelaf fod y tri darparwr benthyciadau eisoes wedi codi i bump—Halifax, Santander, Barclays, Nationwide a NatWest—a'r disgwyl yw y bydd mwy yn ymuno. Mae'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi yn gwbl gefnogol; yn wir, helpodd i lunio'r cynllun. A ydych yn ymwybodol fod cynlluniau gwarantu morgais 95 y cant wedi bodoli erioed, a hynny hyd at y myth a hyrwyddwyd gan Gordon Brown am ddiwedd y cyfnodau o ddigonedd a dim a olygodd fod darparwyr benthyciadau wedi rhoi'r gorau i'w darparu? Roedd y cynlluniau hynny wedi ein harwain drwy'r ddau ddirwasgiad diwethaf, pan oeddwn yn gweithio yn y diwydiant, heb addewid costus ar gyfer prynwyr tro cyntaf.

**Jocelyn Davies:** Thank you Mark, but the Council of Mortgage Lenders has advised proceeding with caution. Originally, seven lenders were interested in the scheme; there may be five today, but that is still fewer than seven. Lenders are not enthusiastic about this product. Anybody taking out a mortgage under this scheme will find that their interest rate is much higher than that of a standard mortgage. If the price that you pay is based on what you can borrow rather than the value of the property, which is especially true of new-build properties, buyers could end up in instant negative equity. We should try to avoid that.

**Jocelyn Davies:** Diolch Mark, ond mae'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi wedi cynghori y dylid bwrw ymlaen gyda gofal. Yn wreiddiol, roedd gan saith darparwr benthyciadau ddiddordeb yn y cynllun; efallai bod pump heddiw, ond mae hynny'n llai na saith o hyd. Nid yw darparwyr benthyciadau'n frwdfrydig am y cynnyrch hwn. Bydd unrhyw un sy'n codi morgais dan y cynllun hwn yn sylwi bod eu cyfradd llog yn llawer uwch na morgais safonol. Os yw'r pris a dalwch yn seiliedig ar yr hyn y gallwch ei fenthyg yn hytrach na gwerth yr eiddo, sydd yn arbennig o wir am dai newydd, gallai prynwyr ganfod eu hunain mewn ecwiti negyddol ar unwaith. Dylem geisio osgoi hynny.

In yesterday's *The Daily Telegraph*, this scheme was described as a 'gimmick'. I urge the Minister not to invest scarce resources in gimmicks, because people might be saddled with that gimmick of a high interest rate on a property that they cannot, perhaps, sell for a long time. We should recognise this scheme for what it is; it is a scheme to support developers. It does not have much potential to change the housing market. I am not happy to promote a scheme that is likely to result in buyers being trapped in negative equity with

Yn *y Daily Telegraph* ddoe, disgrifiwyd y cynllun hwn fel 'gimic'. Anogaf y Gweinidog i beidio â buddsoddi adnoddau prin mewn gimics, oherwydd gallai'r gimic hwn fod yn faich ar bobl gyda chyfradd llog uchel ar eiddo na allant efallai ei werthu am amser hir. Dylem gydnabod y cynllun hwn am beth ydyw; sef cynllun i gefnogi datblygwyr. Nid oes ganddo lawer o botensial i newid y farchnad dai. Nid wyf yn hapus i hyrwyddo cynllun sy'n debygol o olygu bod prynwyr yn cael eu dal ym magl ecwiti negyddol gyda

high interest rates; that does not sound like an affordable housing solution to me.

chyfraddau llog uchel; nid yw hwnnw'n swnio fel ateb tai fforddiadwy i mi.

**Keith Davies:** Rwy’n falch o gael cyfle i gyfrannu heddiw, ac rwy’n hapus i gefnogi’r holl welliannau. Cael tŷ yw un o’r gofynion mwyaf sylfaenol heddiw. Mae tŷ yn lle i gysgu, coginio, ymlacio, ac efallai i fagu plant. Fodd bynnag, y gwir yw, i lawer o bobl Cymru, nid dyma’r realiti. O edrych ar yr ystadegau—soniodd rhywun am hyn yn gynharach—gwelaf fod bron i 1,500 o bobl sir Gâr a dros 20,000 o bobl Cymru wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn debygol o waethygu o ganlyniad i doriadau San Steffan i fudd-dal tai, sy’n ffaith drist. Yn y ganrif hon, ni ddylai’r broblem hon fodoli o gwbl.

**Keith Davies:** I am pleased to have the oportunity to contribute today, and I am happy to support all the amendments. These days, having a house is a basic requirement. A house is somewhere to sleep, cook, relax and, perhaps, raise children. However, the truth is that, for many people, that is not the reality. Looking at the statistics—someone mentioned this earlier on—I see that nearly 1,500 people in Carmarthenshire and over 20,000 people in Wales were homeless during the last year. This is likely to get worse as a result of Westminster’s cuts to housing benefits, which is a sad fact. In this century, this problem should not feature at all.

Dangosodd adroddiad blynyddol Cyngor ar Bopeth mai cyngor ar faterion tai oedd y pedwerydd pwnc mwyaf poblogaidd, gyda budd-daliadau’n ail, a hynny allan o 400,000 o broblemau. Croesawaf y galw gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar fenthycwyr i gyd-weithio’n agosach gyda darparwyr cyngor er mwyn iddynt allu rhwystro adfeddiannau morgais. Yn sgîl toriadau Llywodraeth y DU, sydd wedi lleihau’r uchafswm ar gyfer cymorth llog morgais, mae cyd-weithio’n bwysicach nag erioed.

The Citizens Advice annual report showed that advice on housing matters came fourth in the list of most popular subjects, with benefits coming in second, out of a total of 400,000 problems. I welcome the Minister for Housing, Regeneration and Heritage’s call for lenders to collaborate more closely with those providing advice so that mortgage repossessions can be avoided. As a result of UK Government cuts, which have led to a decrease in the maximum sum available for mortgage interest assistance, collaboration is more important than ever.

Cytunaf yn llwyr gyda Kirsty Williams fod tai gwag yn wastraff adnoddau. Dengys ffigurau sir Gâr o 2010 bod 1,900 o dai yn y sector preifat a 130 o dai yn y sector tai cymdeithasol wedi bod yn wag am dros chwe mis. Rwy’n falch o groesawu bwriad Cyngor Sir Gâr, o dan arweiniad aelod Llafur ar y bwrdd gweithredol, i weithredu fel a ganlyn yn y flwyddyn sydd i ddod: rhyddhau tir y cyngor i adeiladu tai fforddiadwy; defnyddio pwerau cynllunio i sicrhau bod datblygiadau tai preifat yn cynnwys canran o dai sydd ar werth neu i’w rhentu i bobl leol am bris fforddiadwy; cydweithio gyda chymdeithasau tai i gynyddu nifer y tai newydd sydd ar gael i’w prynu neu i’w rhentu; hyrwyddo cymorthdaliadau i deuluoedd ar incwm isel i’w helpu o dan y cynllun Cymorth Prynu; cefnogi cymunedau i sefydlu ymddiriedolaethau tir cymunedol; ei gwneud yn rhwyddach i bobl gynnig am dai

I fully agree with Kirsty Williams that empty homes are a waste of resources. Figures from Carmarthenshire in 2010 show that 1,900 homes in the private sector and 130 homes in the social housing sector had been empty for more than six months. I am pleased to welcome the intention of Carmarthenshire County Council, under the leadership of a Labour member of the executive board, to do the following in the coming year: release council land for the building of affordable homes; use planning powers to ensure that private housing developments include a percentage of houses to be sold or rented to local people at affordable prices; co-operate with housing associations to increase the number of new houses available to be bought or rented; promote subsidies for families on low incomes to assist with the Homebuy scheme; support communities to set up community land trusts; make it easier for

fforddiadwy; a sicrhau bod cartrefi a gafodd eu prynu o dan y cynllun Hawl i Brynu mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hail-werthu i deuluoedd lleol.

people to apply for affordable homes; and ensure that houses bought under Right to Buy in rural areas are sold on to local families.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi creu sawl rhaglen a chynlluniau grant. Ni allaf eu henwi i gyd, ond maent yn cynnwys: llunio Bil tai a fydd yn galluogi cyflawni ymrwymiadau ein maniffesto; ymrwymo £9 miliwn ar gyfer rhaglenni tai fforddiadwy; rhoi £1.4 miliwn i awdurdodau lleol ddelio ag effeithiau toriadau budd-dal tai; grant digartrefedd o £1.5 miliwn; rhaglen Troi Tai'n Gartrefi; cynllun digartref 10 mlynedd i sicrhau cyfeiriad polisi a gweithredu; annog awdurdodau lleol i ddatblygu strategaeth cartrefi gwag—mae hynny'n hollbwysig; a rhyddhau wyth o safleoedd y Llywodraeth er mwyn creu 290 o gartrefi fforddiadwy. Dyma'r hyn mae'n Llywodraeth ni yn ei wneud. Beth mae'r glymblaid yn San Steffan yn ei wneud? Toriadau cyffredinol a fydd yn arwain at golli swyddi a cholli tai, a thoriadau i fudd-dal tai a fydd yn arwain at golledion i 99% o'i hawlwyr. Felly, rwy'n falch o gefnogi'r gwelliannau i'r cynnig gwreiddiol.

The Welsh Labour Government has created a number of programmes and grant schemes. I cannot name them all, but they include: introducing a housing Bill that will allow us to fulfil our manifesto pledges; committing £9 million on affordable housing programmes; providing £1.4 million for local authorities to deal with the effects of housing benefit cuts; a homelessness grant of £1.5 million; the Houses to Homes programme; a 10-year homelessness scheme to steer the direction of policy and action; encouraging local authorities to develop empty homes strategies—which is vital; and releasing eight Government sites in order to create 290 affordable homes. That is what our Government is doing. What is the Westminster coalition doing? General cuts that will lead to people losing their jobs and homes, and cuts to housing benefits that will lead to 99% of claimants losing out. Therefore, I am pleased to support the amendments to the original motion.

**Kenneth Skates:** I am pleased to speak in this debate and to take up the very pressing issue raised by other Members—homelessness. We have heard many figures today, but many people in the greatest need of help are buried away behind statistics, because they often do not present themselves to local authorities for help. Notwithstanding this, it is important to note that councils have become more effective at dealing with homelessness. Much of the early intervention work done by local officers helps to prevent homelessness before it happens. However, the unprecedented rise in approaches for help now threatens to overwhelm the system. The current housing shortage is causing a lack of mobility in the housing market, with the added problem of people unable to get the affordable credit that they need to buy a home. So, if we do not tackle the need for affordable housing now, we will see more and more people presenting themselves for emergency help.

**Kenneth Skates:** Rwyf yn falch o gael siarad yn y ddadl hon ac i leisio barn am y mater pwysig iawn a godwyd gan Aelodau eraill—sef digartrefedd. Rydym wedi clywed llawer o ffigurau heddiw, ond mae llawer o bobl sydd fwyaf angen cymorth arnynt yn cael eu claddu y tu ôl i ystadegau, gan nad ydynt yn aml yn mynd at awdurdodau lleol i ofyn am gymorth. Er gwaethaf hyn, mae'n bwysig nodi fod cynghorau wedi dod yn fwy effeithiol wrth ddelio â digartrefedd. Mae llawer o'r gwaith ymyrraeth gynnar a wneir gan swyddogion lleol yn helpu i atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd digyffelyb yn y niferoedd sy'n gofyn am gymorth yn awr yn bygwth llethu'r system. Mae'r prinder tai ar hyn o bryd yn golygu nad yw'r farchnad dai yn symud rhyw lawer, yn ogystal â'r broblem ychwanegol nad yw pobl yn gallu cael y credyd fforddiadwy sydd ei angen arnynt i brynu cartref. Felly, os nad ydym yn mynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy yn awr, byddwn yn gweld mwy a mwy yn gofyn am gymorth mewn argyfwng.

Many people who end up homeless are there because of family breakdown, which we know we could avoid if earlier, cross-cutting support were more readily available. In particular, I am concerned to know how we are monitoring the profile of this growing homeless group and the help that those with a disability or long-term health problems are receiving when they become homeless.

Mae llawer o'r bobl sy'n mynd yn ddigartref yn y sefyllfa honno o ganlyniad i deuluoedd yn chwalu, a gwyddom y gallem osgoi hyn pe bai cymorth cynharach, trawsffiniol ar gael yn haws. Yn benodol, rwyf yn awyddus i wybod sut yr ydym yn monitro proffil y grŵp digartref cynyddol hwn, yn ogystal â'r cymorth a gaiff y rheini sydd ag anabledd neu broblemau iechyd hirdymor pan fyddant yn mynd yn ddigartref.

It has always been my view that the primary role of Government has been to assist people to pass safely through transitions in their lives, whether it be from leaving care to independence, leaving the armed forces for civilian life, leaving home, losing or leaving a wife, husband, child or parent, progressing from school to university, from drug or alcohol abuse to a drug-free life and from prison to freedom. During these transitions, a multi-agency approach in helping vulnerable people is crucial. That is why I am delighted by the mental health strategy, which will be a truly cross-departmental scheme. It is going to be a prime example of how housing, health and economic needs are inextricably linked. A multi-agency approach means ensuring housing services work with education and social services, so that we have collaboration between departments and organisations to ensure that people are able to cross a chasm between two points in their lives before they have reached a crisis point. In turn, this means that early intervention in housing problems is of the utmost importance. That means ensuring that we build more homes and offer a helping hand as soon as possible when people undergo life transitions.

Rwyf wedi credu erioed mai prif rôl y Llywodraeth yw cynorthwyo pobl i symud yn ddiogel drwy gyfnodau o newid yn eu bywyd, boed hynny'n golygu gadael gofal a symud ymlaen i fod yn annibynnol, gadael y lluoedd arfog a symud ymlaen i fywyd sifil, gadael cartref, colli neu adael gwraig, gŵr, plentyn neu riant, symud ymlaen o'r ysgol i brifysgol, symud ymlaen ar ôl camddefnyddio cyffuriau neu alcohol i fywyd rhydd o gyffuriau, a symud ymlaen o garchar i ryddid. Yn ystod y cyfnodau hyn o newid, mae'n hanfodol bod dull aml-asiantaeth ar gael i helpu pobl agored i niwed. Dyna pam fod y strategaeth iechyd meddwl yn fy mhlesio'n arw. Bydd hwn yn gynllun trawsadrannol go iawn. Bydd yn enghraifft wych sy'n dangos sut y mae anghenion tai, iechyd ac economaidd wedi'u cysylltu'n annatod. Mae dull aml-asiantaeth yn golygu sicrhau bod gwasanaethau tai yn gweithio gyda'r gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol, fel bod adrannau a sefydliadau yn cydweithio i sicrhau bod pobl yn gallu croesi'r bont rhwng dau gyfnod yn eu bywyd cyn cyrraedd pwynt o argyfwng. Yn ei dro, golyga hyn y bydd ymyrraeth gynnar mewn problemau tai yn bwysig iawn. Mae hynny'n golygu sicrhau ein bod yn adeiladu rhagor o gartrefi ac yn cynnig help llaw cyn gynted â phosibl pan fydd pobl yn wynebu cyfnod o newid yn eu bywyd.

Much of this work rests in the hands of local authorities, and a major concern that I have is the significant variation in practice between councils, both in terms of the services that they offer and the records that they keep. Indeed, particularly proactive authorities might work hard to raise awareness of the wide range of services on offer, but will subsequently have higher rates of homelessness. I hope that the Minister is looking at this carefully and challenging

Awdurdodau lleol fydd yn gorfod gwneud llawer o'r gwaith hwn, ac un pryder mawr sydd gennyf yw'r gwahaniaeth sylweddol mewn arferion rhwng cynghorau, o ran y gwasanaethau a gynigiant a'r cofnodion a gadwant. Yn wir, gallai awdurdodau sy'n arbennig o ragweithiol weithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o'r ystod eang o wasanaethau sydd ar gael, ond o ganlyniad bydd ganddynt gyfraddau uwch o ddigartrefedd. Gobeithiaf fod y Gweinidog yn edrych ar hyn yn ofalus

those authorities that could be doing more but might fear the consequences that arise from the increased demand for services. The most sobering fact is that, as a result of the housing benefit changes being railroaded through by the UK coalition Government, local authorities will be able to claim back much less in future to deal with the problems of housing people with complex problems. We need to start using and redistributing precious resources in a much more joined-up and intelligent way. Nearly 4,000 people in Wales aged between 25 and 34 will see their housing benefit drop by an average of a third, with some estimates putting the disadvantage at around £50 a week. Given that many people already make up a shortfall between the benefit and the cost of their rent, we can, no doubt, expect to see many more forced into homelessness, unless the situation changes.

ac yn herio'r awdurdodau hynny a allai wneud mwy ond sydd efallai'n poeni am y canlyniadau sy'n deillio o gynnydd mewn galw am wasanaethau. O ganlyniad i'r newidiadau i fudd-dal tai sy'n cael eu gwthio drwodd doed a ddêl gan Lywodraeth glymblaid y DU, y ffaith fwyaf sobor yw na fydd awdurdodau lleol yn gallu hawlio cymaint yn ôl yn y dyfodol i ddelio â phroblemau cartrefu pobl â phroblemau cymhleth. Mae angen inni ddechrau defnyddio ac ailddosbarthu adnoddau gwerthfawr mewn ffordd llawer mwy cydgysylltiedig a deallus. Bydd bron 4,000 o bobl yng Nghymru rhwng 25 a 34 oed yn colli traean o'u budd-dal tai ar gyfartaledd, gyda rhai amcangyfrifon yn rhagweld colled o tua £50 yr wythnos. O gofio bod llawer o bobl eisoes yn gorfod talu'r gwahaniaeth rhwng y budd-dal a chost eu rhent, heb os nac oni bai, oni fydd y sefyllfa'n yn newid, gallwn ddisgwyl gweld llawer mwy yn cael eu gorfodi i fod yn ddigartrefedd.

While we need to bring back more empty homes into use, local councils have to be supported to address the affordable housing shortage. In the current climate, young families are finding it increasingly difficult to get mortgages and to buy their own homes. As Jocelyn Davies has mentioned, the average age of a first-time buyer is now 37. We know that council house waiting lists are rising all the time and that private rental costs are set to soar. Currently, there are over 90,000 people on council and housing association waiting lists.

Er bod angen inni ddefnyddio rhagor o gartrefi gwag unwaith eto, rhaid i gynghorau lleol gael cymorth i fynd i'r afael â'r prinder tai fforddiadwy. Yn yr hinsawdd bresennol, mae teuluoedd ifanc yn ei chael yn fwyfwy anodd sicrhau morgeisi a phrynu eu cartref eu hunain. Fel y soniodd Jocelyn Davies, mae cyfartaledd oedran prynwr am y tro cyntaf erbyn hyn yn 37 oed. Gwyddom fod rhestrau aros am dai cyngor yn cynyddu drwy'r amser ac mae costau rhentu preifat yn saethu i fyny. Ar hyn o bryd, mae dros 90,000 o bobl ar restrau aros cynghorau a chymdeithasau tai.

It is really important that I say this to the Tories: try doing a Google news search and you will find a raft of stories of your councillors opposing Welsh Government efforts to have more ambitious targets for homes. In spite of that, I am excited by the enthusiasm and the agenda laid out by the Minister for housing, putting the interests and the experiences of the citizen at the heart of housing policy. Focusing on what help is needed at key transition points in life could lead to more effective service delivery in housing.

Mae'n bwysig iawn fy mod yn dweud hyn wrth y Torïaid: chwiliwch ar Google am newyddion a gwelwch lu o straeon am eich cynghorwyr yn gwrthwynebu ymdrechion Llywodraeth Cymru i gael targedau mwy uchelgeisiol ar gyfer cartrefi. Er gwaethaf hynny, mae'r brwdfrydedd a'r agenda a gyflwynwyd gan y Gweinidog tai yn fy nghyffroi, drwy roi buddiannau a phrofiadau'r dinesydd wrth wraidd y polisi tai. Gallai canolbwyntio ar y cymorth sydd ei angen ar gyfnodau allweddol o newid mewn bywyd arwain at gyflenwi gwasanaethau ym maes tai yn fwy effeithiol.

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** The Welsh

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Mae Llywodraeth Cymru yn

Government welcomes today’s debate. Housing is a vital issue that affects us all, and decent, affordable homes are essential to people’s ability to live in safe, strong and fair communities. This, and other challenges that face us, were set out, I hope comprehensively, in the paper that I published last December.

croesawu dadl heddiw. Mae tai yn fater hollbwysig sy'n effeithio ar bob un ohonom, ac mae tai gweddus, fforddiadwy yn hanfodol i allu pobl i fyw mewn cymunedau diogel, cadarn a theg. Nodwyd yr her hon, a'r heriau eraill sy'n ein hwynebu, yn gynhwysfawr rwyf yn gobeithio, yn y papur a gyhoeddais fis Rhagfyr diwethaf.

I spoke yesterday of the impact that the UK Government’s reforms to housing benefit and other benefits will have. Combine that with the chokehold on the economy through the Government’s austerity policies, and it is now more important than ever that we do all that we can here to meet the housing needs of people struggling to weather the perfect storm in housing brewed up by Whitehall.

Siaradais ddoe am yr effaith y bydd diwygiadau Llywodraeth y DU yn ei chael ar fudd-dal tai ac ar fudd-daliadau eraill. Cyfunwch hynny â'r wasgfa ar yr economi drwy bolisïau cynilo'r Llywodraeth, ac mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn gwneud ein gorau glas yma i ddiwallu anghenion tai pobl sy'n brwydro drwy'r storm berffaith ym maes tai a gynhyrchwyd gan Whitehall.

With regard to the motion, I appreciate what Peter Black is saying. However, it falls short on two counts. First, it does not reflect the positive action that we have already taken on a number of these matters. Secondly, it does not reflect the need for us to consider the merits of action in these areas, given that we need to consider priorities and that we have very limited resources. That is why we have moved an amendment for the Assembly’s consideration.

O ran y cynnig, rwyf yn gwerthfawrogi geiriau Peter Black. Fodd bynnag, mae'n ddiffygiol o safbwynt dau beth. Yn gyntaf, nid yw'n adlewyrchu'r camau cadarnhaol rydym eisoes wedi'u cymryd ar lawer o'r materion hyn. Yn ail, nid yw'n adlewyrchu'r angen inni ystyried rhinweddau gweithredu yn y meysydd hyn, o gofio bod angen inni bwyso a mesur y blaenoriaethau a’r ffaith mai cyfyngedig iawn yw’r adnoddau sydd gennym. Dyna pam ein bod wedi cyflwyno gwelliant i'w ystyried gan y Cynulliad.

We are well aware of the challenges facing first-time buyers and have developed a number of schemes to help. It is nice that the UK Government is catching up. This includes Homebuy and other shared-equity schemes. We have also developed Rent First, which can offer tenants the option to buy their property.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau a wynebir gan brynwyr tro cyntaf ac rydym wedi datblygu llawer o gynlluniau i helpu. Mae'n braf fod Llywodraeth y DU yn dal i fyny. Mae hyn yn cynnwys Cymorth Prynu a chynlluniau rhannu ecwiti eraill. Rydym hefyd wedi datblygu Rhent yn Gyntaf, sy'n gallu rhoi’r dewis i denantiaid brynu eu heiddo.

We will assess the UK Government’s NewBuy mortgage indemnity scheme, which allows qualifying buyers to access mortgage finance without the up-front requirement for the large deposits that we have all been concerned about. While that may help some people to get on to the housing ladder, it is my priority to ensure that we meet the housing needs of the most vulnerable in society. Therefore, we will need to give careful consideration to how funding for such schemes can contribute to our Welsh objectives. I am very willing to look at their

Byddwn yn asesu cynllun indemniad morgais NewBuy Llywodraeth y DU, sy'n caniatáu i brynwyr cymwys gael mynediad at gyllid morgais heb y gofyniad ymlaen llaw am flaendal mawr, sy'n rhywbeth y mae pob un ohonom wedi bod yn pryderu amdano. Er y gall hwnnw fod o gymorth i rai pobl brynu eu cartref cyntaf, fy mlaenoriaeth yw sicrhau ein bod yn diwallu anghenion tai'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Felly, bydd angen inni ystyried yn ofalus sut y gall cyllid ar gyfer cynlluniau o'r fath gyfrannu at ein hamcanion yng Nghymru. Rwyf yn barod

relevance and cost in a Welsh context. I realise that, while we are doing this, there is more than one way to achieve this leg up on to the housing ladder, many of which originated in Wales. There is no rush to mimic Whitehall on this, or any other, issue.

iawn i edrych ar ba mor berthnasol ydynt yng nghyd-destun Cymru a'u cost. Rwyf yn sylweddoli, tra byddwn yn gwneud hyn, bod mwy nag un ffordd o roi'r hwb hwn ar yr ysgol dai, ac mae llawer ohonynt yn tarddu o Gymru. Nid oes unrhyw frys i ddynwared Whitehall, nac unrhyw un arall, ar y mater hwn.

We already support a number of products to address the needs of first-time buyers. In 2010-11, £7 million was allocated in Wales to the Homebuy shared-equity scheme. Between 2009 and 2011, approximately 300 units were delivered by housing associations and local authorities in this way. Rent First, as I mentioned, also gives tenants the option to buy a property, and this Government is committed to the ambitious aim of creating a whole new housing sector—co-operative housing—that delivers, by its very nature, more affordable home ownership. Working across Government, we are seeking to identify other innovative sources of funding for social housing to help us meet the challenge of providing more affordable housing with less Government funding—a reality foisted on us, again, by Whitehall. I am keen to work with housing associations and others to identify a Welsh solution to this. This includes an evaluation of special purpose vehicles and the borrowing abilities of housing associations and local authorities. Last year, I launched the Welsh housing partnership, which is made up of four housing associations, the Principality Building Society and the Welsh Government as partners. This partnership has resulted in a £16 million project, which is delivering now 150 quality homes that people can afford.

Rydym eisoes yn cefnogi sawl cynnyrch i fynd i'r afael ag anghenion prynwyr tro cyntaf. Yn 2010-11, dyrannwyd £7 miliwn yng Nghymru i'r cynllun rhannu ecwiti Cymorth Prynu. Rhwng 2009 a 2011, darparwyd tua 300 o unedau gan gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yn y modd hwn. Mae Rhent yn Gyntaf, fel y soniais, hefyd yn rhoi cyfle i denantiaid brynu eiddo, ac mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i'r nod uchelgeisiol o greu sector tai o'r newydd—tai cydweithredol—sy'n darparu, yn ôl ei natur, ffordd fwy fforddiadwy o ddod yn berchen ar gartref. Drwy weithio ar draws y Llywodraeth, rydym yn ceisio canfod ffynonellau arloesol eraill o gyllid ar gyfer tai cymdeithasol i'n helpu i ymateb i'r her o ddarparu mwy o dai fforddiadwy gyda llai o gyllid gan y Llywodraeth—sy'n realiti a wthiwyd arnom unwaith eto gan Whitehall. Rwyf yn awyddus i weithio gyda chymdeithasau tai ac eraill i ganfod ateb Cymreig i hyn. Mae hyn yn cynnwys gwerthusiad o gyfryngau pwrpas arbennig a galluoedd benthyca cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol. Y llynedd, lansiais bartneriaeth tai Cymru, sy'n bartneriaeth rhwng pedair cymdeithas dai, Cymdeithas Adeiladu'r Principality a Llywodraeth Cymru. Mae'r bartneriaeth hon wedi arwain at brosiect gwerth £16 miliwn, sydd yn awr yn darparu 150 o gartrefi o ansawdd y gall pobl eu fforddio.

5.45 p.m.

Empty properties have been mentioned by several Members this afternoon, and they are a real problem in Wales. There are around 22,000 private properties currently empty in Wales, which is a scandalous waste of homes when they are so much needed. I recently launched the £5 million Houses to Homes initiative, which is ground-breaking stuff. It is again nice to see that Whitehall is catching up on this too. This Welsh Government

Mae sawl Aelod wedi sôn am eiddo gwag y prynhawn yma, ac maent yn broblem wirioneddol yng Nghymru. Mae rhyw 22,000 o eiddo preifat yn wag ar hyn o bryd yng Nghymru, sy'n wastraff gwarthus o gartrefi gan fod cymaint eu hangen. Yn ddiweddar, lansiais y cynllun gwerth £5 miliwn Troi Tai'n Gartrefi, sy'n torri tir newydd. Unwaith eto, mae'n braf gweld bod Whitehall yn dal i fyny ar hwn hefyd. Y cynllun hwn gan

initiative remains the first and only co-ordinated national scheme to tackle the issue of empty homes in any part of the UK. Targets will be set for progress on bringing empty homes back into use before the summer recess. That will give local authorities another means of encouraging owners of empty homes to bring them back into use for people who need housing. It will help to regenerate local communities that have suffered the blight of boarded-up properties. The scheme will be self-financing, as it will provide loans, not grants. Bids will be invited shortly.

Llywodraeth Cymru yw'r cyntaf o'i fath yn y DU a'r unig gynllun cenedlaethol cydgysylltiedig sy'n mynd i'r afael â chartrefi gwag. Cyn toriad yr haf, caiff targedau eu pennu i sicrhau cynnydd o ran defnyddio cartrefi gwag unwaith eto. Bydd hynny'n ffordd arall y gall awdurdodau lleol annog perchnogion cartrefi gwag i'w defnyddio nhw unwaith eto ar gyfer pobl sydd angen tai arnynt. Bydd yn helpu i adfywio cymunedau lleol sydd wedi dioddef malltod eiddo gydag estyll pren dros y ffenestri. Bydd y cynllun yn ariannu ei hun, oherwydd mai benthyciadau a roddir ac nid grantiau. Gwahoddir ceisiadau yn fuan.

Second homes are a more localised issue. A Welsh Local Government Association survey in 2011 suggested that there were over 23,000 second or holiday homes in Wales. Second homes can reduce the supply of affordable housing for local people. Some are in remote locations, far from shops and schools. Second homes can contribute to the tourist economy, although concentrations of them can potentially cause problems for local authorities in service provision.

Mae ail gartrefi yn fater mwy lleol. Mewn arolwg gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2011, awgrymwyd bod dros 23,000 o ail gartrefi neu gartrefi gwyliau yng Nghymru. Gall ail gartrefi leihau cyflenwad y tai fforddiadwy i bobl leol. Mae rhai mewn lleoliadau anghysbell, ymhell o siopau ac ysgolion. Gall ail gartrefi gyfrannu at yr economi twristiaeth, er y gall crynodiadau ohonynt achosi problemau i awdurdodau lleol o ran cyflenwi gwasanaethau.

The Welsh Government recognises the problems caused for local authorities by empty and second homes. We are therefore considering whether there would be any benefit in extending local authorities' discretionary powers to vary council tax rates for empty properties and second homes. I re-emphasise that I am as interested in the implications for empty properties in this regard as I am for second homes.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y problemau a achosir gan gartrefi gwag ac ail gartrefi i awdurdodau lleol. Felly, rydym yn ystyried a fyddai unrhyw fudd o ymestyn pwerau disgresiwn awdurdodau lleol i amrywio cyfraddau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo gwag ac ail gartrefi. Pwysleisiaf unwaith eto fod gennyf yr un faint o ddiddordeb yn y goblygiadau ar gyfer eiddo gwag yn y cyswllt hwn ag ar gyfer ail gartrefi.

As I mentioned in Plenary yesterday, it is widely accepted that the UK Government's Welfare Reform Act 2012 will fundamentally change people's lives, mainly for the wrong reasons and for the worse. In Plenary yesterday, I highlighted the financial and social impacts of the reforms for the most vulnerable in our society. We are working collaboratively to mitigate these reforms, but it is an enormous challenge. It has the potential to make it even more difficult to match affordable housing to the needs of local people.

Fel y soniais yn y Cyfarfod Llawn ddoe, derbynnir yn gyffredinol y bydd Deddf Diwygio Lles 2012 Llywodraeth y DU yn newid bywydau pobl yn llwyr, yn bennaf am y rhesymau anghywir ac er gwaeth. Yn y Cyfarfod Llawn ddoe, tynnais sylw at effeithiau ariannol a chymdeithasol y diwygiadau i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Rydym yn gweithio ar y cyd i liniaru'r diwygiadau hyn, ond mae'n her enfawr. Mae'n bosibl y bydd hyd yn oed yn fwy anodd i gyfateb tai fforddiadwy ag anghenion pobl leol.

I will now respond to the amendments that

Rwyf yn awr am ymateb i'r gwelliannau sydd

have been tabled. We support amendment 2 in the name of Jocelyn Davies. I agree that the reduction in capital funding from the UK Government has had and will have a significant impact on our ability to maintain funding on affordable housing schemes. We are looking to maximise resources and to identify new sources of funding, as I mentioned.

wedi'u cyflwyno. Cefnogwn welliant 2 yn enw Jocelyn Davies. Cytunaf fod y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf gan Lywodraeth y DU wedi cael ac y bydd yn cael effaith sylweddol ar ein gallu i gynnal y cyllid ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy. Fel y soniais, rydym yn ceisio gwneud y defnydd gorau o adnoddau a chanfod ffynonellau newydd o gyllid.

I support the broad thrust of amendment 3 in the name of William Graham. The comprehensive White Paper on housing, which I intend to publish in the spring, will set out our proposals for legislation in the Housing Bill. It will also set out an extensive programme of non-legislative action to tackle the immense challenges that we face in meeting people’s housing needs. That said, I must point out that it will go much further than a so-called ‘recovery strategy’, as mentioned by William Graham. It will lead to improvements across the whole housing system.

Cefnogaf hefyd fyrdwn cyffredinol gwelliant 3 yn enw William Graham. Bydd y Papur Gwyn cynhwysfawr ar dai, y bwriadaf ei gyhoeddi yn y gwanwyn, yn nodi ein cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y Bil Tai. Bydd hefyd yn nodi rhaglen helaeth o gamau gweithredu nad ydynt yn rhai deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau anferth sy'n ein hwynebu o ran diwallu anghenion tai pobl. Wedi dweud hynny, rhaid imi ddatgan y bydd yn mynd yn llawer pellach na'r hyn a elwir yn 'strategaeth adfer', fel y soniodd William Graham. Bydd yn arwain at welliannau ar draws y system dai gyfan.

I support amendment 4 in the name of Jocelyn Davies. I recognise the need for challenging performance indicators, and I intend, as I said, to issue a statement on targets for affordable housing before the summer recess.

Cefnogaf welliant 4 yn enw Jocelyn Davies. Rwyf yn cydnabod bod angen dangosyddion perfformiad heriol, a'm bwriad, fel y dywedais, yw cyhoeddi datganiad ar dargedau ar gyfer tai fforddiadwy cyn toriad yr haf.

To conclude, I am grateful to Peter Black for raising this vital subject for discussion today. I have explained the large number of actions that we are taking in these challenging times. I hope that Members will support the amendment put forward in the name of Jane Hutt.

I gloi, diolch i Peter Black am godi'r pwnc hollbwysig hwn i'w drafod heddiw. Rwyf wedi egluro'r camau gweithredu niferus rydym yn eu cymryd yn y cyfnod heriol hwn. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

**Peter Black:** I thank the Minister for his response. I recognise that action is being taken in a number of the areas which we have highlighted, and one of the purposes of bringing forward this debate was to try to galvanise the Government a bit more, and also to raise a number of other issues that we think that the Government needs to look at.

**Peter Black:** Diolch i’r Gweinidog am ei ateb. Rwyf yn cydnabod bod camau'n cael eu cymryd mewn llawer o'r meysydd rydym wedi tynnu sylw atynt, ac un o ddibenion cyflwyno'r ddadl hon oedd ceisio procio'r Llywodraeth i wneud ychydig yn rhagor, a hefyd i godi sawl mater arall y credwn fod angen i'r Llywodraeth eu hystyried.

To look at the amendments, which I neglected to do when I proposed the motion, we think that what the Government proposes in amendment 1 is much weaker than the motion and waters down what we are trying to do, and therefore we will not support it. On

O edrych ar y gwelliannau, ni wnes hynny pan gynigais y cynnig, credwn fod cynnig y Llywodraeth yng ngwelliant 1 yn llawer gwannach na'r cynnig ei hun ac mae'n glastwreiddio ein hymdrechion ni, felly ni fyddwn yn ei gefnogi. O ran gwelliant 2,

amendment 2, we agree with targets, but we cannot support a statement claiming that the last Government met its targets to increase the supply of affordable homes by 6,500, when it did not. We are happy to support amendment 3. We think that engagement with external funders and providers is essential. On amendment 4, although we agree that the reduction in capital funding is a problem, it is slightly less than the reduction planned by Alistair Darling, and, more to the point, I regret that this is being used as an excuse when there are plenty of other underutilised mechanisms available, some of which have already been referred to by Leanne Wood. The Government needs to move forward with the bond scheme, which is being promoted by various housing providers in Wales, and to try to get that off the ground. That would make a huge difference to the resources available to build new affordable homes in particular.

rydym yn cytuno gyda thargedau, ond ni allwn gefnogi datganiad sy'n honni bod y Llywodraeth flaenorol wedi cyrraedd ei thargedau i gyflenwi 6,500 yn rhagor o dai fforddiadwy, pan na wnaeth hynny. Rydym yn fodlon cefnogi gwelliant 3. Credwn fod ymgysylltu â chyllidwyr a darparwyr allanol yn hanfodol. O ran gwelliant 4, er y cytunwn fod y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf yn broblem, mae ychydig yn llai na'r gostyngiad a fwriadwyd gan Alistair Darling, ac, mewn gwirionedd, gresynaf fod hyn yn cael ei ddefnyddio fel esgus pan fo digon o fecanweithiau eraill ar gael nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn, ac mae Leanne Wood wedi cyfeirio at rai ohonynt eisoes. Mae angen i'r Llywodraeth fwrw ymlaen â’r cynllun bond, sy'n cael ei hybu gan amrywiol ddarparwyr tai yng Nghymru, a cheisio rhoi hwnnw ar waith. Byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth enfawr i'r adnoddau sydd ar gael i adeiladu cartrefi fforddiadwy newydd yn benodol.

A number of Members referred to the housing benefit change. I do not intend to revisit the debate we had yesterday, but I will repeat what I said previously, namely that there are transitional provisions in place and that we have yet to see the impact those changes will have. We will see how that works out.

Cyfeiriodd sawl Aelod at y newid mewn budd-dal tai. Ni fwriadaf ailgodi'r ddadl a gawsom ddoe, ond rwyf am ailadrodd yr hyn a ddywedais yn flaenorol, sef bod darpariaethau trosiannol ar waith ac nid ydym wedi gweld eto pa effaith y caiff y newidiadau hynny. Byddwn yn aros i weld canlyniad hynny.

One consequence of the lower levels of housebuilding is that section 16 agreements are not as available as they were before. Therefore, the important tool of requiring new affordable homes through planning has been taken from the hands of Government and local authorities, and that is a problem. That is another reason why we need to address the issue to get new development here. Jenny Rathbone said that raising a deposit is difficult in the current climate, and I agree. She underlined the need for a deposit guarantee scheme in saying that. She referred to homebuy, which the Minister also mentioned. However, I noted that he did not say how much money is available for that in the current financial year or subsequent financial years. I think that it is being reduced. Of course, Rent First will supply only 150 homes. So, clearly, those mechanisms are important, but they have diminished in importance in terms of the

Un canlyniad y lefelau is o adeiladu tai yw nad yw’r cytundebau adran 16 ar gael mor rhwydd ag yr oeddent yn y gorffennol. Felly, mae'r cyfrwng pwysig sy'n mynnu bod tai fforddiadwy newydd yn cael eu darparu drwy'r system gynllunio wedi'i dynnu oddi ar y Llywodraeth ac awdurdodau lleol, ac mae honno'n broblem. Dyna reswm arall pam mae angen inni fynd i'r afael â'r mater i gael datblygiad newydd yma. Dywedodd Jenny Rathbone fod cynilo blaendal yn anodd yn yr hinsawdd bresennol, ac rwyf yn cytuno. Wrth ddweud hynny, tanlinellodd yr angen i gael cynllun gwarantu blaendal. Cyfeiriodd at Cymorth Prynu, a soniodd y Gweinidog am hyn hefyd. Fodd bynnag, sylwais na ddywedodd faint o arian sydd ar gael ar gyfer hynny yn y flwyddyn ariannol bresennol na'r blynyddoedd ariannol nesaf. Credaf ei fod yn cael ei leihau. Wrth gwrs, dim ond 150 o gartrefi a gyflenwir drwy Rhent yn Gyntaf. Felly, yn amlwg, mae'r mecanweithiau

Government's priorities in recent times.

hynny'n bwysig, ond mae eu pwysigrwydd yn lleihau o safbwynt blaenoriaethau'r Llywodraeth yn ddiweddar.

The housing ladder does not refer to rising prices, but to people's aspirations to improve the size and value of their properties, moving from starter homes to larger family homes, for example. In response to Jocelyn Davies, I have to say that the deposit guarantee scheme is not a magic bullet. However, it is a small help in a difficult market. We are not arguing that we should adapt the UK scheme, but that we should look at the proposals and at the proposals of councils such as Conwy and Powys among others to see what is workable and what can be delivered across Wales. The Council of Mortgage Lenders gave evidence to the Communities, Equality and Local Government Committee inquiry into affordable homes and was supportive of that scheme. It was certainly supportive of the UK scheme, and I am sure that it would support a Wales-wide scheme as well.

Nid yw'r ysgol dai yn cyfeirio at brisiau'n codi, ond yn hytrach mae'n ymwneud â dyheadau pobl i gynyddu maint a gwerth eu heiddo, gan symud o gartrefi cyntaf i gartrefi mwy i deulu, er enghraifft. Wrth ymateb i Jocelyn Davies, rhaid imi ddweud nad yw'r cynllun gwarantu blaendal yn fwled hud. Fodd bynnag, mae'n cynnig ychydig o gymorth mewn marchnad anodd. Nid ydym yn dadlau y dylem addasu cynllun y DU, ond dylem edrych ar y cynigion ac ar gynigion cynghorau megis Conwy a Phowys ymhlith eraill i weld beth sy'n ymarferol a beth y gellir ei gyflwyno ledled Cymru. Rhoddwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gan y Cyngor Benthycwyr Morgeisi fel rhan o'r ymchwiliad i gartrefi fforddiadwy ac roedd yn gefnogol i'r cynllun hwnnw. Yn sicr, roedd yn cefnogi cynllun y DU, ac rwyf yn siŵr y byddai'n cefnogi cynllun ar gyfer Cymru gyfan hefyd.

There is no evidence that it would lead to negative equity, because you are buying the property as it is for sale at the moment, or to high interest rates. In fact, the Council of Mortgage Lenders identified a number of lenders that are prepared to take part in such a scheme. That is not happening in the Welsh council areas that are pursuing the scheme, and nor do I believe that this is a developers' charter. It does not apply only to new homes, but also to existing houses. In any case, the one thing that we need in Wales at the moment is builders to develop new homes. That is clear from the figures we presented as part of this debate, and it is also clear with regard to the need to utilise some of the investment they are putting into new homes to put right the shortage of affordable housing and make use once more of planning agreements as part of that provision.

Nid oes dim tystiolaeth y byddai'n arwain at ecwiti negyddol, gan eich bod yn prynu'r eiddo fel y mae ar werth ar y pryd, nac at gyfraddau llog uchel. Yn wir, mae'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi yn nodi sawl darparwr benthyciadau sy'n barod i gymryd rhan mewn cynllun o'r fath. Nid yw hynny'n digwydd yn ardaloedd y cynghorau yng Nghymru sy'n dilyn trywydd y cynllun. Ni chredaf ychwaith fod hwn yn siarter i ddatblygwyr. Nid cartrefi newydd yn unig sy'n gymwys, ond hefyd tai sydd eisoes wedi'u hadeiladu. Beth bynnag, yr un peth sydd ei angen arnom yng Nghymru ar hyn o bryd yw adeiladwyr i ddatblygu cartrefi newydd. Mae hynny'n amlwg o'r ffigyrau y gwnaethom eu cyflwyno fel rhan o'r ddadl hon, ac mae hefyd yn glir bod angen defnyddio rhywfaint o'u buddsoddiad mewn cartrefi newydd i wneud iawn am y prinder tai fforddiadwy a defnyddio cytundebau cynllunio unwaith eto fel rhan o'r ddarpariaeth honno.

This has been a very helpful and useful debate. It has been largely constructive, and I certainly hope that we have been able to focus on some of the challenges the Government faces and some of the solutions

Mae hon wedi bod yn ddadl fuddiol a defnyddiol iawn. Bu'n ddadl adeiladol ar y cyfan, a gobeithiaf yn fawr ein bod wedi gallu canolbwyntio ar rai o'r heriau sy'n wynebu'r Llywodraeth a rhai o'r atebion y

we think the Welsh Government should be considering. I hope that the Assembly is able to support the motion as tabled and that, as a consequence of this and other motions and discussions we have had, we will be able to focus much more on developing more affordable housing and dealing with the problem of an under-supply of housing, which is causing so many problems for so many people around Wales.

credwn y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried. Gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn cefnogi'r cynnig fel y'i cyflwynwyd ac, o ganlyniad i hwn a'r cynigion a'r trafodaethau eraill rydym wedi'u cael, byddwn yn gallu canolbwyntio llawer mwy ar ddatblygu rhagor o dai fforddiadwy a delio â'r broblem o brinder cyflenwad tai, sy'n achosi cymaint o broblemau i gynifer o bobl ledled Cymru.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that the motion be agreed without amendment. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

Before we proceed with the votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Cyn inni fwrw ymlaen â’r pleidleisio, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM4937: O blaid 12, Ymatal 0, Yn erbyn 44.*
*Motion NDM4937: For 12, Abstain 0, Against 44.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw

Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4937: O blaid 29, Ymatal 4, Yn erbyn 23.*
*Amendment 1 to NDM4937: For 29, Abstain 4, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.*
*Amendments 2 and 3 deselected.*

Cynnig NDM4937 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn credu mai busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn economi Cymru;*

*2. Yn nodi'r rhan effeithiol y gall rhyddhad ardrethi busnes ei chwarae i ysgogi economïau lleol a gwella cyfleoedd cyflogaeth; a*

*3. Yn nodi bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygu Ardrethi Busnes yn ystyried materion sy'n ymwneud â pholisi Ardrethi Busnes yng Nghymru. Bydd y Grŵp yn rhoi adroddiad yn fuan.*

Motion NDM4937 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Believes that SMEs are the lifeblood of the Welsh economy;*

*2. Notes the role effective business rate relief can play in stimulating local economies and enhancing employment opportunities; and*

*3. Notes that matters relating to Business Rates policy in Wales are being considered by the Business Rates Review Task and Finish Group, which will be reporting shortly.*

*Cynnig NDM4937 fel y'i diwygiwyd: O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 12.*
*Motion NDM4937 as amended: For 44, Abstain 0, Against 12.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Parrott, Eluned
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig NDM4937 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4937 as amended agreed.*

*Cynnig NDM4938: O blaid 40, Ymatal 0, Yn erbyn 16.*
*Motion NDM4938: For 40, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

*Cynnig NDM4939: O blaid 4, Ymatal 0, Yn erbyn 52.*
*Motion NDM4939: For 4, Abstain 0, Against 52.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant i NDM4939: O blaid 41, Ymatal 11, Yn erbyn 4.*
*Amendment to NDM4939: For 41, Abstain 11, Against 4.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.*
*Amendments 2 and 3 deselected.*

*Gwelliant 4 i NDM4939: O blaid 40, Ymatal 12, Yn erbyn 4.*
*Amendment 4 to NDM4939: For 40, Abstain 12, Against 4.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM4939 fel y'i diwygiwyd:

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi:*

*a) mae Llywodraeth Cymru yn ystyried rhinweddau cynllun gwarant indemniad morgais er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf i brynu eu cartref cyntaf;*

*b) mae Llywodraeth Cymru yn ceisio pennu ffynonellau eraill o gyllid er mwyn ariannu'r gwaith o adeiladu cartrefi mwy fforddiadwy;*

*c) bydd y fenter newydd genedlaethol ynghylch cartrefi gwag 'Troi Tai yn Gartrefi' yn cynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o'u pwerau presennol i fynd i'r afael â phroblem cartrefi gwag;*

*d) bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ehangu pwerau disgresiwn awdurdodau lleol i amrywio cyfraddau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo gwag ac ail gartrefi yn eu hardaloedd; ac*

*e) yr heriau a amlinellir yn y papur diweddar, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, a'r angen am gytundeb barn ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer bodloni anghenion tai pobl.*

*2. Yn credu y bydd Diwygiadau Lles arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael effaith uniongyrchol ar dai fforddiadwy, yn arbennig i'r rhai ar incwm isel. Tynnwyd sylw at hyn mewn ymchwil diweddar gan y Sefydliad Tai Siartredig.*

*3. Yn nodi bod y gostyngiad yn y cyllid cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn lleihau ei gallu i gyllido cynlluniau tai fforddiadwy yn sylweddol.*

Motion NDM4939 as amended:

*The National Assembly for Wales:*

*1. Notes:*

*a) the Welsh Government is considering the merits of a mortgage indemnity guarantee scheme to help first time buyers onto the housing ladder;*

*b) the Welsh Government is seeking to identify alternative funding sources to finance the building of more affordable homes;*

*c) the new national empty homes initiative 'Houses into Homes' will assist local authorities in using their existing powers to maximum effect to tackle the problem of empty homes;*

*d) the Welsh Government will consider extending local authorities' discretionary powers to vary council tax rates for empty properties and second homes in their areas; and*

*e). the challenges set out in the recent paper, published by the Minister for Housing, Regeneration and Heritage, and the need for a consensus on the priorities to meet people's housing needs.*

*2. Believes that the UK Government's proposed Welfare Reforms will have a direct impact on affordable housing, especially for those on low incomes, as highlighted in recent research by the Chartered Institute of Housing.*

*3. Notes that the reduction in capital funding available to the Welsh Government significantly reduces its ability to fund affordable housing schemes.*

*Cynnig NDM4939 fel y'i diwygiwyd: O blaid 40, Ymatal 0, Yn erbyn 16.*
*Motion NDM4939 as amended: For 40, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig NDM4939 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4939 as amended agreed.*

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.28 p.m.*
*The meeting ended at 6.28 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

## Dadl Fer
## Short Debate

### Sut y Dylid Ariannu Cymru?
### How Should Wales be Funded?

**Mike Hedges:** I have allowed a minute each of this debate to Mark Drakeford, Peter Black and Simon Thomas. I would first like to talk about capital in Wales. Wales is treated just as another Westminster department by the Treasury. The smallest councils in Wales can borrow prudentially, be they Merthyr, Blaenau Gwent, Conwy or Ynys Môn. They limits are set locally, as long as it is agreed that it is accepted by the local council’s finance officer and stays within the protocol. It is based on an ability to repay over a period of time, normally 30 years. It is a decision taken by the council locally, based on its financial position. This replaces the old supplementary credit approvals that local authorities used to have and allows for a local decision based on the financial position and priorities set by the local councillors. The National Assembly cannot borrow directly. There is some residual ability arising from when the Welsh Development Agency was merged with the Welsh Government, but which the Treasury has currently determined should not provide any net benefit. If the Welsh Government were to borrow using the former WDA’s powers, the block grant would be cut by exactly the same amount. This is a nonsensical position, I feel.

**Mike Hedges:** Rwyf wedi caniatáu munud yr un o'r ddadl hon i Mark Drakeford, Peter Black a Simon Thomas. Yn gyntaf, hoffwn siarad am gyfalaf yng Nghymru. Mae Cymru yn cael ei thrin fel adran arall o San Steffan gan y Trysorlys. Gall y cynghorau lleiaf yng Nghymru fenthyca'n ddarbodus, boed hwy yn gyngor Merthyr, Blaenau Gwent, Conwy neu Ynys Môn. Pennir eu terfynau yn lleol, ar yr amod bod cytundeb y caiff hyn ei dderbyn gan swyddog cyllid y cyngor lleol a'i fod yn cadw o fewn y protocol. Mae'n seiliedig ar y gallu i ad-dalu dros gyfnod o amser, 30 mlynedd fel arfer. Mae'n benderfyniad a wneir gan y cyngor lleol, yn seiliedig ar ei sefyllfa ariannol. Mae hyn yn disodli'r hen gymeradwyaethau credyd atodol yr arferai'r awdurdodau lleol eu cael ac mae’n caniatáu ar gyfer penderfyniad lleol ar sail y sefyllfa ariannol a'r blaenoriaethau a bennir gan y cynghorwyr lleol. Ni all y Cynulliad Cenedlaethol fenthyca'n uniongyrchol. Mae rhywfaint o allu ar ôl yn dilyn uno Awdurdod Datblygu Cymru â Llywodraeth Cymru, ond mae'r Trysorlys wedi penderfynu ar hyn o bryd na ddylai hyn roi unrhyw fudd net. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn benthyca gan ddefnyddio pwerau'r hen Awdurdod Datblygu Cymru, byddai'r grant bloc yn cael ei dorri yn union yr un fath. Mae hon yn

sefyllfa hurt, yn fy marn i.

I am sure that I speak for all the parties in the National Assembly when I say that the Welsh Government should have at least the same powers as local authorities and other devolved nations to borrow, that is, the ability to undertake prudential borrowing. Why do we need borrowing powers? We need them for the same reason as local authorities do: to meet the needs of our area, Wales, and to improve our infrastructure.

Rwyf yn siŵr fy mod yn siarad dros bob plaid yn y Cynulliad Cenedlaethol wrth ddweud y dylai Llywodraeth Cymru o leiaf gael yr un pwerau i fenthyca â'r awdurdodau lleol a gwledydd datganoledig eraill, hynny yw, y gallu i fenthyca'n ddarbodus. Pam mae angen pwerau benthyca arnom? Mae eu hangen arnom am yr un rheswm ag y mae eu hangen ar awdurdodau lleol: i ddiwallu anghenion ein hardal, Cymru, ac i wella ein seilwaith.

From whom should we borrow? The Public Works Loan Board would be the easiest source of borrowing. It is used by councils as the lender of first choice and it has a fixed rate and a fixed duration for its loans. On the other options, there are no legal constraints on local authorities raising bonds, but it has not been encouraged by Government since 1980s and I have a feeling that it would not encourage us to do so either. However, an important precedent was set when the Treasury authorised Transport for London, itself a local authority in legal terms, to issue £600 million-worth of bonds as part of its borrowing to improve transport infrastructure. These bonds were snapped up by big investors. Negotiable yearling bonds can be issued. The danger with issuing bonds is that they are usually for a much shorter period than the borrowing needs and, as we have discovered, a bond market can be awfully volatile. Entering at this time with no record of repayment could and probably would give rise to very high rates.

Oddi wrth bwy y dylem fenthyca? Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus fyddai'r ffynhonnell fenthyca hawsaf. Mae'n cael ei ddefnyddio gan gynghorau fel y benthyciwr cyntaf o’u dewis ac mae’n cynnig cyfradd sefydlog a chyfnod penodedig ar gyfer ei fenthyciadau. Ynghylch yr opsiynau eraill, nid oes dim cyfyngiadau cyfreithiol ar awdurdodau lleol sy'n codi bondiau, ond nid yw'r Llywodraeth wedi annog hyn ers 1980au ac mae gennyf deimlad na fyddai'n ein hannog i wneud hynny ychwaith. Fodd bynnag, cafodd cynsail pwysig ei osod pan awdurdododd y Trysorlys Transport for London, sy'n awdurdod lleol ei hun mewn termau cyfreithiol, i roi gwerth £600 miliwn o fondiau fel rhan o'i rôl fenthyca i wella seilwaith trafnidiaeth. Bachodd y buddsoddwyr mawr ar y bondiau hyn yn gyflym. Mae modd rhoi bondiau blwydd y gellir eu negodi. Y perygl wrth roi bondiau yw eu bod fel arfer am gyfnod llawer byrrach na'r anghenion benthyca ac, fel rydym wedi'i weld, gall marchnad bondiau fod yn ansefydlog iawn. Gallai a byddai ymuno ar yr adeg hon heb ddim record o ad-dalu, fwy na thebyg, yn arwain at gyfraddau uchel iawn.

While banks are a theoretical option, they would be expensive and subject to the fluctuations of interest rates and, again, no background of paying back might well cause problems. The European Investment Bank may finance a maximum of 50% of the total cost of any project. Individual loans are available to promoters in both the public and private sectors, including banks. However, we would need to ensure that the borrowing and the repayment were set in pounds. We would not want to engage in some form of currency speculation of the pound against the

Er bod banciau yn ddewis damcaniaethol, byddent yn ddrud ac yn agored i amrywiadau yn y cyfraddau llog ac, unwaith eto, gallai dim cefndir o dalu yn ôl achosi problemau. Gall Banc Buddsoddi Ewrop ariannu uchafswm o 50 y cant o gyfanswm cost unrhyw brosiect. Mae benthyciadau unigol ar gael i hyrwyddwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan gynnwys banciau. Fodd bynnag, byddai angen inni sicrhau bod y benthyca a'r ad-dalu mewn punnoedd. Ni fyddem am gymryd rhan mewn rhyw fath o ddyfalu gwerth y bunt yn erbyn yr ewro, a

euro, which could end up with us paying substantially more back than we intended and needing another means of borrowing to use as capital support. We could borrow from other public bodies. The City and County of Swansea Council has £88 million invested, including loans to other authorities.

allai olygu yn y pen draw ein bod ni'n talu llawer mwy yn ôl nag yr oeddem yn ei fwriadu ac yn gorfod chwilio am ffordd arall o fenthyca i'w defnyddio fel cymorth cyfalaf. Gallem fenthyca gan gyrff cyhoeddus eraill. Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi buddsoddi £88 miliwn, gan gynnwys benthyciadau i awdurdodau eraill.

To judge the merits of each, we have to ask what the cost of borrowing is. If we were allowed access to the Public Works Loan Board, it would give us certainty about how much we would have to pay back over any period of time and it has been found to be the cheapest way of doing it. That is what I would urge, for us to try to get access to that, as it is the cheapest way of doing it. Bonds always remind me of Greece and how the bond market can react and do tremendous damage to anyone who is in it. It is easy to borrow bonds at 4%, but when they hit 10%, all of a sudden, you are in huge financial trouble. Local authorities and the European Investment Bank need further investigation, and other means can be investigated.

Er mwyn ystyried rhinweddau pob un, mae'n rhaid inni ofyn beth yw cost benthyca. Pe byddem yn cael mynediad at y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, byddai'n rhoi sicrwydd inni ynghylch faint y byddai'n rhaid inni ei dalu'n ôl dros unrhyw gyfnod o amser a gwelwyd mai dyma'r ffordd rataf o wneud hynny. Dyna beth fyddwn i'n ei annog, inni geisio cael mynediad at hynny, gan mai dyma'r ffordd rataf o wneud hynny. Mae bondiau yn fy atgoffa bob amser o wlad Groeg a sut y gall y farchnad bondiau adweithio a gwneud difrod mawr i unrhyw un sydd ynddi. Mae'n hawdd benthyca bondiau ar 4 y cant, ond pan fyddant fwyaf sydyn yn 10 y cant, rydych mewn trafferthion ariannol enfawr. Mae angen ymchwiliad ymhellach ar awdurdodau lleol a Banc Buddsoddi Ewrop, a gellir ymchwilio i ddulliau eraill.

How much is the cost of borrowing? It needs to be affordable; that is prudential borrowing. It will not solve all our capital problems, which have been caused by the substantial cutback that is taking place. However, it is a tool that should be available to the Minister for finance. If I, when I was chair and then cabinet member for finance at Swansea council, had the ability to engage in prudential borrowing, it is ridiculous that the Assembly’s Minister for finance does not have exactly the same powers as I was able to exercise. However, to quote a former Chancellor of the Exchequer, prudence is needed in borrowing. What is borrowed must be paid back. It will not solve all our problems. There is talk of Scotland being allowed to borrow up to 5% of its revenue stream, which will probably be about right.

Beth yw cost benthyca? Mae angen i hyn fod yn fforddiadwy; hynny yw benthyca darbodus. Ni fydd yn datrys pob un o'n problemau cyfalaf, a achoswyd gan y toriadau sylweddol sy'n digwydd. Ond, mae'n arf a ddylai fod ar gael i'r Gweinidog Cyllid. Os oedd gennyf i, pan oeddwn yn gadeirydd ac yna’n aelod ar gabinet cyllid cyngor Abertawe, y gallu i fenthyca'n ddarbodus, mae'n hurt nad oes gan Weinidog y Cynulliad dros Gyllid yr union bwerau ag yr oedd gennyf innau i'w harfer. Fodd bynnag, i ddyfynnu cyn Ganghellor y Trysorlys, mae angen bod yn ddarbodus wrth fenthyca. Rhaid talu’n ôl yr hyn a fenthycir. Ni fydd yn datrys pob un o'n problemau. Mae sôn y bydd yr Alban yn cael yr hawl i fenthyca hyd at 5 y cant o'i ffrwd refeniw, a bydd hynny yn eithaf agos ati, fwy na thebyg.

On revenue, the current system gives certainty of income. We can knock it and say that we want other things, but there is certainty of income. On the rules for devolving tax, we talk about whether we should have this one or that one, but I think

O ran refeniw, mae'r system bresennol yn rhoi sicrwydd o incwm. Gallwn feirniadu hyn a dweud bod arnom eisiau pethau eraill, ond mae'n rhoi sicrwydd o incwm. O ran y rheolau ar ddatganoli treth, rydym yn trafod a ddylem gael yr un yma neu'r un arall, ond

that we need a set of rules, like we had when we decided not to enter the euro, thankfully. It must not be easily avoidable, by moving or using a different address; not be easily hidden; not be affected by English tax rates; and not be affected by the Azores judgment; but it must be reliable. However, the thing that we really and desperately need in any major taxation change is reliability of income. Why do local authorities have council tax? It is because houses are very difficult to hide, and it is almost impossible to move them, so that tax meets all the above criteria. If major revenue-raising taxes are devolved, we would need to have a cash reserve, and we would need the facility to borrow for a revenue facility.

credaf fod angen set o reolau arnom, fel roedd gennym pan wnaethom benderfynu peidio ag ymuno â'r ewro, diolch byth. Rhaid iddi beidio â bod yn hawdd ei hosgoi, drwy symud neu drwy ddefnyddio cyfeiriad gwahanol; rhaid iddi beidio â bod yn hawdd ei chuddio; rhaid i gyfraddau treth Lloegr beidio ag effeithio arni; a rhaid i ddyfarniad yr Azores beidio ag effeithio arni; ond rhaid iddi fod yn ddibynadwy. Fodd bynnag, yr hyn y mae gwir a thaer ei angen arnom mewn unrhyw newid o bwys mewn trethiant yw dibynadwyedd incwm. Pam mae gan awdurdodau lleol y dreth gyngor? Y rheswm yw ei bod yn anodd iawn cuddio tai, ac mae bron yn amhosibl eu symud, felly mae'r dreth honno yn bodloni'r holl feini prawf uchod. Os caiff trethi sy'n codi refeniw mawr eu datganoli, byddai angen inni gael arian wrth gefn, a byddai angen y cyfleuster arnom i fenthyca ar gyfer cyfleuster refeniw.

I agree with the Holtham commission that minor taxes, such as stamp duty, land tax, landfill tax, the agricultural levy and air passenger duty, which are aligned with existing responsibilities, ought to be devolved. Stamp duty, land tax, landfill tax and the agricultural levy meet all the criteria. While air passenger duty will be affected by the level of that tax in England to a certain extent, it raises such a small amount of money—£10 million in 2007-08—that it is not at risk of variable income.

Rwyf yn cytuno â chomisiwn Holtham y dylid datganoli mân drethi, fel treth stamp, treth tir, treth tirlenwi, yr ardoll amaethyddol a threth teithwyr awyr, sy'n gydnaws â chyfrifoldebau presennol. Mae treth stamp, treth tir, treth tirlenwi a'r ardoll amaethyddol yn bodloni'r holl feini prawf. Er yr effeithir i ryw raddau ar y dreth teithwyr awyr gan lefel y dreth honno yn Lloegr, mae'n codi swm mor fach o arian—£10 miliwn yn 2007-08—nad yw mewn perygl o incwm amrywiol.

New taxes could be brought in, such as a land tax and a mansion tax. If we were to take a referendum to the people of Wales asking for tax-varying powers or tax-raising powers, and we used the words ‘new taxes’, I can guarantee that the people of Wales would say ‘no’. However, we need to talk about it as an option for raising money. Things that cannot be moved are really important, as are things that are very difficult to avoid.

Gellid cyflwyno trethi newydd fel treth tir a threth plastai. Pe byddem yn cyflwyno refferendwm i bobl Cymru yn gofyn am bwerau i amrywio trethi neu bwerau i godi trethi, ac yn defnyddio'r geiriau ‘trethi newydd’, gallaf eich sicrhau y byddai pobl Cymru yn dweud ‘na’. Fodd bynnag, mae angen inni drafod hyn fel opsiwn ar gyfer codi arian. Mae pethau na ellir eu symud yn bwysig iawn, fel y mae pethau sy'n anodd iawn eu hosgoi.

We would need a financial competence Order. There is a whole range of taxes that would not be suitable for devolution. I was going to read them out, but I do not dislike the people here enough to do so. We need to realise that there are many, such as excise duties, betting and gaming taxes, and the climate change levy, that really are part of the

Byddai angen Gorchymyn cymhwysedd ariannol arnom. Ceir ystod eang o drethi na fyddai'n addas ar gyfer eu datganoli. Roeddwn yn mynd i'w darllen yn uchel, ond mae gennyf fwy o feddwl na hynny o’r bobl sydd yma. Mae angen inni sylweddoli bod llawer, fel tollau cartref, trethi betio a hapchwarae, a'r ardoll newid yn yr hinsawdd,

British taxation system.

That leaves us with the two that we really are talking about: income tax and corporation tax. With income tax, if you have read the Scotland Act 1998, you will see that they had huge difficulty defining what a Scottish taxpayer is, and that is in a place where the proportion of the population that lives on the border or works either side of the border is relatively small. It fails three of the tests, as there is no certainty of income with income tax, because it depends on the economy. In south-east Wales and in north-east Wales, there are an awful lot of people who live on one side of the border and work on the other, and there are people who could move home to either side of the border. It would create all sorts of difficulties in the area of income tax. It would certainly need a great deal of thought to work out how you would start defining Welsh taxpayers.

On corporation tax, the Azores judgment really does play a major part. The Government of the autonomous region of the Azores adopted rules that included a reduction in the rates of national Portuguese tax and company revenues, which is the equivalent of our corporation tax. The reduction was to apply only to the Azores, and it was introduced to get economic output in the region to overcome the huge disadvantages that the Azores have from their location on the periphery. When the European Commission initiated a formal investigation, it concluded that the measure constituted selective aid and that that aid was incompatible with the treaty established by the European Commission. The case was considered by the European Court of Justice, which also ruled that it was ineligible. I am fairly certain that we would have exactly the same ruling if we tried to vary it. It really is important. If we did change the rate and dropped it 2% or 3%, what would happen? The English regions would be shouting and screaming that they ought to be able to do the same, and there would be at a race down to 0%. The only thing is, we need the tax raised to run Wales. We need it to provide hospitals, education, schools, universities and all the other things that we fund.

sydd wir yn rhan o system drethiant Prydain.

Mae hynny'n ein gadael gyda'r ddwy yr ydym yn sôn amdanynt go iawn: treth incwm a threth gorfforaeth. Gyda threth incwm, os ydych wedi darllen Deddf yr Alban 1998, byddwch yn gweld eu bod wedi cael anhawster mawr wrth ddiffinio beth yw trethdalwr yn yr Alban, ac mae hynny mewn man lle mai cyfran gymharol fach o’r boblogaeth sy'n byw ar y ffin neu'n gweithio naill ochr i'r ffin. Mae'n methu tri o'r profion, gan nad oes sicrwydd o incwm â threth incwm, gan ei fod yn dibynnu ar yr economi. Yn ne-ddwyrain Cymru ac yng ngogledd-ddwyrain Cymru, mae llawer iawn o bobl sy'n byw ar un ochr i'r ffin ac yn gweithio ar yr ochr arall, ac mae pobl a allai symud tŷ i naill ochr i'r ffin. Byddai'n creu pob math o anawsterau o ran y dreth incwm. Yn sicr byddai angen meddwl cryn dipyn sut y byddech yn dechrau diffinio trethdalwyr Cymru.

O ran treth gorfforaeth, mae dyfarniad yr Azores yn wirioneddol chwarae rhan bwysig. Gwnaeth Llywodraeth rhanbarth hunanlywodraethol yr Azores fabwysiadu rheolau a oedd yn cynnwys gostyngiad yng nghyfraddau treth genedlaethol Portiwgal a refeniw cwmni, sy'n cyfateb i'n treth gorfforaeth. Dim ond i'r Azores roedd y gostyngiad i fod yn gymwys, a chafodd ei gyflwyno i gael allbwn economaidd yn y rhanbarth er mwyn goresgyn yr anfanteision enfawr sydd gan yr Azores oherwydd eu bod ar y cyrion. Pan gychwynnodd y Comisiwn Ewropeaidd ymchwiliad ffurfiol, daeth i'r casgliad bod y mesur yn golygu cymorth dewisol a bod y cymorth hwnnw yn anghydnaws â'r cytundeb a sefydlwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Cafodd yr achos ei ystyried gan Lys Cyfiawnder Ewrop, a ddyfarnodd hefyd ei fod yn anghymwys. Rwyf yn eithaf sicr y byddem yn cael yr un dyfarniad yn union pe byddem yn ceisio ei hamrywio. Mae hyn yn wirioneddol bwysig. Pe byddem yn newid y gyfradd ac yn ei gostwng 2 y cant neu 3 y cant, beth fyddai'n digwydd? Byddai'r rhanbarthau yn Lloegr yn gweiddi ac yn sgrechian y dylent hwythau fod yn gallu gwneud yr un peth, a byddai hynny yn arwain at ras i gyrraedd 0 y cant. Yr unig beth yw, mae arnom angen y dreth a godir er mwyn rhedeg Cymru. Mae ei hangen

arnom i ddarparu ysbytai, addysg, ysgolion, prifysgolion a'r holl bethau eraill yr ydym yn eu hariannu.

If we really do wish to aid local industry, there are lots of other things that we can do. We can do things on rates and there are things that we can do to support through capital investment. We can provide support in the form of training. There is a whole range of things within the power of the Welsh Government that has a tremendous advantage over something that is a very blunt instrument, which will not necessarily only benefit Wales and may end up benefitting people outside Wales.

Os ydym o ddifrif am gynorthwyo diwydiant lleol, mae llawer o bethau eraill y gallwn eu gwneud. Gallwn wneud pethau gyda chyfraddau ac mae pethau y gallwn ei wneud i gefnogi drwy fuddsoddi cyfalaf. Gallwn ddarparu cefnogaeth ar ffurf hyfforddiant. Mae ystod eang o bethau o fewn grym Llywodraeth Cymru sydd â mantais aruthrol dros rywbeth sydd yn offeryn gwan iawn, na fydd o reidrwydd yn fudd i Gymru yn unig ac a allai fod o fudd i bobl y tu allan i Gymru yn y pen draw.

What I am really trying to say, at the end of this speech, is that we ought to have prudential borrowing powers. Give us the same powers as local authorities. That is not a lot to ask. Some people may accuse me of timidity in only asking for that, but it would be a substantial step forward from where we are now. The devolution of the minor taxes that I named earlier should come to Wales because they tax things that are within our control. However, I would be nervous about the devolution of income tax, which can vary considerably, and corporation tax, as shown by the dangers in the Azores. I hope that the Assembly will agree on trying to get prudential borrowing powers. In those immortal words, ‘It just makes sense’.

Yr hyn rwyf yn ceisio'i ddweud mewn gwirionedd, ar ddiwedd yr araith hon, yw y dylem gael pwerau benthyca darbodus. Rhowch inni’r un pwerau â'r awdurdodau lleol. Nid yw'n gofyn llawer. Efallai y bydd rhai pobl yn fy nghyhuddo o fod yn ddihyder yn gofyn am ddim ond hynny, ond byddai'n gam sylweddol ymlaen o le rydym yn awr. Dylai'r mân drethi a enwyd gennyf yn gynharach gael eu datganoli i Gymru oherwydd eu bod yn trethu pethau sydd o fewn ein rheolaeth. Fodd bynnag, byddwn yn bryderus am ddatganoli treth incwm, sy'n gallu amrywio'n sylweddol, a threth gorfforaeth, fel y dangosir gan y peryglon yn yr Azores. Rwyf yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn cytuno ar geisio cael pwerau benthyca darbodus. Yn y geiriau anfarwol hynny, ‘Mae'n gwneud synnwyr’.

**Mark Drakeford:** In a short debate a few weeks ago, Mike said that a land-value tax met the key criteria he outlined for a sensible taxation system for Wales. Since then, the proposal for land-value tax has been endorsed by newspapers as wide ranging as the *Daily Mail* on the one hand and the *Morning Star* on the other, and by commentators ranging from Samuel Brittan on one side of the spectrum to Will Hutton on the other. As well as clearly being a tribute to the persuasive power of the short debate, it suggests that there is a movement towards what Will Hutton calls a reform of,

**Mark Drakeford:** Mewn dadl fer ychydig wythnosau yn ôl, dywedodd Mike fod treth gwerth tir wedi bodloni'r meini prawf allweddol a amlinellodd ar gyfer system trethu synhwyrol ar gyfer Cymru. Ers hynny, mae'r cynnig i gael treth gwerth tir wedi cael ei gymeradwyo gan bapurau newydd mor amrywiol â'r *Daily Mail* ar y naill law a'r *Morning Star* ar y llall, a chan sylwebyddion yn amrywio o Samuel Brittan ar naill law i'r sbectrwm a Will Hutton ar y llall. Yn ogystal â bod yn deyrnged amlwg i rym perswadiol y ddadl fer, mae'n awgrymu bod symudiad ar y gweill at yr hyn y mae Will Hutton yn ei alw yn ddiwygio,

‘one of the most irrational and unfit-for-purpose tax systems in the world.’

un o'r systemau treth mwyaf afresymol ac anaddas at y diben yn y byd.

That is how he describes the cumulative impact of successive post-war Chancellors of the Exchequer tinkering at the margins of the British tax system. In answer to your question about how Wales should be funded, the answer is not to argue for new taxes—that is not the sensible way to think about this—but to argue in favour of a sane, sensible, and progressive tax system. That is what greater chances for the Assembly to be in charge of these things would necessarily bring about.

Dyna sut y mae'n disgrifio effaith gronnus tincro Cangellorion olynol y Trysorlys ar ôl y rhyfel ar ymylon system dreth Prydain. I ateb eich cwestiwn am sut y dylid ariannu Cymru, nid dadlau dros drethi newydd yw'r ateb—nid dyma'r ffordd synhwyrol o feddwl am hyn—ond dadlau o blaid system dreth gall, synhwyrol a blaengar. Pe byddai'r Cynulliad yn cael mwy o siawns i reoli'r pethau hyn, byddai yn anochel yn arwain at hynny.

**Peter Black:** I thank Mike Hedges for bringing this issue to the Chamber. It is an extension of the interesting discussion we had in the Finance Committee this morning. I agree that prudential borrowing needs to be available to the Assembly. I also think that tax-varying powers should be devolved. I take on board Mark Drakeford’s point about new taxes; he is right about that. The Assembly should have the power to vary taxes because we need to take responsibility for our own expenditure. We have a huge amount of money that we are responsible for spending, but we have no responsibility for raising that money. As a result, accountability is difficult to follow in Wales. Therefore, I say ‘yes’ to prudential borrowing and tax-varying powers. The sooner the Silk commission reports on this the better, because we will then be able to move forward on that.

**Peter Black:** Diolch i Mike Hedges am ddod â'r mater hwn gerbron y Siambr. Mae'n ymhelaethu ar y drafodaeth ddiddorol a gawsom yn y Pwyllgor Cyllid y bore yma. Rwyf yn cytuno bod angen i'r Cynulliad allu benthyca'n ddarbodus. Rwyf hefyd yn credu y dylai pwerau i amrywio trethi gael eu datganoli. Rwyf yn derbyn pwynt Mark Drakeford am drethi newydd; mae'n llygad ei le ynghylch hynny. Dylai'r Cynulliad gael y pŵer i amrywio trethi oherwydd mae angen inni fod yn gyfrifol am ein gwariant ein hunain. Mae gennym lawer iawn o arian yr ydym yn gyfrifol am ei wario, ond nid oes gennym ddim cyfrifoldeb dros godi'r arian hwnnw. O ganlyniad, mae'n anodd dilyn atebolrwydd yng Nghymru. Felly, rwyf yn dweud ‘ie’ i fenthyca darbodus ac i bwerau i amrywio trethi. Gorau po gyntaf i gomisiwn Silk adrodd ar hyn, oherwydd byddwn wedyn yn gallu symud ymlaen ar hynny.

**Simon Thomas:** I thank Mike Hedges for the opportunity to make a quick contribution. Mike, at the time of the Cheltenham Festival, it was good to see that old nag ‘Prudence’ being given a trot around the paddock once again. I agree with your point that this institution in Wales should be able to borrow. What you said about local authorities is a powerful argument for that.

**Simon Thomas:** Diolch i Mike Hedges am y cyfle i gyfrannu'n gyflym. Mike, adeg Gŵyl Cheltenham, roedd yn dda gweld yr hen geffyl yna ‘Prudence’ yn trotian o amgylch y padog unwaith eto. Rwyf yn cytuno â'ch pwynt y dylai'r sefydliad hwn yng Nghymru allu benthyca. Roedd eich sylwadau am awdurdodau lleol yn ddadl bwerus dros hynny.

Two points need to be made at this stage. The first point is that the current taxation system and the way in which we pay for our services in Wales are not clear to the public anyway. The lack of direct lines of responsibility connecting taxation, the money we raise, and the decisions taken by Ministers on behalf of the people of Wales needs to be changed. I am glad that the Silk commission is looking at that. The second point is how important it

Mae angen gwneud dau bwynt yn y cam hwn. Y pwynt cyntaf yw nad yw'r system drethi bresennol a'r ffordd yr ydym yn talu am ein gwasanaethau yng Nghymru yn glir i'r cyhoedd beth bynnag. Mae angen newid y diffyg llinellau cyfrifoldeb uniongyrchol sy'n cysylltu trethiant, yr arian rydym yn ei godi, a'r penderfyniadau a wneir gan Weinidogion ar ran pobl Cymru. Rwyf yn falch bod comisiwn Silk yn edrych ar hynny. Yr ail

is to recognise that the devolution of taxation is a natural part of the devolution process that we have seen for the last decade in Wales. We must ensure that the next step of devolution, including taxation and fiscal powers, matches economic performance and the performance of the Welsh Government with the taxes it raises in Wales. That will improve democracy and enable us to do a better job with the democratic tools that we have been given.

bwynt yw pa mor bwysig yw cydnabod bod datganoli trethiant yn rhan naturiol o'r broses ddatganoli yr ydym wedi'i gweld dros y degawd diwethaf yng Nghymru. Rhaid inni sicrhau bod cam nesaf y broses ddatganoli, gan gynnwys pwerau trethu a phwerau cyllidol, yn cyd-fynd â pherfformiad economaidd a pherfformiad Llywodraeth Cymru gyda'r trethi y mae'n eu codi yng Nghymru. Bydd hynny'n gwella democratiaeth ac yn ein galluogi i wneud gwaith gwell gyda'r adnoddau democrataidd a roddwyd inni.

6.15 p.m.

6.15 p.m.

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I thank Mike Hedges for tabling this debate. I am grateful for the opportunity to discuss the principles that should underpin the funding of devolved Government in Wales. It is a devolved Government that is growing in confidence as well as powers, and this debate is well timed as a poll today shows that there is growing support for borrowing and tax-varying powers. One of the strengths of the debate about the funding base of the Assembly has been the wide support of all parties for the Welsh Government’s call for a comprehensive set of changes to our financial powers. This was reflected harmoniously in the debate led this afternoon by Ieuan Wyn Jones. We have wide consent across the parties for change and polls that back this. It is important that we continue to work together on this issue. In my talks with the UK Government, the cross-party backing of the Assembly for the strengthening of the devolution settlement in terms of our fiscal powers is key.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Diolch i Mike Hedges am gyflwyno'r ddadl hon. Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i drafod yr egwyddorion a ddylai fod yn sail i gyllido Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru. Mae'n Llywodraeth ddatganoledig sydd yn datblygu o ran hyder yn ogystal â phwerau, ac mae'r ddadl hon yn amserol gan fod arolwg heddiw yn dangos bod cefnogaeth gynyddol i fenthyca a phwerau i amrywio trethi. Un o gryfderau'r ddadl am sylfaen ariannu'r Cynulliad yw cefnogaeth eang pob plaid i alwad Llywodraeth Cymru am gyfres gynhwysfawr o newidiadau i'n pwerau ariannol. Adlewyrchwyd y cytundeb hwn yn y ddadl dan arweiniad Ieuan Wyn Jones y prynhawn yma. Mae gennym gytundeb eang ynghylch newid ar draws y pleidiau ac arolygon sy'n cefnogi hyn. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i weithio gyda'n gilydd ar y mater hwn. Yn fy nhrafodaethau gyda Llywodraeth y DU, mae'n allweddol cael cefnogaeth drawsbleidiol y Cynulliad i gryfhau'r setliad datganoli o ran ein pwerau ariannol.

To look at the criteria that should determine how Wales is financed, the Member for Swansea West usefully opened this debate by looking at the tools that I need as the Minister for finance in leading the finances of the Welsh Government on behalf of the economy of the people and communities of Wales. I want to respond by considering our funding base as a starting point. Members will be aware that the Holtham commission proposed a wide-ranging set of financial reforms that included a significant element of further tax

I edrych ar y meini prawf a ddylai bennu sut y dylid ariannu Cymru, agorodd yr Aelod dros Orllewin Abertawe y ddadl hon drwy edrych ar yr adnoddau y mae eu hangen arnaf fel y Gweinidog Cyllid i lywio materion ariannol Llywodraeth Cymru ar ran economi, pobl a chymunedau Cymru. Rwyf am ymateb drwy ystyried ein sylfaen ariannu fel man cychwyn. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod comisiwn Holtham wedi cynnig cyfres eang o ddiwygiadau ariannol a oedd yn cynnwys elfen sylweddol o ddatganoli treth

devolution. However, we must remember that, as the Holtham commission report showed, even if those reforms were implemented in their entirety, around 80% of our total funding would continue to come via a block grant. Therefore, before we consider the details of tax devolution, we need to ensure that the block grant is on a stable footing over the longer term.

ymhellach. Fodd bynnag, rhaid inni gofio, fel y dangosodd adroddiad comisiwn Holtham, hyd yn oed pe byddai'r diwygiadau hynny yn cael eu gweithredu yn eu cyfanrwydd, byddai tua 80 y cant o gyfanswm ein cyllid yn dal i ddod drwy grant bloc. Felly, cyn inni ystyried manylion datganoli treth, mae angen inni sicrhau bod y grant bloc ar seiliau cadarn dros y tymor hwy.

There is agreement in Wales across party lines that the block grant component of our funding should be allocated in a manner that takes account of need. This is not simply an issue on which there is a consensus in Wales. At the UK level, need has played an important role in funding public services under Governments of all complexions throughout the post-war period. When we look at funding systems around the world, we frequently observe that need plays a role in the way that sub-national Governments are resourced.

Mae cytundeb yng Nghymru ar draws polisïau pleidiau y dylai elfen grant bloc ein cyllid gael ei dyrannu mewn modd sy'n ystyried angen. Nid dim ond yng Nghymru y ceir consensws ar y mater hwn. Ar lefel y DU, mae angen wedi chwarae rhan bwysig wrth ariannu gwasanaethau cyhoeddus o dan Lywodraethau o bob argyhoeddiad drwy gydol y cyfnod ar ôl y rhyfel. Pan fyddwn yn edrych ar systemau cyllido ar draws y byd, rydym yn aml yn gweld bod angen yn chwarae rhan yn y ffordd y caiff Llywodraethau is-genedlaethol adnoddau.

Therefore, the principle that need ought to be central to the financing of devolved Government in Wales should be uncontroversial. Unfortunately, we are all too aware that the current funding regime is extremely poor at aligning relative funding and relative needs. The Barnett formula takes some limited account of population in the way in which block grant adjustments are made, but, overall, the block grant is simply the outcome of a more or less random accretion of UK Government policy decisions and political deals stretching back over 30 years. It is, frankly, ridiculous that this formula remains in place in its unadjusted form, lacking as it does any coherent rationale.

Felly, ni ddylai'r egwyddor bod yn rhaid i angen fod yn ganolog i ariannu Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru fod yn bwnc llosg. Yn anffodus, rydym yn ymwybodol iawn bod y drefn ariannu bresennol yn eithriadol o wael o ran cysoni cyllid cymharol ac anghenion cymharol. Mae fformiwla Barnett yn ystyried rhywfaint ar y boblogaeth o ran y ffordd y mae addasiadau bloc grant yn cael eu gwneud. Ond, yn gyffredinol, y grant bloc, yn syml iawn, yw canlyniad ail-gronni ar hap, fwy neu lai, benderfyniadau polisi a bargeinion gwleidyddol Llywodraeth y DU sy'n mynd yn ôl dros 30 mlynedd. A dweud y gwir, mae'n hurt bod y fformiwla hon yn dal mewn grym yn y ffurf bresennol heb ei haddasu, gan nad oes dim rhesymeg gyson yn perthyn iddi fel y mae.

It is because of this central flaw in Barnett that we are currently talking to the Treasury about changes to our block grant, with a funding floor being our immediate priority. I welcome the opportunity as a result of this debate to make that point again. I acknowledge that the funding floor is only a step along the route to long-term reform, but, as the First Minister said this afternoon, it is a crucial step. It would ensure that, for the first time, future changes to the block grant take

Y gwendid canolog hwn yn fformiwla Barnett yw'r rheswm pam ein bod siarad â'r Trysorlys ar hyn o bryd am newidiadau i'n grant bloc, gyda therfyn cyllid isaf yn flaenoriaeth inni ar hyn o bryd. Rwyf yn croesawu'r cyfle o ganlyniad i'r ddadl hon i wneud y pwynt hwnnw eto. Rwyf yn cydnabod mai dim ond cam ar hyd y llwybr i ddiwygiad hirdymor yw'r terfyn cyllid isaf, ond, fel y dywedodd y Prif Weinidog y prynhawn yma, mae'n gam hanfodol.

Welsh needs into account. A funding floor would also provide us with budgetary stability, preventing the convergence that would otherwise occur, and start to tackle the problem of underfunding that has been identified so clearly by the Holtham commission and others. That would be a major improvement on the status quo. In the longer term, we believe that Barnett should be replaced by a needs-based formula.

Byddai'n sicrhau, am y tro cyntaf, fod newidiadau i'r grant bloc yn y dyfodol yn ystyried anghenion Cymru. Byddai terfyn cyllid isaf yn rhoi sefydlogrwydd cyllidebol inni hefyd, gan atal y cydgyfeirio a fyddai'n digwydd fel arall, ac yn dechrau mynd i'r afael â'r broblem o danariannu a nodwyd mor glir gan gomisiwn Holtham ac eraill. Byddai hynny'n welliant mawr ar y sefyllfa bresennol. Yn y tymor hwy, rydym yn credu y dylid disodli Barnett gan fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion.

The principle that relative funding and relative needs should be aligned is, therefore, central to our thinking on financial reform. Progress on this fundamental matter would provide a robust platform for wider changes, including tax devolution. However tax devolution is implemented, it will inevitably introduce additional volatility into the Welsh budget. Although that does not necessarily mean that we should not consider tax devolution for Wales, it means that we will need to accompany it, in terms of consideration, with additional powers to manage our resources flexibly. It is essential, as Mike Hedges has made that clear today, supported by Simon Thomas, Peter Black and Mark Drakeford, that we have that flexibility in the use of resources under our control so that we can align these resources as closely as possible with Welsh priorities. The current system is sadly lacking in that regard.

Mae'r egwyddor y dylid cysoni cyllid cymharol ac anghenion cymharol yn ganolog felly i'n ffordd o feddwl ar ddiwygio ariannol. Byddai cynnydd ar y mater sylfaenol hwn yn rhoi llwyfan cadarn ar gyfer newidiadau ehangach, gan gynnwys datganoli treth. Pa bynnag ffordd y datganolir treth, bydd yn arwain yn anochel at ansefydlogrwydd ychwanegol yng nghyllideb Cymru. Er nad yw hynny o reidrwydd yn golygu na ddylem ystyried datganoli treth yng Nghymru, mae'n golygu y bydd angen inni gael hefyd, o ran ystyried, bwerau ychwanegol i reoli ein hadnoddau yn hyblyg. Mae'n hanfodol, fel y mae Mike Hedges wedi'i ddweud yn glir heddiw, gyda chefnogaeth Simon Thomas, Peter Black a Mark Drakeford, fod gennym yr hyblygrwydd hwnnw i ddefnyddio'r adnoddau sydd o dan ein rheolaeth er mwyn inni allu cysoni’r adnoddau hyn mor agos ag sy’n bosibl gyda blaenoriaethau Cymru. Yn anffodus, mae'r system bresennol yn ddiffygiol yn hynny o beth.

Crucially, we lack the ability to borrow in order to finance infrastructure projects. The principle is clear: if devolution of a mechanism such as borrowing powers would benefit Wales by enhancing budgetary flexibility, and if it could be devolved in a way that strengthens the effectiveness of devolution, then it should be devolved. I support maximum budgetary flexibility for Welsh Ministers, consistent with a strong, well-functioning and developing devolution settlement. It is about devolving powers that will provide us with the levers we need to deliver our priorities for the benefit of the economy and our communities.

Uwchlaw pob dim, nid oes gennym y gallu i fenthyca er mwyn ariannu prosiectau seilwaith. Mae'r egwyddor yn glir: pe byddai datganoli mecanwaith fel pwerau benthyca yn fuddiol i Gymru drwy wella hyblygrwydd cyllidebol, a phe ellid ei ddatganoli mewn ffordd sy'n cryfhau effeithiolrwydd y broses ddatganoli, yna dylid ei ddatganoli. Rwyf yn cefnogi rhoi cymaint o hyblygrwydd cyllidebol ag sy'n bosibl i Weinidogion Cymru, i gyd-fynd â setliad datganoli cryf, sy'n datblygu ac yn gweithio'n dda. Mae'n fater o ddatganoli pwerau a fydd yn rhoi inni'r dulliau y mae eu hangen arnom i gyflawni ein blaenoriaethau er budd yr economi a'n cymunedau.

We have to accept that we would need to operate those borrowing powers within a prudent framework that is consistent with the UK Government’s legitimate interest in macro-economic stability. However, at a time when our capital budget is being cut by over 40% in real terms, borrowing powers are especially needed. I do not have to repeat, as Mike Hedges has already explained, that such powers are already available in Northern Ireland and are being transferred to Scotland. Local authorities, and even community councils, have long had the ability to borrow, so it is entirely reasonable that the Welsh Government should have similar powers. You may have seen the ICM poll for the Silk commission released today, which revealed that 66% of people were in favour of borrowing powers to spend on capital projects. So, the message has got through, and the informed response is that we need those powers. Of course, in terms of other options such as bank finance, bond issues and the European Investment Bank, as Mike Hedges has indicated, bond issues should not be ruled out as options for the longer term provided that there is a solid financial case. Of course, borrowed funds have to be repaid; it is not free money, but there has never been a better time to borrow, with low rates for the high level of funding available for quality organisations and significant developments.

Mae'n rhaid inni dderbyn y byddai angen inni weithredu'r pwerau benthyca hynny o fewn fframwaith darbodus sy'n gyson â diddordeb cyfreithlon Llywodraeth y DU mewn sefydlogrwydd macro-economaidd. Fodd bynnag, ar adeg pan mae ein cyllideb gyfalaf yn cael ei thorri 40 y cant a mwy mewn termau real, mae gwir angen pwerau benthyca. Nid oes rhaid imi ailadrodd, gan fod Mike Hedges eisoes wedi egluro, fod pwerau o'r fath eisoes ar gael yng Ngogledd Iwerddon ac yn cael eu trosglwyddo i'r Alban. Mae awdurdodau lleol, a hyd yn oed cynghorau cymuned, wedi bod â'r gallu i fenthyca ers cryn amser, felly mae'n gwbl resymol y dylai Llywodraeth Cymru gael pwerau tebyg. Efallai eich bod wedi gweld arolwg ICM ar gyfer comisiwn Silk a gyhoeddwyd heddiw, a oedd yn datgelu bod 66 y cant o bobl o blaid pwerau benthyca i'w wario ar brosiectau cyfalaf. Felly, mae'r neges wedi cyrraedd, a'r ymateb gwybodus yw bod angen y pwerau hynny arnom. Wrth gwrs, o ran opsiynau eraill fel arian banc, materion bond a Banc Buddsoddi Ewrop, fel y Mike Hedges wedi'i nodi, ni ddylid diystyru materion bond fel opsiynau ar gyfer y tymor hwy ar yr amod bod gennym achos ariannol cadarn. Wrth gwrs, mae'n rhaid ad-dalu arian a fenthycir; nid arian am ddim mohono, ond ni fu erioed gystal amser i fenthyca, gyda chyfraddau isel ar gyfer y lefel uchel o gyllid sydd ar gael ar gyfer sefydliadau o ansawdd a datblygiadau sylweddol.

On the issue of tax devolution, the arguments are more complicated, and our response needs to be carefully considered. We already have powers over council tax and business rates, and have had since 1999, so tax devolution is not an entirely new phenomenon. There is natural progression, as Simon Thomas said, and it is undeniably the case that the relative lack of powers for Welsh Ministers to raise resources directly from Welsh citizens makes our funding system unusual in the international context. It is important that we recognise the issues of accountability and transparency mentioned this afternoon, but I would contend that we are already accountable to our constituents for the decisions we take every day. Our budget-making process is transparent, and we are seeking to make it more transparent,

O ran datganoli treth, mae'r dadleuon yn fwy cymhleth, ac mae angen ystyried ein hymateb yn ofalus. Mae gennym bwerau dros y dreth gyngor ac ardrethi busnes yn barod, a hynny er 1999, felly nid yw datganoli treth yn ffenomen hollol newydd. Ceir dilyniant naturiol, fel y dywedodd Simon Thomas, ac yn ddi-os mae'r ffaith nad oes gan Weinidogion Cymru y pwerau cymharol i godi adnoddau yn uniongyrchol gan ddinasyddion Cymru yn gwneud ein system gyllido yn un anarferol yng nghyd-destun rhyngwladol. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod atebolrwydd a thryloywder a grybwyllwyd y prynhawn yma, ond byddwn yn dadlau ein bod eisoes yn atebol i'n hetholwyr am y penderfyniadau a wnawn bob dydd. Mae ein proses gwneud cyllideb yn dryloyw, ac rydym yn ceisio ei gwneud yn

working closely with the Finance Committee. As Minister for finance, I am subject to scrutiny, and we all face the ultimate test of accountability at the ballot box. However, I recognise that further tax devolution might well have a role to play in a new financial system. The Silk commission is considering whether new powers over tax should be devolved to Wales, and we look forward to seeing its recommendations later this year.

fwy tryloyw, gan weithio'n agos gyda'r Pwyllgor Cyllid. Fel y Gweinidog dros Gyllid, creffir ar fy ngwaith, ac mae pob un ohonom yn wynebu'r prawf atebolrwydd yn y blychau pleidleisio yn y pen draw. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod y gallai datganoli treth ymhellach fod â rôl i'w chwarae mewn system ariannol newydd. Mae comisiwn Silk yn ystyried a ddylai pwerau newydd dros dreth gael eu datganoli i Gymru, ac rydym yn edrych ymlaen at weld ei argymhellion yn ddiweddarach eleni.

In terms of the Welsh Government's view on matters of taxation, it is about going with the grain of the existing devolution settlement. Where taxes relate to areas of existing devolved responsibility, and where they help us achieve our goals, the case for devolution is at its strongest. We have already mentioned air passenger duty, stamp duty, landfill tax and the aggregates levy, which all fall within this category. Of course, in terms of looking at the interaction of these tax revenues with the block grant, that would be crucial to ensure that this represented a fair deal for Wales.

O ran barn Llywodraeth Cymru am faterion treth, mae'n fater o gytuno gyda setliad presennol y broses ddatganoli. Lle mae trethi yn ymwneud â meysydd cyfrifoldeb sydd eisoes wedi'u datganoli, a lle maent yn ein helpu i gyflawni ein nodau, mae'r achos dros ddatganoli ar ei chryfaf. Rydym eisoes wedi crybwyll treth teithwyr awyr, treth stamp, treth tirlenwi a'r ardoll agregau, sydd i gyd yn perthyn i'r categori hwn. Wrth gwrs, o ran edrych ar y rhyngweithio rhwng refeniw'r trethi hyn a'r grant bloc, byddai hynny'n hanfodol i sicrhau bod hyn yn golygu bargen deg i Gymru.

This afternoon's debate has been useful in discussing issues such as corporation tax, where we may have to proceed with caution. Corporation tax could serve as a useful lever to promote economic development, but there is an unavoidable risk of countries and regions engaging in a race to the bottom when setting corporation tax rates. We are not ruling this out completely, and if it is offered to other devolved administrations, it should be offered to Wales. We are concerned about what is good for Wales, while considering the impact on the rest of the UK.

Mae dadl y prynhawn yma wedi bod yn ddefnyddiol i drafod materion fel treth gorfforaeth, lle y bydd yn rhaid inni symud ymlaen yn ofalus, efallai. Gallai treth gorfforaeth fod yn ddull defnyddiol i hyrwyddo datblygu economaidd, ond mae perygl na ellir ei osgoi y bydd gwledydd a rhanbarthau yn cymryd rhan mewn ras i'r gwaelod wrth bennu cyfraddau treth gorfforaeth. Nid ydym yn diystyru hyn yn llwyr, ac os yw hyn yn cael ei gynnig i weinyddiaethau datganoledig eraill, dylid ei gynnig i Gymru. Yr hyn sy'n bwysig inni yw beth sy'n dda i Gymru, gan ystyried yr effaith ar weddill y DU hefyd.

Finally, tax policy does not stand still; it evolves over time as new challenges and opportunities arise. It is interesting that we are debating this again, following the important debate this afternoon, and, as Mark Drakeford said, a few weeks ago we debated the case for a land-value tax in this Chamber. It was interesting to hear the response not only to that debate that Mark tabled, but to some of the calls, for example, for a mansion tax, to which the Land Value Taxation

Yn olaf, nid yw polisi treth yn aros yn ei unfan; mae'n esblygu dros amser wrth i heriau a chyfleoedd newydd godi. Mae'n ddiddorol ein bod yn trafod hyn eto, yn dilyn y ddadl bwysig y prynhawn yma, ac, fel y dywedodd Mark Drakeford, ychydig wythnosau yn ôl buom yn trafod yr achos dros y dreth gwerth tir yn y Siambr hon. Diddorol oedd clywed yr ymateb nid yn unig i'r ddadl honno a gyflwynwyd gan Mark, ond i rai o'r galwadau, er enghraifft, am dreth

Campaign responded immediately by raising the issue of the value of the land, not the building and its value. We have the maturity and confidence now to think about a progressive taxation system and what that can mean for Wales.

plastai. Yn sgîl y galwadau hynny, ymatebodd yr Ymgyrch Trethiant ar Werth Tir ar unwaith drwy godi'r mater ynghylch gwerth y tir, nid yr adeilad a'i werth. Rydym yn ddigon aeddfed a hyderus yn awr i feddwl am system drethu flaengar a beth y gall hynny ei olygu i Gymru.

I am happy to reaffirm the principle of needs-based funding for Wales, which I believe enjoys wide support across all parties in this Chamber. We must agree a funding formula Wales that will provide us with a fairer block grant. We must have those budgetary flexibilities that will enable us to deliver on our programme, and we are in favour of devolution of borrowing powers for capital investment and, subject to agreement on the details, a package of further tax powers in areas of existing devolved responsibility. Looking more widely, the decision on any changes that would represent a fundamental constitutional shift, such as devolution of powers to vary income tax, should, as a matter of principle, rest with the people of Wales.

Rwyf yn hapus i ailddatgan yr egwyddor o gyllid ar sail anghenion ar gyfer Cymru, sydd, rwyf yn credu, yn cael ei chefnogi’n eang gan bob plaid yn y Siambr hon. Mae'n rhaid inni gytuno ar fformiwla ariannu Cymru a fydd yn rhoi grant bloc tecach inni. Mae'n rhaid inni gael yr hyblygrwydd cyllidebol hynny a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein rhaglen, ac rydym o blaid datganoli pwerau benthyca ar gyfer buddsoddi cyfalaf ac, yn amodol ar gytundeb ynghylch y manylion, becyn o ragor o bwerau trethu ym meysydd cyfrifoldeb sydd eisoes wedi'u datganoli. Gan edrych yn fwy eang, pobl Cymru, o ran egwyddor, ddylai benderfynu ar unrhyw newidiadau a fyddai'n golygu newid cyfansoddiadol sylfaenol, fel datganoli pwerau i amrywio treth incwm.

The debate today has helped us to consider the criteria we should use to progress fiscal devolution meaningfully in Wales. I hope that the principles that we have just debated represent a broad agreement on how we can move this forward together.

Mae'r ddadl heddiw wedi ein helpu i ystyried y meini prawf y dylem eu defnyddio i symud datganoli ariannol yn ei flaen mewn modd arwyddocaol yng Nghymru. Gobeithio y bydd yr egwyddorion yr ydym newydd eu trafod yn cyfleu cytundeb eang ynghylch sut y gallwn symud hyn ymlaen gyda'n gilydd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today’s meeting to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.28 p.m.*
*The meeting ended at 6.28 p.m.*

**Aelodau a’u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)